# Dogfen ir Cyhoedd

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO** | **PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE** |
| **DYDD MAWRTH, 9 TACHWEDD, 2021am 2.00 o'r gloch yp** | **Tuesday, 9 November 2021at 2.00 p.m.** |
| **CYFARFOD RHITHIOL (AR HYN O BRYD NID OES MODD I'R CYHOEDD FYNYCHU'R CYFARFOD)** | **VIRTUAL MEETING (AT PRESENT MEMBER OF THE PUBLIC ARE UNABLE TO ATTEND)** |
| **Swyddog Pwyllgor**   **Mrs. Mairwen Hughes 01248 752516** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Y Grwp Annibynnol / The Independent Group**

Gwilym O. Jones **(Cadeirydd/Chair),** Dafydd Roberts

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

T Ll Hughes MBE, Vaughan Hughes, Alun Roberts, Margaret M. Roberts, Nicola Roberts

**Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents**

Kenneth P Hughes, R.Ll.Jones

**Plaid Lafur Cymru/Wales Labour Party**

Glyn Haynes **(Is-Gadeirydd/Vice-Chair)**

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters)**

**Ms. Anest Gray Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Mr. Dyfed Wyn Jones (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector) Mrs Llio Johnson-(Rhiant Llywodraethwyr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor – Secondary Schools Sector and ALN) a Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol and Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)**

**Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)**
Mr. Dafydd Gruffydd ( Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Menter Môn)

**R H A G L E N**

1 **YMDDIHEURIADAU**

2 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

3 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 20 Medi, 2021.

4 **Y GYMRAEG** (Tudalennau 7 - 112)

- **Strategaeth Iaith: 2021/26 – adolygiad**

  Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd mewn perthynas a'r uchod.

- **Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg**

  Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc mewn perthynas a'r uchod.

5 **CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD - ADRODDIAD ADOLYGU** (Tudalennau 113 - 176)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd mewn perthynas a'r uchod.

6 **RHAGLEN WAITH** (Tudalennau 177 - 184)

Cyflwyno Rhaglen Waith y Pwyllgor.

7 **EITEMAU ER GWYBODAETH** (Tudalennau 185 - 218)

- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – Trefniadau Llywodraethu
- Adroddiad Cynnydd Ch2: 2021/22 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod rhithiol a gynhaliwyd ar yr 20fed o Fedi 2021

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Cynghorydd Gwilym O Jones (Cadeirydd)<br><br>Cynghorwyr T Ll Hughes MBE, K P Hughes, R Ll Jones, Alun Roberts, Dafydd Roberts a Margaret M Roberts. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc,<br>Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorwyr Glyn Haynes, Vaughan Hughes a Nicola Roberts.<br>Mrs Anest Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Arweinydd y Cyngor – Cynghorydd Llinos M Huws (mewn perthynas ag Eitem 4);<br>Cynghorydd Carwyn Jones – Deilydd Portffolio ar gyfer Prosiectau Mawr a Datblygiad Economaidd (mewn perthynas ag Eitem 4);<br>Cynghorydd R Meirion Jones – Deilydd Portffolio ar gyfer Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant a Phobl Ifanc (mewn perthynas ag Eitem 5). |

---

Dywedodd y Cadeirydd fod Mrs Sioned Rowe, y Swyddog Sgriwtini wedi rhoi genedigaeth i efeilliaid, dwy ferch fach. Fe wnaeth aelodau'r Pwyllgor longyfarch a dymuno'r gorau i Mrs Rowe a'r teulu.

Yn absenoldeb yr Is-Gadeirydd, etholwyd Cynghorydd K P Hughes yn Is-Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn yn unig.

**1 YMDDIHEURIADAU**

Fel y nodwyd uchod.

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

**3 COFNODION**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfodydd canlynol yn gywir:-

- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 15fed o Fehefin, 2021;
- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 28ain o Fehefin, 2021.

## 4 ADRODDIAD CYNNYDD BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU - CHWARTER 1 : 2021/2022

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Prif Weithredwr mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod adroddiad perfformiad Chwarter 1 yn rhoi trosolwg o gynnydd ar raglenni a phrosiectau'r Cynllun Twf. Fodd bynnag, nododd, er nad yw'n amlwg yn yr adroddiad, bod cryn dipyn o waith wedi'i wneud yn y cefndir o ran gweithdrefnau a threfniadau llywodraethu i sicrhau llwyddiant y Cynllun Twf. Yn ystod y chwarter hwn, ystyriwyd a chymeradwywyd yr Achos Busnes Amlinellol cyntaf gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ac ers hynny mae'r broses sicrwydd ar gyfer y prosiect wedi'i chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Bydd y Prosiect Ynni Llanw Morlais, sy'n cael ei redeg gan Menter Môn, yn symud i'r cam nesaf ac yn cyflwyno Achos Busnes Llawn er ystyriaeth unwaith bydd y broses cydsynio wedi ei chwblhau.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod y prosesau sydd wedi eu rhoi ar waith gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn gadarn er mwyn sicrhau fod y prosiectau o fewn y Cynllun Twf yn cael eu craffu gan fod y ddwy Lywodraeth wedi rhoi adnoddau ariannol sylweddol. Roedd hi'n falch mai'r prosiect cyntaf i gael ei gymeradwyo oedd prosiect ar yr Ynys - Prosiect Ynni Llanw Morlais.

Ailadroddodd y Dirprwy Brif Weithredwr sylwadau'r Prif Weithredwr o ran y Prosiect Ynni Llanw Morlais. Dywedodd ymhellach fod y ddau Achos Busnes Amlinellol pellach - Hwb Economi Gwledig Glynllifon ai arweinir gan Grŵp Llandrillo Menai a'r Ganolfan Prosesu Signalau Digidol ai arweinir gan Brifysgol Bangor, wedi dechrau'r broses gymeradwyo. Mae'r ddau brosiect wedi cwblhau eu Hadolygiadau Gateway annibynnol ac y bydd y rhain yn cael eu hadrodd yn ffurfiol o fewn adroddiad cynnydd Chwarter 2 y Pwyllgor hwn. Mae'r rhan fwyaf o'r rhaglenni yn adrodd fel Amber ar hyn o bryd yn dilyn adolygu'r amserlenni datblygu achosion busnes gan arwain at oedi o gymharu â'r amserlen a'i hamlinellwyd yn yr Achos Busnes Portffolio. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod y prosesau'n cymryd mwy o amser na'r hyn a amcangyfrifwyd yn wreiddiol oherwydd cymhlethdod o ran caniatâd cynllunio, ystyriaeth ariannol, llywodraethu a'r broses gaffael. Dywedodd ymhellach fod Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi penodi partner cyfathrebu strategol newydd - Ateb Cymru - i gefnogi cyfathrebu a gweithgareddau marchnata tra bod Hatch Regeneris wedi eu penodi i ddarparu ymgynghoriaeth achos busnes cyffredinol i'r Swyddfa Rheoli Portffolio. Mae Wavehill hefyd wedi eu comisiynu i gefnogi'r datblygiad o achos economaidd ar gyfer y Prosiect Ynni Lleol Smart a Real Wireless i ddarparu astudiaeth gwmpasu i gefnogi'r proseict Coridor Cysylltu o fewn y Rhaglen Ddigidol. Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr ymhellach mai'r flaenoriaeth yw gweld cymaint o'r prosiectau yn y Cynllun Twf yn cael eu gweithredu a gwaith cyfalaf ar waith cyn gynted â phosibl.

Dywedodd y Deilydd Portffolio Datblygiad Economaidd a Phrosiectau Mawr bod angen cryn dipyn o waith i symud y Cynllun Twf yn ei flaen ac roedd yn falch bod Prosiect Ynni Llanw Morlais bellach wedi symud ymlaen i'r cam nesaf. Dywedodd ymhellach fod Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, busnesau preifat ynghyd â'r Bwrdd Uchelgais yn chwarae rhan wrth symud y prosiectau o fewn y Cynllun Twf yn eu blaen. Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a gwnaed y prif bwyntiau canlynol:-

- Cyfeirwyd at y ffaith bod y Bwrdd Uchelgais Economaidd wedi penodi pedwar ymgynghorydd i gefnogi gwaith y Bwrdd. Codwyd cwestiynau ynghylch a fydd y Bwrdd yn penodi ymgynghorwyr pellach maes o law. Ymatebodd y Dirprwy Brif Weithredwr bod angen penodi arbenigedd mewn gwahanol agweddau ar y prosiectau i sicrhau bod prosiectau yn ychwanegu gwerth ac yn cefnogi'r tîm rhanbarthol;
- Nodwyd fod yr amserlen ar gyfer datblygu rhai o'r Achosion Busnes wedi llithro hyd at chwe mis mewn rhai achosion. Nodwyd fod y Swyddfa Rheoli Portffolio wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod Achosion Busnes yn cwrdd â'r safon ofynnol. Codwyd cwestiynau ynghylch pam na roddwyd y broses hon ar waith ar ddechrau'r broses Cynllun Twf. Ymatebodd y Prif Weithredwr fod gwersi wedi'u dysgu yn ystod y prosiect cyntaf sydd wedi'i symud ymlaen i'r cam nesaf. Mae'r Adolygiadau Gateway wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl mewn perthynas â'r Achos Busnes Amlinellol ond mae'r amserlenni newydd ac yn fwy realistig i allu gwireddu'r prosiectau yn y Cynllun Twf. Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod y prosesau llywodraethu a osodwyd gan Lywodraethu'r DU a Chymru yn brosesau llym i gydymffurfio â'r cyllid mawr ai roddwyd tuag at y prosiectau o fewn y Cynllun Twf;
- Soniwyd y nodir yn yr adroddiad fod rhai prosiectau yn adrodd yn Goch ar hyn o bryd oherwydd naill ai risgiau i gwmpas y prosiect neu oedi sylweddol i amserlenni prosiectau.  Codwyd pryderon efallai na fydd cyllid tuag at y prosiectau yn y Cynllun Twf yn cael ei wireddu a chyfeiriwyd yn benodol at Borth Caergybi (Rhaglen Tir ac Eiddo) bod cwmpas y prosiect yn cael ei adolygu oherwydd pryderon ynghylch cost y prosiect a'r achos masnachol. Ymatebodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod Porth Caergybi yn brosiect pwysig o fewn y Cynllun Twf a bod y ddwy lywodraeth mewn ymgynghoriad â Stena o ran y gwaith ail-adeiladu sydd ei angen i'r Morglawdd yng Nghaergybi a'r cynnydd mewn capasiti o fewn Porth Caergybi i gynyddu twf economaidd y Porth. Nododd y gellir gwneud trefniadau i ddiweddaru'r aelodau etholedig ar gyfer ardal Caergybi mewn perthynas â'r prosiect hwn maes o law;
- Codwyd cwestiynau a oedd Llywodraeth y DU a Chymru yn cydweithredu o ran y Cynllun Twf gan fod costau fforddiadwyedd wedi cynyddu wrth i gostau adeiladu gynyddu'n sylweddol yn ddiweddar. Ymatebodd Arweinydd y Cyngor, oherwydd yr adnoddau ariannol sylweddol a roddir gan y ddwy Lywodraeth tuag at y Cynllun Twf, eu bod yn rhan o'r Cynllun a bod Swyddogion o'r ddwy Lywodraeth yn bresennol yn ystod cyfarfodydd â Swyddogion y Bwrdd Rhanbarthol;
- Cyfeiriwyd at y Ffibr Llawn mewn Safleoedd Allweddol a Champysau Cysylltiedig (Rhaglen Ddigidol) sydd yn nodi fod yr amserlen datblygu achos busnes wedi ei gwthio'n ôl i alluogi capasiti'r rhaglen i ffocysu ar ddau brosiect Swyddfa Rheoli Portffolio cychwynnol. Codwyd cwestiynau o ran a oes gan Dîm Rhanbarthol y capasiti i reoli'r holl brosiectau. Ymatebodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod y Cynllun Twf yn brosiect 10 mlynedd a bod y broses recriwtio o fewn y Timau Rhanbarthol yn cynyddu gyda Swyddogion profiadol wedi'u penodi i symud y prosiectau yn eu blaenau o fewn y Cynllun Twf.

**Penderfynwyd:-**

- **Nodi'r holl gynnydd a wnaed yn ystod Chwarter 1 - 2021/22;**

- **Y dylid anfon llythyr i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn mynegi pryderon o ran y gwytnwch ariannol i ganiatáu i'r prosiectau yn y Cynllun Twf gael eu gwireddu.**

**GWEITHRED : Fel y nodwyd uchod.**

## 5 PANEL ADOLYGU CYNNYDD YSGOLION – ADRODDIAD CYNNYDD

Cyflwynwyd – adroddiad cynnydd ar waith y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion.

Dywedodd y Cadeirydd y penderfynwyd cyflwyno rhaglen dros dro yn ystod y pandemig gyda'r ffocws cychwynnol ar graffu ar ymateb y Gwasanaeth Dysgu i'r pandemig Covid 19 a'r trefniadau a roddwyd ar waith yn ystod y cyfnod argyfwng. Mae'r gwaith o fonitro safonau ysgolion unigol wedi'i hen sefydlu, ac mae'n parhau i ddatblygu. Nododd fod diweddariad ar yr Iaith Gymraeg o fewn System Addysg Ynys Môn wedi ei roi gan yr Uwch Reolwr Cynradd i'r Panel. Cyfeiriwyd hefyd at Gynllun Strategol Cymru mewn Addysg sy'n gynllun 10 mlynedd gyda 7 canlyniad a amlinellwyd yn yr adroddiad. Cyfeiriodd y Cadeirydd ymhellach at yr Hunanwerthuso a wnaed o waith y Panel a nodwyd bod gwaith y Panel wedi cael effaith gadarnhaol iawn ac wedi dal ysgolion yn atebol, herio a chynorthwyo yn eu datblygiad a'u gwelliant parhaus. O ran y meysydd i'w datblygu ymhellach, teimlwyd nad oedd dilyniant digonol yn digwydd yn dilyn Aelodau'r Panel yn ymweld ag ysgolion unigol. Awgrymwyd y dylid trefnu ymweliad dilynol oddeutu chwe mis ar ôl yr ymweliad gwreiddiol i weld a oes unrhyw ddatblygiadau neu welliannau wedi'u rhoi ar waith.

Dywedodd y Cadeirydd ymhellach bod adroddiad ar lafar wedi ei gyflwyno i'r Panel ar Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 gan ffocysu ar oblygiadau'r ddeddf yn lleol. Amlinellwyd y prif newidiadau sef bod yr oedran bellach wedi ymestyn o 0-25 oed, a bod cyfnod o 7 wythnos i benderfynu a oes gan unigolyn Anghenion Dysgu Ychwanegol, sy'n llawer cynt na gofynion y ddeddf flaenorol. Cyfeiriwyd at y gwaith arloesol sef bod gan y Cyngor system Cynllun Datblygiad Personol, gyda phob ysgol ar yr ynys a mynediad at y system, sy'n golygu fod y data yn gyfredol ac yn fyw. Nodwyd mai Ynys Môn a Gwynedd yw'r unig siroedd yng Nghymru sydd â system o'r fath ac felly'n arwain y ffordd o ran hynny. Nododd y Cadeirydd fod llythyr wedi ei anfon at Lywodraeth Cymru yn mynegi pryderon fod diffyg Seicolegwyr Cymraeg o Ogledd Cymru yn cael eu hyfforddi ar hyn o bryd, a fydd yn arwain ar ddiffyg staff yn y blynyddoedd i ddod. Ymhellach, derbyniodd y Panel fewnbwn gan ddau Gydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol, ac fe nodwyd y pwyntiau a godwyd yn ystod eu cyflwyniad o fewn yr adroddiad. Nodwyd y bydd y Panel yn derbyn diweddariadau rheolaidd i fonitro'r cynnydd yn erbyn gofynion y Ddeddf.

Dywedodd y Deilydd Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid fod y Panel wedi derbyn adroddiadau pwysig o ran y Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Iaith Gymraeg o fewn System Addysg Ynys Môn yn ddiweddar. Dymunodd ddiolch i'r Panel am eu gwaith ond mae blaenoriaethau addysg yn parhau i newid yn enwedig yn ystod y pandemig. Heriodd y Deilydd Portffolio y Panel i ddangos sut y mae wedi datblygu ers ei sefydlu dros 8 mlynedd yn ôl. Ymatebodd y Cadeirydd ei fod yn gyntaf yn ystyried bod y Panel Adolygu Cynnydd

Ysgolion wedi perswadio’r Penaethiaid eu bod yn ffrindiau beirniadol yn hytrach na grŵp sydd yno i feirniadu’r addysg o fewn ysgolion. Fodd bynnag, mae bodolaeth y Panel yn profi bod atebolrwydd a strwythur clir o ran adrodd ac mae'n bwysig bod y Panel yn parhau i herio'r ysgolion i wella safonau yn ysgolion yr Ynys.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a gwnaed y prif bwyntiau canlynol:-

- Soniwyd a oes angen adolygu blaenoriaethau'r Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion yn dilyn ei waith i wella’r safonau o fewn ysgolion ac yn enwedig yn ystod y pandemig. Mae'r pandemig wedi codi materion ynghylch anghenion lles disgyblion sy'n gorfod derbyn eu haddysg yn ddigidol gartref. Ymatebodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau ac Ieuenctid ei bod yn hollbwysig fod gwaith y Panel yn parhau i anelu at ragoriaeth o fewn ysgolion. Nododd mai’r flaenoriaeth yw medru fforddio’r addysg orau ar gyfer disgyblion yr Ynys;
- Nodwyd mai'r nod yw gweld ysgolion yr Ynys yn cyflawni rhagoriaeth. Codwyd cwestiynau ynghylch pa weithdrefnau y gellir eu rhoi ar waith i sicrhau bod pob ysgol yn Ynys Môn yn cael ei chydnabod gan Estyn fel un sy’n cyrraedd ‘Gwyrdd’ ac nad oes unrhyw ysgol yn cael ei hystyried fel ‘Coch’. Dywedodd y Prif Weithredwr ei bod yn cytuno mai'r nod yw gweld ysgolion Ynys Môn yn cyflawni rhagoriaeth ond pwysleisiodd y bydd y diffiniad o ragoriaeth gan Estyn yn golygu bod angen i'r Cyngor ddangos y bydd yn gallu arwain siroedd eraill;
- Nodwyd bod y Panel wedi ystyried bod llesiant y disgyblion yn hollbwysig ac yn enwedig bod angen gwrando ar ‘lais y plentyn’;
- Dywedodd y Prif Weithredwr y bydd y Gwasanaeth Addysg yn cael ymweliad gan Estyn yn y dyfodol agos ac fe gwestiynodd a fydd y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion yn cael ei ystyried yn arweinydd sector o ran rhagoriaeth mewn ysgolion. Mynegodd Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod y gwasanaethau addysg yn anelu at gyrraedd rhagoriaeth o fewn ysgolion Ynys Môn. Nododd fod cynrychiolwyr Estyn wedi cwrdd â Chadeirydd ac Is-Gadeirydd y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion i drafod y gwaith a gyflawnwyd o ran gwella ysgolion. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc ymhellach ei bod yn hanfodol fod rhaglen waith y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion yn parhau. Nododd fod angen ailddechrau'r ymweliadau â'r ysgolion i adolygu'r gwaith a gyflawnir yn yr ysgolion ac i adrodd yn ôl i'r Panel ar feysydd gwaith penodol y mae angen mynd i'r afael â hwy;
- Cyfeiriwyd hefyd at Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg sy'n gynllun 10 mlynedd gyda 7 canlyniad a amlinellwyd yn yr adroddiad. Codwyd cwestiynau ynghylch a oedd y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion i dderbyn adroddiad cynnydd ar y canlyniadau o ran y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Ymatebodd y Cadeirydd y bydd canlyniadau’r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cael eu trafod mewn cyfarfod o'r Panel yn y dyfodol;
- Nodwyd bod y pandemig wedi cael effaith sylweddol ar addysg ac yn enwedig ar ddisgyblion ym Mlynyddoedd 10, 11, 12 a 13 gydag addysg TGAU a Lefel A wedi ei effeithio. Mynegwyd ei bod yn hanfodol mesur lefelau addysg disgyblion a bod disgyblion yn cael cefnogaeth mewn perthynas ag unrhyw ddiffygion yn eu haddysg a sicrhau eu bod yn llwyddo yn eu harholiadau os ydynt am ddigwydd yr haf nesaf.

**PENDERFYNWYD nodi’r:-**

- **Cynnydd hyd yn hyn o ran y gwaith y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion o ran cyflawni ei raglen waith sy'n cynnwys herio perfformiad ysgolion unigol;**
- **Meysydd gwaith y rhoddwyd sylw iddynt drwy’r trefniadau newydd a wnaed o ganlyniad i’r pandemig Covid-19;**
- **Cadernid gwaith monitro'r Panel hyd yma.**

**GWEITHRED : Fel y nodwyd uchod.**

## 6 BLAEN RAGLEN WAITH

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Rheolwr Sgriwtini.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Cytuno’r fersiwn bresennol o’r blaen raglen waith ar gyfer 2021/22.**
- **Nodi’r cynnydd hyd yn hyn o ran rhoi’r blaen raglen waith ar waith.**

Daeth y cyfarfod i ben am 3.35 pm

**CYNGHORYDD GWILYM O JONES**
**CADEIRYDD**

# CYNGOR SIR YNYS MÔN
## Templed Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 9 Tachwedd 2021 |
| **Pwnc:** | Strategaeth Hybu'r Gymraeg |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Cynnig i'r Pwyllgor Sgriwtini ei fod yn argymell cymeradwyo'r ddwy ddogfen gerbron i'r Pwyllgor Gwaith |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cynghorydd Gwilym O. Jones |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Cynghorydd Ieuan Williams |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Annwen Morgan<br>Prif Weithredwr |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Ffreuer Owen, Rheolwr Polisi a'r Gymraeg<br>01248 752 561<br>ffreuerowen@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | Amherthnasol |

**1 – Argymhelliad/Argymhellion**

A1 – Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini argymell i'r Pwyllgor Gwaith y dylid cymeradwyo cyhoeddi'r canlynol ar y wefan gorfforaethol:

i. Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021: Adroddiad asesu (drafft).

A2 – Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini argymell i'r Pwyllgor Gwaith y dylid cymeradwyo:

ii. Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2021-2026 (drafft) ac awdurdodi'r swyddogion perthnasol, mewn ymgynghoriad â'r deilydd portffolio, i gwblhau unrhyw waith adolygu pellach i'r strategaeth ddrafft.

**Rhesymau**

Mae'n ofyniad statudol ar Gyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) i baratoi strategaeth hybu yn ymwneud â'r iaith Gymraeg. Diben strategaeth hybu yw amlinellu sut y mae'r Cyngor yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg a hwyluso defnyddio'r iaith yn ehangach ar Ynys Môn. Rhaid iddi gynnwys targed ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer siaradwyr Cymraeg yr ardal erbyn diwedd y cyfnod o bum mlynedd dan sylw.

Daeth cyfnod gweithredu strategaeth hybu gyntaf y Cyngor, Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021, i ben yn 2021. Mae awdur yr adroddiad, mewn ymgynghoriad ag aelodau Fforwm Iaith Ynys Môn, wedi bod yn gweithio'n fwriadus dros y misoedd diwethaf i gynhyrchu strategaeth hybu drafft newydd ar gyfer y cyfnod 2021-2026 (ii). Cynhaliwyd asesiad o'r strategaeth gyntaf (i) a gyfrannodd at y gwaith o baratoi'r strategaeth hybu drafft.

Prif her paratoi'r strategaeth hybu drafft yw'r diffyg data cyfredol am sefyllfa'r Gymraeg ar Ynys Môn. Paratowyd y ddogfen fel strategaeth interim i bontio'r cyfnod o ddiwedd 2021 hyd at gyhoeddi data'r Cyfrifiad yn llawn yn ystod 2023. Cynigir bod gwaith dadansoddi pellach yn cael ei gynnal bryd hynny i adolygu'r

strategaeth a sicrhau bod y targed ar gyfer cynyddu/cynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn addas.

Mae Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2021-2026 (drafft) yn adeiladu ar sylfeini'r strategaeth gyntaf ac yn mabwysiadu targed a meysydd blaenoriaeth sy'n gyson â'r strategaeth gyntaf. Mae hefyd yn cynnwys cynllun gweithredu ar gyfer y flwyddyn gyntaf. Bydd Fforwm Iaith Ynys Môn yn gyfrifol am fonitro cynnydd y cynllun gweithredu. Caiff adroddiad ar weithrediad y strategaeth hefyd ei gynnwys yn yr adroddiad blynyddol ar safonau'r Gymraeg a roddir gerbron y Pwyllgor Sgriwtini ym mis Mehefin.

Yn amodol ar dderbyn cydsyniad y Pwyllgor Sgriwtini, cynigir rhoi'r dogfennau sydd wedi eu hatodi gerbron y Pwyllgor Gwaith yn ystod ei gyfarfod ar 29 Tachwedd 2021. Bwriedir rhoi Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2021-2026 (drafft) gerbron y Cyngor llawn yn ystod ei gyfarfod ar 7 Rhagfyr 2021.

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill**

Mae Cynllun y Cyngor 2017-2022 yn cydnabod pwysigrwydd ein treftadaeth a'n diwylliant Cymraeg ac yn nodi bod diogelu'r iaith yn flaenoriaeth uchel i'r Cyngor. Mae'r Polisi Iaith Gymraeg yn adlewyrchu cyfrifoldeb y Cyngor i hyrwyddo'r iaith yn gymunedol, ac fel cyflogwr i ddenu a chadw siaradwyr Cymraeg i gynnal y safon uchel o wasanaethau.

Mae gweithredu cynllun hybu hefyd yn cyfrannu tuag at gyflawni sawl dyletswydd (statudol a pholisi) sydd wedi ei gosod ar y Cyngor. Yn benodol:

- Strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r iaith, Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr
- Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Fframwaith cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector iechyd a gofal, Mwy na geiriau
- Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg
- Polisi Strategol PS1 Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd Gwynedd a Môn

**3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

1. A oes unrhyw risgiau penodol sy'n peri pryder o ran sefyllfa'r Gymraeg ar Ynys Môn nad ydynt wedi eu crybwyll?
2. Beth yw'r prif heriau'r dyfodol o ran sefyllfa'r Gymraeg yn lleol?
3. Oes data ychwanegol a fyddai'n ychwanegu gwerth i'r dogfennau sydd gerbron?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

Derbyniodd y Cyngor hysbysiad cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 30 Medi 2015. Yn unol â safon hybu 145 mae'n ofynnol i'r Cyngor lunio a chyhoeddi strategaeth hybu pum mlynedd. Yn unol â safon hybu 146 mae'n ofynnol arnom i asesu gweithrediad y strategaeth ar ddiwedd y cyfnod pum mlynedd a chyhoeddi'r asesiad hwnnw ar ein gwefan.

**6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]**

**6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010**

Un o brif ddibenion Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2021-2026 (drafft) yw amlinellu sut y mae'r Cyngor yn bwriadu mynd ati i greu cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith mewn gwahanol gyd-destunau. Mae hyn yn berthnasol i holl siaradwyr Cymraeg Ynys Môn, yn cynnwys siaradwyr Cymraeg sy'n perthyn i'r grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

**6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)**

Gall diffyg gallu yn y Gymraeg greu anfantais economaidd-gymdeithasol trwy rwystro rhai unigolion rhag cael swyddi da yn lleol ac, mewn achosion eithriadol, effeithio'n andwyol ar gyfleoedd bywyd. Rhai o brif amcanion y strategaeth hybu yw cynyddu cyfraddau trosglwyddo a throchi iaith a chreu cyfleoedd i ddysgu'r iaith. Gall y cyfleoedd hyn yn eu tro effeithio'n gadarnhaol ar amgylchiadau economaidd-gymdeithasol rhai trigolion trwy gynnig cyfle iddynt ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg ac ymgeisio am swyddi gwell ble mae gallu yn yr iaith yn fantais. Mae ymchwil yn dangos bod dwyieithrwydd yn gallu effeithio'n gadarnhaol ar ddatblygiad a chyrhaeddiad academaidd plant.

**6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg**

Diben y strategaeth hybu yw amlinellu sut y mae'r Cyngor mynd ati i hybu'r Gymraeg a hwyluso defnyddio'r iaith yn ehangach ar Ynys Môn. O'i gweithredu byddwn yn cynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn lleol ac yn cyfrannu tuag at darged Lywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr erbyn 2050. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn gweithredu'n unol ag egwyddorion craidd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, sef:

- ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru; a

| |
|---|
| • dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny. |

| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
|---|
| Amherthnasol. |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| i. Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021: Adroddiad asesu (drafft)<br>ii. Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2021-2026 (drafft) |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| • Hysbysiad cydymffurfio dan Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011<br>• Polisi Iaith Gymraeg<br>• Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021 |

POLISI A'R GYMRAEG

# Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021: Adroddiad asesu

Ein hasesiad o'n strategaeth pum mlynedd gyntaf ar gyfer hybu'r Gymraeg a hwyluso defnyddio'r iaith ar Ynys Môn.

Draft

www.YnysMon.gov.uk

cyngormon

@cyngormon

**Dyddiad cyhoeddi:** [Dyddiad]

This document is available in English

# Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021: Adroddiad asesu

**Trosolwg**
Dyma asesiad Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) o'i strategaeth bum mlynedd gyntaf ar gyfer hybu'r Gymraeg a hwyluso defnyddio'r iaith Gymraeg ar Ynys Môn, Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021. Fe'i paratowyd yn unol â gofynion Atodlen 4 Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015.

**Mwy o wybodaeth**
Cyfeiriwch ymholiadau am y ddogfen hon at:
Ffreuer Owen
Rheolwr Polisi a'r Gymraeg
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfa'r Sir
Llangefni
LL77 7TW

Ffôn: 01248 75 00 57
E-bost: FfreuerOwen@ynysmon.gov.uk

**Copïau ychwanegol**
Mae copi o'r ddogfen hon ar gael ar wefan y Cyngor yn ynysmon.gov.uk. Gallwch hefyd dderbyn y ddogfen mewn fformatau eraill ar gais gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.

**Dogfennau cysylltiedig**
Hysbysiad cydymffurfio dan Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011; Polisi Iaith Gymraeg; Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021; Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2021-2026. I gyd ar gael ar wefan y Cyngor yn ynysmon.gov.uk/cy/Cyngor/Safonau-iaith-Gymraeg/Iaith.

Draft

## Cynnwys

1. Rhagair y deilydd portffolio ..... 1
2. Cyflwyniad a chyd-destun ..... 2
3. Gweithredu'r strategaeth ..... 5
4. Adroddiad cynnydd blwyddyn un ..... 8
5. Adroddiad cynnydd blwyddyn dau ..... 11
6. Adroddiad cynnydd blwyddyn tri ..... 13
7. Adroddiad cynnydd blwyddyn pedwar ..... 16
8. Adroddiad cynnydd blwyddyn pump ..... 18
9. Casgliad ..... 19
10. Atodiad: Nifer y siaradwyr Cymraeg ar Ynys Môn ..... 21

Draft

# 1. Rhagair y deilydd portffolio

Mae'n bleser cyhoeddi ein hasesiad o'n strategaeth bum mlynedd gyntaf ar gyfer hybu'r Gymraeg a hwyluso defnyddio'r iaith ar Ynys Môn. Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r holl waith a gyflawnwyd gennym a'n partneriaid mewn perthynas â'r strategaeth rhwng 2016 a 2021. Er bod gennym hanes hir o ddarparu gwasanaethau Cymraeg o safon i'n trigolion, mae paratoi a gweithredu strategaeth o'r fath yn ofyniad newydd a heriol ar y Cyngor. Hoffwn ddiolch i'n swyddogion a'n partneriaid am eu hymdrechion dros y bum mlynedd ddiwethaf. Mae'r asesiad hwn yn gyfle i gydnabod yr holl waith caled sydd wedi digwydd i geisio gwireddu gweledigaeth ein strategaeth.

Pan gyhoeddom ein strategaeth yn 2016, penderfynom gynnwys targed uchelgeisiol, ond realistig, ar gyfer gwyrdroi'r cwymp yn nifer y siaradwyr Cymraeg yr ynys o 60.1% o'r boblogaeth yn 2011 i 57.2% yn 2011. Ni fyddwn yn gwybod â sicrwydd faint yn union o siaradwyr Cymraeg sydd yma hyd nes i ddata'r cyfrifiad diweddaraf gael ei chyhoeddi yn 2022 a 2023. Mae pwyslais yr asesiad hwn felly ar yr hyn a gyflawnom yn ystod cyfod y strategaeth er mwyn cynyddu defnydd a chyfleoedd i ddefnyddio'r iaith.

Er bod cymaint o waith arbennig wedi digwydd o ganlyniad i weithredu'r strategaeth, byddai'n esgeulus peidio cyfeirio at effaith y pandemig coronaferiws ar ein hymdrechion. Mae ymddangos yn anochel y bydd effaith ar ddemograffeg ein cymunedau o ganlyniad i'r argyfwng. Yn bennaf oherwydd ffyniant y farchnad dai yn ystod 2020 a 2021 a gweithio o bell sy'n caniatáu adleoli o ardaloedd trefol i ardaloedd gwledig ac arfordirol. Mae mewnfudo wedi bod yn her hanesyddol i ffyniant y Gymraeg ar Ynys Môn ac mae angen i ni fod yn realistig a pharatoi ar gyfer newid pellach a dyfnach yn nynameg ieithyddol rhai cymunedau.

Effeithiodd gyfyngiadau'r pandemig hefyd ar gyfleoedd i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith gyda'i gilydd yn y gwaith ac yn gymdeithasol. Ein gobaith yw y bydd gweithgarwch trwy gyfrwng y Gymraeg yn ail-ddechrau gydag awydd a brwdfrydedd newydd wedi i ni oroesi'r cyfnod heriol hwn. Mae'r pandemig wedi golygu bod rhaid i ni feddwl am ffyrdd newydd a dyfeisgar o ddefnyddio a hyrwyddo'r iaith a byddwn yn parhau i fanteisio ar y datblygiadau hyn wrth i ni symud i weithredu ein strategaeth newydd, Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2021-2026.

Er bod cyd-destun ein gwaith wedi newid yn syfrdanol ers cyhoeddi ein strategaeth gyntaf, mae ein blaenoriaethau yn parhau'r un fath. Trwy gydweithio i greu mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith ar Ynys Môn ei nod yw gwyrdroi'r cwymp yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 2011 a chyfrannu'n gadarnhaol at darged cenedlaethol Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr erbyn 2050.



[Llofnod]
**Cynghorydd Ieuan Williams, Dirprwy Arweinydd y Cyngor**
Deilydd Portffolio – Trawsnewid Gwasanaeth a'r Iaith Gymraeg
[Mis] 2021

Draft

# 2. Cyflwyniad a chyd-destun

## Gofynion y safonau hybu

Mae llunio strategaeth pum mlynedd i hybu'r Gymraeg ar Ynys Môn yn ofyniad statudol a strategol sy'n deillio o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Yn ogystal â rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, sefydlodd Mesur y Gymraeg rôl Comisiynydd y Gymraeg sydd ag awdurdod i osod safonau ymddygiad sy'n ymwneud â defnyddio'r iaith ar ystod o sefydliadau.

Derbyniodd y Cyngor hysbysiad cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 30 Medi 2015. Dyma'r ddogfen sy'n amlinellu'r 160 o safonau y mae'n rhaid i ni gwrdd â nhw.[1]

Mae'r safonau hybu yn ddosbarth neilltuol o safonau sydd wedi eu gosod ar awdurdodau lleol a'r parciau cenedlaethol gyda'r bwriad o roi ffocws strategol ar gynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg mewn ardal benodol. Safon 145 sy'n gosod gofyniad arnom i baratoi strategaeth pum mlynedd yn esbonio sut yr ydym yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg a hwyluso defnyddio'r iaith ar Ynys Môn:

**Safon 145**
Rhaid ichi lunio, a chyhoeddi ar eich gwefan, strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn eich ardal; a rhaid i'r strategaeth gynnwys (ymysg pethau eraill)—

(a) targed (yn nhermau canran y siaradwyr yn eich ardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd o dan sylw, a
(b) datganiad sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw;

a rhaid ichi adolygu'r strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni ar eich gwefan o fewn 5 mlynedd i ddyddiad cyhoeddi'r strategaeth (neu i ddyddiad cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni).

**Diwrnod gosod:** 30 Mawrth 2016

Cafodd ein strategaeth pum mlynedd gyntaf, Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021[2], ei chymeradwyo gan y Cyngor llawn ar 27 Medi 2016. Daeth cyfnod ei gweithredu i ben ar ddiwedd mis Medi 2021.

[1] Comisiynydd y Gymraeg, Hysbysiad cydymffurfio dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, ar gael yn comisiynyddygymraeg.cymru.
[2] Cyngor Sir Ynys Môn, Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021, ar gael yn ynysmon.gov.uk.

O dan safon hybu 146 mae'n ofynnol arnom gynnal a chyhoeddi asesiad o gyflawniad y strategaeth ar ddiwedd y cyfnod pum mlynedd dan sylw. Y ddogfen hon yw ein hasesiad o Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021 yn unol â gofynion y safon:

**Safon 146**
Bum mlynedd ar ôl cyhoeddi strategaeth yn unol â safon 145 rhaid ichi—
(a) asesu i ba raddau yr ydych wedi dilyn y strategaeth honno ac wedi cyrraedd y targed a osodwyd ganddi, a
(b) cyhoeddi'r asesiad ar eich gwefan, gan sicrhau ei fod yn cynnwys yr wybodaeth a ganlyn—
(i) nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal, ac oedran y siaradwyr hynny;
(ii) rhestr o'r gweithgareddau a drefnwyd gennych neu a ariannwyd gennych yn ystod y 5 mlynedd flaenorol er mwyn hybu defnyddio'r Gymraeg.

**Diwrnod gosod:** 30 Mawrth 2016

## Cyd-destun polisi

Cafodd y strategaeth ei gweithredu'n gyfochrog â sawl ymrwymiad polisi arall i gyd â'r nod o warchod neu gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn ein hardal. Mae Cynllun y Cyngor 2017-2022[3] yn nodi bod diogelu'r iaith yn flaenoriaeth uchel i ni ac mae ein Polisi Iaith Gymraeg[4] yn adlewyrchu ein cyfrifoldeb i hyrwyddo'r iaith wrth ddarparu gwasanaethau ac o fewn ein gweinyddiaeth.

Trwy weithredu'r strategaeth cyfrannom at wireddu gweledigaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, a chyflawni un o nodau llesiant Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sef, 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Gosodwyd ddisgwyliadau arnom i ddarparu gwasanaethau gofal a chymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg ac i wneud 'cynnig rhagweithiol' i ddefnyddwyr ein gwasanaethau fel rhan o fframwaith cenedlaethol Llywodraeth Cymru, Mwy na geiriau.[5]

Mae polisi cynllunio cenedlaethol yn cynghori y dylid rhoi ystyriaeth benodol i gymunedau lle mae defnyddio'r Gymraeg yn rhan naturiol o fywyd bob dydd wrth wneud penderfyniadau a llunio polisïau'n ymwneud â defnydd tir. Fe wnaethom hynny drwy weithredu'n unol â Pholisi Strategol PS1 (Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymreig) a'r Canllaw Cynllunio Atodol: Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy sy'n gysylltiedig â'n Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd gyda Chyngor Gwynedd.

[3] Cyngor Sir Ynys Môn, Cynllun 2017-2022, ar gael yn ynysmon.gov.uk.
[4] Cyngor Sir Ynys Môn, Polisi Iaith Gymraeg, ar gael yn ynysmon.gov.uk.
[5] Llywodraeth Cymru, Mwy na geiriau: Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol, ar gael yn wales.nhs.uk.

Roedd gweithredu'r strategaeth hefyd yn cyd-redeg â chyflawni ein Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA), ein Polisi Iaith Gymraeg Ysgolion a fframwaith cenedlaethol y Siarter Iaith.

Drafft

# 3. Gweithredu'r strategaeth

Cydweithiom yn fwriadus gyda Fforwm Iaith Ynys Môn i gynhyrchu'r strategaeth. Seiliom darged y strategaeth ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ar waith ymchwil a phroffilio demograffeg a sefyllfa'r Gymraeg yn lleol. Roeddem o'r farn bod gosod targed i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yr ardal o 325 yn fan cychwyn realistig a chyraeddadwy. Byddai cyflawni'r targed hwn yn golygu gwyrdroi'r cwymp yn nifer y siaradwyr rhwng cyfrifiad 2001 a chyfrifad 2011.

Y fforwm oedd hefyd yn gyfrifol am adnabod blaenoriaethau'r strategaeth. Cawsant eu pennu fel eu bod yn gyson â themâu strategol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Gymraeg ar y pryd, sef themâu Iaith fyw, iaith byw: Strategaeth y Gymraeg 2012-17[6]. Penderfynom ganolbwyntio ar lai o flaenoriaethau er mwyn targedu ein hymdrechion a sicrhau ein bod yn gwneud gwahaniaeth. Y mesydd blaenoriaeth a bennwyd gennym oedd:

1. Plant, pobl ifanc a'r teulu
2. Y gweithle, gwasanaethau Cymraeg a'r seilwaith
3. Y gymuned

I gyd-fynd â phob maes blaenoriaeth, fe wnaethom adnabod:
- nodau perthnasol,
- y canlyniad yr oeddem yn ddymuno ei weld, a
- dangosyddion ar gyfer mesur cynnydd.

Roedd hyn yn golygu adnabod gwaelodlin o waith proffilio ieithyddol yr ardal a chynllunio cynnydd yn strategol. Defnyddiom ddata perthnasol yn ein meddiant i ddarparu dangosyddion er mwyn mesur cynnydd a'n harwain at adnabod camau gweithredu ar gyfer blwyddyn gyntaf y strategaeth, i'w hadolygu'n flynyddol.

Defnyddiom fframwaith dadansoddi PESTLE er mwyn adnabod risgiau a chyfleoedd ffactorau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, technolegol ac amgylcheddol perthnasol wrth benderfynu ar flaenoriaethau'r cynlluniau gweithredu. Roedd pob cynllun gweithredu yn cynnwys nodau ac amcanion yn gysylltiedig â'r tri maes blaenoriaeth ynghyd â manylion prosiectau penodol i ni a'n partneriaid gyflawni yn ystod y cyfnod.

Bu'r fforwm yn gyfrifol am fonitro cynnydd y cynlluniau gweithredu blynyddol ac fel rhan o'r cylch gorchwyl roedd gofyn i ni adrodd yn ôl i'r fforwm ar gynnydd yn erbyn targedau'r strategaeth. Ar ddiwedd pob cyfnod rhoddodd y fforwm statws RAG coch, melyn neu wyrdd i gynnydd y gwaith. Roedd y fforwm hefyd yn gyfrwng ar gyfer adnabod prosiectau blynyddol ar gyfer cydweithio gyda'r aelodau, gan gynnwys ein hadrannau gwasanaeth. Ymgorfforwyd manylion y prosiectau hyn yn ein cynlluniau gweithredu.

Ar ddiwedd pob blwyddyn casglom gofnod o'r holl weithgarwch a ddigwyddodd yn ystod y cyfnod o ganlyniad i weithredu'r strategaeth. Y cofnodion hyn yn bennaf sy'n

[6] Llywodraeth Cymru, Iaith fyw, iaith byw: Strategaeth y Gymraeg 2021-17, ar gael yn llyw.cymru.

ffurfio sail ein hasesiad. Mae adran pedwar yr adroddiad yn crynhoi deilliannau pob un o’r cynlluniau gweithredu, ynghyd â manylion y gweithgareddau a drefnwyd neu a ariannwyd gennym er mwyn hybu defnyddio’r Gymraeg yn ystod cyfnod gweithredu’r strategaeth.

## Ffocws y strategaeth

Ar gyfer pob un o'r meysydd blaenoriaeth fe wnaethom adnabod nodau, y canlyniadau y dymunom eu gweld o weithredu’r strategaeth, a’r dangosyddion y byddem yn eu defnyddio i fesur ein cynnydd:

| **Maes blaenoriaeth un: Plant, pobl ifanc a’r teulu** | | |
|---|---|---|
| Mae maes blaenoriaeth cyntaf y Strategaeth Iaith yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc a’r teulu gan fod trosglwyddiad iaith o un genhedlaeth i’r llall, ynghyd ag addysg yn cael eu hystyried yn ddau o’r meysydd pwysicaf o ran cynllunio ieithyddol. Mae ffocws y strategaeth yn ogystal ar sicrhau cyfleon i blant a phobl ifanc ddefnyddio’r Gymraeg yn gymdeithasol. | **Nod**<br>• Cynnydd yn nifer y teuluoedd lle defnyddir y Gymraeg fel prif iaith gyda’r plant gyda chynnydd yn y cyfleon a’r gefnogaeth i’w defnyddio’n gymdeithasol a sicrhau cynnydd.<br>• Sicrhau fod pob plentyn yn cael yr hawl i fod yn gwbl ddwyieithog erbyn cyrraedd 16 oed<br>• Cynyddu’r capasiti a’r defnydd o’r Gymraeg fel cyfrwng cyfathrebu a dysgu ymysg plant a phobl ifanc mewn addysg a thrwy weithgareddau cymdeithasol. | **Y canlyniad a ddymunir**<br>• Cynnydd yn nifer y plant a phobl ifanc sy’n defnyddio’r iaith bob dydd yn yr ysgol ac yn gymdeithasol.<br>• Cynnydd yn nifer y teuluoedd sy’n defnyddio’r Gymraeg fel prif iaith gyda’u plant. |
| | **Dangosyddion**<br>• 100% Ysgolion wedi nodi yn eu Cynlluniau Datblygu eu bod yn rhoi blaenoriaeth i’r Gymraeg a’r Siarter Iaith ac yn gwneud cynnydd.<br>• % isaf sy’n derbyn asesiad Cymraeg iaith gyntaf ym mis Mai 2017:<br>Cyfnod Sylfaen 76%<br>CA2 76%<br>CA3 68%<br>CA4 66%<br>• Sicrhau cynnydd o 10% (ar sail cohort y flwyddyn) mewn 3 blynedd o ran y disgyblion sy’n astudio Cymraeg iaith gyntaf, a chynnydd pellach o 5% erbyn 2022. | • Sicrhau cynnydd o 5% yn nifer y dysgwyr sy’n astudio o leiaf 5 pwnc arall heblaw'r Gymraeg trwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel TGAU erbyn 2020, a chynydd pellach o 5% erbyn 2022.<br>• Cynnydd o 5% yn nifer y dysgwyr 16-19 oed sy’n astudio cyrsiau addysg bellach trwy gyfrwng y Gymraeg neu’n ddwyieithog erbyn 2020.<br>• Cynnydd yn nifer y plant sy’n cymryd rhan yn y gwersi nofio cyfrwng Cymraeg.<br>• Nifer o weithgareddau chwaraeon a hamdden sy’n prif lifo’r Gymraeg. |

## Maes blaenoriaeth dau: Y gweithle, gwasanaethau Cymraeg a'r seilwaith

| | | |
|---|---|---|
| Mae ail faes blaenoriaeth y Strategaeth Iaith yn canolbwyntio ar y gweithle, gwasanaethau Cymraeg a'r seilwaith. Yr amcan yma yw adnabod cyfleoedd i gynllunio'n fwriadus i brif-lifo'r Gymraeg yn naturiol i'r meysydd blaenoriaeth hyn. | **Nod**<br>Hybu a chynyddu argaeledd gwasanaethau Cymraeg, cynyddu cyfleoedd/disgwyliadau i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle a chydweithio i adnabod cyfleoedd i brif-lifo'r iaith i ddatblygiadau a gweithgareddau. | **Y canlyniad a ddymunir**<br>• Cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg fel iaith weinyddol y Cyngor Sir.<br>• Cynnydd ym mhroffil y Gymraeg fel sbardun ar gyfer newid gan Gyngor Sir Ynys Môn a Chynghorau Tref a Chymuned. |
| | **Dangosydd**<br>• Cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg yng ngweinyddiaeth y Cyngor Sir fel iaith lafar a/neu ysgrifenedig.<br>• 100% o asesiadau o'r effaith ar yr iaith yn cael eu cynnal ar gyfer unrhyw ddatblygiadau tai, economaidd/busnes. | • Nifer y polisïau iaith gan ddatblygwyr ac effaith. gweithredu'r polisi mewn * mis<br>• % cynnydd yn nifer y rhai sy'n dilyn cyrsiau dysgu Cymraeg<br>• Nifer y rhai sy'n dilyn cyrsiau dysgu Cymraeg.<br>• Cynnydd yn y gwaith i bobl leol yn y datblygiadau mawr. |

## Maes blaenoriaeth tri: Y gymuned

| | | |
|---|---|---|
| Mae trydydd maes blaenoriaeth y Strategaeth Iaith yn canolbwyntio ar hyrwyddo'r Gymraeg ar lefel cymunedol. | **Nod**<br>Hyrwyddo a marchnata gwerth a phwysigrwydd y Gymraeg Hyrwyddo ac adnabod cyfleoedd i gryfhau'r Gymraeg o fewn y cymunedau ac adnabod bylchau mewn darpariaeth. | **Y canlyniad a ddymunir**<br>Cynnal y wardiau lle mae 70% o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg a chynyddu canrannau gweddill y wardiau eraill. |
| | **Dangosyddion**<br>• Cynnydd yn y wardiau sydd â dros 70% yn siarad Cymraeg.<br>• Cynnydd yn y wardiau sydd â dros 50% yn siarad Cymraeg.<br>• Nifer y gweithgareddau a gynhelir i gymhathu dysgwyr y Gymraeg.<br>• Nifer y dosbarthiadau Cymraeg yn y gymuned neu Gymraeg i'r teulu.<br>• Cynnydd yn y nifer sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddoli cyfrwng Cymraeg.<br>• Cynnydd yn y defnydd o'r ap cyfieithu | • Cynnydd yn nifer y cyfarfodydd o fewn y Cyngor Sir a gynhelir trwy gyfrwng y Gymraeg.<br>• Nifer yr ymweliadau i'r safle we sy'n hysbysebu gweithgareddau cyfrwng Cymraeg.<br>• Nifer datblygiadau sy'n cyd-fynd gyda pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol.<br>• Nifer o dai gwag ar yr ynys sy'n dod yn ôl i ddefnydd fel tai parhaol.<br>• Nifer pecynnau croeso a ddosbarthwyd i fewnfudwyr/a lawrlwythwyd. |

# 4. Adroddiad cynnydd blwyddyn un

Ar ddiwedd blwyddyn gyntaf y strategaeth, rhoddwyd statws o felyn i gynnydd gwaith y cynllun gweithredu.

Mae'r canlynol yn crynhoi deilliannau'r cynllun gweithredu yn erbyn bob maes blaenoriaeth ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2016/17.

## Maes blaenoriaeth un: Plant, pobl ifanc a'r teulu

- 250 o rieni wedi nodi eu bod yn gweithio ar newid eu harferion iaith yn y cartref.
- 500 o sgyrsiau wedi eu cynnal gan Menter Iaith Môn â rhieni am fanteision dwyieithrwydd i'w plant.
- Sesiynau wedi eu cynnal gan Menter Iaith Môn mewn 10 o leoliadau gofal plant am fanteision defnyddio'r Gymraeg gyda phlant.
- Deunydd hyrwyddo'r Gymraeg wedi ei ddosbarthu gan Fenter Iaith Môn i bob Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi yn yr ardal.
- Polisi Iaith Gymraeg Ysgolion wedi ei ddiwygio a'i fabwysiadu gan bob ysgol dan reolaeth y Cyngor.
- Pob ysgol ond un wedi cyrraedd statws efydd y Siarter Iaith.
- Pob ysgol yn rhoi blaenoriaeth i ddatblygu'r Gymraeg yn eu cynlluniau datblygu ysgolion gyda GwE yn gwirio cynnydd.
- 15 o gymorthyddion dosbarth wedi derbyn hyfforddiant golywi iaith, gan gynnwys hyfforddiant trochi iaith dwys i gymorthyddion mewn tair ysgol gynradd fydd yn bwydo i Ysgol Cybi, Caergybi (ysgol yr unfed ganrif ar hugain newydd cyfrwng Cymraeg) ym mis Medi 2017.
- Cyrsiau Consortiwm Dysgu Cymraeg y Gogledd-orllewin wedi eu hyrwyddo'n eang (y wasg, cyfryngau cymdeithasol, ysgolion) a darpariaeth y cyrsiau wedi mynd tu hwnt i'r targed cenedlaethol. Hyfforddiant wedi'i ddarparu'n llwyddiannus hefyd i swyddogion y Cyngor.
- 550[555] o ddisgyblion cyfnod sylfaen (o gyfanswm o 763) wedi derbyn asesiad Cymraeg iaith gyntaf, sef 9% yn fwy na'r targed. 480 o ddisgyblion cyfnod allweddol dau (o gyfanswm o allan o 619[677]) wedi derbyn asesiad Cymraeg iaith gyntaf. Canlyniadau lefelau Cymraeg ar ddiwedd y flwyddyn:
    - Cyfnod sylfaen: 85.6% D5+ [90.3%]
    - Cyfnod allweddol 2: 83.33% [88.3%]
    - Cyfnod allweddol 3: 88.8% [Lefel 5+95%] [Lefel 6+72.6%]
- 63.7% o ddisgyblion uwchradd wedi sefyll arholiadau Cymraeg iaith gyntaf.
- £486,000 i ddatblygu'r gweithlu i gefnogi'r Gymraeg mewn addysg wedi ei ddosbarthu i GwE.
- 100% o ysgolion newydd wedi eu dynodi'n ysgolion cyfrwng Cymraeg.
- 80% o wersi nofio wedi eu cynnal yn Gymraeg a hyfforddiant i gefnogi hyfforddwyr nofio wedi ei ddarparu'n llwyddiannus.
- Seminar ar ofynion safonau'r Gymraeg wedi ei gynnal ar gyfer 38 o swyddogion y gwasanaeth Ieuenctid.

- 3 swyddog ieuenctid llawn-amser wedi derbyn hyfforddiant codi hyder yn y Gymraeg.
- Pob clwb ieuenctid wedi paratoi cynllun gweithredu.
- Aelodaeth yr Urdd ar ei uchaf erioed (3,000 o aelodau) yn dilyn ymgyrch cyfryngau cymdeithasol lwyddiannus.
- Aelwyd yr Urdd newydd wedi ei sefydlu yn Ysgol Uwchradd Caergybi sy'n cyfarfod yn wythnosol ac yn annog aelodau i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gymdeithasu.

## Maes blaenoriaeth dau: Y gweithle, gwasanaethau Cymraeg a'r seilwaith

- Rhaglen dreigl wedi'i sefydlu i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yng ngweinyddiaeth y Cyngor.
- Gwaith dwys wedi ei gynnal gyda swyddogion yr adran Tai fel cam cyntaf y rhaglen dreigl. Rhannwyd holiadur i sefydlu gwaelodlin defnydd iaith ymysg swyddogion ac, yn dilyn dadansoddi'r canlyniadau, paratowyd cynllun gweithredu ar gyfer yr adran.
- Rhwydwaith o bencampwyr iaith wedi'u hadnabod o fewn yr adran Tai er mwyn perchnogi'r rhaglen dreigl a chreu cyfleoedd anffurfiol i swyddogion glywed ac ymarfer y Gymraeg yn y gwaith.
- Cyfarfodydd rheolaidd wedi eu cynnal er mwyn cefnogi'r pencampwyr iaith.
- Adnoddau wedi eu paratoi a'u rhannu er mwyn cefnogi'r pencampwyr iaith, yn cynnwys banc o dermau'n ymwneud â'r maes Tai, adnoddau iaith gwaith ac arweiniad ar ddefnyddio meddalwedd geiriadur a gwirio sillafu CysGair a Cysill.
- Pecyn cynhwysfawr o hyfforddiant wedi ei ddarparu i swyddogion yn cynnwys ymwybyddiaeth iaith, datblygu sgiliau a gloywi iaith, cadeirio cyfarfodydd dwyieithog, ac ar safonau'r Gymraeg a'r cynnig rhagweithiol.
- Cynllun gweithredu wedi ei baratoi gan y gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â fframwaith Llywodraeth Cymru, Mwy na geiriau.
- Gwaith i godi ymwybyddiaeth o'r cynnig rhagweithiol wedi ei gynnal drwy raglenni hyfforddi ac anwytho swyddogion gwasanaethau Cymdeithasol.
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi penodi tiwtor iaith llawn amser o fis Ionawr 2017.

## Maes blaenoriaeth tri: Y gymuned

- Gwefan gorfforaethol y Cyngor wedi ei hadnewyddu i geisio denu unigolion yn ôl i Ynys Môn i weithio.
- Pecynnau croeso ar gyfer Ynys Môn wedi'u comisiynu a threfniadau mewn lle gan Menter Iaith Môn i'w dosbarthu i'r gynulleidfa darged.
- Gwirfoddolwyr wedi cyfrannu at baratoadau Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn 2017.



Drafft

- Cyfrifoldeb am ddeunydd marchnata’r canolfannau hamdden wedi ei drosglwyddo i Swyddog Marchnata a Recriwtio er mwyn sicrhau bod gwasanaethau’n cael eu marchnata’n ddwyieithog.
- Cynnydd tuag at sicrhau bod holl beiriannau hunanwasanaeth y canolfannau hamdden gweithredu’n ddwyieithog.
- Sgôp dechreuol ar gyfer y Canllaw Cynllunio Atodol wedi ei baratoi ar gyfer archwiliad cyhoeddus o’r Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd.
- 91 o dai gwag tymor hir o fwy na 6 mis wedi dod yn ôl i ddefnydd.
- Cyflenwad o 19 o dai Cyngor wedi ei hychwanegu i stoc tai Ynys Môn.
- 10 ty fforddiadwy wedi eu marchnata ar safle Tai Teg.

Drafft

# 5. Adroddiad cynnydd blwyddyn dau

Ar ddiwedd ail flwyddyn y strategaeth, rhoddwyd statws o felyn i gynnydd gwaith y cynllun gweithredu.

Mae’r canlynol yn crynhoi deilliannau’r cynllun gweithredu yn erbyn bob maes blaenoriaeth ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2017/18.

## Maes blaenoriaeth un: Plant, pobl ifanc a’r teulu

- 70% o ysgolion wedi cyrraedd statws arian y Siarter Iaith.
- 88.3% o ddisgyblion cyfnod sylfaen wedi derbyn asesiad Cymraeg iaith gyntaf, sef gynnydd o 15.6% ers 2017.
- Cynnydd o 10% mewn defnydd cymdeithasol o’r Gymraeg yn ôl data holiaduron gwe iaith.
- Pob ysgol yn cynllunio ac yn gweithredu’n addas ar gyfer anghenion ieithyddol.
- Adroddiadau Estyn yn nodi bod bron bob un ysgol sy’n cael eu harolygu yn gwneud cynnydd da i hyrwyddo’r Gymraeg a Chymreictod.
- Cynlluniau’n deillio o arian grant datblygu’r gweithlu wedi’u gwireddu ac wedi cael effaith ar hyrwyddo gweth trosglwyddo’r Gymraeg yng nhalgylch Caergybi.
- Cydlynydd wedi ei benodi i fonitro cynnydd darpariaeth cyfrwng Cymraeg Ysgol Cybi a sicrhau bod anghenion staff dysgu yn cael eu hadnabod.
- Isafswm o 200 o sesiynau (pum sesiwn yr wythnos) ar gyfer rhieni wedi eu cynnal gan Menter Iaith Môn am fanteision dwyieithrwydd i’w plant.
- 150 o deuluoedd cymysg eu hiaith wedi eu targedu gan Menter Iaith Môn â sylw un-i-un ac adnoddau am fanteision dwyieithrwydd.
- Gweithrediad cynlluniau gweithredu clybiau ieuenctid wedi ei arsylwi gan bum swyddog ardal y gwasanaeth Ieuenctid.

## Maes blaenoriaeth dau: Y gweithle, gwasanaethau Cymraeg a’r seilwaith

- 100% o staff newydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn derbyn sesiwn gynefino ar ofynion safonau’r Gymraeg a fframwaith Mwy na geiriau.
- Gwaith dwys yn parhau gyda’r gwasanaeth Tai fel rhan o’r rhaglen dreigl i gynyddu’r defnydd o’r Gymraeg yng ngweinyddiaeth y Cyngor.
- Rhaglen dreigl wedi ei hymestyn i adrannau gwasanaeth Hamdden a Gwachod y Cyhoedd. Gwaelodlin defnydd iaith wedi ei sefydlu a chynlliau gweithredu wedi eu paratoi ar gyfer y ddwy adran.
- Pecyn cynhwysfawr o hyfforddiant wedi ei ddarparu i swyddogion yn cynnwys ymwybyddiaeth iaith, datblygu sgiliau a gloywi iaith, cadeirio cyfarfodydd dwyieithog, ac ar safonau’r Gymraeg a’r cynnig rhagweithiol.
- Pencampwyr iaith wedi eu hadnabod mewn tri chyngor tref a chymuned.
- Targedau'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol ar gyfer Ynys Môn wedi eu cyflawni.

- Crynodeb o ofynion safonau’r Gymraeg a fframwaith Mwy na Geiriau wedi ei baratoi ar gyfer swyddogion Uned Ddarparu y gwasanaethau Cymdeithasol.

## Maes blaenoriaeth tri: Y gymuned

- Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn wedi ei fabwysiadu.
- Gwaith adeiladu 30 o dai cyngor newydd wedi dechrau.
- 60 o dai gwag tymor hir o fwy na 6 mis wedi dod yn ôl i ddefnydd.

Drafft

# 6. Adroddiad cynnydd blwyddyn tri

Ar ddiwedd trydydd blwyddyn y strategaeth, rhoddwyd statws o felyn i gynnydd gwaith y cynllun gweithredu.

Mae'r canlynol yn crynhoi deilliannau'r cynllun gweithredu yn erbyn bob maes blaenoriaeth ar ddiwedd y flwyddyn academaidd 2018/19.

## Maes blaenoriaeth un: Plant, pobl ifanc a'r teulu

- 87.5% o ddisgyblion cyfnod sylfaen wedi derbyn asesiad Cymraeg iaith gyntaf. Amlygodd ddata cenedlaethol bod gostyngiad cyffredinol wedi bod yn nifer y disgyblion cynradd a dderbyniodd asesiad o'r fath o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Y prif reswm am hyn oedd newid i ddeilliannau iaith newydd, heriol, fel rhan o fframwaith asesu'r cyfnod sylfaen. Adlewyrchwyd y gostyngiad cenedlaethol yng nghanlyniadau Ynys Môn.
- Yn 81% o'r ysgolion sydd yn asesu trwy gyfrwng y Gymraeg dangosodd y data gynnydd da rhwng yr asesiad ar fynediad i'r ysgol a'r asesiad ar diwedd y cyfnod sylfaen. Y cynnydd cenedlaethol disgwyliedig ar gyfer dusgyblion oedd tri deilliant o fewn y cyfrnod. Roedd y cyfartaledd cynnydd yn Ynys Môn o 3.67 deilliant tros y cyfnod yn uwch na'r disgwyl.
- 86.7% o ddisgyblion cyfnod allweddol dau wedi derbyn asesiad Cymraeg iaith gyntaf, sef cynnydd o 5.5% ers 2017.
- 72.5% o ddisgyblion cyfnod allweddol tri wedi derbyn asesiad Cymraeg iaith gyntaf, o gymharu â 69.9% yn 2018.
- Hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith wedi ei ddarparu i ddisgyblion blwyddyn 10 Ysgol Uwchradd Caergybi gan y Mudiad Meithrin er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg fel sgil pwysig i'r gweithlu gofal plant.
- Hyfforddiant trochi wedi ei ddarparu yn ystod cynhadledd iaith i ysgolion.
- 100% o ddisgyblion yr unedau iaith wedi llwyddo i gyrraedd lefel dau neu well mewn Cymraeg llafar ar ddiwedd tymor yr haf. 88% wedi llwyddo i gyrraedd yr un lefel mewn Cymraeg ysgrifenedig a 75% mewn darllen.
- Targed o gynnal isafswm o 150 o sesiynau Cymraeg i Blant yn Llangefni, Amlwch, Caergybi a Rhosneigr wedi ei gyflawni.
- Rhaglen o sesiynau Clwb Cwtsh wedi eu cynnal yn Ysgol y Tywyn, Llanfihangel-yn-Nhowyn, Y Fali, Caergybi a Chemaes.
- Tri chylch meithrin newydd wedi eu hagor fel rhan o gynllun sefydlu a symud y Mudiad Meithrin, sef Y Tywyn, Ysgol Bro Santes Dwynwen a Llangoed.
- 150 o deuluoedd cymysg eu hiaith a 150 o deuluoedd di-gymraeg wedi eu targedu gan Menter Iaith Mon gyda gwybodaeth ac adnoddau am fanteision dwyieithrwydd i'w plant.
- 600 o sgyrsiau wedi eu cynnal gan Menter Iaith Môn â rhieni am fanteision dwyieithrwydd i'w plant.
- Cynhaliwyd cyfarfod o'r Bartneriaeth Cymraeg i Deuluoedd (is-grŵp o Fforwm Iaith Ynys Môn) pob chwater er mwyn gwella cydweithio rhwng partneriaid sy'n gweithio a theuluoedd yr ardal.
- 20 ymweliad gan Menter Iaith Môn i hyrwyddo apiau Cymraeg i blant.



Draft

- Gwybodaeth am fanteision addysg a gofal cyfrwng Cymraeg, Cymraeg i Blant wedi ei ddosbarthu i ddarpar rieni gan ymwelwyr iechyd, bydwragedd a'r gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd.
- 5 cylch meithrin wedi ymrwymo i hyrwyddo cysondeb ieithyddol a'r defnydd cywir o batrymau ieithyddol fel rhan o gynllun trochi iaith y Mudiad Meithrin, Croesi'r Bont.
- Rhaglen Seren Iaith i gynyddu ymwybyddiaeth a defnydd o'r Gymraeg yn gymdeithasol wedi ei beilota'n llwyddiannus gan Grŵp Llandrillo Menai.
- Darlithwyr Coleg Menai wedi adrodd eu bod yn fwy hyderus yn addysgu cyrsiau dwyieithog yn y meysydd iechyd a gofal, gwasanaethau cyhoeddus a chwaraeon.
- Cynnydd wedi ei wneud i gyflawni targed y gwasanaeth Hamdden o gynnal 90% o wersi nofio yn Gymraeg. Hyn yn cynnwys hyfforddiant iaith Gymraeg i un hyfforddwr nofio.
- Cynllun gweithredu mewn lle ar gyfer pob clwb ieuenctid.
- Pob un o alldeithiau gwobr Dug Caeredin, a'r dystiolaeth a'r adrodd yn ôl gan fynychwyr yn Gymraeg.
- Cyfrifon cyfryngau cymdeithasol Twitter ac Instagram dwyieithog wedi eu sefydlu gan y gwasanaeth ieuenctid a chynnydd o 50% yn nifer dilynwyr eu tudalen Facebook.
- 50 o weithgareddau diwylliannol, 70 o weithgareddau cymdeithasol a 50 o weithgareddau chwaraeon wedi eu cynnal gan yr Urdd.
- 50 o weithgareddau diwylliannol, 70 o weithgareddau cymdeithasol, 10 o weithgareddau chwaraeon ac eisteddfod lwyddiannus wedi eu cynnal gan y Ffermwyr Ifanc.
- 150 o sesiynau wedi eu cynnal gan Theatr Ieuenctid Môn.
- Sioe deithiol yr Urdd wedi ymweld â phob ysgol uwchradd.
- Clwb cinio wedi ei gynnal gan yr Urdd yr Ysgol Uwchradd Caergybi ynghyd â gweithagreddau tymhorol yn y bedair ysgol uwchradd arall.

## Maes blaenoriaeth dau: Y gweithle, gwasanaethau Cymraeg a'r seilwaith

- 60 o staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi mynychu cwrs codi hyder yn Nant Gwrtheyrn a 75 o staff wedi cwblhau cwrs 10 awr ar lein.
- Canllaw gweinyddu mewnol ac arweiniad ar ddynodi lefel sgiliau iaith Gymraeg sywddi wedi eu llunio ar gyfer gweithlu'r Cyngor.
- Pecyn cynhwysfawr o hyfforddiant wedi ei ddarparu i swyddogion yn cynnwys ymwybyddiaeth iaith, datblygu sgiliau a gloywi iaith, cadeirio cyfarfodydd dwyieithog, ac ar safonau'r Gymraeg a'r cynnig rhagweithiol.
- 31 o bencampwyr iaith wedi ei hadnabod yn y dair adarn gwasanaeth sy'n rhan o'r rhaglen dreigl i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yng ngweinyddiaeth y Cyngor.
- Cefnogaeth ddwys wedi ei rhoi i'r dair adran sy'n rhan o'r rhaglen dreigl.
- Awr Gymraeg wedi ei chynnal pob bore Mercher gan yr adran Tai.
- Ymgyrch gair y dydd a chychwyn pob sgwrs yn Gymraeg wedi ei gynnal gan adran Gwarchod y Cyhoedd.
- Bathodynnau iaith gwaith wedi eu brodio ar wisg swyddogion yr adran Hamdden.

- Manylion cyswllt pencampwyr iaith yr adran Tai wedi ei cynnwys ar bosteri ac yn newyddlen y gwasanaeth.
- Cwisiau a sesiynau paned a sgwrs wedi eu cynnal yn rheolaidd.
- Offer ac eitemau swyddfa wedi eu labelu ag enwau Cymraeg i gynorthwyo dysgwyr.

## Maes blaenoriaeth tri: Y gymuned

- Cyflwyno tystiolaeth fel rhan o broses gorchymyn cydsyniad datblygu Wylfa Newydd am bwysigrwydd datblygu gweithlu a swyddi lleol, cefnogi cadwynau cyflenwi lleol ac etifeddiaeth.
- Cefnogaeth ddwys wedi ei rhoi i bum busnes gan Menter Iaith Môn.
- Cynlluniau gweithredu dwys i hyrwyddo’r Gymraeg wedi eu datblygu gan 10 busnes newydd gyda chymorth Menter Iaith Môn.
- Proffil ieithyddol o Ynys Môn wedi ei lunio.
- 20 tŷ wedi eu prynu er mwn ychwanegu i stoc tai’r Cyngor.
- Gwaith adeiladu 40 o dai cyngor newydd wedi dechrau.
- 10 tŷ fforddiadwy wedi eu marchnata ar safle Tai Teg.
- 5% o gynnydd yn arlwy Cymraeg MônFM o gymharu â lefel gwaelodlin 2018.
- 50% o erthyglau a chyhoeddiadau MônFM yn Gymraeg yn unol ag amodau ei drwydded ddarlledu.
- Cylch gorchwyl Fforwm Iaith Ynys Môn wedi ei adolygu.



Draft

# 7. Adroddiad cynnydd blwyddyn pedwar

Ar ddiwedd pedwaredd flwyddyn y strategaeth, rhoddwyd statws o felyn i gynnydd gwaith y cynllun gweithredu. Roedd cydnabyddiaeth ymysg aelodau Fforwm Iaith Ynys Môn na lwyddwyd i gwblhau nac i gynnal gweithgareddau wyneb yn wyneb yn ystod y cyfnod oherwydd cyfyngiadau'r pandemig COVID-19. Mynegwyd pryder am effaith y cyfnod clo ar niferoedd sy'n mynychu darpariaethau cymunedol fel y clybiau ieuenctid, gweithgareddau'r Urdd a'r Ffermwyr Ifanc.

Effeithiwyd ein cynlluniau i gynyddu defnydd o'r yng ngweinyddiaeth y Cyngor o ganlyniad i ymbellhau cymdeithasol a'r newid i weithio o bell.

Mae'r canlynol yn crynhoi deilliannau'r cynllun gweithredu yn erbyn bob maes blaenoriaeth ar ddiwedd y flwyddyn academaidd 2019/20.

## Maes blaenoriaeth un: Plant, pobl ifanc a'r teulu

- Bore hwyl wedi ei gynnal gan y Cyngor yn cynnwys sesiynau gan Menter Iaith Môn. Yn benodol, sesiwn ymwybyddiaeth iaith i rieni maeth; tri sesiwn i hyrwyddo defnyddio apiau Cymraeg mewn lleoliadau gofal plant; a sesiwn hyfforddi i 11 o ymarferwyd blynyddoedd cynnar ar ddefnyddio apiau Cymraeg gyda phlant.
- Saith digwyddiad i rieni am fanteision trochi iaith i blant wedi eu cynnal gan Menter Iaith Môn rhwng Ionawr a dechrau'r cyfnod clo ym mis Mawrth 2020. 16 o rieni ar gyfartaledd yn bresennol ym mhob digwyddiad.
- Hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith wedi ei ddarparu gan Menter Iaith Môn i 14 o swyddogion Medrwn Môn.
- Dathliadau cyfrwng Cymraeg Dydd Gŵyl Dewi Menter Iaith Môn wedi eu ehangu.
- 25 busnes wedi elwa o gefnogaeth swyddog Helo Blod Menter Iaith Môn i ddefnyddio'r Gymraeg am y tro cyntaf.
- Gwybodaeth am y gwasanaeth Helo Blod wedi ei rannu â 70 o fusnesau.
- 48 o sesiynau wedi eu cynnal gan Theatr Ieuenctid Môn rhwng Ionawr a dechrau'r cyfnod clo ym mis Mawrth 2020.
- 21 o ddisgyblion ysgol wedi mynychu cyfarfod cyntaf o Fforwm Iaith ardal Caergybi fel rhan o weithredu fframwaith y Siarter Iaith. Roedd mynychwyr y cyfarfod yn cynnwys dau ddisgybl o bob ysgol a chafwyd trafodaeth ar sut i annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y gymuned a gan fusnesau.
- Enillodd un o swyddogion y gwasanaeth Ieuenctid wobr Dysgwr Cymraeg y flwyddyn yng ngwobrau rhagoriaeth y Cyngor.
- Dros 1,000 o bobl ifanc wedi mynychu gig rhithiol a drefnwyd gan yr Urdd, Ffermwyr Ifanc a'r gwasanaeth Ieuenctid trwy grant cymorth ieuenctid Llywodraeth Cymru i ddathlu dydd Gŵyl Dewi.



Draft

- 25 o sesiynau ar bwysigrwydd y Gymraeg fel sgil ar gyfer y byd gwaith wedi eu cynnal mewn clybiau ieuenctid.

## Maes blaenoriaeth dau: Y gweithle, gwasanaethau Cymraeg a'r seilwaith

- Cynhaliwyd cyfarfodydd y Cyngor Sir, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Cynllunio gyda gwasanaeth cyfieithu yn cael ei ddarparu gan Uned Gyfieithu'r Cyngor trwy blatfform cyfarfod rithiol.
- Pecyn cynhwysfawr o hyfforddiant wedi ei ddarparu i swyddogion yn cynnwys ymwybyddiaeth iaith, datblygu sgiliau a gloywi iaith, cadeirio cyfarfodydd dwyieithog, ac ar safonau'r Gymraeg a'r cynnig rhagweithiol.

## Maes blaenoriaeth tri: Y gymuned

- Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf o bencampwyr iaith cynghorau trerf a chymuned dan weinyddiaeth y Cyngor.
- Cwblhawyd gwaith ar 49 dai cymdeithasol newydd.
- Ychwanegwyd 20 o dai fforddiadwy i'r stoc tai Cyngor.
- Cofrestrodd 141 o ymgeiswyr o Ynys Môn ar wefan Tai Teg.
- Cwblhawyd adeiladu 21 o dai Cyngor.
- Cychwynnwyd adeiladu 34 o dai Cyngor newydd.
- Prynwyd ac adnewyddwyd tri thŷ er mwyn eu gwerthu ymlaen fel rhan o gynllun rhannu ecwiti. Gwerthwyd dau o'r tai yn ystod y cyfnod.
- Parhaodd Fforwm Iaith Ynys Mon i gyfarfod yn rhithiol trwy gyfnod y pandemig COVID-19.

Draft

# 8. Adroddiad cynnydd blwyddyn pump

Parhaodd gyfyngiadau'r pandemig COVID-19 i effeithio ar gynlluniau blwyddyn olaf y strategaeth. Roedd gweithgarwch y cyfnod yn sylweddol is o ganlyniad.

Mae'r canlynol yn crynhoi deilliannau'r cynllun gweithredu yn erbyn bob maes blaenoriaeth ar ddiwedd y flwyddyn academaidd 2020/21.

## Maes blaenoriaeth un: Plant, pobl ifanc a'r teulu

- Adroddiad ar gynllun strategol y Gymraeg mewn addysg y Cyngor wedi ei ddarparu i Lywodraeth Cymru.
- Mewnrwyd caru iaith wedi ei chreu ar gyfer y gweithlu addysg er mwyn hwyluso cydweithio ar gynllun strategol y Gymraeg mewn addysg a chynlluniau eraill yn ymwneud â'r iaith.
- Aelodau o'r gweithlu addysg wedi mynychu cyrsiau sabothol y Gymraeg.
- Datblygodd y canolfannau iaith ddarpariaeth trochi iaith o bell dros y cyfnod clo croesawyd dysgwyr yn ôl ym mis Tachwedd 2020 a mis Mawrth 2021.
- Cynllun carlam ar gyfer y Gymraeg wedi ei gynhyrchu ar y cyd gyda GwE, Siarter Iaith a'r adran Dysgu. Hyfforddiant torfol ar y cynllun wedi ei gynnal a safle we i gefnogi'r cynllun ar gael i bob ysgol.
- Lluniodd Fforwm Iaith Mon a'r adran Dysgu ymateb i ymgynghoriad ar ail-gategoreiddio ysgolion yn seiliedig ar iaith.

## Maes blaenoriaeth dau: Y gweithle, gwasanaethau Cymraeg a'r seilwaith

- Pecyn cynhwysfawr o hyfforddiant wedi ei ddarparu i swyddogion yn cynnwys ymwybyddiaeth iaith, datblygu sgiliau a gloywi iaith, cadeirio cyfarfodydd dwyieithog, ac ar safonau'r Gymraeg a'r cynnig rhagweithiol.
- Gwaith wedi dechrau i ail-afael yn y cynllun dreigl i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yng ngweinyddiaeth y Cyngor a'i addasu i amodau gwaith rhithiol. Hyn yn cynnwys ymestyn y rhaglen dreigl i dair adran gwasanaeth newydd, sef Cyllid, Rheoleiddio a Datblygu Economaidd a gwasanaethau Oedolion.
- Gwaith wedi dechrau i adnabod pencampwyr iaith newydd ymysg swyddogion y cyngor.

## Maes blaenoriaeth tri: Y gymuned

- Proffil iaith cynhwysfawr o sefyllfa'r Gymraeg ar Ynys Môn wedi ei gynhyrchu gan Menter Iaith Môn gyda chymorth aelodau Fforwm Iaith Môn.

# 9. Casgliad

Mae'n glir o'r adroddiadau cynnydd bod gwaith sylweddol wedi ei gyflawni o ganlyniad i weithredu'r strategaeth. Gwnaethom gynnydd da yn erbyn nifer o'r dangosyddion. Mewn perthynas â'r maes blaenoriaeth gyntaf, llwyddom i sicrhau bod pob un o'n hysgolion wedi rhoi blaenoriaeth i weithredu fframwaith y Siarter Iaith fel rhan o'u cynlluniau datblygu. Rhagorwyd ein targedau ar gyfer sicrhau bod disgyblion cynradd o'r cyfnod sylfaen i gyfnod allweddol tri yn derbyn asesiad Cymraeg iaith gyntaf erbyn trydedd flwyddyn y strategaeth. Llwyddom hefyd i gynnyddu nifer y gwersi nofio a gynhaliwyd yn Gymraeg.

Mewn perthynas â'r ail faes blaenoriaeth, gwnaethom gynnydd da yn y defnydd o'r Gymraeg o fewn ein gweinyddiaeth trwy gydweithio a chefnogi swyddogion yr adrannau Tai, Gwarchod y Cyhoedd a Hamdden fel rhan o'r rhaglen dreigl. Darparom becyn cynhwysfawr o hyfforddiant iaith Gymraeg i'n swyddogion a chynhaliwyd nifer o sesiynau ymwybyddiaeth iaith.

Mabwysiadom Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd gyda Chyngor Gwynedd ac o'i weithredu, gwnaethom gynnydd tuag gyflawni amcanion y trydydd maes blaenoriaeth yn ymwneud â'r gymuned. Fel rhan o'n rhaglen adeiladu ac adnewyddu tai ychwanegwyd dros 200 o dai fforddiadwy i'r stoc leol. Dychwelwyd nifer o dai gwag hir dymor yr ynys yn ôl i ddefnydd parhaol.

Fodd bynnag, mae'n glir bod cyfyngiadau'r pandemig COVID-19 wedi effeithio momentwm y gwaith yn sylweddol yn ystod dwy flynedd olaf y strategaeth. Rhoddwyd stop ar nifer o'r gweithgareddau cymdeithasol sy'n creu cyfleoedd gwerthfawr i blant, pobl ifanc ac oedolion glywed a defnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd yn ein cymunedau. Effeithiwyd ein rhaglen dreigl gan y newid i weithio rhithiol a llesteiriwyd cyfleoedd i swyddogion ddefnyddio'r iaith yn anffurfiol yn y gwaith, mewn sesiynau paned a sgwrs er enghraifft. Daeth y gwaith o asesu gallu ieithyddol disgyblion i ben o ganlyniad i'r cyfnodau clo.

Yn ogystal ag effeithiau'r pandemig, un o brif rwystrau paratoi'r asesiad hwn yw'r diffyg data cyfredol am nifer y siaradwyr Cymraeg ar Ynys Môn. Yn absenoldeb data cyfredol o'r cyfrifiad, ni allwn fesur yn llawn ein cynnydd yn erbyn targed y strategaeth o gynyddu nifer siaradwyr Cymraeg yr ardal i 60.1% o'r boblogaeth, fel ag yr oedd yn ystod cyfnod Cyfrifiad 2001. Ni fyddwn yn gwybod a lwyddom i gwrdd â'r targed hyd nes cyhoeddi data Cyfrifiad 2021 yn ystod 2022 a 2023.

Mae canlyniadau'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Arolwg Cenedlaethol Cymru a'r Arolwg Defnydd Iaith a gyhoeddwyd yn ystod 2021 yn awgrymu bod lle i ni deimlo'n optimistaidd. Dangosodd y tri arolwg gynnydd cenedlaethol mewn gallu cyfranogwyr yn y Gymraeg ac agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith. Roedd canlyniadau'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth mewn perthynas ag Ynys Môn yn galonogol gan ddangos bod 66.3% wedi adrodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Fodd bynnag, mae canlyniadau'r arolygon hyn yn dueddol o ffurfio darlun mwy optimistaidd o sefyllfa'r Gymraeg o gymharu â chanlyniadau'r cyfrifiad. Am y rheswm hwn nid yw Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio i fesur cynnydd tuag at ei tharged o filiwn o siaradwyr Cymraeg.

Data'r cyfrifiad yw'r ffynhonnell bwysicaf, fwyaf cynhwysfawr, o wybodaeth am nifer y siaradwyr Cymraeg yn ein hardal. Er bod y data sydd wedi ei chynnwys yn yr atodiad yn dangos bod nifer y siaradwyr Cymraeg wedi aros yn gymharol statig ers 1961, wrth i boblogaeth yr ardal gynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn mae nifer y siaradwyr fel canran o'r boblogaeth wedi gostwng yn gyson. Mae angen i ni fod yn realistig a pharatoi am newid dyfnach i ddemograffeg yr ynys o ganlyniad i effeithiau'r pandemig COVID-19. Mae'r ffactorau posib yn cynnwys ffyniant y farchnad dai, mwy o fuddsoddiad mewn ail gartrefi a chartrefi gwyliau, gweithio o bell sy'n caniatáu adleoli o ardaloedd trefol i ardaloedd gwledig ac arfordirol.

Bydd gweithredu ein hail strategaeth hybu o 2021 hyd at 2026 yn caniatáu i ni gyfarch yr heriau uchod. Ein bwriad yw adeiladu ar sylfeini ein strategaeth gyntaf a byddwn yn fwriadol yn cadw at ein targed ar gyfer cynyddu nifer siaradwyr Cymraeg ein hardal. Yn dilyn dadansoddi canlyniadau Cyfrifiad 2021 yn llawn byddwn yn ail-ymweld â'r strategaeth er mwyn deall a lwyddom i gwrdd â'n targed, bod ein targed yn briodol wrth symud ymlaen a bod ein cynlluniau'n ymateb yn ddigonol i unrhyw newidiadau i ddynameg ieithyddol yr ynys.


Draft

# 10. Atodiad: Nifer y siaradwyr Cymraeg ar Ynys Môn

## Data’r cyfrifiad

10.1 Y ffynhonnell bwysicaf, fwyaf cynhwysfawr, o wybodaeth am nifer y siaradwyr Cymraeg yn ein hardal yw’r cyfrifiad. Mae’r data a gasglwyd ers 1961 yn dangos bod nifer y siaradwyr yma wedi aros yn gymharol statig. Fodd bynnag wrth i boblogaeth yr ynys gynyddu, mae’r nifer wedi lleihau’n gyson fel canran o'r boblogaeth.

10.2 **Siart: Poblogaeth a niferoedd siaradwyr Cymraeg 1961-2011**




| | 1961 | 1971 | 1981 | 1991 | 2001 | 2011 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm poblogaeth | 49156 | 56450 | 63760 | 66525 | 64742 | 67403 |
| Siaradwyr Cymraeg | 37101 | 37090 | 39295 | 41240 | 38971 | 38568 |

10.3 Er i’r cyfrifiad diweddaraf gael ei gynnal yn 2021, ni fydd data sylweddol newydd ar gael i ni nes dadansoddi’r canlyniadau yn ystod 2022 a 2023. Felly, mae’r dadansoddiad canlynol o nifer y siaradwyr Cymraeg ar Ynys Môn yn ôl oedran yn seiliedig ar ddata Cyfrifiad 2011.


10.4 Poblogaeth Ynys Môn yn 2011 oedd 67,403. Yn ôl ffigyrau’r cyfrifiad fe ostyngydd nifer siaradwyr Cymraeg yr ynys o 38,893 (60.1%) yn 2001 i 38,568 (57.2%) yn 2011. Roedd y gostyngiad hwn o 325 o unigolion hwn gyfystyr â gostyngiad o 0.8% yn nifer siaradwyr Cymraeg yr ardal.

### 10.5 **Tabl: Nifer a chanran siaradwyr Cymraeg (tair oed a throsodd) yn ôl grŵp oedran, 2011**

| Grŵp oedran | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| 3-4 | 827 | 54.1% |
| 5-15 | 6,394 | 80.1% |
| 16-19 | 2,196 | 71.3% |
| 20-24 | 2,467 | 63.9% |
| 25-39 | 6,635 | 60.3% |
| 40-49 | 4,992 | 53.2% |
| 50-59 | 4,755 | 50.4% |
| 60-64 | 2,557 | 46.8% |
| 65-74 | 4,080 | 47.6% |
| 75+ | 3,665 | 51.8% |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, tabl DC2203WA*

### 10.6 **Siart: Cyfran siaradwyr Cymraeg (tair oed a throsodd) yn ôl grwp oedran, 2001 a 2011**




*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001, tabl CS146; Cyfrifiad 2011, tabl DC2203WA*

### 10.7 Tabl: Cyfran siaradwyr Cymraeg (tair oed a throsodd) fesul ward, 2001 a 2011

| Ward | 2001 | | 2011 | | Newid 2001-2011 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Mewn nifer | Mewn canran | Mewn pwynt canran |
| Aberffraw | 972 | 76.8% | 961 | 71.6% | -11 | -1.1% | -5.2% |
| Amlwch – Ward y Porth* | 1,035 | 76.8% | 1,862 | 77.1% | * | * | * |
| Amlwch – Ward Wledig | 799 | 66.4% | 798 | 64.3% | -1 | -0.1% | -2.1% |
| Biwmares | 1,123 | 56.4% | 1,082 | 57.2% | -41 | -3.7% | 0.8% |
| Bodffordd | 1,249 | 83.8% | 1,208 | 80.7% | -41 | -3.3% | -3.1% |
| Bodorgan | 1,183 | 78.8% | 1,255 | 75.8% | 72 | 6.1% | -3.0% |
| Braint | 1,206 | 83.5% | 1,205 | 81.8% | -1 | -0.1% | -1.7% |
| Bryngwran | 1,326 | 81.8% | 1,441 | 78.3% | 115 | 8.7% | -3.5% |
| Brynteg | 1,071 | 60.4% | 1,065 | 58.3% | -6 | -0.6% | -2.1% |
| Cadnant | 641 | 61.6% | 721 | 59.8% | 80 | 12.5% | -1.8% |
| Cefni | 1,220 | 88.1% | 1,254 | 87.0% | 34 | 2.8% | -1.1% |
| Cwm Cadnant | 1,473 | 67.6% | 1,529 | 69.8% | 56 | 3.8% | 2.2% |
| Cyngar | 1,503 | 89.4% | 1,702 | 87.3% | 199 | 13.2% | -2.1% |
| Gwyngyll | 1,233 | 81.5% | 1,223 | 78.9% | -10 | -0.8% | -2.6% |
| Caergybi – Ward y Dref | 636 | 61.0% | 691 | 60.4% | 55 | 8.6% | -0.6% |
| Kingsland | 912 | 66.4% | 943 | 64.6% | 31 | 3.4% | -1.8% |
| Llanbadrig | 881 | 65.1% | 838 | 63.7% | -43 | -4.9% | -1.4% |
| Llanbedrgoch | 860 | 55.2% | 789 | 52.9% | -71 | -8.3% | -2.3% |
| Llanddyfnan | 968 | 76.8% | 930 | 72.5% | -38 | -3.9% | -4.3% |
| Llaneilian | 1,479 | 68.1% | 1,515 | 69.0% | 36 | 2.4% | 0.9% |
| Llanfaethlu | 1,121 | 73.7% | 1,153 | 72.4% | 32 | 2.9% | -1.3% |
| Llanfair-yn-Neubwll | 1,537 | 59.0% | 1,668 | 60.4% | 131 | 8.5% | 1.4% |
| Llanfihangel Ysgeifiog | 1,661 | 85.1% | 1,630 | 83.6% | -31 | -1.9% | -1.5% |
| Llangoed | 789 | 63.7% | 747 | 61.8% | -42 | -5.3% | -1.9% |
| Llanidan | 1,240 | 76.7% | 1,356 | 76.0% | 116 | 9.4% | -0.7% |
| Llannerch-y-medd | 1,368 | 79.0% | 1,424 | 76.9% | 56 | 4.1% | -2.1% |
| Ffordd Llundain | 1,014 | 70.8% | 946 | 66.5% | -68 | -6.7% | -4.3% |
| Maeshyfryd | 1,331 | 62.3% | 1,396 | 64.1% | 65 | 4.9% | 1.8% |
| Mechell | 1,043 | 70.3% | 1,030 | 68.6% | -13 | -1.2% | -1.7% |
| Moelfre | 670 | 61.1% | 645 | 62.0% | -25 | -3.7% | 0.9% |
| Morawelon | 945 | 63.4% | 915 | 63.2% | -30 | -3.2% | -0.2% |
| Parc a'r Mynydd | 800 | 72.2% | 806 | 72.1% | 6 | 0.8% | -0.1% |
| Pentraeth | 1,191 | 68.8% | 1,210 | 67.1% | 19 | 1.6% | -1.7% |
| Porthyfelin | 1,453 | 65.2% | 1,377 | 63.4% | -76 | -5.2% | -1.8% |
| Rhosneigr | 498 | 52.3% | 483 | 49.5% | -15 | -3.0% | -2.8% |
| Rhosyr | 1,484 | 70.6% | 1,482 | 69.1% | -2 | -0.1% | -1.5% |
| Trearddur | 1,249 | 54.3% | 1,161 | 52.9% | -88 | -7.0% | -1.4% |
| Tudur | 1,284 | 90.2% | 1,335 | 89.3% | 51 | 4.0% | -0.9% |
| Tysilio | 1,522 | 76.3% | 1,528 | 74.2% | 6 | 0.4% | -2.1% |
| Y Fali | 1,564 | 67.0% | 1,575 | 68.7% | 11 | 0.7% | 1.7% |
| **Ynys Môn** | **45,534** | **70.4%** | **46,879** | **69.6%** | **1,345** | **3.0%** | **-0.8%** |
| Cymru | 797,717 | 28.4% | 787,854 | 26.7% | -9,863 | -1.2% | -1.7% |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 – KS25; Cyfrifiad 2011 - Tabl KS208WA*

*Ar gyfer 2001 mae'r ffigwr 'Un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg' wedi'i gyfrifo drwy ddiddymu'r nifer heb unrhyw sgiliau yn y Gymraeg o'r cyfanswm poblogaeth 3+*

**Nodyn: Yn 2001 bu i 450 o ffurflenni'r Cyfrifiad a methu a chael eu prosesu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol a fu arwain i dan gyfrif o 1,035 yn boblogaeth y ward. Golygai hyn y na ellir cymharu ffigyrau 2001 a 2011.*

10.8 O ran sgiliau ehangach yn y Gymraeg, gwelwyd gostyngiad yng nghyfran y boblogaeth tair oed a throsodd sydd â sgiliau yn y Gymraeg rhwng 2001 a 2011.

10.9 **Tabl: Nifer a chanran y bobl (tair oed a throsodd) â sgiliau yn y Gymraeg, 2001 a 2011**

| Sgiliau Cymraeg | 2001 | | 2011 | | Newid 2001-2011 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | Canran | Nifer | Canran | Mewn nifer | Mewn canran | Mewn pwynt canran |
| Yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu | 32,672 | 50.5% | 30,756 | 45.6% | -1,916 | -5.9% | -4.9% |
| Yn gallu siarad a darllen ond ddim yn gallu ysgrifennu | 1,902 | 2.9% | 2,905 | 4.3% | 1,003 | 52.7% | 1.4% |
| Yn gallu siarad ond ddim yn gallu darllen nac ysgrifennu | 4,135 | 6.4% | 4,726 | 7.0% | 591 | 14.3% | 0.6% |
| Yn gallu deall Cymraeg llafar yn unig | 5,649 | 8.7% | 7,215 | 10.7% | 1,566 | 27.7% | 2.0% |
| Cyfuniad arall o sgiliau | 1,176 | 1.8% | 1,277 | 1.9% | 101 | 8.6% | 0.1% |
| Un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg | 45,534 | 70.4% | 46,879 | 69.6% | 1,345 | 3.0% | -0.8% |
| Dim sgiliau | 19,145 | 29.6% | 20,524 | 30.4% | 1,379 | 7.2% | 0.8% |
| Cyfanswm y boblogaeth (3+) | 64,679 | | 67,403 | | 2,724 | 4.2% | |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001, tabl KS025; Cyfrifiad 2011, tabl KS207WA*



Draft

*Ffigwr 'Un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg' wedi'i gyfrifo drwy ddiddymu'r nifer heb unrhyw sgiliau yn y Gymraeg o'r cyfanswm poblogaeth tair oed a throsodd.*

## Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth

10.10 Y prif ddata mewn perthynas â'r Gymraeg ers Cyfrifiad 2011 yw canlyniadau'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth. Cynhelir yr arolwg hwn bob chwarter blwyddyn gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ac mae'n darparu data defnyddiol ar lefel awdurdod lleol er mwyn edrych ar dueddiadau'r Gymraeg rhwng cyfrifiadau.

10.11 Mae amcangyfrifon yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth o ran gallu pobl yn y Gymraeg yn uwch na'r rhai a gynhyrchir gan y cyfrifiad ac am y rheswm hwnnw ni ystyrir ei ganlyniadau mor ddibynadwy â rhai'r cyfrifiad er mwyn cyfri siaradwyr. Mae Llywodraeth Cymru yn glir yn ei strategaeth genedlaethol Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr mai data cyfrifiad yw sail y strategaeth a hefyd sail monitro ac asesu deilliannau yn ôl ei dargedau.

10.12 Trwy gyfweliadau ffôn yn unig y cynhaliwyd yr arolwg o fis Mawrth 2020 ymlaen. O ganlyniad, canfodd y Swyddfa Ystegau Gwladol fod math ychydig yn wahanol o ymatebydd yn cymryd rhan yn yr arolwg. Mae'r sefydliad wedi newid y ffordd y mae'n pwysoli'r arolwg er mwyn cyfrif am hyn ac wedi diwygio ei arolygon ar gyfer y ddau chwater blaenorol, Gorffennaf 2019 i Fehefin 2020 ac Ebrill 2019 i Fawrth 2020.

10.13 Yn gryno, dangosa ganlyniadau'r arolwg gynnydd cyson yn amcangyfrifon y nifer a chanran siaradwyr Cymraeg ar Ynys Môn.[7]

10.14 **Tabl: Nifer a chanran siaradwyr Cymraeg, Medi 2021**

| | Pawb 3 oed a throsodd | Ie, yn gallu siarad Cymraeg | Na, ni all siarad Cymraeg | Canran sy'n dweud eu bod yn siarad Cymraeg |
|---|---|---|---|---|
| Cymru | 3,034,400 | 884,300 | 2,147,800 | 29.2% |
| Ynys Môn | 68,100 | 45,100 | 22,900 | 66.3% |

## Arolwg Cenedlaethol Cymru

10.15 Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn casglu gwybodaeth am allu oedolion 16 oed neu hŷn i siarad Cymraeg, yn ogystal â'u rhuglder a pha mor aml y maent yn siarad yr iaith.

10.16 Yn yr un modd â'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, mae amcangyfrifon yr Arolwg Cenedlaethol o nifer y siaradwyr Cymraeg yn uwch yn hanesyddol na'r rhai a gynhyrchir gan y cyfrifiad.

[7] Llywodraeth Cymru, Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, ar gael yn statscymru.llyw.cymru.

10.17 Caiff data'r arolwg ei ddefnyddio fel ffynhonnell ar gyfer dangosydd cenedlaethol 36 llesiant cenedlaethau'r dyfodol, sef 'Canran y bobl sy'n siarad Cymraeg yn feunyddiol ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg' (ar gyfer oedolion 16 oed neu hŷn).

10.18 **Tabl: Canran o oedolion 16+ sy'n gallu siarad Cymraeg**

| | 2017-18 | | | 2018-19 | | | 2019-20 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Canran o oedolion (16+) | Cyfwng hyder isaf | Cyfwng hyder uchaf | Canran o oedolion (16+) | Cyfwng hyder isaf | Cyfwng hyder uchaf | Canran o oedolion (16+) | Cyfwng hyder isaf | Cyfwng hyder uchaf |
| Cymru | 19% | 19% | 20% | 18% | 17% | 19% | 16% | 15% | 16% |
| Ynys Môn | 61% | 55% | 67% | 53% | 47% | 59% | 55% | 50% | 61& |

10.19 **Tabl: Canran o oedolion 16+ sy'n gallu siarad Cymraeg (gan gynnwys y canran na allant siarad Cymraeg a'r canran gyda rhywfaint o allu i siarad Cymraeg)**

| | 2016-17 | | | 2017-18 | | | 2018-19 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Yn siarad Cymraeg | Na allant siarad Cymraeg | Peth gallu i siarad Cymraeg | Yn siarad Cymraeg | Na allant siarad Cymraeg | Peth gallu i siarad Cymraeg | Yn siarad Cymraeg | Na allant siarad Cymraeg | Peth gallu i siarad Cymraeg |
| Cymru | 20% | 71% | 9% | 19% | 69% | 12% | 18% | 67% | 15% |
| Ynys Môn | 62% | 32% | * | 61% | 34% | * | 53% | 33% | 14% |

## Proffil Iaith Môn

Yn 2021 cyhoeddodd Menter Iaith Môn Broffil Iaith,[8] sef darlun cynhwysfawr o sefyllfa'r Gymraeg ar Ynys Môn yn seiliedig ar amrywiaeth o ffynonellau data ac ymchwil. Mae copi ar gael ar wefan mentermon.com.

[8] Menter Iaith Môn, Proffil Iaith: Darlun o sefyllfa'r Gymraeg ar Ynys Môn, ar gael yn mentermon.com.



Draft

POLISI A’R GYMRAEG

# Strategaeth Hybu’r Gymraeg 2021-2026

Beth fyddwn ni’n ei wneud yn ystod 2021 i 2026 i hybu’r Gymraeg a hwyluso defnyddio’r iaith ar Ynys Môn.

Draft

www.YnysMon.gov.uk

cyngormon

@cyngormon

**Dyddiad cyhoeddi:** [Dyddiad]

This document is available in English

# Strategaeth Hybu'r Gymraeg

**Trosolwg**
Dyma strategaeth Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) ar gyfer hybu'r Gymraeg a hwyluso defnyddio'r iaith ar Ynys Môn. Fe'i paratowyd yn unol â gofynion Atodlen 4 Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015. Mae'r strategaeth hon yn disodli strategaeth hybu gyntaf y Cyngor, Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021. Mae Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2021-2026 yn esbonio sut y mae'r Cyngor yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg a hwyluso defnydd o'r iaith yn ehangach yn ystod y cyfnod pum mlynedd dan sylw.

**Mwy o wybodaeth**
Cyfeiriwch ymholiadau am y ddogfen hon at:

Ffreuer Owen
Rheolwr Polisi a'r Gymraeg
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfa'r Sir
Llangefni
LL77 7TW

Ffôn: 01248 75 00 57
E-bost: FfreuerOwen@ynysmon.gov.uk

**Copïau ychwanegol**
Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y Cyngor yn ynysmon.gov.uk. Gallwch hefyd dderbyn y ddogfen mewn fformatau eraill ar gais gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.

**Dogfennau cysylltiedig**
Hysbysiad cydymffurfio dan Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011; Polisi Iaith Gymraeg; Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021: Asesiad. I gyd ar gael ar wefan y Cyngor yn ynysmon.gov.uk/cy/Cyngor/Safonau-iaith-Gymraeg/Iaith.

Draft

# Cynnwys

Rhagair y deilydd portffolio ........ 1
Ein gweledigaeth ........ 2
Cyd-destun ........ 6
Y Gymraeg ar Ynys Môn ........ 9
Maes blaenoriaeth 1: Plant, pobl ifanc a'r teulu ........ 14
Maes blaenoriaeth 2: Y gweithle, gwasanaethau Cymraeg a'r seilwaith ........ 19
Maes blaenoriaeth 3: Y gymuned ........ 23
Gweithredu'r strategaeth ........ 27
Atodiad 1: Aelodaeth Fforwm Iaith Ynys Môn ........
Atodiad 2: Cynllun gweithredu blwyddyn un ........

Draft

This document is available in English

# Rhagair y deilydd portffolio

Mae gan yr iaith Gymraeg le amlwg ar Ynys Môn. Gyda dros hanner y boblogaeth breswyl yn siarad Cymraeg, mae'r iaith yn fyw yn y cartref, yn y gweithle, ac yn ein cymunedau. Rydym yn hynod falch o'n diwylliant arbennig sy'n gwneud ein hynys yn un o gadarnleoedd yr iaith.

Er hyn, mae'r sefyllfa'n bell o fod yn fêl i gyd. Dangosodd ganlyniadau Cyfrifiad 2011 bod y darlun cenedlaethol o ddirywiad cyson yn berthnasol i ni hefyd. O ran nifer, roedd 325 yn llai o siaradwyr Cymraeg yma yn 2011 o gymharu â 2001, a 0.8% yn llai o ran canran. Dyma'r patrwm cyffredinol ers dros hanner canrif.

Prif her paratoi'r strategaeth hon yw'r diffyg data cyfredol am sefyllfa'r Gymraeg ar Ynys Môn. Cawn wybod beth yw'r sefyllfa bresennol wedi i ddata Cyfrifiad 2021 gael ei gyhoeddi'n llawn yn 2023. Ond, gwyddwn fod yr iaith yn parhau i wynebu heriau hanesyddol fel mudo, pobl ifanc yn symud allan o ardaloedd gwledig i chwilio am waith, a diffyg trosglwyddo'r iaith o un genhedlaeth i'r llall. Ond mae heriau newydd hefyd. Amser a ddengys beth fydd effaith y pandemig coronafeirws ar gymunedau gwledig wrth i weithwyr droi eu cefn ar fywyd dinas a manteisio ar y gallu i weithio o bell.

Yn wyneb yr heriau hyn mae gweithio'n fwriadus i sicrhau bod y Gymraeg yn parhau'n iaith fyw yn ein cymunedau'r un mor bwysig ag erioed. Fel Cyngor Sir Ynys Môn mae'r ewyllys a'r ymroddiad gennym i wneud hynny. Rydym yn croesawu'r cyfle y mae creu'r strategaeth hon wedi rhoi i ni i edrych eto, gyda golwg strategol, ar sefyllfa'r Gymraeg yn lleol. Mae'n allweddol bod digon o gyfleoedd i blant, pobl ifanc, oedolion a theuluoedd i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn yr ysgol, yn y gwaith, mewn busnesau ac mewn amser hamdden. Rydym hefyd am sicrhau bod newydd ddyfodiaid yn ymwybodol o'n diwylliant a bod cyfleoedd ar gael iddynt ddysgu'r iaith.

Mae'r strategaeth hon yn adeiladau ar flaenoriaethau ein strategaeth gyntaf o 2016-2021. Mae'n ffrwyth llafur cydweithio cyson a phwrpasol gyda'n partneriaid allweddol sy'n cyfarfod yn rheolaidd ers nifer o flynyddoedd bellach dan yr enw Fforwm Iaith Ynys Môn. Mae ein diolch hefyd i Fenter Iaith Môn am eu Proffil Iaith cynhwysfawr o sefyllfa'r Gymraeg ar yr ynys sydd wedi bod yn sylfaen gwybodaeth amhrisiadwy wrth baratoi'r strategaeth.

Trwy gydweithio i greu mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith ar Ynys Môn ei nod yw gwyrdroi'r cwymp yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 2011 a chyfrannu'n gadarnhaol at darged cenedlaethol Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr erbyn 2050.



[Llofnod]
**Cynghorydd Ieuan Williams, Dirprwy Arweinydd y Cyngor**
Deilydd Portffolio – Trawsnewid Gwasanaeth a'r Iaith Gymraeg
[Mis] 2021

# Ein gweledigaeth

## O leiaf 325 yn fwy o siaradwyr Cymraeg ar Ynys Môn erbyn 2026

Dyma ein targed ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn ein hardal yn ystod cyfnod y strategaeth hon. Ein nod wrth osod y targed hwn yw gwyrdroi'r cwymp yn nifer y siaradwyr ar yr ynys o 60.1% o'r boblogaeth yn 2001 i 57.2% yn 2011. Mae hyn yn golygu bod angen i ni weithio'n fwriadus i greu'r amodau fydd yn arwain at o leiaf 325 o siaradwyr Cymraeg newydd ar Ynys Môn erbyn 2026.

## Gwireddu'r weledigaeth

Mae'r strategaeth hon yn adeiladu ar sylfeini ein strategaeth gyntaf o 2016-2021 ac rydym yn fwriadol wedi pennu targed sydd yn gyson â tharged y strategaeth flaenorol. Y rheswm dros wneud hyn yw nad yw eto'n glir a lwyddom i gwrdd â'r nod o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg erbyn diwedd cyfnod y strategaeth gyntaf.

Rydym wedi fframio'r targed y tro hwn yn nhermau ffigwr penodol o siaradwyr Cymraeg. Mae hyn oherwydd bod poblogaeth yr ynys yn uwch erbyn hyn nag yr oedd ar adeg gosod y targed yn wreiddiol ar ffurf canran o'r boblogaeth. Cynyddodd boblogaeth Ynys Môn o 2,922 yn ystod y cyfnod rhwng 2001 a 2011 ac mae data sy'n awgrymu bod cynnydd pellach o 1,800 wedi bod yn y 10 mlynedd ers hynny.[1]

Ni fydd canlyniadau Cyfrifiad 2021 ar gael yn llawn tan 2023. Dyma'r data fydd yn cadarnhau'r newid ym maint y boblogaeth ac yn dweud wrthym a fu unrhyw gynnydd neu ddirywiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg. Os yw'r canlyniadau'n dangos ein bod wedi cwrdd â'r targed, nid yw hynny'n golygu gorffwys ar ein bri. Bydd angen gweithio'n galed i sicrhau bod y cynnydd yn nifer y siaradwyr yn cael ei gynnal. Os na chyrhaeddwyd y targed bydd angen i ni weithio i ddeall pam. Am y rhesymau hyn **byddwn yn ail-ymweld â'r strategaeth yn dilyn derbyn dadansoddiad llawn o ddata Cyfrifiad 2021** er mwyn gwneud yn siŵr bod y targed yn addas.

Mae hwn darged ac yn strategaeth ar gyfer Ynys Môn i gyd, ac nid i un sefydliad yn unig. Mae ein llwyddiant yn dibynnu ar gydweithio strategol a phwrpasol gyda'n partneriaid allweddol sydd yn rhan o Fforwm Iaith Ynys Môn.[2] Fel yn achos ein strategaeth gyntaf, ein nod yw canolbwyntio ar lai o flaenoriaethau a sicrhau y gwneir gwahaniaeth. Byddwn hefyd yn adeiladu ar dri maes blaenoriaeth y strategaeth flaenorol ar gyfer gwireddu'r weledigaeth, sef:

1. **Plant, pobl ifanc a'r teulu**
2. **Y gweithle, gwasanaethau Cymraeg a'r seilwaith**
3. **Y gymuned**

[1] Menter Iaith Môn, Proffil Iaith: Darlun o sefyllfa'r Gymraeg ar Ynys Môn (2021), t. 40. Ar gael yn mentermon.com.
[2] Rhestr aelodaeth Fforwm Iaith Ynys Môn, ar gael yn atodiad 1.

| | |
|---|---|
| 1. Plant, pobl ifanc a'r teulu | • Trosglwyddo'r iaith o fewn y teulu<br>• Y blynyddoedd cynnar hyd at bum mlwydd oed<br>• Addysg orfodol<br>• Addysg ôl-orfodol a pharatoi ar gyfer y byd gwaith |
| 2. Y gweithle, gwasanaethau Cymraeg a'r seilwaith | • Gweinyddu mewnol<br>• Hyfforddiant a datblygu sgiliau Cymraeg ein gweithlu<br>• Technoleg<br>• Cynllunio ac annog defnydd o wasanaethau Cymraeg |
| 3. Y gymuned | • Cynllunio gwlad a thref<br>• Tai<br>• Twristiaeth a busnesau<br>• Y di-Gymraeg a newydd ddyfodiaid<br>• Gweithgarwch cymunedol |

O dan bob un o'r tri maes blaenoriaeth byddwn yn ystyried:

- beth ydym ni'n dymuno ei weld ar Ynys Môn,
- beth yw'r rhwystrau i hynny ddigwydd,
- beth sydd angen digwydd nesaf er mwyn sicrhau bod yr hyn rydym ni'n dymuno ei weld yn digwydd, a
- pha ddangosydd y gallwn ni eu defnyddio er mwyn mesur llwyddiant ein hymdrechion.

Wrth roi sylw i'r meysydd blaenoriaeth byddwn hefyd yn ystyriol o themâu strategol Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr er mwyn sicrhau bod ein hymdrechion ni yn lleol yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at gyflawni gweledigaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru. Y themâu strategol yw:

1. **Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg**
2. **Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg**
3. **Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun**

Bydd cefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn allweddol er mwyn gwireddu ein gweledigaeth. Yn fwy na dim, rhaid i ni wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod rhieni yn deall gwerth y Gymraeg a'u bod yn defnyddio'r iaith gyda'u plant. Mae'r data dangos bod angen amgylchynu plant â'r iaith cyn iddyn nhw gyrraedd yr ysgol hyd yn oed os ydym am eu gweld yn datblygu yn siaradwyr Cymraeg rhugl fel oedolion. Dyma lle mae angen i ni ganolbwyntio ein hymdrechion.

Mae ein cyfundrefn addysg lwyddiannus yn golygu bod mwy o siaradwyr Cymraeg yn y grŵp oed 15-19 ar Ynys Môn nag un unrhyw ran arall o'r wlad. Yr her i ni yw sicrhau bod ein pobl ifanc yn manteisio ar y sgiliau a ddysgon nhw yn yr ysgol ac yn parhau i ddefnyddio'r iaith tu hwnt i ddrysau'r ystafell ddosbarth.

Draft

Mae gan y gweithle hefyd rôl bwysig i'w chwarae i gynyddu hyder siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith wrth eu gwaith ac yn eu bywydau personol. Fel prif gyflogwr yr ynys mae gennym ddyletswydd i ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg yn ein gweinyddiaeth fewnol ac i ddatblygu sgiliau iaith ein gweithlu. Byddwn yn adeiladu ar lwyddiant ein rhaglen dreigl chwe blynedd i gynyddu defnydd mewnol o'r Gymraeg ac yn ei ymestyn i adrannau newydd. Byddwn hefyd yn effro i'r cyfleoedd y gall technoleg ei gynnig i gynyddu defnydd o'r iaith. Bydd hyn yn arbennig o bwysig wrth i ni addasu i fywyd wedi'r pandemig COVID-19 a'r pwyslais newydd ar weithio a chyfathrebu'n rhithiol. Rhaid i ni hefyd weithio'n barhaus i godi ymwybyddiaeth o'n gwasanaethau Cymraeg ac annog pobl i'w defnyddio.

Rydym am weld bod gwerth y Gymraeg a manteision defnyddio'r iaith yn cael eu cyfleu i gynulleidfa mor eang â phosib. Mae hyn yn golygu estyn allan i newydd ddyfodiaid i'r ynys, datblygwyr, busnesau a chymunedau sydd â llai o ymwneud â'r iaith o ddydd i ddydd. Byddwn yn defnyddio ein dylanwad i rannu gwybodaeth ac adnoddau i gynyddu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd yr iaith yn lleol. Ein bwriad yw creu ymdeimlad o berthyn lle mae ein holl drigolion yn teimlo perchnogaeth o'r Gymraeg ac yn falch o fyw mewn cymuned fywiog, gwirioneddol ddwyieithog.

## Effaith y pandemig COVID-19

Lluniwyd y strategaeth hon yng nghysgod un o'r digwyddiadau mwyaf i effeithio ein ffordd o fyw a gweithio. Arweiniodd ddatblygiadau yn ystod 2020 a 2021 at bryderon cynyddol am sefyllfa'r Gymraeg yn genedlaethol a galwadau am weithredu i amddiffyn yr iaith. Mae'r ffactorau hyn yn cynnwys ffyniant y farchnad dai, mwy o fuddsoddiad mewn ail gartrefi a chartrefi gwyliau, gweithio o bell sy'n caniatáu adleoli o ardaloedd trefol i ardaloedd gwledig ac arfordirol, ac achosion o enwau tai traddodiadol yn cael eu newid i rai Seisnig newydd. Mae'r effeithiau hyn i gyd yn rhai sydd wedi eu teimlo ar Ynys Môn.

Arweiniodd gyfnodau clo'r pandemig at gynnydd mewn prisiau tai yn lleol a, bron yn sicr, mwy o bobl yn symud i'r ardal i fanteisio ar y cyfle i weithio o bell. Mae mewnfudo yn her hanesyddol i ffyniant yr iaith Gymraeg mewn ardaloedd gwledig, ac nid yw eto'n glir beth fydd gwir effaith canlyniadau'r pandemig ar ddemograffeg ieithyddol ein hynys.

Effeithiodd gyfyngiadau'r pandemig ar gyfleoedd i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith gyda'i gilydd yn anffurfiol yn y gwaith. Er mor amhrisiadwy y bu platfformau cyfarfod rhithiol, mae diffyg cyfleusterau cyfieithu ar y pryd gan rai darparwyr yn parhau'n rhwystr ac yn sicr o fod wedi llesteirio defnydd cyffredinol o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd.

Rhaid bod yn effro i'r posibilrwydd y bydd llai o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith wedi'r pandemig o achos dirwyn grwpiau neu ddigwyddiadau i ben. Efallai y bydd siaradwyr llai rheolaidd wedi colli hyder am fod llai o gyfle iddynt ymarfer yr iaith wyneb yn wyneb ag eraill.

Ein gobaith wrth i fywyd adfer wedi'r pandemig yw y bydd gweithgarwch cymdeithasol yn ail-ddechrau gydag awydd a brwdfrydedd newydd. Gobeithiwn y



Draft

bydd gan y gallu newydd i weithio'n rhithiol rai manteision i'w cynnig, fel galluogi siaradwyr Cymraeg i barhau i weithio o adref ar Ynys Môn, ble bynnag mae eu swyddi wedi eu lleoli. Gobeithiwn hefyd weld cyn-drigolion yn cael eu denu yn ôl i'r ardal.

Yn ei adroddiad sicrwydd ar gyfer 2020-2021, Camu Ymlaen,[3] cyfeiriodd Comisiynydd y Gymraeg at yr angen i ystyried traweffaith COVID-19 ar y Gymraeg wrth i ni baratoi'r strategaeth hon. Yn ogystal â rhoi sylw i'r hyn a wyddom yn barod am oblygiadau'r pandemig ar ein ffordd o weithio ac ymwneud â'n gilydd, byddwn yn parhau i ail-ymweld â'r strategaeth wrth i ni ddeall mwy am yr effaith ar ddemograffeg yr ardal. Gwnawn hyn er mwyn sicrhau bod ein cynlluniau'n ymateb yn ddigonol i unrhyw newidiadau i ddynameg ieithyddol yr ynys a'u bod yn addas ar gyfer y 'normal newydd'.

Drafft

[3] Comisiynydd y Gymraeg, Camu Ymlaen: Adroddiad Sicrwydd 2020-2021, ar gael yn comisiynyddygymraeg.cymru.

# Cyd-destun

Mae llunio strategaeth pum mlynedd i hybu'r Gymraeg ar Ynys Môn yn ofyniad statudol a strategol sy'n deillio o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Rhoddodd Fesur y Gymraeg statws swyddogol i'r iaith yng Nghymru. Fe wnaeth hefyd sefydlu dwy egwyddor gyfreithiol bwysig yn ymwneud â'r Gymraeg sy'n effeithio pob agwedd o fywyd cyhoeddus, sef:

- ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru; a
- dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

## Gofynion y safonau hybu

Sefydlodd Mesur y Gymraeg rôl Comisiynydd y Gymraeg sydd ag awdurdod i osod safonau ymddygiad sy'n ymwneud â defnyddio'r iaith ar ystod o sefydliadau. Derbyniodd y Cyngor hysbysiad cydymffurfio[4] gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 30 Medi 2015. Dyma'r ddogfen sy'n amlinellu'r 160 o safonau y mae'n rhaid i ni gwrdd â nhw.

Yn gyffredinol, mae'r safonau wedi eu rhannu i bum dosbarth sy'n cyd-fynd â gwahanol feysydd gweithredu, sef:

- safonau cyflenwi gwasanaethau;
- safonau llunio polisi;
- safonau gweithredu;
- safonau cadw cofnodion; a
- safonau hybu.

Mae'r dosbarth olaf, y safonau hybu, yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gefnogi ac annog defnyddio'r iaith yn y cymunedau maent yn eu gwasanaethu. Safon hybu 145 yw'r safon sy'n gosod gofyniad arnom i lunio a chyhoeddi'r strategaeth hon.

O dan safon 145 mae'n rhaid i ni baratoi a chyhoeddi ar ein gwefan strategaeth bum mlynedd yn esbonio sut yr ydym am hybu'r Gymraeg a hwyluso defnyddio'r iaith yn ehangach ar Ynys Môn. Rhaid i'r strategaeth gynnwys, ymysg pethau eraill:

- targed ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal erbyn diwedd y cyfnod pum mlynedd; a
- datganiad yn nodi sut yr ydym yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw.

Ar ddiwedd y cyfnod pum mlynedd rhaid i ni adolygu'r strategaeth a chyhoeddi fersiwn newydd ohoni. Mae ein hasesiad o'n strategaeth hybu gyntaf, Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-2021, ar gael ar ein gwefan yn ynysmon.gov.uk.

Draft

[4] Comisiynydd y Gymraeg, Hysbysiad cydymffurfio dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, ar gael yn comisiynyddygymraeg.cymru.

## Cyd-destun polisi

Nid yw'r strategaeth hon yn bodoli mewn gwagle. Mae gan y Cyngor hanes hir o ddarparu gwasanaethau Cymraeg o safon i'n trigolion a rhoddir lle amlwg i'r iaith yn ein cynlluniau. Mae Cynllun y Cyngor[5] yn cydnabod pwysigrwydd ein treftadaeth a'n diwylliant Cymraeg ac yn nodi bod diogelu'r iaith yn flaenoriaeth uchel i ni. Mae ein Polisi Iaith Gymraeg[6] yn adlewyrchu ein cyfrifoldeb i hyrwyddo'r iaith yn gymunedol ac fel cyflogwr i ddenu a chadw siaradwyr Cymraeg i gynnal y safon uchel o wasanaethau.

Yn ogystal â'n hymrwymiad i ddefnyddio ac ystyried yr iaith yn ein gwasanaethau a'n cynlluniau, mae arnom nifer o ddyletswyddau a chyfrifoldebau eraill sy'n cyfrannu tuag at hybu a hyrwyddo'r Gymraeg yn ein hardal.

**Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr**

Mae nodau ac amcanion Llywodraeth Cymru er mwyn cyflawni'r uchelgais o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 wedi eu hamlinellu yn ei strategaeth genedlaethol Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr[7]. Mae'r strategaeth yn nodi'r angen i gynnig cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio eu sgiliau'n rhwydd yn y gwaith, fel rhan o'r gyfundrefn addysg, ac yn gymdeithasol. Mae hefyd yn glir bod rhaid creu amgylchiadau ffafriol er mwyn annog y nifer o siaradwyr Cymraeg. Bydd ein strategaeth ni'n cyfrannu tuag at gyflawni'r uchelgais cenedlaethol hwn.

**Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Prif nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n pennu dyletswydd llesiant y mae rhaid i ni ei gyflawni a saith nod llesiant y mae'n rhaid i ni weithio tuag atynt. Un o'r nodau llesiant hynny yw 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Fel rhan o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Gwynedd a Môn rydym wedi datblygu Cynllun Llesiant[8] ar gyfer y ddwy sir er mwyn cydweithio tuag at gyflawni nodau'r ddeddf.

**Mwy na geiriau**

Mwy na geiriau[9] yw fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella gwasanaethau Cymraeg yn y maes iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Mae'n gosod disgwyliadau arnom i ddarparu gwasanaethau gofal a chymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg ac i wneud 'cynnig rhagweithiol' i ddefnyddwyr ein gwasanaethau fel nad oes rhaid iddynt ofyn am gael defnyddio'r iaith gyda ni.

**Cynllunio a'r iaith Gymraeg**

Mae polisi cynllunio cenedlaethol yn cynghori y dylid rhoi ystyriaeth benodol i gymunedau lle mae defnyddio'r Gymraeg yn rhan naturiol o fywyd bob dydd wrth

---

[5] Cyngor Sir Ynys Môn, Cynllun y Cyngor 2017-2022, ar gael yn ynysmon.gov.uk.

[6] Cyngor Sir Ynys Môn, Polisi Iaith Gymraeg, ar gael yn ynysmon.gov.uk.

[7] Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, ar gael yn llyw.cymru.

[8] Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn, Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn, ar gael yn llesiantgwyneddamon.org.

[9] Llywodraeth Cymru, Mwy na geiriau: Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol, ar gael yn wales.nhs.uk.



Draft

wneud penderfyniadau a llunio polisïau'n ymwneud â defnydd tir. Mae'r Cyngor wedi paratoi Cynllun Datblygu Lleol[10] ar y cyd gyda Chyngor Gwynedd sy'n canolbwyntio ar faterion ac amcanion lleol yn cynnwys yr iaith. Mae Polisi Strategol PS1 (Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymreig) y cynllun yn hyrwyddo a chefnogi defnydd o'r iaith. Mae'n rhagnodi bod angen canfod gwybodaeth am fathau penodol o ddatblygiadau er mwyn dod i gasgliad am effaith debygol cynlluniau ar y Gymraeg. Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol: Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy[11] yn rhoi arweiniad pellach ar sut i roi ystyriaeth briodol i'r iaith Gymraeg er mwyn cwrdd â meini prawf Polisi Strategol PS1.

**Cynllun strategol y Gymraeg mewn addysg**
Fel rhan o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 mae'n ofynnol arnom i baratoi Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg neu CSGA.[12] Gweledigaeth ein CSGA yw bod pob un o'n plant a'n pobl ifanc yn gwbl ddwyieithog ac yn gallu defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal ar ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol neu'r coleg. Mae'r cynllun yn amlinellu ein hamcanion ar gyfer gwireddu'r weledigaeth hon.

Fel y mae'r uchod yn dangos, mae yna sylfaen bolisi sylweddol yn ymwneud â hyrwyddo'r Gymraeg y mae angen i ni fod yn ystyrlon ohoni. Mae'n amlygu pwysigrwydd cael polisïau a strategaethau priodol mewn lle er mwyn gwarchod, hybu a chynyddu defnydd o'r iaith yn genedlaethol ac yn lleol.

Draft

[10] Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn, Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2025, ar gael yn ynysmon.gov.uk.
[11] Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn, Canllawiau Cynllunio Atodol: Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy, ar gael yn ynysmon.gov.uk.
[12] Cyngor Sir Ynys Môn, Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032, ar gael yn ynysmon.gov.uk.

# Y Gymraeg ar Ynys Môn

Y ffynhonnell bwysicaf, fwyaf cynhwysfawr, o wybodaeth am nifer y siaradwyr Cymraeg yn ein hardal yw'r cyfrifiad. Er i'r cyfrifiad diweddaraf gael ei gynnal yn 2021, ni fydd data sylweddol newydd ar gael i ni nes dadansoddi'r canlyniadau yn ystod 2022 a 2023. Felly, mae'r trosolwg canlynol o sefyllfa'r Gymraeg ar Ynys Môn yn seiliedig ar ddata Cyfrifiad 2011.

## Prif ganlyniadau'r cyfrifiad

Mae 19% o boblogaeth Cymru gyfan yn gallu siarad Cymraeg. Ar Ynys Môn y ffigwr yw 57.2%, neu 38,568 o bobl. Mae hyn yn golygu bod 6.8% o holl siaradwyr Cymraeg Cymru yn byw yma. Er bod hyn yn golygu mai ni sydd â'r ail gyfradd uchaf o siaradwyr yn y wlad, mae'r ffigwr yma'n ostyngiad o 0.8% o gymharu â'r sefyllfa yn 2001. Bryd hynny roedd 60.1% o'r boblogaeth (38,893) yn gallu siarad yr iaith. Golyga hyn bod 325 yn llai o siaradwyr Cymraeg ar Ynys Môn yn 2011 o gymharu â 2001. Mae hyn yn rhan o batrwm hirdymor sy'n dangos lleihad cyson yn y nifer o siaradwyr ers canol yr ugeinfed ganrif.

| 2001 → 2011 | 2001 → 2011 |
|---|---|
| ↓ **325** | ↓ **0.8%** |
| Gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg | Gostyngiad yng nghanran y siaradwyr Cymraeg |


**Tabl: Nifer a chanran siaradwyr Cymraeg**

| Blwyddyn | Ynys Môn | Cymru |
|---|---|---|
| 1951 | 38,443 (80.0%) | 714,700 (28.9%) |
| 1961 | 37,101 (75.0%) | 656,000 (26.0%) |
| 1971 | 37,135 (66.0%) | 542,400 (20.8%) |
| 1981 | 39,229 (61.0%) | 508,200 (18.9%) |
| 1991 | 41,240 (61.9%) | 500,000 (18.5%) |
| 2001 | 38,893 (60.1%) | 582,368 (20.7%) |
| 2011 | 38,568 (57.2%) | 562,016 (19%) |

Fel y mae'r map isod yn dangos, mae defnydd o'r iaith yn amrywio'n sylweddol ar yr ynys, gyda llawer mwy o siaradwyr Cymraeg yn ardaloedd y canol o gymharu â'r arfordir. Mae dros 70% yn gallu siarad Cymraeg yn mron pob un o gymunedau'r mewndir.

Draft

### Map: Canran siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd 2011




### Tabl: Wardiau a'r nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg

| Ward | 2001 | | 2011 | | Newid |
|---|---|---|---|---|---|
| | Safle | Canran | Safle | Canran | |
| Cyngar | 1 | 84.7% | 1 | 80.8% | -3.9% |
| Tudur | 2 | 83.6% | 2 | 80.7% | -2.9% |
| Cefni | 3 | 83.1% | 3 | 80.5% | -2.6% |
| Llanfihangel Ysgeifiog | 4 | 78.3% | 4 | 75.8% | -2.5% |
| Bodffordd | 5 | 77.9% | 5 | 73.3% | -4.6% |
| Braint | 6 | 77.1% | 6 | 73.2% | -3.9% |
| Bryngwran | 7 | 76.1% | 7 | 71.2% | -4.9% |
| Gwyngyll | 8 | 73.9% | 8 | 70.5% | -3.4% |
| Bodorgan | 9 | 72.7% | 10 | 68.3% | -4.4% |
| Llannerch-y-medd | 10 | 72.3% | 9 | 69.9% | -2.4% |

### Tabl: Wardiau a'r nifer isaf o siaradwyr Cymraeg

| Ward | 2001 | | 2011 | | Newid |
|---|---|---|---|---|---|
| | Safle | Canran | Safle | Canran | |
| Biwmares | 1 | 39.7% | 4 | 39.5% | -0.2% |
| Rhosneigr | 2 (=) | 42.6% | 1 | 36.0% | -6.6% |
| Trearddur | 2 (=) | 42.6% | 2 | 38.1% | -4.5% |
| Tref Caergybi | 4 | 43.2% | 3 | 39.1% | -4.1% |
| Maeshyfryd | 5 | 43.7% | 7 | 40.6% | -3.1% |
| Morawelon | 6 | 45.3% | 6 | 40.4% | -4.9% |
| Llanbedrgoch | 7 | 45.5% | 9 | 43.9% | -1.6% |
| Porthyfelin | 8 | 45.7% | 5 | 39.7% | -6.0% |
| Kingsland | 9 | 48.0% | 8 | 42.9% | -5.1% |
| Moelfre | 10 | 51.4% | 10 | 52.3% | 0.9% |

Mae’r gallu i ddefnyddio’r iaith hefyd yn amrywio’n yn ôl oedran. Mae dros 72.8% o’n pobl ifanc 15-19 oed yn gallu siarad Cymraeg, sef y ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg yn y categori hwnnw ar draws Cymru gyfan. Mae dros 61% o bobl ifanc 25-29 oed yn gallu siarad Cymraeg yn Ynys Môn, sef yr ail ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg yn y categori hwnnw ar draws Cymru gyfan. Mae'n debygol bod hyn yn adlewyrchu dylanwad y system addysg ar sgiliau iaith plant oedran ysgol.

Mae'r nifer o siaradwyr Cymraeg yn is ar gyfer y grŵp oedran 30-34 (60.2%), y grŵp oedran 50-54 (50.6%), y grŵp oedran 70-74 (49.6%) a'r grŵp oedran 85+ (50.8%).

**Mudo**

Cynyddodd boblogaeth Ynys Môn o 2,922 rhwng 2001 a 2011. Nid newid naturiol o ganlyniad i enedigaethau a marwolaethau oedd prif reswm y cynnydd ond mewnfudo. Dros y cyfnod mewnfudodd 2,350 o bobl ar gyfartaledd i Ynys Môn bob blwyddyn o weddill Prydain. Mae hyn yn cyfateb i boblogaeth Y Fali’n symud i’r ardal yn flynyddol.

Mae allfudo, neu symud i ffwrdd o’r ardal, ar ei uchaf ymysg y grŵp oedran 15-29 gydag oddeutu 180 mwy o bobl o’r grŵp oedran yma ar gyfartaledd yn symud allan o’r ardal nag yn symud i mewn. Dyma’r oedran pan fydd pobl ifanc yn dueddol o symud i ffwrdd i astudio neu ddilyn llwybr gyrfa. Mae mewnfudo ar ei uchaf ymysg y grŵp oedran 45-59 gydag 130 yn fwy o bobl o’r grŵp oedran hwn ar gyfartaledd yn symud i’r ardal nac yn symud allan. Mae’n debyg mai’r prif reswm am hyn yw bod pobl yn dewis symud i Ynys Môn i ymddeol.


Er nad ydym eto yn gwybod beth fydd gwir effaith y pandemig COVID-19 ar gyfraddau mewnfudo, mae’r tabl isod o ddata’r dreth Gyngor yn ystod haf 2020 yn dangos bod llawer iawn mwy o lety gwyliau ac ail gartrefi ar yr ynys o gymharu â’r darlun Cymru gyfan.

**Tabl: Cyfanswm cartrefi gwyliau**

| | Ynys Môn | Cymru |
|---|---|---|
| Nifer yr unedau preswyl | 35,195 | 988,418 |
| Nifer yr ail gartrefi | 2,719 | 18,547 |
| Cyfanswm llety gwyliau (unedau busnes annomestig) | 861 | 6,906 |
| Cyfanswm | 3,580 | 25,453 |
| **Canran gyfunol o gartrefi gwyliau** | **9.9%** | **2.56%** |

O gymharu lefelau cartrefi gwyliau a chanrannau sy’n gallu siarad Cymraeg, mae’n amlwg o'r map isod (hefyd o ddata’r dreth Gyngor 2020) fod rhywfaint o gysylltiad yn yr ystyr bod cymunedau lle mae cyfran uchel o lety gwyliau ac ail gartrefi yn gymunedau lle mae defnydd o'r Gymraeg yn is.

**Map: Canran o ail dai a llety gwyliau fesul cyngor tref a chymuned 2020**




Mae'r uchod yn cynnig trosolwg yn unig o ddefnydd o'r iaith yn ein hardal yn bennaf seiliedig ar brif ganfyddiadau Cyfrifiad 2011 mewn perthynas. Yn 2021 cyhoeddodd Menter Iaith Môn Broffil Iaith, sef darlun cynhwysfawr o sefyllfa'r Gymraeg ar Ynys Môn yn seiliedig ar amrywiaeth o ffynonellau data ac ymchwil. Mae copi ar gael ar wefan mentermon.com. Dyma rai o'r prif negeseuon yn codi o'r Proffil Iaith am ddemograffeg y Gymraeg ar Ynys Môn:

- Mae ffigyrau Cyfrifiad 2011 yn rhoi darlun cymharol gymysg o sefyllfa'r iaith yn lleol. Er bod effaith mewnfudo i'w weld yn glir a'r Gymraeg yn colli tir yn ardal Caergybi, mae canol yr ynys ymhlith ardaloedd cymreicaf Cymru.

- Ychydig o newid fu mewn gwirionedd yn sefyllfa'r iaith rhwng 2001 a 2011. Er mai newid cymharol fychan oedd y cwymp yn nifer y siaradwyr Cymraeg, mae'n nodweddiadol o batrwm cenedlaethol o ostyngiad cyson dros yr hanner canrif ddiwethaf.

- Roedd y cwymp mwyaf i'w weld yn ardal Caergybi, gyda 500 yn llai o siaradwyr Cymraeg yma. Yn wahanol i rannau eraill yr ynys, nid mewnfudo oedd yn gyfrifol am y gostyngiad gan fod cyfran uchel o boblogaeth yr ardal wedi ei eni yng Nghymru.

- Mae dylanwad mewnfudo i'w weld yn glir ar hyd y rhan fwyaf o arfordir yr ynys gyda dros 40% o'r boblogaeth yma wedi ei eni tu allan i Gymru mewn sawl ardal.

- Mae'r mwyafrif llethol (78.2%) o drigolion Ynys Môn a aned yng Nghymru yn gallu siarad Cymraeg.

- Llangefni yw un o drefi Cymreiciaf Cymru gyda mwy o siaradwyr Cymraeg yn byw yno nag unman arall, ac eithrio ardal Caernarfon.

- Mae'r cynnydd dros yr hanner can mlynedd diwethaf ym mhoblogaeth yr ynys wedi arwain at leihad yn nifer y siaradwyr Cymraeg. Er gwaethaf hynny, mae'r iaith wedi dal ei thir yn bur dda o ystyried cymaint o fewnfudo sydd wedi bod i'r ardal.

Drafft

# Maes blaenoriaeth 1: Plant, pobl ifanc a'r teulu

Mae maes blaenoriaeth cyntaf y strategaeth yn canolbwyntio ar blant, pobl ifanc a'r teulu. Mae hyn oherwydd bod trosglwyddo'r iaith o un genhedlaeth i'r nesaf yn hollbwysig er mwyn cynnal a gwarchod y Gymraeg fel iaith gymunedol. Mae gan addysg hefyd rôl allweddol i'w chwarae mewn creu cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddysgu, clywed a defnyddio'r iaith yn yr ystafell ddosbarth a thu hwnt i giatiau'r ysgol.

## Beth hoffem ni ei weld

- Mwy o deuluoedd yn gweld gwerth y Gymraeg ac yn defnyddio'r iaith gyda'u plant.
- Mwy o blant a phobl ifanc yn defnyddio'r iaith bod dydd yn yr ysgol ac yn gymdeithasol.
- Mwy o rieni sy'n byw ar yr ynys yn dewis addysg Gymraeg i'w plant.
- Mwy o ddisgyblion yn parhau i ymarfer eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd ac i addysg ôl-orfodol.
- Pob disgybl yn cael yr hawl i fod yn gwbl ddwyieithog erbyn gorffen yr ysgol yn 16 oed.
- Mwy o newydd ddyfodiaid i'r ardal yn dewis addysg Gymraeg i'w plant ac yn gweld gwerth trochi iaith.
- Mwy o newydd ddyfodiaid i'r ardal sy'n rhieni yn dewis dysgu Cymraeg ei hunain.
- Gwell ymwybyddiaeth ymysg pobl ifanc o werth y Gymraeg fel sgil ac ased ar gyfer y byd gwaith.

## Yr heriau

**Trosglwyddo'r Gymraeg o fewn y teulu**
Mae methiant o fewn teuluoedd i drosglwyddo'r Gymraeg i'r genhedlaeth nesaf yn rhwystr neilltuol i ffyniant yr iaith ar Ynys Môn. Mewn cartrefi pâr lle mai dim ond un oedolyn sy'n gallu siarad Cymraeg, dim ond 38.1% o blant tair oed sy'n gallu siarad Cymraeg. Hyd yn oed lle mae'r ddau riant yn siarad Cymraeg, y ffigwr cyfatebol ar gyfer plant tair oed yw 76.7%.

Er gwaethaf yr her, dyma hefyd ein cyfle mwyaf i greu siaradwyr Cymraeg newydd sy'n debygol o ddefnyddio'r iaith yn naturiol yn ein cymunedau. Mae data cenedlaethol yn dangos ble trosglwyddwyd y Gymraeg i blant yn y cartref, erys 80% yn rhugl fel oedolion. Mae hyn i'w gymharu â 49% o'r rhai a ddysgodd yn yr ysgol



Draft

feithrin, 26% yn yr ysgol gynradd, a 8% yn yr ysgol uwchradd.[13] Felly, mae'r siawns o ddal gafael ar y Gymraeg fel oedolyn gymaint uwch os yw plentyn yn dysgu'r iaith yn ifanc.

**Aelwydydd di-gymraeg**
Mae rhai teuluoedd yn dewis peidio defnyddio'r iaith ac yn osgoi gofal neu addysg cyfrwng Cymraeg yn gyfan gwbl drwy anfon eu plant i leoliadau heb eu rheoli neu mewn rhannau eraill o'r rhanbarth.

**Camsyniadau am werth y Gymraeg**
Mae mythau a chamsyniadau am werth y Gymraeg a dwyieithrwydd yn parhau'n gryf yn nhrwch y boblogaeth. Yr amlycaf o bosib yw'r camsyniad bod clywed dwy iaith yn ddryslyd a'i bod yn well cyflwyno un iaith yn unig i blentyn i ddechrau. Hefyd y canfyddiad bod gofal neu addysg cyfrwng Cymraeg yn anaddas i blant di-gymraeg am na allant fynegi eu hunain. Mae rhai agweddau hen ffasiwn nad yw'r Gymraeg yn ddefnyddiol yn y byd gwaith a bod astudio drwy gyfrwng yr iaith yn rhwystr i lwyddiant mewn pynciau fel mathemateg a gwyddoniaeth yn parhau.

**Colli gafael ar y Gymraeg ar ôl gadael yr ysgol**
Mae gan addysg ddylanwad cryf ar allu plant a phobl ifanc oed ysgol yn yr iaith. Rydym eisoes wedi nodi bod gan Ynys Môn y gyfradd uchaf o siaradwyr Cymraeg yn y grŵp oedran 15-19 oed trwy Gymru gyfan. Yr her i ni yw sicrhau nad yw'r gallu yma'n cael ei golli wrth i'n pobl ifanc drosglwyddo allan o afael y gyfundrefn addysg i'r byd gwaith ac i fywyd cymdeithasol fel oedolion.

## Yr ystadegau

- Mae 80.1% o blant tair i bedair oed Ynys Môn sydd yn dod o gartrefi lle mae'r ddau riant yn siarad Cymraeg yn gallu siarad yr iaith.
- Yn 2019-20 y Gymraeg oedd prif gyfrwng addysgu ar gyfer 86.8% o ddisgyblion cynradd Ynys Môn.
- Enillodd 72.7% o ddisgyblion uwchradd Ynys Môn gymhwyster TGAU A*-C mewn Cymraeg iaith gyntaf yn 2020.
- Yn ôl Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, mae dros hanner dysgwyr Cymru yn gadael yr ysgol yn 16 oed, gan symud ymlaen i addysg bellach, prentisiaethau neu gyflogaeth.

[13] Menter Iaith Môn, Proffil Iaith: Darlun o sefyllfa'r Gymraeg ar Ynys Môn (2021), t. 58-61. Ar gael yn mentermon.com.

This document is available in English

## Beth nesaf?

**Byddwn yn sicrhau:**

- bod rhieni'n deall gwerth y Gymraeg ac yn defnyddio'r iaith gyda'u plant;
- bod gofal ac addysg cyfrwng Cymraeg o safon ar gael i bawb;
- bod ein pobl ifanc yn deall bod sgiliau yn y Gymraeg o fantais iddynt; a
- bod cyfleoedd ar gael i blant a phobl ifanc fwynhau eu hunain yn Gymraeg.

Draft

Os ydym o ddifri am greu siaradwyr Cymraeg newydd fydd yn defnyddio’r iaith fel rhan naturiol o’u bywydau, rhaid i ni sianelu ein hymdrechion at feithrin patrymau iaith cadarnhaol yn gynnar ym mywyd plant. Mae angen i ni estyn allan i ddarpar rieni yn ystod cyfnodau beichiogrwydd, mamolaeth a thadolaeth er mwyn rhannu negeseuon cadarnhaol am fanteision cyflwyno a throsglwyddo’r Gymraeg i’w babanod. Mae tystiolaeth sy’n dangos bod y cyfnod hwn yn ‘gyfle euraidd’ pan mae rhieni yn fwy effro i newid arferion er lles eu plant ac yn awyddus i ddysgu’r iaith.[14] Bydd gan ein hymarferwyr blynyddoedd cynnar rôl genhadol allweddol i’w chware ac felly mae’n bwysig eu bod hwythau yn deall y manteision. Byddwn yn gweithio gyda Menter Iaith Môn fel rhan o Bartneriaeth Cymraeg i Deuluoedd Môn i’w harfogi gyda gwybodaeth ac adnoddau pwrpasol i’w cynorthwyo. Mae aelodaeth y bartneriaeth (is-grŵp i Fforwm Iaith Ynys Môn) yn eang ac yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sector iechyd, gofal, addysg a’r trydydd sector sy’n cydweithio ar brosiectau â ffocws penodol ar y ddarpariaeth Gymraeg i deuluoedd yr ardal.

Mae ein swyddogion Dechrau’n Deg yn darparu cymorth dwys i blant o dan bedair oed a’u teuluoedd mewn ardaloedd penodol fel rhan o raglen blynyddoedd cynnar Llywodraeth Cymru. Canolbwynt y rhaglen yw hyrwyddo sgiliau cymdeithasol, emosiynol, gwybyddol ac iaith, datblygiad corfforol ac adnabod anghenion sylweddol yn gynnar. Byddwn yn sicrhau bod negeseuon cadarnhaol am fanteision defnyddio’r iaith gyda’u plant yn cael eu rhannu â rhieni sy’n dod i gyswllt â’r gwasanaeth.

Er bod nifer o leoliadau blynyddoedd cynnar yn cynnig elfen o’u gofal yn Gymraeg ar Ynys Môn, mae angen i ni weithio i gynyddu cyfleoedd trochi iaith, sef ffordd o gyflwyno’r Gymraeg fel ail iaith i fabanod a phlant ifanc nad ydynt yn clywed y Gymraeg adref. Bydd hyn hefyd yn golygu cydweithio gyda Dechrau’n Deg a’n partneriaid yn y Fenter Iaith, Mudiad Meithrin, Cymraeg i Blant, ac mewn ysgolion, i sicrhau bod darparwyr yn derbyn y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i ofalu yn Gymraeg ac i ddylanwadu’n gadarnhaol ar batrymau iaith y plant ifanc yn eu gofal.

Trwy greu mwy o gyfleoedd chware anffurfiol bydd mwy o blant yn cael eu hamgylchynu gan yr iaith ac yn ei dysgu mewn ffordd naturiol. Rydym yn ffodus bod gan Mudiad Meithrin, sef prif ddarparwr cyfleoedd trochi iaith yr ardal, bresenoldeb

[14] Llywodraeth Cymru, Dechrau’n Deg – Atodiad: Canllawiau ar Leferydd, Iaith a Chyfathrebu (2017), t. 34. Ar gael yn llyw.cymru.

cryf ar yr ynys. Yn ogystal â'r nifer o Gylchoedd Meithrin a Chylchoedd Ti a Fi sy'n gweithredu yma, mae un o feithrinfeydd dydd y mudiad wedi ei lleoli yn Llangefni. Mae gwaith Mudiad Meithrin ar yr ynys yn hollbwysig fel yr allwedd i gychwyn y daith ddwyieithog o'r cyn-geni (trwy'r rhaglen Cymraeg i Blant a'r cydweithio gyda'r sector iechyd) ymlaen i'r Cylch Ti a Fi ac yna'r Cylch Meithrin. Mae angen i ni adeiladu ar ein perthynas gyda'r mudiad i sicrhau bod lleoliadau croesawgar sy'n deall manteision trosglwyddo a throchi iaith ar gael ym mhob rhan o'r ynys i bob rhiant, waeth bynnag eu gallu yn y Gymraeg.

Yn yr un modd mae angen i ni sicrhau bod addysg cyfrwng Cymraeg o safon ar gael ym mhob rhan o'r ynys a'n bod yn hyrwyddo manteision yr addysg hynny i'n holl gymunedau. Mae pob un o ysgolion cynradd Ynys Môn, ac eithrio dwy, yn ysgolion cymunedol dan awdurdodaeth y Cyngor. Mae hyn yn golygu mai'r Gymraeg yw'r prif gyfrwng addysgu ar gyfer 86.8% o ddisgyblion cynradd. Mae pum ysgol gyfun gymunedol i ddisgyblion uwchradd ar yr ynys, pedwar ohonynt yn rhai dwyieithog ac un (Ysgol Uwchradd Caergybi) yn ysgol cyfwng Saesneg â chyfran sylweddol o Gymraeg. Y Gymraeg yw'r prif gyfrwng addysgu ar gyfer 34.8% o'n disgyblion uwchradd, gyda'r iaith yn rhan o'r addysg i 39.2%, a Saesneg yn gyfrwng addysgu i 24.6% o ddisgyblion. Y Gymraeg yw prif iaith gyfathrebu gweinyddiaeth ein hysgol addysg arbennig i ddisgyblion rhwng 3-19, Canolfan Addysg y Bont, ac mae pwyslais ar sgiliau dwyieithog yn addysg y disgyblion.

Fel yn y blynyddoedd cynnar, mae angen i ni hyrwyddo manteision trochi iaith i blant oedran ysgol. Mae ein Canolfan Iaith wedi ei leoli ar ddau safle mewn ysgolion cynradd ym Moelfre a Chaergybi ac mae'n cynnig addysg trochi yn y Gymraeg gan athrawon iaith ag arbenigedd. Byddwn yn edrych i ymestyn y ddarpariaeth trochi yn ystod cyfnod y strategaeth gan fanteisio ar gefnogaeth ariannol gan Lywodraeth i gefnogi dysgwyr Cymraeg hŷn sy'n ymgymryd â throchi hwyr mewn ysgolion. Bydd polisi iaith ddwyieithog ein holl ysgolion yn cael ei atgyfnerthu gyda chyflwyniad ein Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) newydd yn 2022. Mae deilliannau'r CSGA i gyd yn cyfrannu tuag at y nod o gynyddu defnydd o'r Gymraeg. Maent yn cynnwys, ymysg pethau eraill, cynyddu nifer y disgyblion sy'n cael eu haddysgu'n Gymraeg, mwy o blant yn defnyddio'r iaith wrth symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, mwy o ddisgyblion yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg, a chreu mwy o gyfleoedd i'r ddefnyddio'r iaith mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol. Mae gweithredu'r CSGA felly yn hollbwysig i lwyddiant y strategaeth hon.

Ochr yn ochr â gweithredu'r CSGA bydd angen i ni sicrhau bod ein hysgolion yn parhau i arfer fframwaith cenedlaethol y Siarter Iaith. Mae pwyslais y Siarter Iaith ar ddylanwadu ar ddefnydd iaith disgyblion tu allan i'r ystafell ddosbarth, sy'n allweddol os ydym am weld ein plant a'n pobl ifanc yn parhau i ddefnyddio'r Gymraeg wedi iddynt adael yr ysgol. Mae'r fframwaith yn cynnig strwythur i ysgolion sy'n arwain at gynyddu defnydd cymdeithasol eu disgyblion o'r iaith a byddwn yn parhau i gefnogi ein hysgolion i'w weithredu.

Mae gan y Siarter Iaith y fantais o gynorthwyo rhieni i ddysgu Cymraeg, yn bennaf er mwyn annog eu plant gyda'u gwaith ysgol, ond hefyd i'w helpu i integreiddio'n gymunedol a gwella'u cyfleoedd cyflogaeth. Gan fod lefel y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg mor uchel ar Ynys Môn, mae yma nifer o rieni nad ydynt eu hunain yn siarad yr iaith neu'n hyderus yn eu Cymraeg sy'n cynnal eu plant drwy addysg ddwyieithog. Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod pa mor rhwystredig y gall hynny fod

a'n bod yn gweithio'n fwriadus i rannu negeseuon cadarnhaol gyda'r rhieni hynny am fanteision dwyieithrwydd i'w plant.

Mae angen i'n pobl ifanc ddeall bod ganddynt fantais gystadleuol werthfawr yn y Gymraeg sy'n eu gosod ar wahân i rai o'u cyfoedion pan mae'n dod i ymgeisio am swyddi, er enghraifft. Mae gan ddarparwyr addysg ôl-orfodol rôl bwysig i'w chware mewn hyrwyddo gwerth yr iaith fel sgil ac ased pan mae'n dod i ddewis llwybr gyrfa. Byddwn felly'n cydweithio gyda'n partneriaid i hyrwyddo'r cyfleoedd gwaith sy'n galw am sgiliau iaith Gymraeg yn yr ardal ac yn sicrhau bod ein cyfundrefn addysg yn meithrin y sgiliau hynny fel bod gweithlu parod yma ar Ynys Môn.

Rydym wedi crybwyll fwy nac unwaith pa mor bwysig ydy clywed a defnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth os ydym am weld ein plant a'n pobl ifanc yn meithrin agwedd gadarnhaol tuag ar yr iaith. Mae nifer o fudiadau ar Ynys Môn sy'n cynnig cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol, fel yr Urdd, Ffermwyr Ifanc, Menter Iaith Môn, clybiau chwaraeon a chlybiau ieuenctid. Rhaid i ni gydweithio gyda'n partneriaid i gefnogi adfer gweithgarwch cymdeithasol cyfrwng Cymraeg i blant a phobl ifanc wedi'r cyfnod clo er mwyn sicrhau bod cymaint o gyfleoedd a phosib i ddefnyddio'r iaith. Mae gweithgareddau o'r fath yn cynnig cyfle trochi arbennig i blant a phobl ifanc glywed a defnyddio'r Gymraeg mewn awyrgylch anffurfiol, hwyliog.

## Dangosyddion llwyddiant

- Cynnydd yn nifer y lleoliadau blynyddoedd cynnar i blant hyd at bum mlwydd oed sy'n cynnig trochi iaith.
- Cynnydd yn nifer y disgyblion uwchradd sy'n cael eu haddysgu'n Gymraeg
- Cynnydd yn nifer y disgyblion uwchradd sy'n astudio'r Gymraeg fel pwnc ar gyfer cymhwyster iaith gyntaf.
- Cynnydd yn nifer y disgyblion uwchradd sy'n astudio pynciau eraill trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cynnydd yn nifer rhieni plant oed ysgol sydd yn dysgu Cymraeg.
- Nifer y newydd ddyfodiaid sydd â phlant oedran ysgol sy'n derbyn addysg trochi iaith o fewn blwyddyn o symud i'r ardal.
- Cynnydd yn nifer y myfyrwyr sy'n astudio cyrsiau addysg bellach cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog.
- Nifer y gweithgareddau chwaraeon a hamdden i blant a phobl ifanc sy'n cael eu cynnal yn Gymraeg.

# Maes blaenoriaeth 2: Y gweithle, gwasanaethau Cymraeg a'r seilwaith

Ein hamcan gydag ail faes blaenoriaeth y strategaeth yw prif ffrydio'r Gymraeg a sicrhau statws amlwg i'r iaith yn y gweithle. Mae angen i'n gwasanaethau ni adlewyrchu'r gymuned leol, bod trigolion yn ymwybodol o'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael yma a theimlo'n hyderus i'w defnyddio. Mae angen i ni hefyd fod yn effro i'r cyfleoedd y gall technoleg eu cynnig i gynyddu a hwyluso defnyddio'r iaith yn y gwaith.

## Beth hoffem ni ei weld

- Mwy o drigolion yn defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith.
- Gwell ymwybyddiaeth ymysg busnesau o werth y Gymraeg fel sgil ac ased yn y byd gwaith.
- Mwy o swyddi a chyfleoedd cyflogaeth o ansawdd yn lleol.
- Mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn gweinyddiaeth llywodraeth leol, yn cynnwys cynghorau tref a chymuned.
- Mwy o ddefnydd o'r Gymraeg wrth ddefnyddio technoleg.
- Mwy o drigolion yn defnyddio gwasanaethau Cymraeg yn ysgrifenedig, ar lafar ac ar lein.
- Gofal cyfrwng Cymraeg o safon ar gael yn y cartref, cartrefi gofal ac yn y sector iechyd.

## Yr heriau

**Heriau daearyddol**
Mae demograffeg ieithyddol Ynys Môn yn dangos bod defnydd o'r Gymraeg yn amrywio o ardal i ardal. Mae gwahaniaethau hefyd yn natur y swyddi a lefel y gwasanaethau sydd ar gael yma. Nid yw'r un cyfleoedd ar gael bob amser i'n trigolion sy'n byw mewn rhannau mwy gwledig o'r ynys sef, yn amlach na pheidio, ein cymunedau sydd fwyaf tebygol o ddefnyddio'r iaith yn naturiol.

**Economi dymhorol**
Mae gorddibyniaeth ar economi dymhorol yn gysylltiedig â'r diwydiant twristiaeth yn creu cyfleoedd cyflogaeth anwadal. Fodd bynnag, gall newid i'r farchnad swyddi wedi'r pandemig COVID-19 fod yn gyfle i fynd i'r afael â'r sefyllfa drwy ganiatáu i drigolion fanteisio ar gyfleoedd gweithio o bell.



Draft

**Symudoledd a mudo**
Mae'r broblem o bobl ifanc yn symud oddi ar yr ynys i astudio neu chwilio am waith yn un sydd wedi effeithio ein cymunedau ers degawdau. Yn yr un modd, mae tueddiad i weld llai o deuluoedd yn symud i mewn i rai ardaloedd oherwydd diffyg cyfleoedd swyddi a gwasanaethau.

**Iaith busnes**
Nid oes gan y Gymraeg bob amser le amlwg ym myd busnes. Rydym eisoes wedi nodi bod agweddau hen ffasiwn yn parhau nad yw'r Gymraeg yn ddefnyddiol yn y byd gwaith ac mai'r Saesneg yw iaith cynnydd. Mae camsyniadau hefyd yn bodoli ynglŷn â chost gweithredu a darparu gwasanaethau'n ddwyieithog.

**Diffyg hyder unigolion**
Gall unigolion nad ydynt yn defnyddio'r iaith yn rheolaidd deimlo diffyg hyder yn eu gallu yn y Gymraeg ac osgoi ei defnyddio yn y gwaith. Mae'r unigolion hyn hefyd yn fwy tebygol o danbrisio eu gallu yn yr iaith. Gall diffyg gallu yn y Gymraeg fod yn rhwystr i gael swyddi da yn lleol ac, mewn achosion eithriadol, effeithio'n andwyol gyfleoedd bywyd rhai unigolion.

**Newid mewn amodau gweithio wedi'r pandemig COVID-19**
Mae'n debygol bod y newid i weithio rhithiol o bell wedi cyfyngu ar gyfleoedd rhai unigolion nad ydynt yn defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol glywed a defnyddio'r iaith gyda'u cyd-weithiwr.

## Yr ystadegau

- Roedd 77% o siaradwyr Cymraeg rhugl Ynys Môn yn defnyddio'r iaith bob dydd yn 2013-2015. Mae hyn yn ostyngiad o 10% o gymharu â'r ffigwr yn 2004-2006, sef 87%.[15]

- Yn 2013-2015 dywedodd naw o bob 10 siaradwr Cymraeg ar Ynys Môn oedd mewn gwaith eu bod yn siarad Cymraeg gyda chydweithwyr o leiaf weithiau.

- Yn 2013-15 dywedodd dros hanner siaradwyr Cymraeg eu bod yn ceisio defnyddio'r Gymraeg, yn achlysurol man lleiaf, wrth ddelio â sefydliadau cyhoeddus.

- Mae dros 90% o'n swyddogion yn siarad Cymraeg sy'n golygu y gallwn gynnig gwasanaeth cyflawn trwy gyfrwng yr iaith i'n trigolion.[16]

- Mae pob aelod o'n Uwch Dîm Arwain a phob pennaeth gwasanaeth yn siarad Cymraeg.

[15] Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg, Y defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru 2015-15, ar gael yn llyw.cymru.
[16] Cyngor Sir Ynys Môn, Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Iaith Gymraeg 2020-21, t. 23-24. Ar gael yn ynysmon.gov.uk. Ffigwr yn seiliedig ar ganlyniadau arolwg sgiliau iaith blynyddol y gweithlu ac yn adlewyrchu canran y swyddogion sy'n gallu ateb ymholiadau syml sy'n ymwneud â'r gwaith yn Gymraeg hyd at rugldeb (lefelau 2-5 fframwaith gofynion iaith ein Polisi Recriwtio a Dethol).

## Beth nesaf?

**Byddwn yn sicrhau:**

- ein bod yn cefnogi ein pobl i ddefnyddio mwy o'r Gymraeg yn y gwaith;
- ein bod yn manteisio ar dechnoleg i hwyluso defnyddio'r Gymraeg;
- bod busensau lleol yn deall manteision defnyddio'r Gymraeg; a
- bod anghenion defnyddwyr gwasanaethau Cymraeg yn ganolog i'n cynlluniau.

Mae gan y gweithle ddylanwad mawr ar ba iaith y mae pobl yn ei defnyddio. Wedi'r cyfan, mae'r mwyafrif o oedolion yn treulio cyfran sylweddol o'u hamser yn y gwaith. Rydym am sicrhau bod y Cyngor yn esiampl i gyflogwyr yr ynys o weithle sy'n gosod bri ar sgiliau Cymraeg ei weithlu ac sy'n defnyddio'r iaith fel rhan cwbl naturiol o'i weinyddiaeth. Trwy ddefnyddio'r Gymraeg ein hunain ein gobaith yw gweld cylch rhinweddol yn datblygu. Mae tystiolaeth sy'n dangos bod unigolion sy'n gweithio i gyflogwyr sy'n cefnogi defnyddio'r Gymraeg yn llawer iawn mwy tebygol o ddefnyddio'r iaith eu hunain.

Yn 2017 penderfynom roi ar waith raglen dreigl arloesol er mwyn cynyddu ein defnydd mewnol o'r Gymraeg dros gyfnod o chwe blynedd. Arweiniodd y gwaith at adnabod pencampwyr iaith sy'n gyfrifol am hyrwyddo'r Gymraeg gyda'u cydweithwyr a gwneud ymyriadau bychain i newid y diwylliant ieithyddol o fewn eu timoedd. Er i'r pandemig olygu oedi ein cynlluniau am gyfnod yn ystod 2020 a 2021, ein bwriad yw ail-afael ac adeiladu ar lwyddiant y rhaglen hyd yma a'i hymestyn i adrannau newydd. Byddwn yn parhau i gefnogi ein pencampwyr iaith presennol ac yn cyd-weithio â nhw i adnabod mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith. Mae ein huned Gyfieithu hefyd yn darparu gwasanaeth allweddol i'n swyddogion trwy eu cynorthwyo i weithio'n ddwyieithog. Byddwn yn mabwysiadu rhai o'r mathau diweddaraf o dechnoleg, yn enwedig yn y maes cyfieithu ar y pryd, er mwyn hwyluso'r gwaith hwn a datblygiad y Gymraeg o fewn y Cyngor yn ehangach. Byddwn hefyd yn dysgu o ac yn rhannu arfer orau gyda'n partneriaid yn y sector cyhoeddus fel rhan o Is-grŵp Iaith, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru a rhwydwaith swyddogion iaith Gymraeg y rhanbarth. Manteisiwn ar unrhyw gyfle i weithio gyda'r sector addysg uwch ar fodelau newid ymddygiad i helpu â'r dasg o newid arferion ieithyddol ein gweithlu er gwell.

Ein gweithlu yw ein hased mwyaf ac rydym am ddenu mwy o siaradwyr Cymraeg i ddod i weithio i ni. Rhaid i ni felly gydweithio â'n partneriaid yn y sector addysg bellach, fel Grŵp Llandrillo Menai, i sicrhau bod ein pobl ifanc yn ymwybodol o'r cyfleoedd gyrfa sydd yma ar eu cyfer.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid yn Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin i gefnogi ein gweithlu i ddysgu'r iaith ac, yr un mor bwysig, i gynyddu hyder yn y sgiliau sydd ganddynt yn barod. Mae'n debygol y bydd peth momentwm wedi ei golli o ganlyniad i'r newid i weithio rhithiol a'r lleihad mewn cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn anffurfiol yn y gwaith. Bydd darparu cyfleoedd i glywed ac ymarfer yr iaith felly yn hollbwysig wrth i fywyd gwaith adfer wedi'r pandemig. Estynnwn bob anogaeth a



Draft

chefnogaeth i ddefnyddwyr llai hyderus o'r Gymraeg ddatblygu eu gallu yn yr iaith drwy ddarparu hyfforddiant sy'n addas ar eu cyfer. Byddwn hefyd yn hwyluso cyfleoedd llai ffurfiol i ymarfer y Gymraeg yn y gwaith, mewn sesiynau paned a sgwrs er enghraifft. Byddwn yn effro i'r cyfleoedd y gall dechnoleg a llwyfannau cyfarfod rhithiol newydd eu cynnig er mwyn cynyddu hyder a defnydd o'r iaith.

Os ydym am weld mwy o ddefnydd yn cael ei wneud yn Gymraeg rhaid chwalu'r myth mai Saesneg yw iaith busnes a ffurfioldeb. Byddwn yn estyn allan i berchnogion gyda gwybodaeth ac adnoddau am fanteision defnyddio'r Gymraeg i'w busnesau.

Mae angen i ni sicrhau bod anghenion defnyddwyr yr iaith yn ganolog i'n cynlluniau a'n bod yn gweithio'n gyson i annog ein trigolion i ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg. Mae hyn yn golygu defnyddio iaith sy'n addas ac yn rhwydd i'w deall a chynllunio ein gwasanaethau mewn ffordd sy'n golygu nad oes unrhyw rwystr i'w defnyddio yn Gymraeg. Rhaid i ni ymdrechu'n barhaus i'w gwneud yn gwbl glir i'n trigolion bod croeso iddynt ddefnyddio'r iaith hefo ni ac nad oes rhaid iddynt ofyn am wasanaeth yn Gymraeg. Dyma hanfod y cynnig rhagweithiol.

Byddwn yn gwneud yn siŵr bod ein gweithlu yn deall pwysigrwydd darparu gwasanaethau - yn enwedig gwasanaethau gofal a lles - yn newis iaith ein trigolion trwy gynnig hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith iddynt. Yn ogystal â sicrhau ein bod yn gweithio'n barhaus i wella ein gwasanaethau gofal trwy gyfrwng y Gymraeg, byddwn yn galw ar ein partneriaid yn y sector iechyd i ddarparu gwasanaethau o safon yn unol â gofynion fframwaith cenedlaethol Llywodraeth Cymru, Mwy na geiriau. Ein nod fydd ennyn parch ac ewyllys dda tuag at ddewis iaith ein trigolion a sicrhau bod gwasanaethau lleol yn adlewyrchu'r gymuned fywiog, ddwyieithog rydym mor freintiedig o'i gwasanaethu.

## Dangosyddion llwyddiant

- Nifer o gyrsiau hyfforddiant iaith Gymraeg a fynychwyd gan ein swyddogion.
- Nifer o sesiynau ymwybyddiaeth iaith Gymraeg a fynychwyd gan ein swyddogion.
- Nifer ein swyddogion sy'n defnyddio rhyngwynebau Microsoft Cymraeg.
- Nifer yr ymweliadau â fersiwn Gymraeg ein gwefan.
- Nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n dewis defnyddio ein gwasanaethau yn Gymraeg.
- Nifer yr ymweliadau ag adnoddau Cymraeg i fusnesau ar ein gwefan.

# Maes blaenoriaeth 3: Y gymuned

Mae trydydd maes blaenoriaeth ein strategaeth yn canolbwyntio ar hyrwyddo'r Gymraeg fel iaith fyw yn ein cymunedau. Trwy weithio'n galed gyda'n partneriaid i rannu negeseuon cadarnhaol am werth a phwysigrwydd yr iaith ar Ynys Môn, ein nod fydd meithrin mwy o ewyllys da tuag at y Gymraeg. Ein gobaith yw y bydd hynny'n arwain at fwy o bobl yn dewis dysgu'r iaith a'i defnyddio.

## Beth hoffem ni ei weld

- Trigolion yn gallu fforddio byw a phrynu tai yn eu cymunedau lleol.
- Ein holl drigolion yn teimlo'n rhan ac yn falch o fyw mewn cymuned fywiog, gwirioneddol ddwyieithog.
- Ein trigolion yn barod ac yn hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg yn ein cymunedau, waeth bynnag eu gallu yn yr iaith.
- Mwy o weithgarwch cyfrwng Cymraeg, lle amlwg i'r iaith mewn digwyddiadau a llai o weithgareddau yn cael eu cynnal yn Saesneg yn unig yn ein cymunedau.
- Bod croeso a chefnogaeth i ddysgwyr a siaradwyr llai hyderus o'r Gymraeg gymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol.
- Bod cefnogaeth i gynghorau a grwpiau cymunedol sy'n cynnal gweithgareddau yn Gymraeg.
- Blaenoriaeth amlwg i'r Gymraeg mewn cynlluniau datblygu economaidd, tai a chynllunio lleol.

## Yr heriau

**Y farchnad dai**
Un o'r prif heriau ar Ynys Môn yw sicrhau bod digon o dai fforddiadwy ar gael i'n trigolion. Yn ystod y cyfnod pandemig COVID-19 yn benodol gwelwyd pryderon cynyddol am drigolion lleol - yn enwedig pobl ifanc - yn methu cystadlu â phobl hŷn oedran ymddeol a phrynwyr ail gartrefi. Os ydym sicrhau bod ein pobl ifanc yn gallu aros a gweithio yn ein cymunedau rhaid cael cyflenwad digonol o dai addas ar eu cyfer.

**Symudoledd a mudo**
Mae'r data'r cyfrifiad yn dangos mai unigolion hŷn, oedran ymddeol, sydd fwyaf tebygol o symud i Ynys Môn sy'n creu newidiadau yn nemograffeg a phatrymau defnydd iaith rhai ardaloedd.



Draft

**Cyfleoedd a chefnogaeth i ddysgu'r Gymraeg**
Mae gan nifer o newydd ddyfodiad i'r ardal awydd i wybod mwy am ein hiaith a'n diwylliant ond maent yn aml yn ei chael hi'n anodd torri mewn i gymunedau Cymraeg. Gall rai ei chael hi'n anodd dysgu'r iaith oherwydd diffyg cyfleoedd amserol a hwylus.

Nid pawb sy'n symud i Ynys Môn sydd ag awydd i ddysgu Cymraeg. Gall hyn fod oherwydd nad ydynt yn gweld angen i ddysgu'r iaith am fod dylanwad y Saesneg yn gryf ar rai o'n cymunedau.

**Diffyg hyder unigolion**
Er bod nifer cymharol uchel o siaradwyr Cymraeg ar Ynys Môn, nid pawb sy'n ei defnyddio. Mae'r broblem yn arbennig o acíwt yn ardal Caergybi lle mae'r cyfraddau trosglwyddo iaith o un genhedlaeth i'r llall hefyd ar eu hisaf.

## Yr ystadegau

- Mae 60% o boblogaeth Caergybi yn deall Cymraeg ond ddim yn ei defnyddio.
- Mae 9.9% o holl unedau preswyl Ynys Môn yn gartrefi gwyliau neu ail dai.

## Beth nesaf?

Byddwn yn sicrhau:

- bod Ynys Môn yn lle deniadol i siaradwyr Cymraeg fyw;
- bod ystod o opsiynau tai ar gael i drigolion lleol;
- bod newydd ddyfodiad yn deall pwysigwydd y Gymraeg i'n cymunedau; a
- bod lle amlwg i'r Gymraeg mewn gweithgareddau cymunedol.

Er mwyn gweld yr iaith yn ffynnu yn ein cymunedau mae angen i Ynys Môn fod yn lle deniadol i siaradwyr Cymraeg fyw a gweithio. Drwy sicrhau hynny ein gobaith yw denu unigolion wnaeth adael yr ynys i astudio neu ddilyn llwybr gyrfa yn ôl i'r ardal i fagu teuluoedd. I lwyddo, rhaid gwneud yn siŵr bod swyddi da, cyfleoedd cymdeithasol amrywiol a safonau uchel o addysg Cymraeg i gyd ar gael yma.

Rhaid i ni hefyd sicrhau bod ystod o opsiynau tai ar gael. Bydd hynny'n golygu cefnogi perchnogion i ddychwelyd tai gwag yn ôl i ddefnydd, cydweithio â landlordiaid preifat, ac annog datblygwyr a darparwyr tai cymdeithasol i godi mwy o dai fforddiadwy. Byddwn hefyd yn ychwanegu at y stoc dai leol ein hunain drwy godi tai Cyngor newydd.

Trwy gydweithio ag Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn byddwn yn sicrhau bod effaith datblygiadau arfaethedig ar yr iaith a chymunedau'n cael ei

ystyried yn gydwybodol. Lle’n briodol, byddwn yn galw ar ddatblygwyr i gymryd camau i liniaru unrhyw effeithiau negyddol ac yn eu hannog i ddefnyddio a chefnogi cadwynau cyflenwi lleol. Bydd gan ein huned polisi a’r Gymraeg fewnbwn mewn penderfyniadau cynllunio gwlad a thref er mwyn sicrhau bod buddiannau defnyddwyr yr iaith yn cael eu hystyried a’u gwarchod. Ar lefel strategol, bydd y Gymraeg yn cael blaenoriaeth amlwg yn ein cynlluniau economaidd.

Gyda chyfran helaeth o'r economi leol yn ddibynnol ar dwristiaeth, byddwn yn manteisio ar bob cyfle i farchnata Cymreictod arbennig ein hynys. Bydd hyn yn cynnwys tynnu sylw ymwelwyr at ddwyieithrwydd naturiol yr ardal ac arddel enwau lleoedd cynhenid, Cymraeg wrth hyrwyddo Ynys Môn fel cyrchfan. Trwy gydweithio â rhanddeiliaid yn y sector, ein nod fydd datblygu diwydiant twristiaeth lwyddiannus a chynaliadwy sy’n cyfrannu at ac yn cyfoethogi’r ardal.

Byddwn yn targedu newydd ddyfodiad i’r ynys er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn deall y lle amlwg sydd gan y Gymraeg yma. Byddwn yn cefnogi Menter Iaith Môn i adeiladu ar lwyddiant eu cynlluniau i helpu mewnfudwyr a ffoaduriaid gymhathu’n llawn i’w cymunedau newydd. Drwy gynlluniau arloesol sy’n cyflwyno cyd-destun a hanes y Gymraeg, traddodiadau a diwylliant lleol gobeithiwn ddylanwadu a chefnogi ymdrechion newydd ddyfodiaid i ddysgu Cymraeg a theimlo’n rhan o’u hardal newydd.

Bydd gan ein cynghorau tref a chymuned rôl genhadol bwysig i’w chwarae i hyrwyddo negeseuon cadarnhaol am werth y Gymraeg yn ein cymunedau. Mae gennym eisoes berthynas gydweithredol â phencampwyr iaith dynodedig o fewn y cyrff a byddwn yn cefnogi eu hymdrechion i ddenu mwy o’n trigolion i gymryd rhan mewn gweithgarwch cymunedol trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae’n hollbwysig ein bod yn parhau i wrando ar ac ymateb i bryderon ein cynghorau tref a chymuned am sefyllfa’r Gymraeg yn eu hardaloedd. Yn aml, dyma’r trigolion fydd yn synhwyro ac yn teimlo gwir effaith newidiadau yn nynameg ieithyddol yr ynys gyntaf.

Manteisiwn ar y dylanwad arbennig sydd gan fudiadau fel Medrwn Môn, Merched y Wawr, yr Urdd a’r Ffermwyr Ifanc ar weithgarwch Cymraeg yn ein cymunedau. Bydd yn hollbwysig ein bod yn cynnig pob cefnogaeth iddynt ail-afael yn eu gweithgareddau wedi cyfnodau clo'r pandemig COVID-19. Defnyddiwn ein dylanwad i ddwyn perswâd ar fusnesau a threfnwyr digwyddiadau i roi llwyfan i’r iaith mewn digwyddiadau. Cefnogwn a hyrwyddwn gyfleoedd i wirfoddoli trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hollbwysig bod cynrychiolwyr cymunedol a’n haelodau etholedig yn ymwybodol o'r dylanwad sydd ganddynt i yrru newid a sicrhau bod gan y Gymraeg le amlwg mewn digwyddiadau a gweithgareddau.

## Dangosyddion llwyddiant

- Cynnydd yn y wardiau etholiadol sydd a dros 70% o’u poblogaeth yn siarad Cymraeg.
- Cynnydd yn y wardiau etholiadol sydd a dros 50% o’u poblogaeth yn siarad Cymraeg.



Draft

- Nifer yr ymweliadau ag adnoddau Cymraeg i newydd ddyfodiaid ar ein gwefan.
- Nifer y newydd ddyfodiad sy’n cysylltu â ni i ofyn am becyn adnoddau.
- Nifer y newydd ddyfodiaid sy’n ymgymryd â gwersi neu hyfforddiant dysgu Cymraeg o fewn blwyddyn o symud i’r ardal.
- Nifer y dosbarthiadau ffitrwydd sy’n cael eu cynnal yn Gymraeg.

Drafft

# Gweithredu'r strategaeth

Er bod y strategaeth hon yn ymhél yn bennaf â meysydd mae gennym ddylanwad uniongyrchol drostynt, mae ei llwyddiant yn llwyr ddibynnol ar gydweithio. Mae cymaint o asiantaethau sy'n gweithredu'n lleol sy'n rhannu'r un blaenoriaethau â ni. Camgymeriad fyddai peidio cydlynu ein hymdrechion a manteisio ar adnoddau ac arbenigedd ein gilydd i gyflawni'n un nod sef cynyddu defnydd o'r Gymraeg ar ein hynys.

Rydym wedi crybwyll rhai o'n partneriaid allweddol yn barod ac mae rhestr gyflawn o holl aelodau Fforwm Iaith Ynys Môn i'w weld yn yr atodiad. Fforwm yw hwn o sefydliadau amrywiol sy'n weithredol ar yr ynys, sydd oll â'r nod o gydweithio er mwyn cefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg yn lleol. Mae gan bob un o'r sefydliadau hyn rôl bwysig i'w chwarae wrth weithredu'r strategaeth hon hefyd.

Ar gyfer pob blwyddyn o gyfnod y strategaeth bydd cynllun gweithredu. Dyma'r ddogfen fydd yn amlinellu ein cynlluniau ar gyfer gweithredu â chydweithio i gynyddu defnydd o'r Gymraeg. Mae'n cynnwys nodau ac amcanion yn gysylltiedig â'r tri maes blaenoriaeth ynghyd â manylion prosiectau penodol i ni eu cyflawni yn ystod y cyfnod.

Fforwm Iaith Ynys Môn fydd yn gyfrifol am fonitro cynnydd y cynlluniau gweithredu blynyddol. Byddwn yn cydweithio'n agos gyda'r fforwm er mwyn atgyfnerthu nodau ac amcanion ein strategaeth. Dyma hefyd ein llwyfan ar gyfer rhannu gwybodaeth, cydlynu ymdrechion ac adnabod cyfleoedd pellach i gydweithio. Bydd y fforwm yn adnabod prosiectau blynyddol lle bydd cydweithio rhwng ei aelodau, gan gynnwys y Cyngor a'n hadrannau gwasanaeth.

Bydd cynnydd yn erbyn targedau'r cynlluniau gweithredu blynyddol hefyd yn cael ei archwilio fel rhan o drefniadau craffu ffurfiol y Cyngor.

Ar ddiwedd pob blwyddyn byddwn yn cadw cofnod o weithgarwch y cyfnod. Bydd y cofnodion hyn yn sail i'n hasesiad ar ddiwedd oes y strategaeth o lwyddiant ein hymdrechion, fel sy'n ofynnol arnom dan safon 146. Byddwn hefyd yn cadw cofnod o'r holl ddigwyddiadau a gweithgareddau cymunedol i hyrwyddo'r Gymraeg a gefnogwyd gennym. Caiff y wybodaeth ei chyhoeddi ar ein gwefan a'i rhannu â Chomisiynydd y Gymraeg.

Draft

# Atodiad 1: Aelodaeth Fforwm Iaith Ynys Môn

- Dr Haydn E. Edwards (Cadeirydd annibynnol ers 2019)
- Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr
- Comisiynydd y Gymraeg
- Consortiwm Addysg ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn
- Cymdeithas yr Iaith
- Cymraeg i Blant
- Cyngor Sir Ynys Môn, gan gynnwys;
  - Aelodau Etholedig: Deilydd Portffolio sydd â chyfrifoldeb am y Gymraeg, a phedwar aelod etholedig arall
  - Swyddogion: Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc, Rheolwr Polisi a'r Gymraeg a swyddogion perthnasol eraill yn ôl y galw
- Ffermwyr Ifanc
- Fforwm Prifathrawon Cynradd Ynys Môn (Cadeirydd)
- Fforwm Prifathrawon Uwchradd Ynys Môn (Cadeirydd)
- Grŵp Llandrillo Menai
- GwE
- Heddlu Gogledd Cymru
- Medrwn Môn
- Menter Iaith Môn
- Menter Môn
- Merched y Wawr
- Môn CF
- Môn FM
- Mudiad Meithrin
- Prifysgol Bangor
- Siarter Iaith Ysgolion
- Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn
- Un Llais Cymru
- Llys Eisteddfod Môn
- Llywodraeth Cymru
- Y Ganolfan Cymraeg i Oedolion
- Yr Urdd

Draft

# Atodiad 2: Cynllun gweithredu blwyddyn un

Draft

| Maes blaenoriaeth 1: Plant, pobl ifanc a'r teulu | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Nod cyffredinol** | **Amcan i'w gyflawni** | **Cyfrifoldeb** | **Ffynhonnell gyllido** | **Dangosydd perfformiad** | **Statws RAG** |
| **Gwella ymwybyddiaeth o fanteision trosglwyddo'r Gymraeg** | Cydweithio i gynhyrchu pecyn cynhwysfawr i ddarpar rieni ar fanteision trosglwyddo'r iaith. | Menter Iaith Môn i gydlynu ar ran aelodau Partneriaeth Cymraeg i Deuluoedd Môn | | | |
| | Cynnig hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i swyddogion Dechrau'n Deg. | Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ynys Môn i drefnu gyda chefnogaeth gan Menter Iaith Môn | | | |
| | Rhannu gwybodaeth â rhieni yn y cyfnod cyn ac ôl-eni cynnar am fanteision y Gymraeg. | • Gwasanaeth Cofrestru Cyngor Sir Ynys Môn<br>• Gwasanaeth Cofrestru Cyngor Gwynedd<br>• Cymraeg i Blant<br>• Mudiad Meithrin<br>• Bydwragedd ac ymwelwyr iechyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | | | |
| | Rhannu gwybodaeth â rhieni maeth am fanteision y Gymraeg. | Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ynys Môn i drefnu gyda chefnogaeth gan Menter Iaith Môn | | | |
| | Cynnig hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith | Adran Dysgu Cyngor Sir Ynys Môn i drefnu | | | |

This document is available in English

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Gymraeg i holl gyrff llywodraethu ysgolion. | gyda chefnogaeth gan Menter Iaith Môn | | | |
| **Cynyddu cyfleoedd trochi yn y Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar ar gyfer plant 0-5 oed** | Cyhoeddi rhestr gynhwysfawr o leoliadau blynyddoedd cynnar ar gyfer plant 0-5 oed sy'n cynnig trochi iaith. | Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ynys Môn | | | |
| | Rhannu gwybodaeth am fanteision trochi yn y Gymraeg â lleoliadau gofal nad ydynt yn cynnig gofal cyfan gwbl trwy gyfrwng yr iaith. | • Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ynys Môn<br>• Mudiad Meithrin<br>• Cymraeg i Blant | | | |
| **Gwella darpariaeth a safon addysg cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion** | Gweithredu CSGA 2022-2032. | Adran Dysgu Cyngor Sir Ynys Môn | | | |
| | Gweithredu fframwaith y Siarter Iaith mewn ysgolion. | Adran Dysgu Cyngor Sir Ynys Môn | | | |
| **Sicrhau bod gallu yn y Gymraeg yn cael ei ystyried yn sgìl gwerthfawr ymysg myfyrwyr addysg bellach** | Hyrwyddo manteision gyrfa mewn iechyd a gofal i bobl ifanc sy'n siaradwyr Cymraeg. | • Adran Dysgu Cyngor Sir Ynys Môn<br>• Grŵp Llandrillo Menai<br>• Aelodau Fforwm Iaith Ynys Môn a'r Bartneriaeth Cymraeg i Deuluoedd gefnogi fel darpar gyflogwyr trwy gynnig ymwybyddiaeth iaith | | | |
| **Maes blaenoriaeth 2: Y gweithle, gwasanaethau Cymraeg a'r seilwaith** | | | | | |
| **Nod cyffredinol** | **Amcan i'w gyflawni** | **Cyfrifoldeb** | **Ffynhonnell gyllido** | **Dangosydd perfformiad** | **Statws RAG** |

Draft



This document is available in English

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cynyddu defnydd o'r Gymraeg o fewn y Cyngor a chefnogi ein gweithlu i ddefnyddio'r iaith yn y gweithle** | Cefnogi pencampwyr paith presennol yr adrannau Tai, Hamdden a Gwarchod y Cyhoedd. | Uned Polisi a'r Gymraeg Cyngor Sir Ynys Môn | | | |
| | Ymestyn y rhaglen dreigl chwe blynedd i'r adrannau Cyllid, Gwasanaethau Cymdeithasol a Datblygu Economaidd. | Uned Polisi a'r Gymraeg Cyngor Sir Ynys Môn | | | |
| | Newid arferion iaith y gweithle drwy berthnasu methodoleg newid ymddygiad ARFer. | Uned Polisi a'r Gymraeg Cyngor Sir Ynys Môn mewn partneriaeth â Chanolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor | | | |
| | Adolygu tudalennau'r fewnrwyd sy'n ymwneud â'r Gymraeg. | Uned Polisi a'r Gymraeg Cyngor Sir Ynys Môn | | | |
| | Adolygu sut yr ydym yn cyfleu gofynion iaith swyddi mewn swydd ddisgrifiadau. | • Uned Polisi a'r Gymraeg Cyngor Sir Ynys Môn<br>• Adran Adnoddau Dynol Cyngor Sir Ynys Môn | | | |
| **Sicrhau bod gallu yn y Gymraeg yn cael ei ystyried yn sgìl gwerthfawr mewn hyfforddiant a chyflogaeth** | Hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i gynghorwyr gyrfa ac athrawon sy'n gyfrifol am roi cyngor gyrfaoedd mewn ysgolion. | Adran Dysgu Cyngor Sir Ynys Môn i drefnu gyda chefnogaeth gan Menter Iaith Môn | | | |
| **Cynyddu defnydd o wasanaethau Cymraeg gan** | Derbynfeydd Hamdden y Cyngor i gymryd rhan yn y prosiect 'Cyswllt Cyntaf'. | Is-grŵp Iaith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru | • Cyngor Sir Ynys Môn<br>Cyngor Gwynedd | | |

Draft

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **drigolion a gweithredu'r safonau** | Adolygu Polisi Iaith Gymraeg y Cyngor. | Uned Polisi a'r Gymraeg Cyngor Sir Ynys Môn | | | |
| | Adolygu tudalennau'r wefan gorfforaethol sy'n ymwneud â'r Gymraeg. | • Uned Polisi a'r Gymraeg Cyngor Sir Ynys Môn<br>• Gwasanaethau Digidol Cyngor Sir Ynys Môn | | | |
| | Hyfforddiant ymwybyddiaeth o safonau'r Gymraeg i hyfforddeion Academi Môn. | • Uned Polisi a'r Gymraeg Cyngor Sir Ynys Môn<br>• Adran Adnoddau Dynol Cyngor Sir Ynys Môn | | | |
| | Hyfforddiant ymwybyddiaeth o safonau'r Gymraeg i aelodau etholedig newydd. | • Gwasanaethau Democrataidd Cyngor Sir Ynys Môn | | | |

**Maes blaenoriaeth 3: Y gymuned**

| Nod cyffredinol | Amcan i'w gyflawni | Cyfrifoldeb | Ffynhonnell gyllido | Dangosydd perfformiad | Statws RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyflwyno'r Gymraeg i gymunedau newydd a hyrwyddo cyfleoedd dysgu Cymraeg ac addysg Gymraeg** | Cyhoeddi deunydd hyrwyddo i sylw newydd ddyfodiaid ar wefan y Cyngor. | Cyngor Sir Ynys Môn mewn partneriaeth a Menter Iaith Môn | Arfor | | |
| | Rhannu gwybodaeth am y Gymraeg â darpar brynwyr fel rhan o chwiliadau eiddo. | Adran Gyfreithiol Cyngor Sir Ynys Môn | | | |
| **Cynyddu ymwybyddiaeth o fanteision y Gymraeg i fusnesau** | Cyhoeddi deunydd hyrwyddo i sylw busnesau ar wefan y Cyngor. | Cyngor Sir Ynys Môn mewn partneriaeth a Menter Iaith Môn | Arfor | | |

Draft

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Ymateb i Gwerthusiad o mwy na geiriau: Adroddiad terfynol | Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ynys Môn | | | |
| **Cynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn Gymraeg** | Hyrwyddo manteision gyrfa mewn iechyd a gofal i bobl ifanc sy'n siaradwyr Cymraeg. | • Adran Dysgu Cyngor Sir Ynys Môn<br>• Grŵp Llandrillo Menai<br>• Aelodau Fforwm Iaith Ynys Môn a'r Bartneriaeth Cymraeg i Deuluoedd gefnogi fel darpar gyflogwyr trwy gynnig ymwybyddiaeth iaith | | | |
| **Cynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned** | Paratoi memorandwm o ddealltwriaeth i glybiau chwaraeon. | | | | |
| | Sefydlu Neuadd Bentref Rithiol. | | | | |

Draft



This document is available in English

This page is intentionally left blank

# CYNGOR SIR YNYS MÔN
## Templed Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 14 Hydref, 2021 |
| **Pwnc:** | Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Cyflwyno Cynllun CSGA 10 mlynedd |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cyng Gwilym O Jones |
| **Aelod(au) Portfolio:** | Cyng R Meirion Jones |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Rhys H Hughes, Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Owen Davies<br>Uwch Swyddog Sector Gynradd<br>07595176103 |
| **Aelodau lleol:** | Amherthnasol |

DRAFT

### 1 – Argymhelliad/ion

A1 – Gofynnir i'r Pwyllgor argymell i'r Pwyllgor Gwaith y dylid cymeradwyo:

a) Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032: Diffiniad rol y cydlynwyr Iaith dalgylch (drafft) ac awdurdodi'r swyddogion perthnasol, mewn ymgynghoriad a'r deilydd portffolio, i gwblhau unrhyw waith adolygu pellach i'r strategaeth ddrafft.

**Rhesymeg**

Mae adran 84 o *Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013*[1](“Deddf 2013”) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol baratoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (“CSGA”).

*Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013* (“Rheoliadau 2013”), oedd y rheoliadau cyntaf a wnaed o dan bwerau adran 87. Mae'r Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 (“Rheoliadau 2019”) yn disodli'r rheoliadau hynny ac yn gwneud darpariaeth i awdurdod lleol lunio Cynllun deng mlynedd, y cyntaf i gael effaith o 1 Medi 2022 yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru.

Diben y rheoliadau hyn yw gwella cyfleoedd i awdurdodau lleol gynllunio darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg er mwyn cyfrannu at gyflawni'r disgwyliad o ran twf addysg cyfrwng Cymraeg, nawr ac yn y dyfodol. Bydd gwella'r ffordd y caiff addysg cyfrwng Cymraeg ei chynllunio hefyd yn cyfrannu at gyflawni ein huchelgais genedlaethol hirdymor ar gyfer y Gymraeg a amlinellir yn ein strategaeth *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*, eich strategaeth ar gyfer hybu'r Gymraeg yn unol â'r Safonau Hybu o dan reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 a'r gwaith o gyflwyno cwricwlwm newydd i Gymru.

### 2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall

Mae Cynllun y Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd ein treftadaeth a'n diwylliant Cymraeg ac yn nodi bod diogelu'r iaith yn flaenoriaeth uchel i ni. Mae ein Polisi Iaith Gymraeg yn adlewyrchu ein cyfrifoldeb i

hyrwyddo'r iaith yn gymunedol ac fel cyflogwr i ddenu a chadw siaradwyr Cymraeg i gynnal y safon uchel o wasanaethau.

Mae gweithredu cynllun CSGA hybu hefyd yn cyfrannu tuag at gyflawni sawl dyletswydd statudol a pholisi sydd wedi ei gosod ar y Cyngor.

**Yn benodol:**
- Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 ("Rheoliadau 2019")
- Strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r iaith, Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr
- Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Drwy Addysg yn ategu Fframwaith cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector iechyd a gofal, Mwy na geiriau
- Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg
- Yn ategu drwy Addysg Polisi Strategol PS1 Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd Gwynedd a Môn

## 3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini

**Er mwyn cymhorthi Aelodau wrth graffu'r pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar deilliannau'r CSGA dros y deng mlynedd nesaf. **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y cynllun i barhau addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ar yr Ynys. **[Ffocws ar gydraddoldeb]**

**3.3** Edrych ar y broses ymgynghori ac arddull cynhwysol Ynys Mon o gyd gynllunio y CSGA. **[Ffocws ar gydraddoldeb]**

**3.4** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.5** Addasrwydd y model atebolrwydd ar draws y sector. **[Ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.6** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

DRAFT

## 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

Ar gais y Panel:
1. I ba raddau mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn fodlon â'r gwaith ymgynghorol wrth gynllunio'r CSGA?
2. I ba raddau mae'r strategaeth yma yn ddigon cadarn i ymateb i ddeilliannau'r CSGA ac a yw natur cydweithio ar draws y sectorau yn briodol?
3. Beth yw'r prif heriau'r dyfodol o ran sefyllfa'r Gymraeg yn addysg leol?

4. Pa awgrymiadau sydd gan y Pwyllgor i gryfhau ymhellach ar waith y Cylch Gorchwyl?
5. Pa feysydd eraill y mae angen i'r Panel eu craffu?

## 4 – Cefndir / Cyd-destun

**1. CYD-DESTUN**
Mae Ynys Môn yn dechrau pennod newydd yn y ffordd rydym yn cynllunio'r Gymraeg mewn addysg. Cymraeg 2050: ein strategaeth ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg yw'r sylfaen ar gyfer hyn oll. Bydd ein cyfraniadau heddiw, wrth weithredu ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg dros y 10 mlynedd nesaf, yn cerfnogi ein dyheuad i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg. Mae pob dysgwr yn cyfrif.


Bydd sut rydym yn meithrin sgiliau iaith ein dysgwyr yn y Gymraeg yn dibynnu ar fodel yr ysgol. Mae Cymraeg 2050 yn glir mai trochi cyfrwng Cymraeg - sef lle mae cyfrwng yr addysgu a'r dysgu yn cael ei gyflwyno'n gyfan gwbl neu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg - yw'r model mwyaf dibynadwy ar gyfer creu siaradwyr Cymraeg gyda'r sgiliau a'r hyder i ddefnyddio'r iaith yn gyfforddus yn eu bywydau bob dydd. Wrth i'r cwricwlwm newydd gael ei gyflwyno, bydd y rôl y mae addysg cyfrwng Saesneg yn ei chwarae yn dod yn bwysicach fyth wrth gynhyrchu dysgwyr sy'n gallu defnyddio'r Gymraeg ac sydd am ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'r Gymraeg yn perthyn i ni i gyd.

Mae adran 84 o *Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013*[1](“Deddf 2013”) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol baratoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (“y Cynllun”), ac mae'n nodi y dylai Cynllun o'r fath gynnwys:

- **Cynllun awdurdod lleol** ynghylch sut y bydd yn cyflawni ei swyddogaethau addysg er mwyn:
  - Gwella'r broses o gynllunio'r modd y mae addysg drwy gyfrwng y Gymraeg (“addysg cyfrwng Cymraeg”) yn cael ei darparu yn ei ardal;
  - Gwella safonau addysg cyfrwng Cymraeg a safonau addysgu Cymraeg yn ei ardal;
- **Targedau'r awdurdod lleol** ar gyfer gwella'r broses o gynllunio'r modd y mae addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei darparu yn ei ardal ac ar gyfer gwella safonau'r addysg honno ac addysgu Cymraeg yn ei ardal;
- **Adroddiad ar y cynnydd** (blynyddol) a wnaed i fodloni'r targedau a gynhwyswyd yn y cynllun blaenorol neu'r cynllun diwygiedig blaenorol.

Mae adran 84 hefyd yn nodi pwy y mae'n ofynnol i awdurdod lleol **ymgynghori** â nhw wrth baratoi neu ddiwygio ei Gynllun. I'r diben yma, mae arddull Ynys Mon wedi wedi'i adeiladu CSGA 10 mlynedd ar y cyd gyda rhan deiliad ar draws y sector. Fe trefnwyd cylch gorchwyl i lunio'r gwaith ac yna is-banel ar gyfer bob deilliant. Fe benodwyd swyddog addysg I gadeirio pob is-banel yn unol ac arbenigedd y maes a chynnal cyfarfodydd gyda rhandeiliad a oedd yn cynrychioli nifer eang o sectorau cyhoeddys.

Fe ddilynwyd amserlin ganlynol:




Fe hwyluswyd y cyfarfodydd a chyfathrebu ehangach drwy greu wefan "Ymgynghoriad CSGA".

Wrth gynllunio a drafftio'r CSGA fe fanteisiwyd ar ymgysylltu ac arbenigedd y Darlithydd mewn Addysg Mrs Gwawr Maelor Williams o Brifysgol Bangor fel ffrind critigol i'r broses ymgynghori. Roedd y cam yma yn sicrhau fod ystyriaethau ymarferol yn ogystal ag addysgiadol ac addysgeg yn cael blaenoriaeth ym mhob deilliant.

## Cynnwys Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA)

Amlinelliad o 7 deilliant y cynllun sef:

1. Mwy o blant meithrin/tair oed yn cael eu haddysgu drwy'r Gymraeg
2. Mwy o blant dosbarth derbyn/5 oed yn cael eu haddysgu drwy'r Gymraeg
3. Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall
4. Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg
5. Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol.
6. Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ac anghenion dysgu ychwanegol ("ADY") yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.
7. Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu'r Gymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd pob un o'r deilliannau yma yn cael eu gorchwyl gan is-banel dan gadeirydd (Swyddog Addysg). Bydd yr is-banel yn cyfarfod 2 waith y flwyddyn ac yn adrodd i Swyddogion Addysg a Data er mwyn llunio adroddiad blynyddol (gweler y staregaeth).

**Diweddariad ar y Gymraeg yn y System Addysg ym Môn 2021**

Cafwyd adroddiad ar lafar gan yr Uwch Reolwr Cynradd ar y Gymraeg yn y System Addysg ym Môn, a nodwyd y pwyntiau canlynol yn benodol. Cyfeiriwyd at y 10 Cydlynydd Dalchgylch (5x Cydlynydd Cynradd a 5x Cydlynydd Uwchradd). Nodwyd bod y Cydlynwyr yn gyfrifol am arwain cynlluniau clwstwr a chefnogi'r dalgylch, ac yn

DRAFT

cyfrannu at gyfarfodydd yr Awdurdod, sy'n cynnwys GwE a swyddogion Siarter Iaith. Lluniwyd cynlluniau clwstwr ym mis Rhagfyr 2020, a bu i Lywodraeth Cymru ddosbarthu £7,000 i bob clwstwr ar gyfer cyfnod Ionawr- Gorffennaf 2021.

Nodwyd mai cyfrifoldeb y Cydlynwyr Dalgylch yw llunio cynllun ar gyfer y dalgylch gan alinio'n uniongyrchol I Cynllyn Strategol y Gymraeg y Cyngor, a lledaenu arbenigedd ar draws y rhanbarth ehangach, gan fonitro'r sefyllfa o ran y Gymraeg. Nodwyd bod cydweithio agos rhwng Swyddogion GwE a Swyddogion Siarter Iaith. Cyfeiriwyd at y cynlluniau a'r strwythurau rhanbarthol sy'n cefnogi'r Gymraeg sef Gweithgor Rhanbarthol, Cynllun Carlam y Gymraeg, Prosiect Peilot Siarter Iaith a Microsite Caru Iaith.

Cyfeiriwyd at y gwaith peilot mewn 4 ysgol sy'n canolbwyntio ar adfer iaith drwy gynllun unigryw mewn cydweithrediad rhwng y Gwasanaeth Dysgu, ysgolion a'r swyddog Siarter Iaith. Mae'r cynllun ar gael ar lein bellach i holl ysgolion Môn. Mae'r ysgolion yn derbyn adnoddau priodol er mwyn datblygu'r ddarpariaeth adfer iaith lafar. Mae'n fwriad i'r pedair ysgol rannu eu profiadau a chynlluniau drwy hyfforddi athrawon eraill ar yr Ynys er mwyn canolbwyntio ar adfer iaith ar y buarth ac yn ehangach ar draws yr holl ysgolion.

Dysgwyd am sut bu i'r Gwasanaeth Dysgu gyfrannu at broffil iaith Ynys Môn, ac y cymerwyd rhan mewn ymgynghoriad o gategoreiddio ysgolion.

Cyfeiriwyd at y ddwy ganolfan iaith ar yr Ynys. Nodwyd bod y canolfannau bellach wedi gallu croesawu plant yn ôl wyneb yn wyneb, gyda gwersi rhithiol yn parhau hefyd ar Google Classroom. Cyfeiriwyd at y rhestr aros ar gyfer mynychu'r Canolfannau a nodwyd bod yr unigolion hyn yn cael mynediad at y gwersi a'r ddarpariaeth ar Google Classroom, ac mai'r flaenoriaeth ar hyn o bryd yw gorffen y garfan bresennol o ddisgyblion, a chroesawu carfan newydd ym mis Mai 2021.

**Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion.**

| Cynghorydd | Pwyllgor Sgriwtini |
|---|---|
| Gwilym O Jones (Cadeirydd y Panel) | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| Margaret M Roberts | |
| Kenneth P Hughes | |
| Vaughan Hughes | |
| | |
| Alun Roberts (Is-gadeirydd) | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| John Arwel Roberts | |
| Richard Griffiths | |
| **Aelod Cyfetholedig o'r Pwyllgorau Sgriwtini** | |
| Mr Keith Roberts | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |

**6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb** **[cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]**

6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
Gweler 6.2 a 6.3 isod.
6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol) Gall diffyg gallu yn y Gymraeg greu anfantais economaidd-gymdeithasol trwy rwystro rhai unigolion rhag cael swyddi da yn lleol ac, mewn achosion eithriadol, effeithio'n andwyol ar gyfleoedd bywyd. Rhai o brif amcanion Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2021-2026 (drafft) yw cynyddu cyfraddau trosglwyddo a throchi iaith a chreu cyfleoedd i ddysgu'r iaith. Gall y cyfleoedd hyn yn eu tro effeithio'n gadarnhaol ar amgylchiadau economaidd-gymdeithasol rhai trigolion trwy gynnig cyfle iddynt ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg

ac ymgeisio am swyddi gwell ble mae gallu yn yr iaith yn fantais. Mae ymchwil yn dangos bod dwyieithrwydd yn gallu effeithio'n gadarnhaol ar ddatblygiad a chyrhaeddiad academaidd plant. 6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg Diben y strategaeth hybu yw amlinellu sut y mae'r Cyngor mynd ati i hybu'r Gymraeg a hwyluso defnyddio'r iaith yn ehangach ar Ynys Môn. O'i gweithredu byddwn yn cynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn lleol ac yn cyfrannu tuag at darged Lywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr erbyn 2050. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn gweithredu'n unol ag egwyddorion craidd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, sef:

- ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru; a
- dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

**7 – Oblygiadau Ariannol**

Dim yn berthnasol

- Bydd y cynllun yn weithredol oddi fewn y model gyllidol bresenol.
- Bydd Grantiau ar gyfer trochi yn cael eu llunio I ategu ddarpariaeth bresenol Trochi yn yr ysgolion ac hefyd y Canolfannau Iaith ar gyfer hwyr-ddyfodwyr.

**8 – Atodiadau**

i. Cynllyn Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032: (drafft)
ii. ii. Rôl y cydlynydd iaith dalgylchol (drafft)

**9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):**

Rôl y cydlynydd iaith dalgylchol

DRAFT

# CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG

| Enw'r Awdurdod Lleol |
|---|
| Ynys Môn |
| **Cyfnod y Cynllun hwn** |
| Medi 2023 - Gorffennaf 2032 |

**Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg hwn yn cael ei wneud o dan adran 84 o *Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013* ac mae'r cynnwys yn cydymffurfio â *Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019*[1-2]. Rydym wedi rhoi sylw dyledus i'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru wrth bennu ein targedau.**

**Llofnod**: Rhys Howard Hughes **Dyddiad**: 31.10.2021

(Mae angen i'r Prif Swyddog Addysg yn eich awdurdod lleol lofnodi'r Cynllun hwn)

[1] Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019
[2] Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020

## Nodiadau i'ch cynorthwyo

**Bydd angen i chi amlinellu gweledigaeth addysg cyfrwng Cymraeg eich awdurdod lleol dros y deng mlynedd nesaf a'r prif amcanion strategol ar gyfer y cyfnod hwn. Dangoswch sut y byddwch yn cyflawni Deilliant 1-7 gan gyfeirio at y Canllawiau.**

**Cyn cwblhau'r templed hwn, cyfeiriwch yn benodol at Rhan 2 o'r Canllawiau ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.**

**https://llyw.cymru/cynlluniau-strategol-cymraeg-mewn-addysg**

**Mae'r rhan hon yn nodi'r gofynion statudol ar gyfer yr hyn y mae'n rhaid ei gynnwys yn eich Cynllun (fel yr amlinellir yn Atodlen y Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019). Yn ogystal â'ch targed 10 mlynedd cyffredinol, mae rhai datganiadau yn yr Atodlen yn gofyn i chi osod targedau eraill, ac os felly, dylech hefyd gyfeirio at y rheini.**

## Ein gweledigaeth deng mlynedd ar gyfer cynyddu a gwella'r cynllunio darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn ein hardal

**Rhagair**

Mae'n bleser i mi gyhoeddi **Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Ynys Môn 2022- 2032**. Mae'r Cynllun hollbwysig hwn yn adlewyrchu ein nod fel Cyngor, sef gweithio tuag at Ynys Môn fydd yn iach a llewyrchus lle bydd teuluoedd yn ffynnu.

Mae'r Cynllun yn gosod arweiniad ac ymrwymiad clir ar gyfer sicrhau bod dysgwyr Ynys Môn yn derbyn y cyfleoedd gorau posib er mwyn creu'r amgylchedd i bawb brofi llwyddiant a chyflawni'r safonau uchaf posib. Mae hefyd yn cyd-fynd â'n gweledigaeth o sicrhau cyfundrefn addysg Gymraeg a dwyieithog sy'n rhoi anghenion ein holl ddysgwyr yn ganolog i'n darpariaeth.

Bydd gwireddu'r Cynllun yn cynorthwyo pobl Ynys Môn i ffynnu a chyflawni eu potensial hirdymor er mwyn cynnal yr iaith, diwylliant a'r economi yn lleol gan ddarparu i'n disgyblion ar gyfer y dyfodol.
Mae ein holl randdeiliaid, sy'n cynnwys adrannau'r Cyngor, ysgolion a phartneriaid ehangach yn ymrwymo i wireddu holl amcanion **Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg** a thrwy hyn yn cefnogi strategaeth Llywodraeth Cymru i gyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

- *Y Cynghorydd Meirion Jones, Deilydd Portffolio Addysg, Diwylliant a Llyfrgelloedd*

**Gweledigaeth Môn:**

**Bod pob disgybl sy'n mynd drwy gyfundrefn addysg Ynys Môn yn gwbl ddwyieithog erbyn cyrraedd 16 oed, ac yn hyderus i gyfathrebu yn y ddwy iaith yn gyfartal yn y byd gwaith, yn ddiwylliannol ac yn gymdeithasol.**

**Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Môn 2022- 2032.**

Dyma weledigaeth Ynys Môn ar gyfer addysg Gymraeg a dwyieithog am y deng mlynedd nesaf. Mae'r cynllun yn rhoi'r dysgwr yn y canol ac yn ystyried taith a phrofiad pob dysgwyr trwy siwrne ei addysg. Mae'r

cynllun wedi ei gyd-gynllunio â phartneriaid ar draws y sectorau. Mae'r cynllun strategol hwn wedi'i gyd-ysgrifennu â rhanddeiliaid ac mae'n nodi llwybr clir ar gyfer y deng mlynedd nesaf er mwyn sicrhau bod pob dysgwr ym Môn yn cyflawni'r safonau uchaf er mwyn cynnal yr iaith, diwylliant a'r economi yn lleol. Mae adrannau'r Awdurdod Lleol, ysgolion a phartneriaid ehangach yn ymrwymo'n llawn i Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Môn (CSGA Môn). Mae CSGA Môn yn ategu a chefnogi strategaeth Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, drwy gydweithio'n strategol gydag ysgolion, partneriaid a strwythurau CSGA i sicrhau bod cyfleoedd ym mhob cyfnod o addysg unigolyn i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg.

Fel atodiad i'r cynllun hwn, llunnir Cynllun Gweithredu a fydd yn manylu ar y camau gweithredu er mwyn ymgyrraedd â'r nod a'r amcanion a nodir. Arfarnir y cynllun yn flynyddol gan adrodd ar y cynnydd i'r Pwyllgor Sgriwtini Addysg a Fforwm Iaith Ynys Môn. Fel rhan o gylch gwaith y Fforwm bydd disgwyl iddynt graffu ar weithrediad ac effaith y cynllun.

Cysylltu
Os hoffech ragor o wybodaeth am y Gymraeg, neu Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, gallwch gysylltu â:

| | |
|---|---|
| Mr Owen Davies<br>Uwch Swyddog Sector Cynradd<br>Cyngor Sir Ynys Môn<br>Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni<br>Ynys Môn<br>LL77 7TW<br>Ffôn: (01248) 750057 | Mr Rhys Howard-Hughes<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobol Ifanc<br>Cyngor Sir Ynys Môn<br>Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni<br>Ynys Môn<br>LL77 7TW<br>Ffôn: (01248) 750057 |

## Deilliant 1

## Mwy o blant meithrin/ tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

### Ble rydym ni nawr?

**Cefndir**

Mae pob plentyn 3 oed wedi cael cynnig addysg hanner amser am ddim. Gellir darparu'r addysg honno un ai mewn ysgol a gynhelir neu mewn lleoliad a gyllidir.
Mae Cynllun Datblygu Blynyddoedd Cynnar Cyngor Sir Ynys Môn yn sicrhau darpariaeth addysg feithrin o ddechrau'r tymor yn dilyn pen-blwydd plentyn yn 3 oed. Amcan penodol addysg feithrin Cyngor Sir Ynys Môn yw sicrhau y rhoddir i bob plentyn sylfaen gadarn yn y Gymraeg er mwyn ei alluogi i gyrraedd y nod o ddwyieithrwydd llawn maes o law.

Mae Awdurdod Addysg Cyngor Sir Ynys Môn yn cefnogi darpariaeth i blant o 3 mlwydd oed i fyny drwy un o ddwy ffordd:

Cefnogir drwy arian grant ar y ddealltwriaeth bod y lleoliadau'n gweithredu Polisi Iaith yr Awdurdod.

Cyllido'r ysgolion drwy'r fformiwla Ariannu Teg i gynnal dosbarthiadau meithrin.

Arfarnwyd safon darpariaeth yr iaith Gymraeg yn y lleoliadau nas cynhelir yn ystod **Tymor yr Haf 2019.** Barnwyd bod y ddarpariaeth yn dda iawn neu'n rhagorol mewn 20 lleoliad, yn dda mewn 12 lleoliad ac yn anfoddhaol mewn 3. Mae'r 3 lleoliad hyn yn rhan o gynllun gwelliant a hyfforddiant.

Nod strategol y Gwasanaeth Dysgu ym Môn yw cryfhau'r cydweithio rhwng y gwasanaeth a'r cylchoedd meithrin er mwyn sicrhau bod pob lleoliad Blynyddoedd Cynnar yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer y Gymraeg.

Drwy gyfundrefn waith ysgolion a swyddogion cefnogi sefydliadau Blynyddoedd Cynnar, mae prosesau atebolrwydd ar waith i sicrhau fod pob plentyn yn cael asesiad sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn y Gymraeg ar fynediad ac ar derfyn addysg feithrin rhan amser ac ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Byddwn yn parhau i sicrhau darpariaeth addas i ganiatáu i bob disgybl ddatblygu'n hyfedr ddwyieithog.

**Darlun presennol o'r ddarpariaeth:**

Cefnogir drwy grant Blynyddoedd Cynnar, 36 o leoliadau nas cynhelir - 25 drwy'r Mudiad Meithrin a 4 trwy gylchoedd chwarae EYW.

| Math | Nifer y lleoliadau nas gynhelir 24.9.21 | Canran sy'n darparu drwy gyfrwng y Gymraeg/dwyieithog |
|---|---|---|
| **Cylchoedd Meithrin** | 32 | 100% |
| **EYW** | 4 | 100% |
| | Cyfanswm 36 | |

Cyllidir hefyd 37/40 o'n hysgolion cynradd drwy'r fformiwla Ariannu Teg i gynnal dosbarth meithrin.

| Math | Nifer y lleoliadau nas gynhelir 24.9.21 | Canran sy'n darparu drwy gyfrwng y Gymraeg/dwyieithog |
|---|---|---|
| Ysgolion Cynradd | 38 | 100% |
| Ysgol Sefydledig | 1 | 100% |
| Ysgol Babyddol dan Gymorth Gwirfoddol | 1 | 100% |
| | Cyfanswm 40 | |

## Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

**Datganiad**

Fel dilyniant i raglen o'r Crud i'r Byd a Phartneriaeth Cymraeg i Deuluoedd; sicrheir addysg i blant meithrin / tair oed sy'n bwrpasol a phriodol. Cynhwysir dulliau trochi i bob plentyn; beth bynnag yw eu cefndir ieithyddol, er sicrhau sylfaen gadarn yn y Gymraeg o'r dechrau.

Canran y plant 3 oed sy'n derbyn addysg FEITHRIN nas cynhelir drwy'r Gymraeg neu'n ddwyieithog: 100%

Canran y plant 3 oed sy'n derbyn addysg YSGOL FEITHRIN drwy'r Gymraeg neu'n ddwyieithog: 100%

Mae is-banel y deilliant hwn wedi cyfarfod ac yn ymrwymo'n llawn i'r amcanion canlynol.

**Amcanion:**

1. Parhau i gefnogi nifer o blant 3 oed sy'n derbyn addysg drwy'r Gymraeg gan fod mwy o deuluoedd yn dewis manteisio'n fwriadus ar ddarpariaeth Gymraeg.
2. Datblygu'r cydweithio strategol gyda'r Mudiad Meithrin, athrawon cefnogol a phartneriaid eraill.
3. Ymestyn y strategaeth i raglen Dechrau'n Deg ac i gefnogi sefydliadau sector preifat.
4. Parhau i gefnogi nifer o ddarparwyr Blynyddoedd Cynnar sy'n meddu ar y sgiliau a'r gallu i gynnig addysg a phrofiadau gofal o'r safon uchaf drwy gyfrwng y Gymraeg.
5. Targedu cefnogaeth a hyfforddiant at ddarparwyr Blynyddoedd Cynnar nad ydynt eto'n gallu cydymffurfio'n llawn â Pholisi Iaith y Gwasanaeth Dysgu.
6. Cefnogi'r gweithlu drwy athrawon cefnogi Blynyddoedd Cynnar a hwyluso datblygiad proffesiynol.
7. Cefnogi gydag arfogi rhieni.

**Targedau Gweithredu:**

1. Datblygu'r gweithlu e.e. codi sgiliau/ lefelau'r gweithlu drwy ddefnyddio gwybodaeth athrawon cefnogi Blynyddoedd Cynnar i gefnogi mynediad i gyrsiau dysgu Cymraeg, codi hyder yn y Gymraeg, gloywi iaith ac yn y blaen.
2. Gwasanaeth Dysgu a Gwasanaethau Plant i gyfathrebu'r strategaeth gyda lleoliadau sector preifat er mwyn codi ymwybyddiaeth, disgwyliadau'r CSGA gan gynnig hefyd yr holl adnoddau a chefnogaeth i ddatblygu'r Gymraeg mewn lleoliadau gofal sector preifat.
3. Targedu ardaloedd difreintiedig ac ambell i ardal ar yr arfordir drwy gydweithio gyda Mudiad Meithrin, athrawon cefnogol, Swyddog Siarter Iaith ac eraill i sicrhau fod y gweithlu'n cael y gefnogaeth a'r hyfforddiant, a bod y rhieni'n derbyn gwybodaeth glir am ein strategaeth gan gynnwys cyfleoedd a manteision addysg Gymraeg.
4. Defnyddio fframwaith ARFer Prifysgol Bangor i hwyluso defnydd o'r Gymraeg yn y gweithlu yn seiliedig ar anghenion cylchoedd a safleoedd gofal Blynyddoedd Cynnar.

5. Cydweithio â rhanddeiliaid i gynyddu niferoedd myfyrwyr BTEC Iechyd a Gofal. Cydweithio gyda darparwyr i gynnig hyfforddiant ar gyfer rhieni - dulliau trochi cartref.
6. Datblygu gwefan gymorth i rieni Môn er mwyn cefnogi'r strategaeth drwy hyrwyddo ymwybyddiaeth iaith, cyfleoedd i ddysgu'r iaith ac anghenion yr economi leol a'r rhanbarth.

**Datganiad cefnogol**

Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod manteision amlwg wrth weithio'n agos gyda phartneriaethau Cymraeg i Deuluoedd er mwyn gosod sylfaen gadarn i gael mwy o blant meithrin / tair oed i dderbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Cydnabyddir bod sefydliadau fel Clybiau Cwtsh, Ti a Fi, Dechrau'n Deg, llyfrgelloedd, iechyd ac eraill yn gyfle allweddol i ysbrydoli manteision addysg Gymraeg i holl deuluoedd Môn. Mae cynnydd da wedi ei wneud dros y blynyddoedd diwethaf er mwyn codi niferoedd lleoliadau addysg feithrin Cymraeg drwy gydweithio gyda'r Mudiad Meithrin ar gynllun Sefydlu a Symud. Mae'r Awdurdod, fodd bynnag, yn cydnabod bod angen cefnogi'r ddarpariaeth iaith Gymraeg ymhellach mewn ambell i ardal ddifreintiedig ac ambell i ardal ar yr arfordir. Mae buddsoddi yn y gweithlu yn fuddsoddiad i'n dyfodol. Anelwn at ddenu mwy o ymarferwyr safonol i'r proffesiwn drwy gydweithio gyda rhanddeiliaid megis Gyrfa Cymru, Coleg Llandrillo Menai ac eraill i godi proffil a statws y gweithlu. Bydd unrhyw gynlluniau newydd a gyflwynir, megis cynigion ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif, yn ddarostyngedig i ofynion Strategaeth Iaith yr Awdurdod a Pholisi Iaith Gwasanaeth Dysgu'r Cyngor.
Mae'r Awdurdod am barhau i gynnig hyfforddiant sabothol i'w weithwyr sy'n ddihyder yn y Gymraeg mewn ardaloedd penodol.

## Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

**Gwireddu'r canlynol**

Mae'r Awdurdod wedi sefydlu perthynas o gydweithio gyda darparwyr y meithrinfeydd preifat i hyrwyddo amcanion ieithyddol y Polisi Iaith drwy athrawon a swyddogion cefnogol y Blynyddoedd Cynnar.

Bydd cymwysterau cydnabyddedig a chyflog gweithwyr yn y Blynyddoedd Cynnar wedi codi ac yn adlewyrchu pwysigrwydd eu rôl i gefnogi plant a'u datblygiad ieithyddol.

1. Datblygu'r gweithlu e.e. codi sgiliau/ lefelau'r gweithlu drwy ddefnyddio gwybodaeth athrawon cefnogi Blynyddoedd Cynnar i gefnogi mynediad i gyrsiau dysgu Cymraeg, codi hyder yn y Gymraeg, gloywi iaith ac yn y blaen.
2. Mae'r is-banel wedi'i sefydlu a bydd yn gweithredu ac yn adrodd yn flynyddol.
3. Defnyddio fframwaith ARFer Prifysgol Bangor i hwyluso defnydd o'r Gymraeg yn y gweithlu yn seiliedig ar anghenion cylchoedd a safleoedd gofal Blynyddoedd Cynnar.
4. Cydweithio gyda rhanddeiliaid i gynyddu niferoedd myfyrwyr BTEC Iechyd a Gofal. Cydweithio gyda darparwyr i gynnig hyfforddiant ar gyfer rhieni - dulliau trochi cartref.
5. Gwefan wedi'i sefydlu i gefnogi'r deilliant hwn.

## Data Allweddol

| Niferoedd a % y plant meithrin / tair oed sy'n cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2022 - 2023 | | 2023 - 2024 | | 2024 - 2025 | | 2025 - 2026 | | 2026 - 2027 | |
| | | | | | | | | | |
| 2027 - 2028 | | 2028 - 2029 | | 2029 - 2030 | | 2030 - 2031 | | 2031 - 2032 | |
| | | | | | | | | | |

# Deilliant 2

## Mwy o blant dosbarth derbyn / pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

### Ble rydym ni nawr?

Ers 2017, mae'r Sir wedi dwyn perswâd yn llwyddiannus ar bob un o'i hysgolion cynradd o dan reolaeth yr Awdurdod i ddilyn Polisi Mynediad y Sir i gynnal asesiad Cymraeg iaith gyntaf yn y Cyfnod Sylfaen ac yng Nghyfnod Allweddol 2.

Mae hyn wedi cael effaith ar gynyddu niferoedd disgyblion sy'n derbyn asesiad Cymraeg iaith gyntaf gan fod pob dalgylch ym Môn yn asesu yn y Gymraeg.

| Nifer o ddalgylchoedd | Nifer y disgyblion sy'n derbyn asesiad Cymraeg iaith gyntaf |
|---|---|
| 5 | 100% |

**Cyd-destun**

Rhwng mis Mawrth a diwedd mis Gorffennaf 2020, roedd staff y Canolfannau Iaith yn creu ac yn addasu adnoddau digidol ac yn creu a chynnal dosbarthiadau ar gyfer yr hwyrddyfodiaid ar Google Classroom. Roedd yr adnodd hwn yn cael ei ddatblygu'n wythnosol ac yn ymgysylltu dysgwyr gyda chynnwys ac adnoddau addysgiadol.

Yn ogystal â hyn, dros y cyfnod hwn roedd y tîm yn manteisio ar hyfforddiant parthed defnyddio amryw o gyfryngau digidol gan y Gwasanaeth Dysgu a GwE. Roedd y cyfleoedd hyn yn cael eu gwerthfawrogi ac yn sail gadarn i rymuso athrawon y canolfannau i ddatblygu adnoddau cyfredol ar gyfer holl sectorau addysg Môn. Mae'r gwaith o ddatblygu a hyfforddi'n parhau ac yn adlewyrchu'r ffordd y mae ysgolion wedi esblygu o ddysgu o bell i ddysgu cyfunol.

Yn ystod 2020, mae'r Gwasanaeth Dysgu wedi cynorthwyo sefydliadau drwy ddatblygu gwefan Caru Iaith sy'n rhoi mynediad i holl sefydliadau'r Ynys i adnoddau trochi a datblygu iaith. Pwrpas y wefan yw cefnogi ysgolion drwy gyfathrebu negeseuon ac adnoddau cyfredol i rieni, megis Canllaw Gwaith Cartref ac adnoddau ehangach gan Bartneriaeth Y Gymraeg i Deuluoedd Môn. Yn ychwanegol i'r adnoddau hyn, datblygwyd gwefan Cynllun Carlam Y Gymraeg mewn cydweithrediad â swyddogion y Gwasanaeth Dysgu, Siarter Iaith a GwE.

Ers mis Medi 2020, roedd y Canolfannau Iaith yn gweithio ar ddatblygu Google Classroom ar gyfer pob athro ac athrawes er mwyn sicrhau bod adnoddau datblygu iaith o safon ar gael i bob ysgol.

Mae'r angen i wella a datblygu gallu a medrau athrawon ymhellach mewn dulliau trochi wedi cael sylw amlwg yn ddiweddar ac yn enwedig felly wrth edrych ar ddatblygu'r gweithlu, bydd y rhaglen hon yn cael ei datblygu a'i hehangu drwy gydweithio traws-sector.

### Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

**Cyd-destun**

Canran o ddysgwyr Blwyddyn 0 sy'n cael eu haddysg drwy'r Gymraeg fel iaith gyntaf.

| Nifer o sefydliadau addysg gynradd ym Môn | Canran o'r sefydliadau sy'n darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg |
|---|---|
| **40** | **95%**<br>38/40 |

**Amcanion**

1. Adeiladu ar y sylfaen gadarn a osodwyd yn y cyfnod meithrin gan gydweithio'n barhaus mewn partneriaeth â'r holl deuluoedd ac asiantaethau i gefnogi, ysbrydoli a datblygu gafael pob disgybl o'r Gymraeg.
2. Bydd cydlynwyr iaith yn arwain ar brosesau trosglwyddo a chynlluniau clwstwr er mwyn cefnogi'r deilliant.
3. Cynyddu canran y disgyblion Blwyddyn Derbyn sy'n cael eu haddysg yn y Gymraeg.
4. Sicrhau trosglwyddo effeithiol rhwng y cyfnod cyn-ysgol, addysg feithrin a darpariaeth statudol mewn ysgol.
5. Datblygu a chefnogi'r gweithlu drwy rhaglen barhaus o hyfforddiant addysgeg addysgu iaith megis addysgeg trochi, trawsieithu a dwyieithrwydd.
6. Parhau i sicrhau 100% o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o dan reolaeth ysgolion y Cyngor.

**Targedau Gweithredu**

1. Datblygu'r Gweithlu e.e. codi sgiliau / lefelau'r gweithlu drwy ddefnyddio gwybodaeth athrawon cefnogi Blynyddoedd Cynnar i gefnogi mynediad i gyrsiau dysgu Cymraeg, codi hyder yn y Gymraeg, gloywi iaith ac yn y blaen.
2. Bydd yr is-banel yn gweithredu ac yn adrodd yn flynyddol.
3. ***2022-2027 -*** Datblygu'r gweithlu drwy **Raglen Hyfforddiant y Gweithlu Cynradd ac Uwchradd** gan y Ganolfan Iaith, Siarter Iaith a Phrifysgol Bangor. Cynhelir y modylau hyn drwy Ddysgu Cyfunol sy'n plethu dulliau wyneb yn wyneb gydag elfennau rhithiol. Cynhelir y rhaglen yn flynyddol drwy gydlynwyr iaith pob dalgylch ar gyfer grwpiau penodol. Prifysgol Bangor i hwyluso ymchwil gweithredol ac i adrodd i is-banel Deilliant 2. Datblygu ac arloesi trochi yng Nghwricwlwm i Gymru. Bydd tystysgrif i bob aelod sydd wedi mynychu a bydd tystysgrif i'r ysgol ar ôl tystiolaethu bod yr egwyddorion wedi'u plethu i waith Cwricwlwm i Gymru.

| ***Blynyddoedd*** | ***Grwpiau Targed - Hyfforddiant Trochi a Trawsieithu'r Gweithlu*** | |
|---|---|---|
| ***2022-2024*** | *Athrawon Cynradd*<br>*Athrawon Uwchradd*<br>*Athrawon ANG*<br>*Athrawon ADY*<br>*Cymorthyddion* | *75%*<br>*25%*<br>*100%*<br>*25%*<br>*100%* |
| ***2024-2027*** | *Athrawon newydd ac ANG wedi derbyn hyfforddiant trochi*<br>*Athrawon uwchradd*<br>*Athrawon ADY* | *100%*<br><br>*100%*<br>*100%* |

4. Treialu defnydd o dechnoleg i gynnig cefnogaeth rithiol i bob ysgol ym Môn drwy aelodau'r Canolfannau Iaith. Arloesi drwy ddefnydd rhithiol i gefnogi gwaith ôl-ofal y Ganolfan.
5. Cynnal a gwerthuso cynlluniau clwstwr yn dymhorol drwy sefydlu is-banel gweithredol Deilliant 2 gan gynnwys Cydlynwyr Dalgylch, Swyddogion Gwasanaeth Dysgu, GwE a Siarter Iaith.
6. Defnyddio'r cyfnod arbrofi 2020-2021 i sefydlu prosiect 10 mlynedd i ddatblygu'r gwaith gyda'r Siarter Iaith ymhellach er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn weladwy ac yn glywadwy ym mhob agwedd o waith yr ysgol a hynny ar draws y sector Cynradd ac Uwchradd. Mae Cydlynydd Siarter

Iaith ar waith ym mhob dalgylch ac yn atebol am wirio safonau a llunio adroddiad cynnydd i swyddog perthnasol yr Awdurdod gan gynnwys:

i. *Cynnig a gwerthuso rhaglen hyfforddiant.*
ii. *Cefnogi model hunanwerthuso effaith gweithgareddau Siarter Iaith ar lefel ysgol.*
iii. *Cynnal ysgolion i wreiddio'r Siarter Iaith a rhaglenni cysylltiedig fel rhan o weithrediad y Cwricwlwm i Gymru.*
iv. *Cryfhau ymwneud Siarter Iaith gyda rhieni.*
v. *Cyd-gynllunio a chydweithio mwy strategol gyda mudiadau allanol/cymunedol o ran rhoi profiadau o'r Gymraeg i blant ac yn enwedig pobl ifanc.*
vi. *Cynnal dathliad fel ynys - cynradd ac uwchradd o ran llwyddiannau'r Siarter.*

7. Gwerthuso'r gefnogaeth mae'r Ganolfan iaith yn ei pharatoi, drwy gydweithio â Phrifysgol Bangor i sefydlu llwybrau ymholi ymchwil gweithredol i werthuso agweddau addysgeg ac ardrawiad.

**Datganiad cefnogol**

Mae'r Awdurdod, ysgolion a phartneriaid yn llwyr ymroddedig i sicrhau fod pob disgybl sy'n derbyn ei addysg yn y sir yn meddu ar feistrolaeth lwyr o'r Gymraeg ar ddiwedd eu gyrfa addysgol. Gweledigaeth yr Awdurdod yw mai 'hawl y plentyn' yw gallu cyfathrebu'n rhugl yn y ddwy iaith gan ganiatáu iddynt fod yn rhan lawn o'r gymdeithas ddwyieithog yr ydym oll yn byw ynddi. Dylai pob disgybl fod yn hyfedr ddwyieithog i allu cyfathrebu, gweithio a bod yn rhan lawn o ddiwylliant yr ardal hon ac mae darparu gwybodaeth i'r holl randdeiliaid yn hanfodol i lwyddiant y broses honno.

Mae'r Awdurdod yn awyddus i barhau ac i ddatblygu gwaith gyda'r Siarter Iaith ymhellach er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn weladwy ac yn glywadwy ym mhob agwedd o waith yr ysgol a hynny ar draws y sector Cynradd ac Uwchradd. Mae Cydlynydd Siarter Iaith ar waith ym mhob dalgylch ac yn atebol am wirio safonau a llunio adroddiad cynnydd i swyddog perthnasol yr Awdurdod.

Mae'r angen i wella a datblygu gallu a medrau athrawon ymhellach mewn dulliau trochi wedi cael sylw amlwg yn ddiweddar ac yn enwedig felly wrth edrych ar ddatblygu'r gweithlu. Mae strategaeth ar waith i lunio rhaglen hyfforddi trochi ar gyfer ANG, athrawon a chymorthyddion yr Ynys.

## Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

**Amcanion**

1. Bod 100% o ddisgyblion Blwyddyn Derbyn yn cael eu haddysg yn y Gymraeg.
2. Bod proses gadarn drosglwyddo effeithiol rhwng y cyfnod cyn-ysgol, addysg feithrin a darpariaeth statudol mewn ysgol.
3. Bod y gweithlu wedi datblygu gwydnwch a sgiliau cadarn drwy raglen barhaus o hyfforddiant addysgeg addysgu iaith megis addysgeg trochi, trawsieithu a dwyieithrwydd.
4. Parhau i sicrhau 100% o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o dan reolaeth ysgolion y Cyngor.

**Targedau Gweithredu**

- Cydlynwyr iaith ac ysgolion yn parhau i gyd-gordio'r deilliant hwn mewn cydweithrediad â'r is-banel.
- Sicrhau bod pob aelod staff dysgu a chefnogi newydd yn derbyn rhaglen hyfforddiant y gweithlu.
- Bod y gweithlu'n ymhyfrydu mewn sgiliau trochi o ansawdd dda drwy ddysgu proffesiynol a gwreiddio mewn ymchwil drwy gydweithio gydag Ysgol Addysg a Gwyddorau Dynol PB a CIEREI. Bydd y cydweithio hwn bwysig er mwyn gwerthuso hyfforddiant a chreu.
- Cyfeirlyfr arfer dda mewn addysg drochi a chyswllt cartref ac ysgol.

Bod rhieni, plant a rhanddeiliaid yn awchu i fanteisio ar bob cyfle i feddu ar sgiliau dwyieithrwydd ac yn ystyried bod hyn yn hawl a haeddiant i'r genhedlaeth nesaf.

## Data Allweddol

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Niferoedd a % o blant 5 oed sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg | | | | | | | | | |
| 2022 - 2023 | | 2023 - 2024 | | 2024 - 2025 | | 2025 - 2026 | | 2026 - 2027 | |
| | | | | | | | | | |
| 2027 - 2028 | | 2028 - 2029 | | 2029 - 2030 | | 2030 - 2031 | | 2031 - 2032 | |
| | | | | | | | | | |

# Deilliant 3

## Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall

### Ble rydym ni nawr?

Mae 100% o ddisgyblion Môn yn parhau i dderbyn darpariaeth cyfrwng Cymraeg ym Mlwyddyn 7.

Mae strategaethau eisoes ar waith er mwyn datblygu cydweithrediad rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd o ran y Gymraeg/trosglwyddo.

Mae pob Cydlynydd Iaith Dalgylch yn cydweithio'n agos bob blwyddyn gyda'r ysgolion uwchradd er mwyn gweithredu cynllun trosglwyddo CA2-CA3. Mae'r bartneriaeth hon yn sicrhau fod dysgwyr yn cael y profiadau gorau posib wrth ddysgu am yr ysgolion uwchradd a cheir modylau pontio llwyddiannus ym mhob dalgylch.

Fel rhan o rôl y Cydlynydd Iaith, bydd gwybodaeth am ddisgyblion o bob ysgol yn cael ei thrafod a'i monitro'n gyson ym Mlwyddyn 7 i sicrhau bod pob plentyn sydd wedi derbyn Lefel 3 yn y Gymraeg yn derbyn addysg Gymraeg iaith gyntaf. Yn y dyfodol bydd y cydlynwyr yn cydweithio gyda swyddogion yr Awdurdod, GwE a Siarter Iaith yn fwyfwy er mwyn datblygu a chryfhau'r broses drosglwyddo.


Mae dyfodiad y Cwricwlwm Cymreig i Bawb o 2019 wedi cael ei groesawu'n fawr, ac yn enwedig felly ymysg ein penaethiaid ysgol. Bydd ysgolion yn cydweithio â GwE a chydlynwyr iaith i gefnogi a datblygu'r Cwricwlwm i Gymru yn arbennig mewn perthynas â datblygiad iaith. Bydd y gyfundrefn newydd yn annog cysondeb a thegwch ar draws ysgolion Môn a Chymru. Caiff hefyd effaith gadarnhaol ar leihau niferoedd y disgyblion sy'n symud ysgol ar sail darpariaeth iaith benodol.

**Ein cynnig trochi hwyr cyfredol**

Mae Canolfannau Iaith Ynys Môn yn allweddol ar gyfer gwireddu amcanion y Gwasanaeth Dysgu a chyflawni Cynllun y Gymraeg Mewn Addysg Ynys Môn. Fel pob ysgol ar yr Ynys, bu i drefniadau gweithredol y canolfannau newid yn sydyn dan amgylchiadau COVID, gyda datganiad Llywodraeth Cymru yn nodi bod ysgolion yn symud i addysgu ar-lein. Yn sgil hyn, roedd dysgwyr y Canolfannau Iaith yn symud i ddarpariaeth ar-lein.

**Y model cyflwyno**

Mae'r Canolfannau Iaith yn gweithredu drwy gynllun y Llan a ddatblygwyd yn rhanbarthol ac sydd wedi'i brofi yn rhaglen ddeinamig ac effeithiol. Bydd y cynllun yn seiliedig ar drochi disgyblion Cyfnod Allweddol 2 dros gyfnod o ddeuddeg wythnos. Bydd cefnogaeth cyn ac ôl fynychu drwy gyfuno adnoddau cyn mynediad a darpariaeth wyneb yn wyneb ôl-ofal yn nhymor yr haf.




**Blwyddyn/oedran y disgyblion**

Mae'r ddarpariaeth bresennol yn gwasanaethu anghenion Cyfnod Allweddol 2 yn bennaf gyda chefnogaeth gydweithredol rhwng yr uwchradd ac athrawon y canolfannau.

**Cydweithio**

Mae'r Canolfannau Iaith yn cydweithio'n agos gyda Chydlynwyr Iaith y dalgylchoedd, GwE a Phartneriaeth y Gymraeg i Deuluoedd Môn er mwyn rhannu gwybodaeth a chydweithio'n fwy strategol. Bydd hyn yn cynnwys darpariaeth i gefnogi dysgwyr gan gynnwys strategaethau brys a chydweithio amlasiantaethol i dargedu dysgwyr a theuluoedd. Bydd y cydweithio amlasiantaethol hwn yn cael ei hwyluso a'i hyrwyddo drwy dudalen we benodol sydd eisoes wedi cael ei rhannu gydag ysgolion. Bydd y dudalen we'n cynnwys Strategaeth CSGA Môn, gwybodaeth i randdeiliaid ynglŷn â beth, ble a sut y mae pawb yn cyfrannu, yn ogystal â chysylltiadau i ddolenni adnoddau datblygu'r iaith Gymraeg GwE. Bydd yr adnodd yn gymorth i ysgolion ac i ddysgwyr, ac rydym yn bwriadu darparu adnodd ar gyfer rhieni, yn enwedig rhieni sydd newydd symud i fyw i Fôn.

Yn ychwanegol i'r uchod mae'r Gwasanaeth Dysgu'n cydweithio ar brosiect peilot gyda GwE parthed y Siarter Iaith a gwaith ymchwil megis 'Ein Llais Ni' gyda Phrifysgol Bangor. Mae Môn yn rhan o raglen beilot ble mae arbenigwr yn gweithio gydag ysgolion unigol sydd wedi/yn gweld dirywiad yn nefnydd ac ansawdd yr iaith Gymraeg dros y cyfnod clo. Ym Môn, roedd 4 ysgol yn rhan o'r peilot hwn, a'r egwyddor yw bod pob adnodd ac astudiaeth achos yn cyfrannu i'r dudalen we er mwyn rhannu profiadau ac adnoddau.

Mae'r Ganolfan Iaith yn datblygu cefnogaeth ac adnoddau i bob ysgol gynradd ac uwchradd drwy blatfform digidol Google Classroom. Yn y dyfodol bydd y defnydd o'r dechnoleg hon yn datblygu i gynnwys hyfforddiant parhaus a chefnogaeth integreiddio addysgeg trochi a thrawsieithu ar gyfer Cwricwlwm i Gymru. Bydd y gwaith cyfathrebu a rhannu adnoddau i rieni'r Ynys yn parhau drwy'r safle "Caru Iaith" yn ogystal â chynllun cydweithio Partneriaeth Y Gymraeg i Deuluoedd Môn.

## Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

**Amcanion**

1. Bydd cydlynwyr iaith a GwE yn cysoni prosesau ar gyfer trosglwyddo "pontio' ar draws yr Ynys.
2. Sicrhau fod proses glir i athrawon uwchradd adeiladu ar sgiliau iaith disgyblion sy'n trosglwyddo o'r cynradd.
3. Cydweithio rhwng ysgolion uwchradd i greu cyfeirlyfr arfer dda trosglwyddo i hyrwyddo profiadau ieithyddol di-dor i ddysgwyr. Bydd arbenigedd ymchwilwyr hefyd yn ategu'r adnodd gan bwysleisio egwyddorion datblygiad plentyn ac addysgeg addysgu iaith ar draws continwwm gallu.
4. Sicrhau bod gwaith y cydlynwyr iaith a'r is-banel yn parhau i olrhain dysgwyr hyd at Flwyddyn 9 yn yr ysgolion uwchradd.
5. Cydlynwyr iaith yn parhau fel strwythur penodol dan ofal y Gwasanaeth Dysgu, a bod rôl y cydlynwyr wedi'i halinio'n benodol gyda CSGA Môn.
6. Sicrhau bod arferion da trosglwyddo effeithiol rhwng y cyfnod cyn-ysgol, addysg feithrin a darpariaeth statudol mewn ysgol yn cael eu hystyried ar daith y dysgwr o'r cynradd i'r uwchradd.
7. Datblygu a chefnogi'r gweithlu uwchradd drwy raglen barhaus o hyfforddiant addysgeg addysgu iaith megis addysgeg trochi, trawsieithu a datblygu dwyieithrwydd.
8. Cydweithio gyda Fforwm Iaith Môn ac ysgolion i sicrhau bod yr holl bartneriaeth yn cael cyfle i gyfoethogi profiadau dysgwyr a chefnogi rhieni yn y cyfnod trosglwyddo.

**Targedau Gweithredu**

- Erbyn 2023 - Datblygu'r gweithlu drwy **Raglen Hyfforddiant y Gweithlu Cynradd ac Uwchradd** gan y Ganolfan Iaith, Siarter Iaith a Phrifysgol Bangor.
- Erbyn 2023 - Cynnal a chreu modiwl **Datblygu Iaith Cyfnod Trosglwyddo**. Modiwl fydd yn plethu elfennau Dysgu Cyfunol sy'n plethu dulliau wyneb yn wyneb gydag elfennau rhithiol. Cynhelir y rhaglen yn flynyddol drwy gydlynwyr iaith pob dalgylch ar gyfer grwpiau penodol o athrawon uwchradd. Prifysgol Bangor i hwyluso ymchwil gweithredol ac i adrodd i is-banel Deilliant 2.
- Cynnal gweithdai ymgynghorol gydag athrawon a chymorthyddion sydd angen datblygu eu sgiliau iaith bersonol (cyfeirir at Ddeilliant 7).
- Erbyn 2024 - Creu Cyfeirlyfr Arfer Dda Trosglwyddo Môn. Creu dolen we i ategu'r cyfeirlyfr arfer dda trosglwyddo ym Môn.
- Erbyn Medi 2022 - Dylunio swydd ddisgrifiad newydd ar gyfer Cydlynydd Iaith Dalgylch sy'n seiliedig ar ddeilliannau'r CSGA 10 mlynedd a gweithdrefnau cydweithio â GwE. Bydd adrodd blynyddol a diweddaru'n dymhorol ar ddeilliannau'r CSGA yn greiddiol i'r swydd hon gan hefyd gynnwys:
    - i. Lefel Strategol - Gosod Cylch Gorchwyl i werthuso cynlluniau pob dalgylch a gwerthuso'n flynyddol ar ardrawiad ac effeithiolrwydd cynlluniau.
    - ii. Lefel Ysgol – Gosod disgwyliadau ar bob ysgol i gynllunio dilyniant iaith ar gyfer pob disgybl yn seiliedig ar gamau cynnydd ac mewn cydweithrediad ag ysgolion a GwE.
    - iii. Hyrwyddo defnydd iaith - Cyd-gynllunio Cynllun Siarter Iaith rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd a darparwyr cefnogi gweithgareddau tu hwnt i'r dosbarth megis yr Urdd, Môn Actif, Gwasanaeth Cerdd Gwynedd a Môn, clybiau chwaraeon yr Ynys ac eraill i sicrhau defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg.
    - iv. Sefydlu dull cysoni prosesau blynyddol gyda phwyslais ar adnabod bylchau e.e. '*gap analysis*'.
- Gwerthuso'r broses drosglwyddo'n flynyddol drwy is-banel Deilliant 3.

**Datganiad cefnogol**

O ran dilyniant yn y defnydd o'r Gymraeg, mae disgwyl i bob ysgol gynllunio dilyniant yn y Gymraeg fel pwnc ac fel cyfrwng dysgu ar gyfer pob disgybl. Bydd ysgolion yn cydweithio gyda cydlynwyr iaith a GwE i gyflawni hyn.

Bydd pob ysgol uwchradd wedi mabwysiadu Cynllun Siarter Iaith ar y cyd â'r ysgolion cynradd. Byddwn yn cydweithio gyda'r ysgolion uwchradd i fabwysiadu Cynllun Siarter fydd yn cryfhau addysg cyfrwng Cymraeg ein hysgolion uwchradd.

Parheir i hyrwyddo datblygiad addysg cyfrwng Cymraeg fel un o brif flaenoriaethau strategol y Rhwydwaith 14-19 a sicrheir dilyniant ieithyddol priodol fel rhan greiddiol o gylch gorchwyl grwpiau gweithredol y Rhwydwaith.

Adnabuwyd yr angen i gysoni prosesau derbyn dysgwyr ar gyrsiau ôl-16 yr ardal i sicrhau eu bod yn derbyn gwybodaeth am y cyfrwng yr addysgir pwnc ynddo. Yn ogystal â hyn, mae angen sefydlu fframwaith o fesurau ar gyfer y Gymraeg fel bod darpariaeth ôl-16 gan gynnwys cyrsiau galwedigaethol yn cael ei monitro ac i adnabod bylchau mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Elfen arall o waith y consortiwm fydd adnabod cyfleoedd yn yr economi ble mae defnydd o'r Gymraeg yn hanfodol ar gyfer gwaith.

## Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

**Amcanion**

1. Dull a phrosesau trosglwyddo yn seiliedig ar flaenoriaethau CSGA 10 mlynedd wedi'u sefydlu ar draws yr Ynys a phob dalgylch yn weithredol wrth gynllunio, gweithredu ac adrodd ar y broses yn flynyddol. Bydd yr is-banel yn sicrhau bod proses glir i athrawon uwchradd adeiladu ar sgiliau iaith disgyblion sy'n trosglwyddo o'r cynradd.
2. Bydd is-banel yn adolygu'r deilliant yn flynyddol gyda rhanddeiliaid penodol.
3. Sicrhau fod yr adnoddau digidol a ffisegol ar gael i bob ysgol a theulu i gefnogi'r deilliant.
4. Adnabod dangosyddion y deilliant hwn, megis defnydd o'r Gymraeg ym mhob cyd-destun yn yr ysgol a thu hwnt i'r dosbarth. Defnydd o'r Gymraeg mewn clybiau tu allan i'r ysgol.

**Targed Gweithredu**

- Erbyn 2032 - Fod y gweithlu'n rhoi profiadau ieithyddol di-dor i bob dysgwr ym Môn drwy brosesau mewnol a chydweithio gyda chydlynwyr a GwE i wireddu dyhead Deilliant 3.
- Bod nifer y dysgwyr sy'n dewis cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg wedi codi drwy Raglen Hyfforddiant y Gweithlu Cynradd ac Uwchradd gan y Ganolfan Iaith, Siarter Iaith a Phrifysgol Bangor.
- Bod dangosyddion yn arddangos tuedd bositif a bod cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg tu mewn a thu allan i'r dosbarth ddysgu.

## Data Allweddol

| Niferoedd a % y dysgwyr sy'n parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2022 - 2023 | | 2023 - 2024 | | 2024 - 2025 | | 2025 - 2026 | | 2026 - 2027 | |
| | | | | | | | | | |
| 2027 - 2028 | | 2028 - 2029 | | 2029 - 2030 | | 2030 - 2031 | | 2031 - 2032 | |
| | | | | | | | | | |

# Deilliant 4

## Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg

### Ble rydym ni nawr?

Darpariaeth gyfredol ysgolion uwchradd Môn yw cynnig darpariaeth drwy gefnogi pob dysgwr gan gynnwys newydd-ddyfodiaid i adeiladu ar eu sgiliau iaith yn y cynradd ac yng Nghyfnod Allweddol 3 i gyrraedd eu llawn botensial.

Ysgolion cyfun cymunedol i ddisgyblion 11-18 yw 5 ysgol **uwchradd** Môn dan reolaeth Cyngor Sir Ynys Môn. Dynodir 4 ysgol yn y categori 'dwyieithog' (Ysgol Syr Thomas Jones, Ysgol Gyfun Llangefni, Ysgol David Hughes, Ysgol Uwchradd Bodedern) ac 1 (Ysgol Uwchradd Caergybi) yn y categori 'Saesneg - â chyfran sylweddol o Gymraeg'.

Yn 2019-20 roedd 74% (2,585) o'r disgyblion yn derbyn addysg ddwyieithog. Dengys y tabl isod mai'r Gymraeg yw prif gyfrwng addysgu 34.8% (1,215) o ddisgyblion uwchradd Môn, gyda'r Gymraeg yn rhan o'r addysg i 39.2% (1,370), a Saesneg yn gyfrwng addysgu i 24.6% (860) o ddisgyblion.

Nifer y disgyblion yn ysgolion uwchradd Môn a'u cyfrwng iaith dysgu - 2019-20

| | Y Gymraeg yw prif gyfrwng yr addysgu | Defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng addysgu ar gyfer rhan o'r cwricwlwm (h.y. llai na hanner) | Mae'r Gymraeg yn cael ei haddysgu fel ail iaith yn unig | Nid yw'r Gymraeg yn cael ei defnyddio na'i haddysgu. | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ynys Môn - nifer** | 1215 | 1370 | 50 | 860 | 3495 |
| **Ynys Môn - %** | 34.8% | 39.2% | 1.4% | 24.6% | 100% |

Data: Statiaith

Dengys data mwy diweddar Medi 2020 fod cynnydd o 77.9% (3,057) wedi cofrestru ar gyfer addysg uwchradd ddwyieithog a 22.1% (869) yn ardal Caergybi yn derbyn addysg 'Saesneg â chyfran sylweddol o Gymraeg'. Cynigir darpariaeth Ysgol Uwchradd Bodedern i ddisgyblion o ardal Caergybi sydd am fanteisio ar addysg ddwyieithog lawn.


Yn ychwanegol, cofrestrwyd 116 o ddisgyblion 3-19 yn ysgol **addysg arbennig** Môn, Canolfan Addysg y Bont . Y Gymraeg yw prif iaith gyfathrebu gweinyddiaeth yr ysgol, ac adlewyrchir Polisi Iaith yr Awdurdod Lleol gyda phwyslais ar sgiliau dwyieithog yn addysg y disgyblion. "Nod Polisi Iaith Y Bont yw sicrhau bod holl ddisgyblion yr ysgol sydd â'r gallu i gyfathrebu'n ieithyddol yn meddu ar ddwyieithrwydd cytbwys gallu-berthnasol, er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni".

Yn gyffredinol, mae effaith gadarnhaol Polisi Iaith Ysgolion Môn ar y Gymraeg bellach i'w gweld yn y data. Dengys y tabl isod, ar ôl gostyngiad yn y niferoedd oedd yn astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf yn 2008-2015, bod cynnydd yn y niferoedd erbyn 2019-2020 wedi cyrraedd 6,467 o ddisgyblion.

## Nifer y disgyblion a astudiodd y Gymraeg fel iaith gyntaf mewn ysgolion cynradd, canol ac uwchradd ym mlynyddoedd 1-11 - rhwng 2009-2020

| | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ynys Môn** | 5369 | 5224 | 5175 | 5197 | 5147 | 5111 | 5269 | 5447 | 6152 | 6333 | 6467 |
| **Gogledd Cymru** | 25610 | 25502 | 25686 | 25750 | 25707 | 25722 | 25995 | 26275 | 27392 | 27896 | 27995 |
| **Cymru** | 68386 | 68841 | 69661 | 70552 | 71599 | 72282 | 73461 | 74484 | 76583 | 77984 | 78709 |

StatIaith




Bydd cydlynwyr iaith pob dalgylch yn chwarae rhan allweddol drwy gydweithio gydag ysgolion uwchradd i gyd-gynllunio unedau pontio ac i fonitro datblygiad iaith disgyblion ar ôl gadael y sector cynradd gan gynnwys monitro datblygiad sgiliau iaith carfannau iaith drwy Gyfnod Allweddol 3 a 4.

Mae ysgolion uwchradd yn parhau â'r llwybr datblygiadol ieithyddol drwy gynnal dysgwyr gyda sgiliau iaith a'u hyfedredd yn y Gymraeg, gan gynnwys astudio cymwysterau Cymraeg fel pwnc, a phynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae pob disgybl sydd wedi cyrraedd Lefel 3 cadarn ar ddiwedd CA2 yn dilyn Rhaglen Astudio Cymraeg (Iaith Gyntaf) er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad priodol a chaiff hyn ei drafod gyda chydlynwyr dalgylch yn flynyddol ac mae'n sail i drafodaeth a phroses monitro'r ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithrwydd y Cwricwlwm i Gymru.

Yn ychwanegol, bydd ysgolion yn parhau i sicrhau bod pob disgybl yn astudio'r Gymraeg fel pwnc hyd at ddiwedd Blwyddyn 11 ac yn sefyll profion ac arholiadau allanol priodol ar ddiwedd CA3 a CA4.

## Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

**Amcanion**

1. Ysgolion, cydlynwyr iaith, GwE a Siarter Iaith i gydweithio i ddatblygu'r deilliant hwn drwy werthuso'n flynyddol a sicrhau darpariaeth addas.

2. Cynyddu'r nifer o ddysgwyr a gofrestrir i wneud TGAU Cymraeg (Iaith Gyntaf) ac o leiaf dau gymhwyster pellach drwy gyfrwng y Gymraeg o 70.28% i 75% erbyn 2025.
3. Cynyddu'r nifer o ddysgwyr a gofrestrir i wneud TGAU Cymraeg (Iaith Gyntaf) ac o leiaf pum cymhwyster pellach ar Lefel 1 neu Lefel 2 drwy gyfrwng y Gymraeg.
4. Cydweithio gydag ysgolion a GwE i gynyddu'r nifer o ddisgyblion sy'n ennill A*-C mewn Cymraeg Iaith Gyntaf i 77% erbyn 2025.
5. Hyrwyddo gwerth ac angen y Gymraeg ym myd gwaith er mwyn ennyn mwy o frwdfrydedd, hunanhyder a chodi dyheadau disgyblion.

**Targedau Gweithredu**

- **Erbyn 2025 - Cynyddu nifer y dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 sy'n ennill graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf**. Bydd pob ysgol yn ymateb i dargedau i gyrraedd y cynnydd, a bydd cynhaliaeth briodol yn cael ei chynnig a'i monitro'n gyson i'w galluogi i gyflawni'r cynnydd.
- **Hyrwyddo cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg a gwerth sgiliau dwyieithog ym myd gwaith** drwy hwyluso cydweithio rhwng ysgolion, Gyrfa Cymru, Bwrdd Economaidd Gogledd Cymru, STEM Gogledd ac eraill.
- Gyrfa Cymru, GwE, Siarter Iaith a CBAC i ddatblygu'r adnoddau dwyieithog sydd ar gael i gefnogi pobl ifanc, athrawon a'u rhieni ar wefan Gyrfa Cymru ac ar HWB.
- Cefnogi'r gweithlu drwy godi ymwybyddiaeth o gyrsiau ac anghenion economaidd gogledd Cymru a thu hwnt. Gwerthuso'r hyn sydd ar gael nawr a chydweithio gydag ysgolion, Gyrfa Cymru ac eraill i ddatblygu'r adnoddau ymhellach i godi statws cyrsiau a gyrfaoedd.
- Sicrhau bod ein dyhead yn glir yn y cyfnod hwn sef: **Bod pob disgybl sy'n mynd drwy gyfundrefn addysg Ynys Môn yn gwbl ddwyieithog erbyn cyrraedd 16 oed, ac yn hyderus i gyfathrebu yn y ddwy iaith yn gyfartal yn y byd gwaith, yn ddiwylliannol ac yn gymdeithasol.**
- Bod dangosyddion yn arddangos tuedd bositif a bod cynnydd yn nifer sy'n dewis cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Datganiad cefnogol**

**Gyrfa Cymru**

Er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ymwybodol o gyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg a hefyd angenrheidrwydd y Gymraeg yn y byd gwaith, bydd Gyrfa Cymru yn hyrwyddo cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg a gwerth sgiliau dwyieithog ym myd gwaith drwy:

Gynnig gwasanaeth cymorth gyrfaoedd dwyieithog, annibynnol a diduedd i bobl o bob oed. Rydym yn cefnogi pobl ifanc i godi eu dyheadau, ehangu eu gorwelion a bod yn ymwybodol o'r holl gyfleoedd a'r llwybrau sydd ar gael iddynt. Mae gennym gynghorwyr gyrfa'n gweithio ym mhob ysgol uwchradd prif lif, ysgolion arbennig, colegau addysg bellach ac yn cefnogi pobl ifanc sy'n cael eu haddysgu mewn canolfannau eraill a gartref ledled Cymru. Caiff pobl ifanc gynnig cyfweliad un i un i drafod eu syniadau, mynychu gweithgaredd grŵp yn canolbwyntio ar destunau: Opsiynau Ôl-16, Swyddi'r Dyfodol (gan gynnwys pwysigrwydd sgiliau dwyieithrwydd) a chael mynediad i ystod o weithgareddau ymgysylltu gyda chyflogwyr. Rhoddir adnodd ychwanegol i gefnogi pobl ifanc sy'n llai tebygol o bontio'n llwyddiannus i addysg, hyfforddiant neu waith Ôl-16.

## Cydweithio

Mae Prifysgol Bangor yn bartner pwysig i ni ym Môn, ac er mwyn cefnogi Deilliant 3 yn benodol mae gennym dîm o arbenigwyr sy'n cefnogi athrawon i ddylunio cynlluniau dysgu CiG mewn rhyngweithiad gydag ysgolion, GwE a Phrifysgol Bangor (CWRE). Bydd cydweithio agos rhwng y bartneriaeth hon a'r Ganolfan Iaith er mwyn datblygu a chyflwyno Cwricwlwm i Gymru ynghylch Profiadau sy'n Gysylltiedig â Gyrfaoedd a Gwaith (CWRE).

| Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd? |
|---|

Bydd ysgolion uwchradd Môn yn anelu at gynnal safonau'r Gymraeg trwy dargedu'r anghenion penodol sy’n cael eu hamlygu, ac olrhain effaith y gweithredu i gydymffurfio â nod Polisi Iaith y sir. Bydd dylanwad a chynlluniau Canolfannau Iaith Môn wedi’u datblygu i gyfarch anghenion ysgolion uwchradd a bydd effaith gadarnhaol i’w gweld ar gynnydd y disgyblion.

**Amcanion**

1. Bod ysgolion, cydlynwyr iaith, GwE a Siarter Iaith yn cydweithio i ddatblygu’r deilliant hwn drwy werthuso’n flynyddol a sicrhau darpariaeth addas.
2. Bod ysgolion uwchradd wedi cynyddu’r nifer o ddysgwyr a gofrestrir i wneud TGAU Cymraeg (Iaith Gyntaf) ac o leiaf dau gymhwyster pellach drwy gyfrwng y Gymraeg.
3. Bod ysgolion uwchradd wedi cynyddu’r nifer o ddysgwyr a gofrestrir i wneud TGAU Cymraeg (Iaith Gyntaf) ac o leiaf pum cymhwyster pellach ar Lefel 1 neu Lefel 2 drwy gyfrwng y Gymraeg.
4. Bod cydweithio gydag ysgolion a GwE wedi cynyddu’r nifer o ddisgyblion sy’n ennill A*-C mewn Cymraeg Iaith Gyntaf erbyn 2032.
5. Bod gwerth ac angen y Gymraeg ym myd gwaith wedi ennyn mwy o frwdfrydedd, hunanhyder a chodi dyheadau disgyblion.

**Data Allweddol**

Bydd cynnal y safonau’n flaenoriaeth, a bydd ysgolion yn cydweithio â rhanddeiliaid er mwyn adolygu cyflawniad a mesur effaith y strategaeth uchod drwy gydweithio a Phrifysgol Bangor ar Adroddiad Gwerthuso Traweffaith mewn cysylltiad â Phrifysgol Bangor - Ysgol Gwyddorau Addysgol a CIEREI.

| % disgyblion (Cymraeg Iaith Gyntaf) ar ddiwedd CA4 sy’n cyrraedd graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf | |
|---|---|
| PERFFORMIAD 2019 | 72.7% |

| % disgyblion (ail Iaith) ar ddiwedd CA4 sy’n cyrraedd graddau A*-C mewn TGAU Ail Iaith (Cwrs Hir) | |
|---|---|
| PERFFORMIAD 2019 | % |

| Niferoedd a % y dysgwyr sy’n astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2022 - 2023 | | 2023 - 2024 | | 2024 - 2025 | | 2025 - 2026 | | 2026 - 2027 | |
| | | | | | | | | | |
| 2027 - 2028 | | 2028 - 2029 | | 2029 - 2030 | | 2030 - 2031 | | 2031 - 2032 | |
| | | | | | | | | | |

## Deilliant 5

## Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol

### Ble rydym ni nawr?

Darparu gweithgareddau a phrofiadau hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg tu hwnt i'r dosbarth trwy gydweithio'n effeithiol gyda rhanddeiliaid megis Môn Actif, Fforwm Iaith Môn, Partneriaeth y Gymraeg i Deuluoedd Môn, Menter Môn, Siarter iaith, yr Urdd ac eraill. Bydd is-banel Deilliant 5 yn datblygu cynrychiolaeth eang i wireddu'r deilliant hwn yn ogystal â threfniadau ysgolion.

Mae'r rhanddeiliaid hyn yn awyddus i arfarnu a gwerthuso dan arweiniad y Gwasanaeth Dysgu gan ddatblygu ac adeiladu ar yr hyn sydd eisoes ar waith. Rydym wedi dechrau sefydlu isadeiledd cynllun gweithredu arfaethedig yn seiliedig ar fapio siwrne plentyn drwy addysg. Mae is-banel ar waith er mwyn llunio a gwerthuso'r cydweithio dros gyfnod 5-10 mlynedd. Felly, bydd Deilliant 5 yn agwedd bwysig i gynllun dalgylch (clwstwr) y Gymraeg dan arweiniad cydlynwyr iaith dalgylch, ac yn adrodd i is-banel Deilliant 5 ar gyfer monitro ac adrodd.

Bydd y cynllun gweithredu hwn yn seiliedig ar siwrne plentyn drwy system addysg Môn a bydd yn gwneud yn fawr o'r cyfleoedd sydd ar gael ar draws y bartneriaeth o'r crud hyd at ddiwedd ei addysg ffurfiol. Yn ei hanfod, bydd yr is-banel yn llunio ac yn cydweithio gyda chydlynwyr iaith cynradd ac uwchradd er mwyn sicrhau'r profiadau a'r ddarpariaeth orau ar gyfer y plentyn.

**Hyrwyddo a chreu profiadau i ddefnyddio'r iaith gyda phartneriaethau cymunedol a mudiadau**

| Cyn addysg ffurfiol | Meithrin | Cynradd | Uwchradd |
|---|---|---|---|
| •Rhaglen iaith Menter Iaith Môn.<br>•Ymdrech a strategaeth Môn ar drosglwyddo iaith.<br>•Môn Actif - darparu gwersi nofio sblash ar gyfer plant 3 mis oed + gyda rhieni. | •Strategaeth Blynyddoedd Cynnar.<br>•Menter Iaith a'r Mudiad Meithrin.<br>•Gweithgareddau Môn Actif megis sesiynau pêl-droed teulu a gweithio mwy gyda grwpiau oed meithrin. | •Gweithgareddau a chynlluniau dalgylch dan ofal Cydlynwyr Iaith.<br>•Rhaglen weithgareddau ehangach Menter Môn.<br>•Rhaglen yr Urdd, Menter Iaith, Ffermwyr Ifanc ac asiantaethau eraill.<br>•Gweithgareddau Môn Actif e.e. gwersi nofio ysgol, cystadlaethau ysgolion sy'n cynnwys gala nofio, athletau, pêl-droed, pêl-rwyd, cyfeiriannu, ayyb. Yn ogystal â darparu llu o weithagreddau yn ystod gwyliau ysgol e.e. camp chwaraeon. | •Gweithgareddau a chynlluniau dalgylch dan ofal cydlynwyr iaith.<br>•Rhaglen weithgareddau ehangach Menter Môn.<br>•Rhaglen yr Urdd, Menter Iaith, Ffermwyr ifanc ac asiantaethau eraill.<br>•Gweithgareddau Môn Actif sy'n cynnwys gwersi nofio, cystadlaethau athletau a chefnogaeth yn yr ysgolion. Rydym hefyd yn cyflogi nifer o staff oedran chweched dosbarth ac mae gennym lu o Lysgenhadon Chwaraeon. |

Mae Môn Actif yn gweithio'n ddyddiol gyda phlant oed ysgol boed hynny yn yr ysgol neu drwy ddarparu gweithgareddau yn y canolfannau hamdden tu allan i amser ysgol neu yn ystod y gwyliau.

Mae Môn Actif yn ymrwymo i ddarparu gweithgareddau yn y Gymraeg ac yn ddwyieithog bob amser ac yn cael cyfle i gefnogi'r plant gyda'u siwrne iaith fel mae'r plant ar adegau hefyd yn gallu cefnogi ein staff sydd hefyd yn dysgu'r iaith.

Yn ddiweddar mae ffocws Môn Actif wedi troi at weithio gyda phlant oed cyn-ysgol ac er mai ond ar gychwyn y daith yr ydym, bydd hwn yn gyfle i gydweithio gyda phlant i fod yn actif ond hefyd i wella eu sgiliau iaith drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol.

Mae'r Urdd yn cynnig llu o brofiadau allgyrsiol addysgiadol sy'n hybu'r iaith Gymraeg ac yn hyrwyddo iechyd a lles plant a phobl ifanc. Mae'r eisteddfodau'n rhan annatod o'n cynnig gyda chystadlaethau traddodiadol ond hefyd rhai newydd, modern megis y Coginio, Celf a Chrefft, Ysgrifennu Creadigol, a fideos TikTok. Yn ogystal â hyn, mae ein 3 gwersyll, Glan-llyn, Llangrannog a Chaerdydd yn cynnig cyfle unigryw i ddefnyddio'r Gymraeg mewn awyrgylch gyfan gwbl Gymreig a Chymraeg.

Mae ein darpariaeth chwaraeon yn gyfle unigryw i hyrwyddo'r iaith ar y cae chware drwy bêl-droed, pêl-rwyd neu ein pecyn gemau buarth.

Mae ein darpariaeth ryngwladol yn cynnig cyfleoedd unigryw i bobl ifanc deithio'r byd yn hyrwyddo'r faner dros Gymru ac mae ein rhaglen ddyngarol yn cynnig cyfleoedd i helpu rhai llai ffodus mewn gwledydd eraill drwy gynllun rhyngwladol.

**Mudiad Ffermwyr Ifanc Ynys Môn**

Mae chwe chlwb ar Ynys Môn. Y Ffermwyr Ifanc yw'r mudiad ieuenctid gwledig dwyieithog mwyaf yng Nghymru ar gyfer pobl ifanc 10-26 oed sy'n gweithredu ledled y wlad. Mae Mudiad y Ffermwyr Ifanc yng Nghymru yn gweithredu o fewn hinsawdd o gyfartaledd i bawb ac mae'n ymfalchïo yn y ffaith ei fod yn cynnig ei holl gyfleodd trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r mudiad hwn yn arbennig iawn, mudiad sy'n cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd gan roi'r siawns i'r unigolyn fanteisio ar yr hyn sydd o ddiddordeb iddyn nhw a rhoi cyfle iddynt ddisgleirio.

Dan arweiniad cydlynwyr iaith dalgylch, bydd cynlluniau dalgylch ac ysgolion unigol yn fwriadus i gynnig cyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i'r disgyblion ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol, bydd adrodd ar natur ac amlder y cyfleoedd hyn mewn cynlluniau dalgylch dan arolygaeth y Gwasanaeth Dysgu, GwE a'r Siarter Iaith. Bu'r cyfle i ddisgyblion ddefnyddio ac ymarfer yr iaith a'u cynorthwyo i sylweddoli bod byd cymdeithasol a diwylliannol cyfoethog yn gysylltiedig â'r Gymraeg. Defnyddir data o Hunanasesiad Iaith Gymraeg y Gweithlu i sicrhau bod unrhyw anghenion hyfforddi'n cael eu diwallu er mwyn cefnogi sgiliau llafar y disgyblion.

Mae ysgolion Môn yn ymrwymo i'r Siarter Iaith a chaiff y We Iaith ei chwblhau dwywaith yn ystod blwyddyn addysgol. Bydd y data hwn yn cael ei ddefnyddio i ddatgan gwaelodlin o batrymau ieithyddol dysgwyr oddi fewn a thu allan i furiau'r ysgol. Bydd y data'n cael ei ddefnyddio ar gyfer camau gweithredu pellach mewn trafodaethau tymhorol rhwng cydlynwyr iaith, dalgylchoedd, swyddogion GwE a'r Awdurdod. Bydd ysgolion Môn yn ail-gydio yn y We Iaith ar gychwyn blwyddyn academaidd 2021.

Arallgyfeiriwyd cefnogaeth y cydlynwyr Siarter Iaith drwy greu adnoddau addysgol i gefnogi'r Gymraeg yn sirol a chynnal sesiynau dalgylchol i arwain ar Gynllun Carlam y Gymraeg.

Yn ychwanegol, hwylusodd y Swyddog Siarter Iaith Gynllun Adfer Iaith yng nghanol y cyfnod clo mewn 4 ysgol ym Môn. Bydd y gwaith hwn yn esblygu i sesiwn arfer dda trochi ar gyfer bob athro/athrawes a chymhorthydd ar yr Ynys. Yn sgil y pandemig Covid-19, nid oes data meintiol ar gael i'w gynnwys yma. Byddwn yn defnyddio data canlyniadau'r We Iaith i fesur cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg ymhlith ein disgyblion.

## Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

**Amcanion**

1. Cynnal, datblygu ac ehangu'r bartneriaeth gydweithio drwy ychwanegu rhanddeiliaid at is-banel Deilliant 5.
2. Cynnal yr is-banel a'i gylch gorchwyl er mwyn datblygu cynlluniau 5-10 mlynedd gan sicrhau atebolrwydd drwy gydweithio'n holistig i'r un diben o hyrwyddo'r Gymraeg mewn ysgolion, ac ymhlith disgyblion.
3. Hyrwyddo rôl y cydlynwyr iaith dalgylch i gydweithio'n holistig gyda'r holl bartneriaeth uchod er mwyn sicrhau darpariaeth a phrofiadau ardderchog i ddysgwyr drwy ddefnydd naturiol o'r Gymraeg.
4. Bod technoleg yn cael ei ddefnyddio i'r eithaf drwy gysylltu'r strategaeth a'r adnoddau ac ymestyn y gefnogaeth i'r rhanddeiliaid ynghlwm a'r deilliant hwn.
5. Bod cymdeithas ehangach yn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael i bob disgybl ar draws yr Ynys.
6. Bod data meintiol yn cael ei ddefnyddio i werthuso a thargedu adnoddau yn bwrpasol ac yn effeithiol rhwng bob partner.

**Targedau Gweithredu**

- Cydlynwyr iaith dalgylch i wirio cynlluniau dalgylch a chynnal is-banel er mwyn cyfoethogi cyfleoedd a thargedu ysgolion ac ardaloedd i gefnogi'r defnydd o weithgareddau cyfrwng Gymraeg.
- Gwerthuso cydweithio holistig yn flynyddol drwy gylch gorchwyl ac is-banel.
- Cryfhau'r cydweithio drwy alinio gwaith y bartneriaeth gyda Fframwaith Siarter Cyfunol.
- Targedu ardaloedd sydd wedi cael eu heffeithio'n ieithyddol gan yr ardrawiad ar addysg yn ystod y cyfnod clo oherwydd y pandemig COVID 19.
- Cynnal gwerthusiad holistig o brosiectau wedi'u gwerthuso gan Brifysgol Bangor – hyfforddiant trochi, cynlluniau dalgylchoedd.
- Sicrhau bod ysgolion Môn yn ymgymryd â phrosiect 'Ein Llais Ni' mewn cydweithrediad â GwE a Phrifysgol Bangor.
- Datblygu ac ehangu defnydd o bodlediadau a llwyfannau digidol er mwyn sicrhau llais i'r Gymraeg drwyddynt a llais y disgybl drwy'r Gymraeg.
- Cynnal gweithdai ymwybyddiaeth iaith i rieni presennol a newydd.

## Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

**Amcanion**

1. Parhau i ddatblygu'r cyfleoedd ar gyfer pob oedran parthed gweithgareddau Môn Actif, yr Urdd ac eraill er mwyn sicrhau diwylliant Cymreig ym mywyd bob dydd dysgwyr.
2. Datblygu strategaeth gynhwysol i hyrwyddo Gemau'r Ynysoedd er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg drwy chwaraeon a chydlynu gydag amcanion Fframwaith Siarter Iaith Cyfunol.
3. Sicrhau bod yr holl ddarpariaeth a chyfleodd tu hwnt i'r dosbarth ar gael i bob plentyn ar yr Ynys o ran cydraddoldeb a hawl foesol dysgwyr.
4. Bod 100% o ddysgwyr 3-16 Môn yn derbyn ac yn manteisio ar gyfleoedd a gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg.
5. Bod ymrwymiad darparwyr a chlybiau'n sicrhau darpariaeth yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog.
6. Parhau i ddatblygu'r cyfleoedd ar gyfer pob oedran parthed gweithgareddau Môn Actif, yr Urdd ac eraill er mwyn sicrhau diwylliant Cymreig ym mywyd pob dydd dysgwyr a sicrhau bod ein dyhead yn glir yn y cyfnod hwn sef: **Bod pob disgybl sy'n mynd drwy gyfundrefn addysg Ynys Môn yn gwbl ddwyieithog erbyn cyrraedd 16 oed, ac yn hyderus i gyfathrebu yn y ddwy iaith yn gyfartal yn y byd gwaith, yn ddiwylliannol ac yn gymdeithasol.**

## Data Allweddol

## Cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol

| 2022 - 2023 | | 2023 - 2024 | | 2024 - 2025 | | 2025 - 2026 | | 2026 - 2027 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | |
| 2027 - 2028 | | 2028 - 2029 | | 2029 - 2030 | | 2030 - 2031 | | 2031 - 2032 | |
| | | | | | | | | | |

## Deilliant 6

**Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (“ADY”) (yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018)**

### Ble rydym ni nawr?

Mae pob disgybl sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn cael mynediad at wasanaethau cyfrwng Cymraeg ym Môn (100%). Mae darpariaethau a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gael ar gyfer yr holl ystod ac amrywiaeth o Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Mae pob aelod o staff yn y Gwasanaeth ADYaCH yn rhugl yn y Gymraeg ac yn gallu darparu’n ddwyieithog.  Mae cyfrwng iaith y mewnbwn yn ddibynnol ar anghenion dysgu unigolion.

Mae’n ofynnol dan Ddeddfwriaeth ADY (2018) sy’n dod i rym ym Medi 2021 i sicrhau fod dysgwyr yn gallu cael darpariaeth dysgu ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae cylch gorchwyl ac is-banel ar waith i gefnogi’r deilliant hwn a darpariaeth ADY drwy gyfrwng y Gymraeg.

### Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd gyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

**Amcanion**

1. Parhau i ddarparu addysg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol trwy gyfrwng y Gymraeg, ac yn ddwyieithog, ar hyd pob cam o’r daith addysgol.
2. Cydlynwyr iaith, GwE a Siarter Iaith i gydweithio er mwyn cefnogi’r Strategaeth ADY. Yn benodol, cydweithio’n agos â Chanolfan Addysg y Bont.
3. Cynllunio o gwmpas anghenion plant a phobl ifanc a’u teuluoedd.
4. Gweithredu Strategaeth ADY a Chynhwysiad Gwynedd ac Ynys Môn.

**Targedau Gweithredu**

- Pob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn parhau i gael mynediad at wasanaethau cyfrwng Cymraeg ym Môn. (FfEE)
- Asesu maint a gallu’r gweithlu ADY cyfrwng Cymraeg gan ddefnyddio’r canlyniadau i gynllunio’r gweithlu’n briodol. Mae hyn yn gysylltiedig â thrafodaethau cenedlaethol. (FfEE)
- Cymryd camau i gynnal archwiliad blynyddol o wasanaethau ADY a Chynhwysiad os bydd bylchau’n ymddangos yn y ddarpariaeth Gymraeg. (FfEE)
- Monitro, asesu’r galw a chynllunio o gwmpas anghenion plant a phobl ifanc a’u teuluoedd, a pharhau i sicrhau mynediad i wasanaethau sy’n gwbl ddwyieithog. (FfEE)
- Ystyried unrhyw geisiadau rhesymol am gymorth a chefnogaeth gan siroedd eraill y rhanbarth sy'n wynebu anawsterau o ran eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. (FfEE)
- Ymgysylltu â rhieni/gofalwyr er mwyn sicrhau eu bod yn deall y ddarpariaeth a’r cymorth sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. (FfEE)
- Cynnal archwiliad o’r adnoddau dysgu sydd eu hangen ar hyn o bryd ac nad ydynt ar gael o fewn yr AALl er mwyn cefnogi dysgwyr ADY, yn ogystal ag edrych ar y ffordd mae adnoddau’n cael eu rhannu’n fewnol ac yn rhanbarthol.  (FfEE)
- Defnyddio canfyddiadau arolygiadau o dan Adran 63 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 er mwyn gwella darpariaeth ar gyfer personau ag anghenion dysgu ychwanegol ac ar gyfer cynllunio gweithlu o fewn y sector ADY.  (FfEE)

### Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

**Amcanion**

1. Bod y Strategaeth ADY wedi parhau i ddarparu addysg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol trwy gyfrwng y Gymraeg, ac yn ddwyieithog, ar hyd pob cam o'r daith addysgol.
2. Bod cydlynwyr iaith, GwE a'r Siarter Iaith wedi cydweithio er mwyn cefnogi'r Strategaeth ADY. Yn benodol, cydweithio'n agos â Chanolfan Addysg y Bont.
3. Bod cynllunio o gwmpas anghenion plant a phobl ifanc a'u teuluoedd wedi ei weithredu.
4. Strategaeth ADY a Chynhwysiad Gwynedd ac Ynys Môn wedi ei gweithredu.

## Deilliant 7

## Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg

### Ble rydym ni nawr?

Mae defnydd o ddata blynyddol yr Holiadur Sgiliau Iaith yn rhoi data ieithyddol cyfredol o’r gweithlu ym Môn. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am athrawon, cymorthyddion, a staff cefnogi ysgolion. Bydd y data hwn yn caniatáu i’r Awdurdod a chydlynwyr iaith ysgolion gynllunio hyfforddiant a chefnogaeth briodol ar eu cyfer. Bydd aelodau’r is-banel megis Prifysgol Bangor, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a GwE yn cydweithio i gynnig cefnogaeth i’r gweithlu ac yn datblygu themâu megis hunanhyder, gloywi iaith, gwydnwch wrth gyflwyno arddulliau trochi a thrawsieithu yn ogystal â chyrsiau ffurfiol dysgu’r iaith a chynllun sabothol.

Mae cydweithio agos gyda CaBan (Prifysgol Bangor) yn golygu y bydd ysgolion Ynys Môn yn rhan o’r broses recriwtio megis proses gyfweld ymgeiswyr i’r cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon ac yn adnabod rhwydwaith ysgolion i gefnogi’r cyrsiau.


Bydd prosesau arferol Polisi Recriwtio Ynys Môn yn cefnogi’r strategaeth hon drwy weithredu’r Polisi Recriwtio yn gyson.

### Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd gyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

**Amcanion**

1. Defnyddio Data Cyfrifiad Blynyddol y Gweithlu.
2. Bydd aelodau’r is-banel megis Prifysgol Bangor, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a GwE yn cydweithio i gynnig cefnogaeth a chyrsiau i’r gweithlu gan ddatblygu themâu megis hunanhyder, gloywi iaith, gwydnwch wrth gyflwyno arddulliau trochi a thrawsieithu yn ogystal â chyrsiau ffurfiol dysgu’r iaith a chynllun sabothol.
3. Cydweithio gyda chonsortia rhanbarthol a’r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol er mwyn sicrhau cyflenwad digonol o benaethiaid ar gyfer y sector cyfrwng Cymraeg.
4. Ein bwriad ar gyfer y deng mlynedd nesaf yw cydweithio gyda rhanddeiliaid megis Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, Prifysgol Bangor a GwE i sicrhau fod cyfleoedd priodol i aelodau o’r gweithlu ymgeisio am gyrsiau sabothol a chyfleoedd gloywi iaith o leiaf dwywaith y flwyddyn drwy drefniant ac arweiniad y cydlynwyr iaith.
5. Datblygu continwwm darpariaeth a chefnogaeth ar gyfer y gweithlu drwy gynnig ystod gynyddol o gyfleoedd i ddatblygu iaith Gymraeg personol a phroffesiynol. Cydweithio gyda Phrifysgol Bangor a CaBan er mwyn sicrhau cydweithrediad effeithlon a chyflenwad digonol o athrawon cyfrwng Cymraeg.

**Continwwm Strategaeth Cefnogi'r Iaith Gymraeg yn y Gweithlu**




6. Hyrwyddo gwerth ac angen y Gymraeg ym myd gwaith er mwyn ennyn mwy o frwdfrydedd, hunanhyder a chodi dyheadau disgyblion.
7. Cydweithio ar brosiect 'ARFer' sef ymchwil adeiladol Prifysgol Bangor a fydd yn ymchwilio ac yn adrodd yn ôl ar broses newid meddylfryd yr iaith er mwyn datblygu cynllun meddylfryd i ategu'r gwaith gwybodaeth cynnwys y cyrsiau iaith eu hunain.
8. Cydweithio gyda Phrifysgol Bangor ar gynnwys modiwl israddedig arfaethedig *Blas ar ddysgu/ Bod yn athro cyfrwng Cymraeg cynradd-uwchradd.* Cydweithio i sicrhau cyfleoedd i ddarpar fyfyrwyr y modiwl arbrofi i greu adnodd cyfrwng Cymraeg neu un sesiwn addysgu o bell neu wyneb i wyneb gyda dosbarth ar draws pynciau uwchradd.

**Targedau Gweithredu**

- Bydd canlyniadau Holiadur Iaith y Gweithlu'n cael eu defnyddio i gynllunio cefnogaeth a chyrsiau priodol a hefyd monitro'r sefyllfa'n flynyddol.
- Cydweithio strategol cynnar gyda darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon megis Prifysgol Bangor a CaBan.
- Cydlynwyr iaith a GwE i hyrwyddo'r Fframwaith Cymwyseddau Iaith fel fframwaith hunanasesu i ysgolion.
- Bydd data ar y nifer o athrawon a phenaethiaid sydd eu hangen yn cael ei ddefnyddio er mwyn cynllunio'n strategol ar gyfer anghenion ysgolion.
- Cydweithio agos rhwng GwE/Llywodraeth Cymru/ALI.
- Cydweithio gyda Fforwm Strategol Môn i ddatblygu ac hyrwyddo cynhwysedd arweinyddiaeth drwy annog ymarferwyr i ddatblygu eu potensial drwy gyfleoedd datblygiad proffesiynol.
- Arweiniad gan yr Adran Adnoddau Dynol i hyrwyddo pwysigrwydd y Gymraeg a'r Saesneg wrth hysbysebu swyddi.
- Hyrwyddo gofynion ieithyddol swyddi ar gyfer pob lefel megis staff ategol, cymorthyddion, athrawon, penaethiaid a llywodraethwyr.
- Parhau i ddatgan ei bod yn ofynnol i ddeiliaid swyddi allu cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg i lefel briodol y swydd wrth hysbysebu swyddi.
- Sicrhau bod cydlynwyr iaith Môn a chonsortia yn hyrwyddo cyfleoedd er mwyn gwella'u sgiliau iaith.
- Datblygu strategaeth gloywi iaith clir mewn cydweithrediad â chonsortia rhanbarthol, Cymraeg i Oedolion, Siarter Iaith a rhanddeiliaid eraill megis cydlynwyr iaith a Phrifysgol Bangor.

- Cefnogi'r gweithlu i gynllunio er mwyn datblygu a sicrhau darpariaeth drwy addysg gyfrwng Gymraeg ar draws bob sector. Cydweithio gyda'r holl randdeiliaid megis Cydlynydd Siarter Iaith, swyddogion y Gwasanaeth Dysgu, cydlynwyr iaith a staff ysgolion.
- Datblygu ein Cynllun Carlam y Gymraeg gan adeiladu'n flynyddol ar arbenigedd a gwaith peilot y Cydlynydd Siarter iaith a'r ysgolion.
- Parhau i ddatblygu hyfforddiant a chynllun cefnogi arddull trochi drwy arbenigedd Canolfan Iaith Môn, Siarter Iaith a phartneriaid eraill er mwyn cefnogi'r holl staff i ymateb i anghenion ieithyddol pob disgybl.

## Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

Bydd is-banel Deilliant 7 yn datblygu ei gynllun gweithredu Deilliant 7 ac yn cydweithio ag adrannau'r Cyngor i ddatblygu a monitro'r broses uchod dros y deng mlynedd nesaf.

Bwriadwn gryfhau'r berthynas rhwng data ac ymchwil er mwyn datblygu system gynhaliol i ymateb a chynnal y nifer uchaf bosib o staff sy'n gallu addysgu ac sy'n medru'r Gymraeg ar gyfer system addysg Môn.

**Amcanion**

1. Bod Data Cyfrifiad Blynyddol y Gweithlu'n cael ei ddefnyddio'n effeithiol.
2. Bod y cydweithio i gynnig cefnogaeth a chyrsiau i'r gweithlu gan ddatblygu themâu megis hunanhyder, gloywi iaith, gwydnwch wrth gyflwyno arddulliau trochi a thrawsieithu yn ogystal â chyrsiau ffurfiol dysgu'r iaith a chynllun sabothol wedi bod yn effeithiol.
3. Bod cydweithio gyda chonsortia rhanbarthol a'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol wedi sicrhau cyflenwad digonol o benaethiaid ar gyfer y sector cyfrwng Cymraeg.
4. Bod cydweithio gyda rhanddeiliaid megis Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, Prifysgol Bangor a GwE wedi sicrhau fod cyfleoedd priodol i aelodau o'r gweithlu ymgeisio am gyrsiau sabothol a chyfleoedd gloywi iaith.
5. Bod continwwm darpariaeth a chefnogaeth wedi'i ddatblygu ar gyfer y gweithlu drwy gynnig ystod gynyddol o gyfleoedd i ddatblygu iaith Gymraeg personol a phroffesiynol.
6. Bod cydweithio gyda Phrifysgol Bangor a CaBan wedi sicrhau cydweithrediad effeithlon a chyflenwad digonol o athrawon cyfrwng Cymraeg.

**CYLCH GORCHWYL CSGA MÔN**

**PWRPAS**

Wrth gynllunio CSGA deng mlynedd, mae Ynys Môn wedi ffurfio Cylch Gorchwyl arloesol sy'n cadw trosolwg o gynllun gweithredu a gwerthusiadau CSGA.


Rydym wedi gweithredu dull integredig a holistaidd i sicrhau statws weithredol i'r Gymraeg ar gyfer cynyddu nifer o ddisgyblion i siarad y Gymraeg ar ddiwedd cyfnod addysg statudol. Credir bod y dull hwn wedi bod yn fanteisiol ac effeithiol i'r Ynys wrth i randdeiliaid fynegi barn a thrafod cyd-destun unigol gyda'r grŵp.

Bydd Cylch Gorchwyl CSGA Môn yn weithredol am y 10 mlynedd (2022-2032), er hyn bydd adolygiad o'r aelodaeth bob blwyddyn a bydd unrhyw addasiadau'n cael eu diweddaru yn nogfennaeth CSGA fel yr angen.

- Bydd Panel Cylch Gorchwyl CSGA Môn yn cyfarfod bob blwyddyn. Os bydd materion gan gadeiryddion is-baneli yn codi, yna bydd modd trefnu cyfarfodydd ychwanegol yn ôl yr angen.
- Bydd y Cylch Gorchwyl yn arwain yr is-baneli ac yn cefnogi gwaith monitro cynnydd ar y saith deilliant. Bydd y Cylch Gorchwyl yn:
    - *Gyfrifol am weithredu deilliannau'r CSGA.*
    - *Cyfarfod bob blwyddyn i gael diweddariad a throsolwg o'r holl ddeilliannau gan gadeiryddion yr is-baneli.*
    - *Monitro unrhyw risgiau.*
    - *Cefnogi a chynnig arweiniad i gadeiryddion is-baneli deilliannau.*
    - *Briffio a herio cynnydd ar gamau gweithredu.*
    - *Cydweithio'n agos gyda Fforwm Iaith Môn gan ddiweddaru'r fforwm ar gynnydd neu waith o ran deilliannau.*
    - *Datblygu ac addasu cynllun gweithredu deilliannau yn seiliedig ar wybodaeth a data cyfredol ac adroddiadau gwerthuso blynyddol.*
    - *Ystyried unrhyw gyfyngiadau allanol ar y deilliannau neu'r CSGA.*

**Gwefan Cefnogi CSGA**
Bydd llywodraethiant Cylch Gorchwyl CSGA Môn yn cael ei drefnu drwy aelodaeth Teams. Drwy ddefnyddio'r feddalwedd hon, bydd modd hwyluso a chanoli'r holl gyfarfodydd, cofnodion a diweddariadau mewn un arddull hwylus. Drwy'r platfform hwn bydd aelodau cylch gorchwyl a chadeiryddion yr is-baneli'n derbyn agenda, cofnodion a gweithredoedd yn amserol cyn unrhyw gyfarfod. Bydd aelod o'r tîm Gwasanaeth Dysgu yn gweinyddu ac yn paratoi'r gwaith hwn, a bydd copi caled ar gael ar gais.

**STRWYTHUR ARFAETHEDIG CSGA MÔN**




| AELODAETH CYLCH GORCHWYL CSGA MÔN | | |
|---|---|---|
| **Enw** | **Asiantaeth** | **Rôl** |
| Rhys Howard Hughes | Gwasanaeth Dysgu | Cadeirydd |
| Owen Davies | Gwasanaeth Dysgu | Is-gadeirydd |
| Haydn Edwards | Fforwm Iaith | |
| Elen Hughes | Fforwm Iaith | |
| Gwawr M Williams | Prifysgol Bangor | Ymgynghorwr Allanol |
| Delyth Jones | Mudiad Meithrin | |
| Catrin Fflur Roberts | GwE | |
| Gwenan Richards | Coleg Llandrillo Menai | |
| Gareth Owen | Ysgol Gynradd | Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd Môn |
| Emyr Hughes | Ysgol Uwchradd | Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd Môn |
| Ffreuer G. Owen | Cyngor Môn | |
| + | | |
| Gwyneth M Hughes | Cadeirydd Deilliant 1 CSGA | |
| Gwyneth M Hughes | Cadeirydd Deilliant 2 CSGA | |
| Owen T Davies | Cadeirydd Deilliant 3 CSGA | |
| Aaron Evans | Cadeirydd Deilliant 4 CSGA | |
| Owen T Davies | Cadeirydd Deilliant 5 CSGA | |
| Ffion Edwards Ellis | Cadeirydd Deilliant 6 CSGA | |
| Owen T Davies | Cadeirydd Deilliant 7 CSGA | |

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **9 Tachwedd 2021** |
| **Pwnc:** | **Adroddiad Adolygu Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Cyflwyno'r Adroddiad Adolygu a derbyn sylwadau'r Pwyllgor ar y cynnwys** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cynghorydd Gwilym Owen Jones** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Cynghorydd Richard Dew** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Christian Branch - Pennaeth Gwasanaeth** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Rebeca Angharad Jones**<br>**01286 679890**<br>**rebecajones@gwynedd.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini** |

**1 – Argymhelliad/Argymhellion**

Gofynnir i'r Pwyllgor:

Ystyried yr Adroddiad a chyflwyno sylwadau ynglŷn â'i gynnwys gan roi ystyriaeth benodol i'r:

(i) newidiadau yn y cyd-destun cenedlaethol a lleol (a oes unrhyw fater ychwanegol y dylid ei gynnwys?);
(ii) canfyddiadau'r Adroddiadau Monitro Blynyddol yn Rhan 2;
(iii) y materion fydd angen eu hadolygu wrth baratoi Cynllun Diwygiedig yn Rhan 3;
(iv) arweiniad ar y casgliadau yn rhan 6 o'r Adroddiad Adolygu

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill**

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn Ddogfen Statudol. Mae'n ddogfen strategol allweddol sy'n helpu i hwyluso nodau ac amcanion y Cyngor drwy ddarparu fframwaith polisi cynllunio cadarn.

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (yn unol â gofynion deddfwriaethol a pholisi cynllunio cenedlaethol) yn cyflwyno strategaeth a pholisïau sydd gyda'i gilydd yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy.

**Mae'r Adroddiad Adolygu yn nodi sut mae'r CDLl ar y cyd wedi perfformio ers ei fabwysiadu ac yn amlinellu adrannau y cynllun y bydd angen eu diwygio o ganlyniad i'r newidiadau cyd-destunol sydd wedi digwydd ers mabwysiadu ac asesiad o'r Adroddiadau Monitro Blynyddol**

**3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

1. Beth yw'r heriau allweddol a nodwyd yn yr adroddiad adolygu a sut y bwriedir mynd i'r afael â'r rhain?
2. A oes unrhyw risgiau penodol yn gysylltiedig â'r broses fel yr amlinellir yn yr adroddiad o ran y camau nesaf?
3. A oes unrhyw faterion ychwanegol y mae angen mynd i'r afael â nhw fel rhan o'r broses adolygu naill ai'n genedlaethol, rhanbarthol neu'n lleol?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

**1.0 Cefndir**

1.1 Mae'r Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn nodi fod angen adolygu Cynllun Datblygu Lleol 4 mlynedd yn dilyn ei fabwysiadu. Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLl ar y Cyd) ar 31 Gorffennaf 2017 ac felly, yn unol â'r gofyn statudol y 31 Gorffennaf 2021 oedd y dyddiad ar gyfer cychwyn y broses adolygu.

| **Adolygiad statudol** | | |
|---|---|---|
| 1 | PCPA 2004 (adran 69) a Rheoliad 41 | Adolygu'r cynllun statudol yn gyfnodol, a dim mwy na phedair blynedd o ddyddiad ei fabwysiadu. Gellir sbarduno hyn yn gynharach os yw'n gysylltiedig â dyddiadau terfyn y cynllun, amserlenni paratoi cynllun neu'r ACLl yn adolygu cynllun yn wirfoddol. |

1.2 Y Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 a Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygio) sydd yn gosod allan y camau rhaid dilyn wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol neu Adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol (sef paratoi Cynllun Diwygiedig). Mae'r rheoliadau yn gosod allan camau gwahanol i ymgymryd ag adolygiad ffurf fer neu adolygiad llawn. Noder fod y ddwy drefn yn dra gwahanol ac nid yw yn ddewisol pa un y bydd rhaid dilyn. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn amlinellu'n glir yr amgylchiadau ar gyfer dilyn naill neu'r llall o'r gweithdrefnau ac mae hyn wedi amlinellu yn yr adroddiad isod.

1.3 Cyn cychwyn ar adolygiad o'r CDLl mae'n rhaid adolygu'r cynllun presennol a pharatoi Adroddiad Adolygu, Mae'r cam cychwynnol yma wedi ei osod allan yn rhan 3.2 isod gyda'r Adroddiad Adolygu Drafft i'w weld yn Atodiad 1.

## 2.0 Yr Adroddiad Adolygu (gweler Atodiad 1)

2.1 Pwrpas yr Adroddiad Adolygu yw edrych ar yr holl dystiolaeth sydd yn berthnasol i'r CDLl ar y Cyd a dod i gasgliad ynglŷn â'r math o adolygiad bydd yn cael ei ddilyn. Gall hyn fod yn adolygiad ffurf lawn sydd gyfystyr a pharatoi Cynllun newydd, neu adolygiad ffurf fer sydd gyfystyr ag addasu rhannau penodol o'r Cynllun cyfredol.

2.2 Yn unol â'r arweiniad a gynhwysir yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3, Mawrth 2020), dylid cyhoeddi Adroddiad Adolygu o fewn 6 mis o ddyddiad cychwyn yr adolygiad. Yng nghyswllt y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, golygai hynny'r angen i baratoi'r Adroddiad Adolygu erbyn diwedd Ionawr 2022. Mae Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn nodi dylai'r Adroddiad Adolygu fod yn gryno a chynnwys yr isod:

- Pa wybodaeth sy'n cael ei hystyried i lywio adolygiad o'r cynllun a pham.
- Sut mae'r canfyddiadau'n effeithio ar weledigaeth, nodau ac amcanion y cynllun, gan gynnwys rhoi'r strategaeth ar waith.
- Adolygiad o bob maes pwnc yn y cynllun gan nodi'n glir beth sydd angen ei newid a pha rannau o'r sail dystiolaeth y mae angen eu diweddaru i gefnogi'r newidiadau.
- Goblygiadau i'r rhannau o'r Cynllun na fwriedir ei ddiwygio o ran cydlyniad ac effeithlonrwydd y Cynllun yn ei gyfanrwydd.
- Ailystyried yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd.
- Archwilio ac esbonio'r cyfleoedd i baratoi CDLl ar y Cyd–gyda ACLlau cyfagos a chynyddu gweithio traws-ffiniol.

- Casgliadau clir ynghylch pam mae angen dilyn y drefn lawn (sydd gyfystyr a pharatoi Cynllun newydd), neu'r weithdrefn adolygu ffurf fer (sydd gyfystyr ag addasu rhannau o’r Cynllun cyfredol).

2.3 Mae’r Adroddiad Adolygu yn cynnwys y rhannau canlynol:

**Rhan 1 – Cyflwyniad**

Cyflwyniad a chefndir, sydd yn gosod allan y deddfau sydd angen eu hystyried wrth gynnal yr adolygiad, y sail tystiolaeth sydd yn allweddol i’r broses adolygu ac yn gosod allan beth yw Adroddiad Adolygu. Mae’r rhan yma hefyd yn nodi nad diben yr adroddiad adolygu yw manylu ar unrhyw newidiadau y bydd yn cael eu gwneud i’r Cynllun, a dim ond wrth ddilyn y broses o baratoi’r Cynllun Diwygiedig a chasglu’r wybodaeth a thystiolaeth berthnasol y bydd posib adnabod manylion y newidiadau sydd angen eu gwneud i’r Cynllun.

**Rhan 2 – Gwybodaeth a materion perthnasol**

Mae rhan 2 yn gosod allan y prif newidiadau mewn deddfwriaeth, polisi cenedlaethol, rhanbarthol a lleol sydd mewn grym ers mabwysiadu’r cynllun presennol, megis:

- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.
- Deddf Lles Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.
- ’Cymru’r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (y fframwaith datblygu cenedlaethol).
- Diweddariadau Canllawiau’r Llywodraeth e.e. Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11), Nodyn Cyngor Technegol a.y.y.b.
- sefyllfa ddiweddaraf cynllun Wylfa Newydd.
- Effaith ag adfer yn dilyn Brexit a Chofid 19 ar draws ardal y Cynllun.
- Cynllun Datblygu Strategol fydd yn cael ei baratoi ar gyfer Rhanbarth Gogledd Cymru yn ystod y blynyddoedd nesaf.
- Cais Twf gogledd Cymru.
- Gwaith ymchwil rheoli’r defnydd o dai fel cartrefi gwyliau ac ail gartrefi - Datblygu polisïau newydd yng Nghymru (Dr Simon Brooks) ac unrhyw waith ymchwil arall perthnasol.
- Strategaethau sydd mewn lle gan y Cynghorau, e.e. strategaethau tai, strategaethau datblygu’r economi a.y.y.b.

Mae’r rhan yma hefyd yn gosod allan materion eraill sydd yn dylanwadu ag angen ystyriaeth bellach megis newid hinsawdd, materion yn gysylltiedig â ffosffad a rhagamcanion aelwydydd a phoblogaeth. Ystyrir fod yna newidiadau sydd yn cael

eu hamlygu yn y rhan yma, sy'n rhai hynod o arwyddocaol ac yn bwysig i'w hystyried wrth ddiwygio'r CDLl ar y Cyd. Mae prif ganfyddiadau'r tri Adroddiad Monitro Blynyddol sydd wedi cael eu paratoi yn cael eu nodi ac yn dod i'r casgliad fod y Cynllun, yn seiliedig ar y dystiolaeth yn gweithio'n dda ar y cyfan.

**Rhan 3 – Adolygiad o'r CDLl ar y Cyd a newidiadau posib**

Mae'r rhan yma yn gosod allan adolygiad o'r Cynllun cyfredol ac yn gosod allan newidiadau posib fydd angen eu gwneud i'r strategaeth, amcanion a pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Mae'r rhan yma wedi cael ei osod allan yn nhrefn y CDLl fel isod:

- Gweledigaeth ac amcanion strategol
- Strategaeth
- Polisïau'r Cynllun fesul adran y CDLl
    - o Adran 6.1 - Rheoli Twf a Datblygu – Cymunedau Diogel, Iach, Nodedig a Bywiog
    - o Adran 6.2 - Rheoli Twf a Datblygu - Byw'n gynaliadwy
    - o Adran 6.3 - Rheoli Twf a Datblygu – Economi ac Adfywio
    - o Adran 6.4 - Rheoli Twf a Datblygu – Cyflenwad ac Ansawdd Tai
    - o Adran 6.5 - Rheoli Twf a Datblygu – Amgylchedd Naturiol ac Adeiledig
- Mapiau Cynigion, Cynlluniau Mapiau Mewnosod a'r Mapiau Cyfyngiadau
- Canllawiau Cynllunio Atodol

Nodir y bydd y gwaith o baratoi'r Cynllun Diwygiedig (gan gynnwys adolygiad o'r sail dystiolaeth berthnasol) yn gyfle i ail edrych ar holl bolisïau'r Cynllun cyfredol.

**Rhan 4 – Gofynion adolygu'r sail dystiolaeth**

Mae'r rhan yma yn gosod allan y gofynion ar gyfer adolygu neu ddiweddaru'r sail tystiolaeth i gefnogi neu lywio unrhyw newidiadau i'r CDLl ar y Cyd. Mae rhestr o enghreifftiau o'r sail dystiolaeth angenrheidiol er mwyn paratoi Cynllun Diwygiedig wedi nodi isod:

- o Asesiad Safleoedd Posib
- o Strategaethau a Chynlluniau Perthnasol

- Poblogaeth a Thai
- Disgrifio'r Twf Tai a Gofodol
- Datblygu'r strategaeth aneddleoedd
- Astudiaeth Cynhwysedd Trefol
- Manwerthu
- Twristiaeth
- Iaith Gymraeg a Diwylliant
- Tai Marchnad Angen Leol
- Adnabod safleoedd Sipsiwn a Theithwyr
- Astudiaeth Hyfywdra Tai Fforddiadwy
- Astudiaeth Tir Cyflogaeth
- Astudiaeth Cyfleoedd Ynni Adnewyddol

Fel sydd wedi nodi yn yr Adroddiad Adolygu, pwysleisir nad yw'r rhestr yma yn un cyflawn ac fe allai'r angen/galw i ddiwygio'r sail dystiolaeth ddod i'r amlwg wrth i'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig fynd rhagddo. Ymhellach fe all y broses o adolygu, adnabod yr angen i baratoi sail tystiolaeth o'r newydd. Mae'r rhan yma hefyd yn gosod allan yr asesiadau effaith fydd rhaid ei baratoi wrth i'r gwaith o baratoi'r Cynllun Diwygiedig fynd rhagddo. Eto, nodir y bydd angen ail edrych ar y sail dystiolaeth yma i gyd yn ogystal â chynnal asesiadau effaith newydd.

**Rhan 5 - Cydweithio a pharatoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd**

Mae'r rhan yma yn gosod allan yr ystyriaeth sydd wedi ei rhoi i gyd weithio a pharatoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, mae'n ofynnol rhoddi ystyriaeth i hyn o

fewn yr Adroddiad Adolygu. Fel nodir yn yr Adroddiad, yn bresennol mae yna gytundeb cydweithio rhwng Awdurdodau Cynllunio Lleol Gwynedd a Môn i baratoi Cynllun ar y Cyd. Nodir hefyd fod y Gwasanaeth yn cyd-weithio yn agos efo Awdurdodau Cynllunio cyfagos (e.e. Parc Cenedlaethol Eryri, Cyngor Bwrdeistrefol Sir Conwy, Cyngor Sir Powys).

**Rhan 6 – Casgliadau a Chamau Nesaf**

Mae rhan 6 yn gosod allan y casgliadau ynglŷn â ffurf yr adolygiad y bydd angen ei ddilyn. Nodir yn unol â chasgliadau'r Adroddiadau Monitro Blynyddol sydd wedi ei gynnal, fod y Cynllun ar y cyfan yn cael ei weithredu'n effeithiol a bod y polisïau a'r targedau a osodwyd ar gyfer pob dangosydd yn cael eu cyflawni. Er hyn, mae yna newidiadau arwyddocaol wedi bod yn y cyd-destun cenedlaethol a lleol ers mabwysiadu'r Cynllun, gan gynnwys materion sydd tu hwnt i reolaeth y Cynllun, megis, goblygiadau'r pandemig Covid, Brexit, rhagolygon poblogaeth ac aelwydydd, yr ansicrwydd yn gysylltiedig â Wylfa Newydd ac ati. Mae sgil effeithiau'r newidiadau hyn golygu'r angen i ail edrych ar bolisïau'r Cynllun cyfredol fel y nodir yn Rhan 3 o'r Adroddiad Adolygu. Yn sgil hyn mae'r dystiolaeth yn amlygu'r angen am **Adolygiad Ffurf Lawn o'r Cynllun.** Mae'r rhan yma hefyd yn pwysleisio y bydd gwaith o baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol (CDS) hefyd yn cael effaith ar ddatblygiad a chynnwys y Cynllun diwygiedig.

**3. Camau Nesaf**

3.1 Mae'r tabl isod yn gosod allan yr amserlen ar gyfer adrodd ar yr Adroddiad Adolygu**:**

| | | |
|---|---|---|
| Sesiynau Codi Ymwybyddiaeth efo holl aelodau (rhithiol) | Cyflwyno'r Adroddiad Adolygu a'r camau i baratoi Cynllun Diwygiedig. | Cyngor Gwynedd 2-11-21 & 5-11-21<br>Cyngor Sir Ynys Môn 1-11-21 & 8-11-21 |
| Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd | Adrodd ar sylwadau sydd wedi derbyn yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus | I'w Gadarnhau |
| Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd | Cytuno ar fersiwn terfynol o'r Adroddiad Adolygu | I'w gadarnhau |

| | | |
|---|---|---|
| Cyngor Llawn Ynys Môn | Cyflwyno Copi Terfynol o'r Adroddiad Adolygu i gyflwyno i Lywodraeth Cymru. | 22 Chwefror 2022 |
| Cyngor Llawn Cyngor Gwynedd | Cyflwyno Copi Terfynol o'r Adroddiad Adolygu i gyflwyno i Lywodraeth Cymru. | 3 Mawrth 2022 |

3.2 Mi fydd yr Adroddiad Adolygu yn destun ymgynghoriad cyhoeddus fel sydd wedi nodi uchod. Mi fydd yr ymgynghoriad yma yn ceisio cael barn rhanddeiliad a'r cyhoedd ar y materion sydd wedi eu gosod allan yn yr Adroddiad Adolygu, y newidiadau posib sydd yn cael eu hawgrymu yn y ddogfen, os yn cytuno ar y fath o adolygiad sydd yn cael ei argymell, ac yn olaf oes yna unrhyw faterion sydd angen eu hystyried sydd ddim wedi ei gynnwys yn yr Adroddiad Adolygu.

| 6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg] |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| **Dim yn berthnasol** |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| **Dim yn berthnasol** |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| **Dim yn berthnasol** |

| 7 – Goblygiadau Ariannol |
|---|
| **Dim yn berthnasol** |

| 8 – Atodiadau |
|---|
| Atodiad 1 Adroddiad Adolygu Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd |

| |
|---|
| |

| 9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda): |
|---|
| |

# Adroddiad Adolygu Drafft Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn

DRAFT

**Hydref 2021**

# Cynnwys


**1.0 Cyflwyniad** ..... 2

Cefndir ..... 2

Beth yw Adroddiad Adolygu ..... 2

**2.0 Gwybodaeth a materion perthnasol** ..... **4**

Arwyddocâd newidiadau cyd-destunol ..... 4

Newidiadau Deddfwriaethol ..... 4

Diwygiadau i arweiniad Polisi Cynllunio Cenedlaethol ..... 5

Y cyd-destun rhanbarthol ..... 11

Y cyd-destun lleol ..... 12

Materion eraill sydd yn dylanwadu ac angen ystyriaeth ..... 16

Canfyddiadau'r Adroddiadau Monitro Blynyddol ..... 22

**3.0 Adolygiad o'r CDLl a'r newidiadau posib** ..... 25

Gweledigaeth ac amcanion strategol ..... 25

Strategaeth ..... 25

Polisïau'r Cynllun ..... 26

Mapiau Cynigion, Mapiau Mewnosod a'r Mapiau Cyfyngiadau ..... 46

Canllawiau Cynllunio Atodol ..... 47

**4.0 Gofynion adolygu'r sail dystiolaeth** ..... 48

Casglu tystiolaeth ..... 48

Asesiadau Effaith ..... 50

**5.0 Cyd-weithio a pharatoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd** ..... **51**

**6.0 Casgliadau a chamau nesaf** ..... **53**


DRAFT

# 1.0 Cyflwyniad

## Cefndir

1.1 Mae'r Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn nodi'r angen i adolygu Cynllun Datblygu Lleol ar ôl cyfnod o 4 mlynedd yn dilyn ei fabwysiadu. Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLl ar y Cyd) ar 31 Gorffennaf 2017, ac felly, mae'r cyfnod o adolygu'r Cynllun wedi cychwyn ar 31 Gorffennaf, 2021.

1.2 Y Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 a Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygio) 2015 sydd yn gosod allan y camau statudol sydd rhaid ymgymryd wrth adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r rheoliadau yn gosod allan camau gwahanol i ymgymryd ag adolygiad ffurf fer neu adolygiad llawn o Gynllun Datblygu Lleol. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn amlinellu'n glir yr amgylchiadau ar gyfer dilyn naill neu'r llall o'r gweithdrefnau. Noder fod y ddwy drefn yn dra gwahanol ac nid yw'n ddewisol pa un y bydd rhaid ei ddilyn. Yn dilyn rhoi sylw i'r ystyriaethau perthnasol yn yr Adroddiad canlynol fe fydd yr Adroddiad yn dod i gasgliad ynglŷn â pha weithdrefn adolygu a fydd angen ymgymryd, hynny yw boed yn adolygiad ffurf fer neu yn adolygiad llawn. Bydd y CDLl ar y Cyd diwygiedig yn cwmpasu cyfnod cynllun hyd at 2036, sef diwedd cyfnod o 15 mlynedd a fydd yn dechrau yn 2021.

1.3 Mae'r Adroddiadau Monitro Blynyddol (AMB) yn rhan allweddol o'r broses o adlewyrchu ar berfformiad gan gynnwys lwyddiannau a methiannau'r Cynllun cyfredol. Ymhellach mae canfyddiadau'r AMB yn cyfrannu at lywio datblygiad y Cynllun Diwygiedig. Mae'r AMB sydd wedi ei gyhoeddi (3 mewn nifer) yn nodi pryderon ynglŷn â rhai meysydd polisi ble mae'r targed polisi â osodwyd o fewn y dangosydd wedi ei fethu. Nid oedd y methiannau hyn ynddynt eu hunain yn cyfiawnhau'r angen i gynnal adolygiad cynnar o'r Cynllun gan fod y Cynllun yn gyffredinol yn perfformio'n dda. Fodd bynnag maent yn faterion a fydd angen eu hystyried fel rhan o'r Cynllun Diwygiedig. Gweler rhan 2.89 am fwy o fanylion.

## Beth yw Adroddiad Adolygu

1.4 Paratoi a derbyn cymeradwyaeth o'r Adroddiad Adolygu yw'r cam cyntaf yn y broses o baratoi Cynllun Diwygiedig. Bydd yr Adroddiad Adolygu yn rhan allweddol o sail dystiolaeth y Cynghorau pan gyflwynir yr CDLl ar y Cyd Diwygiedig i Lywodraeth Cymru i'w archwilio.

1.5 Mae'r Adroddiad Adolygu hwn, yn cyflwyno meysydd lle mae'r CDLl cyfredol yn cyflawni ac yn perfformio'n dda, yn ogystal â'r meysydd hynny lle gall fod angen newidiadau. **<u>Pwysleisir nad diben yr Adroddiad Adolygu yw manylu ar unrhyw newidiadau y bydd yn cael eu gwneud i'r Cynllun.</u>** Dim ond wrth ddilyn y broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig a chasglu'r wybodaeth



DRAFT

a thystiolaeth berthnasol y bydd posib adnabod manylion y newidiadau sydd angen eu gwneud i'r Cynllun.

1.6 Bydd yr Adroddiad Adolygu yn:

- crynhoi canfyddiadau'r Adroddiadau Monitro Blynyddol hyd yma;
- adolygu'r polisïau presennol o fewn y CDLl ar y Cyd yn unol â'r penawdau a osodir o fewn y Cynllun;
- ystyried os oes yna newidiadau cyd-destunol yn arwain at yr angen i newid agweddau o'r Cynllun;
- nodi pa ymchwil pellach/casglu gwybodaeth sydd ei angen ar gyfer paratoi Cynllun Diwygiedig.
- asesu Cynlluniau/Strategaethau/Deddfwriaeth genedlaethol, ranbarthol a lleol perthnasol sydd wedi dod i rym ers mabwysiadu'r Cynllun gwreiddiol ac ystyried yr angen i sicrhau fod y Cynllun yn cyd-fynd gyda'r arweiniad cyfredol;
- dod i gasgliad ynglŷn â'r weithdrefn briodol er mwyn ymgymryd â'r adolygiad a pharatoi Cynllun Diwygiedig (adolygiad ffurf fer yn neu ffurf llawn).

1.7 Mae'r Adroddiad yn cynnwys y rhannau isod:

Rhan 2

Mae rhan 2 yn gosod allan y prif newidiadau mewn deddfwriaeth, polisi cenedlaethol, rhanbarthol a lleol sydd mewn grym ers mabwysiadu'r cynllun presennol. Ystyrir fod yn newidiadau sydd yn cael eu hamlygu yn y rhan yma rhai pwysig i'w hystyried wrth ddiwygio'r CDLl ar y Cyd. Mae prif ganfyddiadau'r tri Adroddiad Monitro Blynyddol sydd wedi cael ei baratoi yn cael ei nodi ynghyd a materion eraill gall dylanwadu.

Rhan 3

Mae'r rhan yma yn gosod allan adolygiad o'r Cynllun cyfredol ag yn gosod allan newidiadau posib fydd angen ei wneud i'r strategaeth, amcanion a pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

Rhan 4

Mae'r rhan yma yn gosod allan y gofynion ar gyfer adolygu neu ddiweddaru'r sail tystiolaeth i gefnogi neu lywio unrhyw newidiadau i'r CDLl ar y Cyd.

Rhan 5

Mae'r rhan yma yn gosod allan yr ystyriaeth sydd wedi ei rhoi i gyd weithio a pharatoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

Rhan 6

Mae rhan 6 yn gosod allan y casgliadau a ffurf o adolygiad y bydd angen ei ddilyn.

## 2.0 Gwybodaeth a materion perthnasol

### Arwyddocâd newidiadau cyd-destunol

2.1 Yn y cyfnod ers mabwysiadu'r CDLl ar y Cyd (31 Gorffennaf 2017) mae yna ystod o ddeddfwriaeth/polisïau a strategaethau cenedlaethol, lleol a rhanbarthol wedi eu cyhoeddi. Er mwyn sicrhau fod y Cynllun ai gynnwys yn gyfredol, bydd angen sicrhau fod ystyriaeth yn cael ei roddi i'r materion cyd-destunol hyn sydd yn dylanwadu ar gynnwys y Cynllun. Bydd angen i'r Cynllun Diwygiedig gymryd i ystyriaeth yr amrywiol Ddeddfau newydd, fframweithiau polisi, canllawiau wedi'u diweddaru a thystiolaeth sydd wedi dod i'r amlwg ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol.

2.2 Er nad yw'n hollgynhwysol, mae'r canlynol yn nodi'r elfennau hynny fydd yn cael y dylanwad mwyaf arwyddocaol wrth baratoi'r Cynllun Diwygiedig.

### Newidiadau Deddfwriaethol

**Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2019.**

2.3 Ar 1 Ebrill 2019 daeth diwygiad i'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir (GDPO) i rym sy'n ymwneud yn benodol â datblygiadau ynni, telathrebu a gwasanaeth. Y diwygiad mwyaf arwyddocaol yw diwygiad i Atodlen 2, rhan 2 'Mân Weithrediadau' sy'n cyflwyno Dosbarthiadau D ac E ac yn sefydlu hawliau datblygu ar gyfer offer a seilwaith ar gyfer "ailwefru cerbydau trydan" cyn belled â bod y cynigion yn cydymffurfio â'r meini prawf rhagnodedig.

**Deddf Cynllunio (Cymru) 2015**

2.4 Derbyniodd Deddf Cynllunio (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ym mis Gorffennaf 2015 a daeth i rym fesul cam rhwng Hydref 2015 ac Ionawr 2016. Er ei bod mewn grym cyn i'r CDLl ar y Cyd gael ei fabwysiadu a chyn yr ymchwiliad cyhoeddus, ystyrir ei bod yn ddefnyddiol cyfeirio ato gan ei fod yn darparu sylfaen ar gyfer newidiadau cyd-destunol eraill y mae angen eu hystyried wrth baratoi'r Cynllun Diwygiedig a'r camau monitro dilynol. Mae'n cyflwyno sail gyfreithiol ar gyfer paratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) a Chynlluniau Datblygu Strategol (SDP).

**Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016**

2.5 Derbyniodd y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol ar 21ain Mawrth 2016, gan ddarparu deddfwriaeth newydd i reoli adnoddau naturiol Cymru yn rhagweithiol ac yn gynaliadwy. Mae'r Ddeddf yn

cynnwys dyletswydd bioamrywiaeth newydd sy'n anelu at gynorthwyo i wrthdroi dirywiad a sicrhau gwytnwch a dyfodol bioamrywiaeth tymor hir yng Nghymru. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi tasg i Weinidogion Cymru osod targedau i leihau allyriadau tŷ gwydr a gosod cyllidebau carbon. Mae'n cyflwyno pwerau newydd i gynyddu faint o ddeunyddiau i'w hailgylchu, ynghyd â gwella ansawdd y deunyddiau i'w hailgylchu. Mae'r ddeddf hefyd yn rhoi dyletswydd ar Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i baratoi Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol a Datganiadau Ardal.

**Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

2.6 Er mai dyddiad y Ddeddf hon yw 2015, daeth i rym ar ôl i'r CDLl ar y Cyd-gael ei gyflwyno i'w archwilio (Ebrill 2016). Derbyniodd Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill 2015 a daeth i rym ar 1 Ebrill 2016. Mae'r Ddeddf yn cryfhau'r trefniadau llywodraethu presennol ar gyfer gwella lles Cymru trwy sicrhau bod datblygu cynaliadwy wrth wraidd penderfyniadau llywodraeth a chyrff cyhoeddus. Ei nod yw gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl yng Nghymru mewn perthynas â nifer o nodau llesiant gan gynnwys gwella iechyd, diwylliant, treftadaeth a defnyddio adnoddau'n gynaliadwy. Mae'r Ddeddf yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer paratoi Cynlluniau Llesiant Lleol, sy'n disodli Cynlluniau Integredig Sengl.

2.7 Mae saith nod llesiant y Ddeddf fel a ganlyn:

1. Cymru lewyrchus
2. Cymru gydnerth
3. Cymru iachach
4. Cymru sy'n fwy cyfartal
5. Cymru o gymunedau cydlynus
6. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
7. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

2.8 Yn ystod archwiliad cyhoeddus o'r CDLl ar y Cyd, aethpwyd i'r afael â goblygiadau'r Ddeddf er mwyn sicrhau bod y Cynllun yn adlewyrchu'r nodau a gynhwysir yn y Ddeddf.

## Diwygiadau i arweiniad Polisi Cynllunio Cenedlaethol

**Cynlluniau a Pholisïau Cenedlaethol**

**Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (2021)**

2.9 "Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040" yw'r fframwaith datblygu cenedlaethol, sy'n gosod y cyfeiriad ar gyfer datblygu yng Nghymru hyd at 2040. Mae'n gynllun datblygu gyda strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol trwy'r system gynllunio, gan gynnwys cynnal a datblygu economi fywiog, cyflawni datgarboneiddio a gwytnwch yn yr hinsawdd, datblygu ecosystemau cryf a gwella iechyd a lles ein cymunedau.

2.10 Mae'r Cynllun Cenedlaethol yn nodi pedwar rhanbarth ar gyfer datblygu polisi yng Nghymru yn y dyfodol - Gogledd Cymru, Canolbarth Cymru, De Orllewin Cymru a De Ddwyrain Cymru. Rhaid bod gan bob rhanbarth Gynllun Datblygu Strategol (CDS) sy'n cydnabod y cryfderau a'r heriau yn y rhanbarth hwnnw, ac sydd hefyd yn ategu'r cynlluniau a'r gwaith sy'n digwydd mewn rhanbarthau eraill. Mae hyn yn golygu y dylai rhanbarthau weithio'n dda gyda'i gilydd i ddelio â materion sy'n digwydd ar draws y rhanbarthau a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd ar gyfer twf. Yn fras bydd CDS yn cael eu paratoi mewn ffordd debyg i Gynlluniau Datblygu Lleol, ond ni fyddant yn eu disodli. Bydd CDLl yn parhau i ganolbwyntio ar bolisïau cynllunio lleol ond gallant fod yn fwy cryno a chael mwy o ffocws unwaith y bydd y CDS wedi'i fabwysiadu. Ar y cyfan, disgwylir fod y Cynlluniau (CDS a'r CDLl) yn unol â Chynllun Cymru'r Dyfodol.

**Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 11 (Chwefror 2021)**

2.11 Mae gan y ddogfen hon oblygiadau sylweddol i'r system gynllunio yng Nghymru ac mae'n nodi mai'r system gynllunio yw un o'r prif ddulliau o greu lleoedd cynaliadwy, a bod egwyddorion creu lleoedd yn arf i gyflawni hyn drwy lunio cynlluniau ac yn y broses o wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu ym mis Gorffennaf 2017, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig o Bolisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 10) ym mis Rhagfyr 2018. Ail-ddrafftiwyd y ddogfen er mwyn sicrhau bod y saith nod llesiant a phum ffordd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 wedi'u hintegreiddio'n llawn i bolisi cynllunio. Mae hefyd yn sicrhau fod y cysyniad o greu lle yn greiddiol yng nghanol polisi cynllunio cenedlaethol. Mae'r newid hyn yn sicrhau bod penderfyniadau cynllunio yn ystyried pob agwedd yn gysylltiedig â lles, ac yn darparu datblygiadau newydd sy'n gynaliadwy ac sy'n darparu ar gyfer anghenion pawb. Cyhoeddwyd diweddariad ffeithiol o Bolisi Cynllunio Cymru ym mis Chwefror 2021 (Argraffiad 11) er mwyn ei alinio â chyhoeddi Cymru'r Dyfodol a chynnwys diweddariadau deddfwriaethol, polisi a chanllawiau ehangach ers cyhoeddi Argraffiad 10 ym mis Rhagfyr 2018.

2.12 Yn ogystal, mae'r Nodiadau Cyngor Technegol newydd neu ddiwygiedig canlynol wedi'u cyhoeddi ynghyd a dileu rhai ohonynt ers i'r CDLl ar y Cyd gael ei fabwysiadu ym mis Gorffennaf 2017.

**Nodyn Cyngor Technegol (NCT 1): Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar y Cyd ar gyfer Tai (Ionawr 2015)**

2.13 Mae Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 1 wedi'i ddiddymu yn ei gyfanrwydd o ganlyniad i'r newid polisi yn PCC sydd bellach yn disgwyl i awdurdodau cynllunio ddefnyddio eu taflwybr tai fel sail ar gyfer monitro'r broses o gyflawni eu gofyniad tai.

**Nodyn Cyngor Technegol (NCT 8): Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy (Gorffennaf 2005)**

2.14 Yn dilyn cyhoeddiad o Gymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (2021) cafodd NCT 8 ei ddiddymu.

**Nodyn Cyngor Technegol (NCT 15) Datblygu, llifogydd ac erydu arfordirol**

2.15 Mi fydd fersiwn newydd o NCT 15 yn dod i rym 1 Rhagfyr 2021. Mae parthau llifogydd newydd yn cael ei amlinellu o fewn y ddogfen ag bydd parthau gwahanol ar gyfer risg llifogydd o afonydd, môr a dŵr wyneb. Mae'r NCT yn rhoi llawer mwy o bwyslais ar newid hinsawdd a sut i sicrhau fod y materion sydd yn gysylltiedig â hyn yn cael ei osgoi, cyfyngu neu liniaru. Mae'r ddogfen yn rhoi mwy o bwyslais ar y broses o baratoi Cynlluniau Datblygu a'r angen am asesiadau strategol o ganlyniadau llifogydd. Mi fydd mapiau cyngor datblygu yn cael ei disodli gyda map llifogydd Cymru newydd. Mi fydd rhaid rhoi ystyriaeth drwyadl i'r canllawiau sydd wedi cynnwys yn y fersiwn newydd wrth baratoi'r Cynllun Diwygiedig i sicrhau fod unrhyw newidiadau yn cyd-fynd a'r arweiniad sydd wedi cael ei osod o fewn NCT 15.

**Nodyn Cyngor Technegol (NCT 20): Cynllunio a'r Gymraeg (Hydref 2017)**

2.16 Mae NCT 20 yn darparu arweiniad wrth ystyried y Gymraeg fel rhan o'r broses o baratoi cynlluniau datblygu lleol. Mae NCT 20 yn cynnwys cyngor ar ymgorffori'r Gymraeg mewn cynlluniau datblygu trwy Asesiadau Cynaliadwyedd. Oni bai bod y datblygiad arfaethedig yn ddatblygiad annisgwyl mawr, ni ddisgwylir i geisiadau unigol gynnwys asesiad unigol gan y bydd materion a themâu allweddol wedi cael eu hystyried ar adeg paratoi'r cynllun. Mae'n cynnwys gweithdrefnau ar gyfer datblygiadau annisgwyl mawr mewn meysydd lle mae'r iaith yn arbennig o arwyddocaol, ac mae'n cynnwys arweiniad ar arwyddion a hysbysiadau.

2.17 Yn unol â'r fersiwn flaenorol o'r NCT hwn, rhoddwyd ystyriaeth i'r Gymraeg yn yr Asesiad Cynaliadwyedd parhaus o'r CDLl ar y Cyd. Yn wahanol i ddisgwyliadau NCT20 Hydref 2017, mae Polisi PS 1 y CDLl ar y Cyd yn gosod disgwyliad priodol ar geisiadau unigol sy'n cyrraedd trothwyon penodol i gynnwys asesiad unigol a'i gyflwyno fel Datganiad Iaith Gymraeg gyda'r cais cynllunio, yn ogystal â meini prawf ar gyfer cyflwyno asesiad effaith iaith. Cymeradwywyd hyn oherwydd yr angen i sicrhau bod y datblygiad arfaethedig yn unol â'r materion a'r themâu allweddol a ystyriwyd yn yr Asesiad Cynaliadwyedd ar adeg paratoi'r CDLl. Yn ogystal, mae'r dull hwn o weithio yn sicrhau bod effaith y datblygiad ar y Gymraeg yn cael ei hystyried, pan fydd yn berthnasol i'r cais cynllunio. Nid yw'r arweiniad yn cael unrhyw effaith uniongyrchol gyfredol ar y CDLl ar y Cyd gan fod Polisi PS1, sy'n seiliedig ar dystiolaeth bresennol, yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried wrth wneud penderfyniadau, pan fydd yn berthnasol i'r cais.

**Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 21: Gwastraff (Chwefror 2017)**

2.18 Mae NCT 21 wedi'i ddiwygio i adlewyrchu newidiadau i'r cyd-destun polisi gwastraff a nodir yn y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff diwygiedig (Cyfarwyddeb 2008/98 /EC ar wastraff) a pholisi Llywodraeth Cymru 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff' a'r Cynllun Sector Casglu, Seilwaith a Marchnadoedd (CIMS). Gwnaed y newidiadau hyn i ddiweddaru'r ffordd y mae'r broses gynllunio yn hwyluso cyflwyno seilwaith rheoli gwastraff cynaliadwy. Mae hefyd yn ystyried egwyddorion penodol sy'n ganolog i reoli gwastraff yn gynaliadwy, gan gynnwys yr hierarchaeth gwastraff, hunangynhaliaeth a'r cysyniad o'r sefydliad priodol agosaf.

**Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol (Hydref 2017)**

2.19 Mae NCT 24 yn darparu arweiniad ar sut mae'r system gynllunio yn ystyried yr amgylchedd hanesyddol wrth baratoi cynllun datblygu a gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio ac adeiladau rhestredig. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno Asesiadau Effaith ar Dreftadaeth, cyngor newydd ar Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig a chynnwys cyngor a gafwyd yn flaenorol mewn amrywiaeth o ddogfennau.

**Polisi System Draenio Drefol Cynaliadwy (SuDS)**

2.20 Mae Atodlen 3 o'r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn gwneud SuDS yn ofyniad gorfodol ar bob datblygiad newydd sy'n cynnwys mwy nag un annedd neu ardal adeiladu mwy na 100m. Ers y 7fed o Ionawr 2019, bu angen i bob datblygiad newydd o fwy nag 1 tŷ annedd neu lle mae'r ardal adeiladu yn 100 metr sgwâr neu fwy defnyddio SuDS ar gyfer gwaredu dŵr wyneb. Rhaid i'r SuDS gael eu dylunio a'i adeiladu yn unol â Safonau Statudol SuDS (a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru) a rhaid i gynlluniau SuDS gael eu cymeradwyo gan yr awdurdod lleol sy'n gweithredu yn ei rôl Corff Cymeradwyo SuDS (SAB), cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau.

**Ynni: Papur Gwyn Llywodraeth y DU (Rhagfyr 2020)**

2.21 Mae'r Papur Gwyn yn manylu ar sut y bydd ailwampio i drafnidiaeth, ynni a seilwaith yn darparu "pŵer sydd wedi'i ddatgarboneiddio'n aruthrol yn yr 2030au" ac ar y ffordd tuag at sero-net erbyn 2050. Mae'r Papur Gwyn yn ceisio dod â pholisi cysylltiedig ag ynni ar draws nifer o sectorau at ei gilydd (h.y. o ynni a'r amgylchedd adeiledig, i drafnidiaeth a'r sectorau diwydiannol). Yn ogystal, mae'n ystyried materion yn ymwneud â llywodraethu ac yn dechrau ystyried sut mae angen i systemau a marchnadoedd ynni addasu i gyflawni targed sero net 2050 y DU. Mae'r Papur yn atgyfnerthu ymrwymiad y Llywodraeth i ynni niwclear gan ei gwneud yn glir ei bod yn parhau i fod yn rhan allweddol o'r strategaeth ynni cenedlaethol. Bydd y papur (ac unrhyw fersiwn terfynol) yn ystyriaeth ar gyfer unrhyw gynllun gorsaf bŵer Wylfa Newydd yn y dyfodol.

**Adeiladu Lleoedd Gwell (Gorffennaf 2020)**



DRAFT

2.22 Mae'r ddogfen hon yn nodi blaenoriaethau polisi cynllunio Llywodraeth Cymru i gynorthwyo yn y cyfnod adfer ar ôl argyfwng pandemig Covid-19. Dylai'r system gynllunio fod yn ganolbwynt wrth ystyried materion amgylchedd naturiol adeiledig sydd wedi codi o'r pandemig. Mae'r ddogfen yn tynnu sylw at y polisïau a'r offerynnau cynllunio allweddol presennol y dylid eu defnyddio gan bob sector yn adferiad amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd Cymru, gan gydnabod yr angen parhaus i Gynllunwyr weithredu o fewn cyd-destun ehangach o flaenoriaethau a gweithredu ar bob graddfa.

**Polisi Adnoddau Naturiol (Awst 2017)**

2.23 Yn unol â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bolisi Adnoddau Naturiol (PAN) ym mis Awst 2017. Ffocws y PAN yw rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy, er mwyn cynyddu eu cyfraniad at gyflawni nodau'r Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r PAN yn nodi tair Blaenoriaeth Genedlaethol: Dod o hyd i atebion seiliedig ar natur; cynyddu ynni adnewyddadwy a dulliau o ddefnyddio adnoddau’n fwy effeithlon; a mabwysiadu dull sy’n seiliedig ar leoedd. Mae'r PAN hefyd yn gosod y cyd-destun ar gyfer Datganiadau Ardal (a fydd yn cael ei gynhyrchu gan Adnoddau Naturiol Cymru), gan sicrhau bod y blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn llywio'r dull o ddarparu lleol. Bydd rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol ystyried y datganiad ardal berthnasol wrth baratoi CDLl. Bydd goblygiadau'r PAN a'r Datganiad Ardal berthnasol yn cael eu hystyried wrth baratoi’r Cynllun Diwygiedig.

**Ffyniant i Bawb: Cymru Garbon Isel (Mawrth 2019)**

2.24 Mae'r ddogfen yn gosod allan dull Llywodraeth Cymru tuag at dorri allyriadau a chynyddu effeithlonrwydd mewn ffordd sy'n sicrhau'r buddion ehangach i Gymru, gan sicrhau cymdeithas decach ac iachach. Mae'n nodi polisïau a chynigion sydd â'r nod o leihau allyriadau a chefnogi twf yr economi carbon isel. Yn arbennig o bwysig mewn perthynas â chynllunio yw'r targedau a'r polisïau a gyflwynir yn y sectorau a ganlyn: pŵer; adeiladau; trafnidiaeth; diwydiant; defnydd tir, newid defnydd tir a choedwigaeth; amaethyddiaeth; a rheoli gwastraff. Bydd goblygiadau'r Cynllun yn cael ei hystyried wrth baratoi’r Cynllun Diwygiedig.

**Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (Tachwedd 2019)**

2.25 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun morol cyntaf Cymru ym mis Tachwedd 2019. Mae'n nodi polisi cenedlaethol ar gyfer yr 20 mlynedd nesaf ar gyfer defnyddio rhanbarthau cynllun morol Cymru a'r glannau a’r môr. Fe'i paratowyd a'i fabwysiadu o dan Ddeddf Mynediad Morol ac Arfordirol (MCAA) 2009. Dylai ymgeiswyr ddefnyddio’r Cynllun a deunydd ategol i lunio cynigion a thrwyddedu ceisiadau, a gan awdurdodau cyhoeddus ac eraill i lywio'r broses o wneud penderfyniadau ac i ddeall polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu cynaliadwy yn ardal y Cynllun.



DRAFT

**Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru (Hydref 2020)**

2.26 Mae’r Strategaeth yma yn disodli Strategaeth 2011. Fe'i paratoir o dan delerau Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Mae'r Strategaeth yn nodi sut bydd risgiau o lifogydd ac erydiad arfordirol ledled Cymru yn cael eu rheoli. Mae'n gosod amcanion a mesurau i'r holl bartneriaid weithio tuag atynt dros oes y Cynllun hwn, a fydd yn 10 mlynedd oni bai bod angen diweddariadau polisi sylweddol cyn yr amser hwnnw.

**Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (2021)**

2.27 Strategaeth drafnidiaeth newydd sy’n nodi gweledigaeth ar gyfer sicrhau bod y system drafnidiaeth yn gallu helpu i gyflawni blaenoriaethau ar gyfer Cymru, gan helpu rhoi ni ar y llwybr tuag at greu cymdeithas fwy ffyniannus, cyfartal a gwyrddach. Y weledigaeth yw creu system drafnidiaeth hygyrch, gynaliadwy ac effeithlon.

2.28 Dyma’r tair prif flaenoriaeth ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

- Blaenoriaeth 1: Dod â gwasanaethau i bobl er mwyn lleihau’r angen i deithio;
- Blaenoriaeth 2: Galluogi pobl a nwyddau i symud yn hawdd o ddrws i ddrws gan ddefnyddio gwasanaethau a seilwaith trafnidiaeth sy’n hygyrch, cynaliadwy ac effeithlon;
- Blaenoriaeth 3: Annog pobl i newid i drafnidiaeth fwy cynaliadwy.

2.29 Yn ogystal â phennu cyfeiriad strategol mae’n datblygu naw cynllun bach, gan esbonio sut y bydd cyflawni ar gyfer gwahanol ddulliau teithio a sectorau.

**Ardoll Seilwaith Cymunedol (CIL)**

2.30 Ym mis Tachwedd 2015, comisiynodd Llywodraeth San Steffan adolygiad cenedlaethol annibynnol o’r Ardoll Seilwaith Cymunedol (CIL) er mwyn:

*'Asesu i ba raddau mae CIL yn neu’n gallu darparu mecanwaith effeithiol ar gyfer ariannu seilwaith, ac i argymell newidiadau a fyddai'n gwella ffordd mae’n gweithio i gefnogi amcanion tai a thwf ehangach y Llywodraeth.’*

2.31 Edrychodd yr adolygiad ar faint o refeniw mae CIL yn creu, y mathau o ddatblygiad sy'n talu CIL, effeithiau ar hyfywedd, a sut mae’r cyfan cymunedol o CIL yn cael ei weithredu. Cyflwynodd y grŵp adolygu annibynnol ei adroddiad ym mis Hydref 2016 ac fe gafodd ei gyhoeddi ym mis Chwefror 2017. Enw’r adroddiad ydi “A New Approach to Developer Contributions to Ministers”. Roedd hwn yn argymell newidiadau i system Ardoll Seilwaith Cymunedol. Fel rhan o Ddeddf Cymru 2017, daeth CIL yn fater a ddatganolwyd gyda phwerau’n cael eu trosglwyddo i Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2018.

2.32 Yn hyn o beth, mae angen Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau i ganiatáu i Weinidogion Cymru addasu deddfwriaeth eilaidd bresennol. Ar ôl hynny, os fydd Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol i ailysgrifennu'r Rheoliadau CIL, yna mae'n bosibl bydd angen deddfwriaeth ychwanegol er mwyn caniatáu hynny ddigwydd. Fodd bynnag, hyd yma ni chadarnhawyd hyn.

2.33 O ystyried yr uchod, nid yw'n glir ar hyn o bryd sut fydd Llywodraeth Cymru yn dymuno delio efo CIL, ac yn benodol a ydynt am barhau gyda beth sydd yn y Rheoliadau CIL cyfredol, neu ydynt am ddatblygu gwelliannau penodol neu roi'r gorau iddo yn gyfan gwbl. Penderfynodd Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn ym Medi 2018 i ohirio ymgymryd â'r gwaith a fyddai'n angenrheidiol i roi CIL yn ei le yn ardal y Cynllun, hyd nes ceir dealltwriaeth glir am ddyfodol CIL yng Nghymru. Nodir hefyd yng nghyd-destun gwaith a wnaethpwyd yn rhanbarthol ar gyfer CIL bod tebygrwydd na fyddai'n hyfyw i'w weithredu yn ardal y Cynllun.

## Y cyd-destun rhanbarthol

### Cais Bargen Twf Gogledd Cymru

2.34 Ym mis Rhagfyr 2017 cyflwynodd Bwrdd Twf Gogledd Cymru (partneriaeth o Awdurdodau Lleol a phartneriaid ehangach e.e. Addysg Uwch, Addysg Bellach a Chyngor Busnes Gogledd Cymru Merswy Dyfrdwy) gais Bargen Twf i Lywodraethau Cymru a'r DU am arian prosiect £383m ar gyfer Gogledd Cymru.

2.35 Bydd y cynigion yn gatalydd ar gyfer buddsoddiad cyfan o £1.3 biliwn yn economi Gogledd Cymru, elw o £3.40 am bob punt gaiff ei wario. Disgwylir y gallai dros 5,000 o swyddi gael eu creu o'r buddsoddiadau posib o fewn y Fargen Twf yn y meysydd technoleg ac arloesi, safleoedd ar gyfer busnes, cysylltedd digidol, sgiliau, trafnidiaeth a chefnogaeth Busnes.

2.36 Mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi llwyddo i sicrhau ymrwymiad o £240m gan Lywodraethau Cymru a'r DU.

2.37 Llofnodwyd y cytundeb Fargen Twf yn Rhagfyr 2020. Bydd gwaith nawr yn dechrau ar y pum rhaglen sy'n ffurfio'r Fargen gwerth £1bn dan arweiniad Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

2.38 Mae'r CDLl ar y Cyd yn cynnwys darpariaeth yn ei bolisïau a'i gynigion ar gyfer datblygiad cynaliadwy, gyda'r economi yn rhan bwysig o'r strategaeth. Bydd yr ymrwymiad i'r Fargen Twf a goblygiadau dilynol, angen derbyn ystyriaeth lawn yn ystod y broses o ddiwygio'r Cynllun er sicrhau fod y cyfleoedd posib sydd yn deillio ohono yn cael ei uchafu.

### Datganiad Ardal Ogledd-orllewin Cymru - Cyfoeth Naturiol Cymru



DRAFT

2.39 Mae'r Datganiad yn un o gyfres o saith Datganiad Ardal sydd wedi eu paratoi ar gyfer Cymru gyfan er cynorthwyo i ddatrys amrediad o heriau cymhleth mae'r gymdeithas, a'r amgylchedd naturiol, nawr yn eu hwynebu.

2.40 Mae'r Datganiad Ardal yn amlinellu'r heriau allweddol sy'n wynebu'r ardal, yr hyn y gellir ei wneud i wynebu'r heriau hynny a sut gellir rheoli ein hadnoddau naturiol yn well er lles cenedlaethau'r dyfodol. Bydd y Datganiad Ardal yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd a'u gwella o un flwyddyn i'r llall wrth ymgysylltu â mwy o bobl, casglu tystiolaeth newydd, cyflwyno syniadau, a gweithio ar draws ffiniau i greu cyfleoedd.

2.41 Mae'r Datganiad Ardal, ynghyd a'r chwe datganiad arall yn ymateb cydweithredol i'r hyn a elwir yn Bolisi Adnoddau Naturiol, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2017, sy'n nodi'r prif heriau a chyfleoedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn modd cynaliadwy yn y dyfodol. Ystyrir fod cynnwys y Datganiadau Ardal yn ffynhonnell dystiolaeth bwysig wrth fynd ati i adolygu polisïau'r Cynllun.

## Y cyd-destun lleol

### Cynlluniau Llesiant Lleol

2.42 Dywed Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ei bod yn ofynnol i'r Cynghorau, fel cynrychiolwyr y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, baratoi Cynllun Llesiant. Ym mis Mai 2017 cyhoeddwyd Asesiad o Lesiant Lleol ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn. Wedi ystyried y data a barn pobl yn lleol, daeth y Bwrdd i gasgliad ar brif negeseuon yn yr asesiad. Mae yna 9 brif neges.

1. Yr angen i gynnal ysbryd cymunedol iach.
2. Pwysigrwydd gwarchod yr amgylchedd naturiol.
3. Deall effaith newidiadau demograffeg.
4. Gwarchod a hyrwyddo'r iaith Gymraeg.
5. Hybu defnydd adnoddau naturiol i wella iechyd a llesiant yn yr hir dymor.
6. Gwella cysylltiadau trafnidiaeth i alluogi mynediad at wasanaethau a chyfleusterau.
7. Yr angen am swyddi o safon uchel a chartrefi fforddiadwy i bobl leol.
8. Effaith tlodi ar lesiant.
9. Sicrhau cyfle i bob plentyn lwyddo.

2.43 Cafodd Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn ei gwblhau gan osod allan y 9 prif neges uchod. Mae'r cynllun yn nodi 2 amcan llesiant sef 'Cymunedau sy'n ffynnu ac yn llewyrchus i'r hir- dymor' a 'Thrigolion sy'n iach ac yn annibynnol gyda safon bywyd da'. Mae 6 blaenoriaeth wedi cael eu hadnabod er mwyn gwireddu'r ddau amcan llesiant. Caiff y Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn, gan gynnwys unrhyw gynllun gweithredu ei fonitro i sicrhau cysondeb o ran pwrpas a chynnwys gyda'r CDLl ar y Cyd. Yn y cyswllt hwn, bydd angen ystyried a thrafod y Nodau

DRAFT

Llesiant Cenedlaethol a Nodau Llesiant y Cyngor fel rhan o ddadansoddiad cysondeb gyda nodau'r CDLl.

**Cynllun Adfywio Economaidd Gogledd Ynys Môn (Ebrill 2019)**

2.44 Yn dilyn ansicrwydd economaidd yn gysylltiedig a Wylfa ynghyd a cyflogwyr mawr megis Rehau yn dirwyn i ben, fe luniwyd Cynllun Adfywio Gogledd Ynys Môn. Mae'r Cynllun Adfywio'n nodi gweledigaeth ar gyfer ardal Gogledd Ynys Môn ac yn nodi pum thema flaenoriaeth o ran buddsoddiad gan y Cyngor Sir, ei bartneriaid a gan Lywodraeth Cymru.Mae'r ddogfen yn nodi ystod eang o fesurau arfaethedig a allai fod o fudd i'r ardal yn y tymor byr, canolig a hirdymor. Mae'r Cynllun yn nodi:-

- Materion allweddol sy'n effeithio ar Ogledd Ynys Môn fel y nodwyd gan y gymuned;
- Gweledigaeth ar gyfer Gogledd Ynys Môn;
- Pum Thema Flaenoriaeth ar gyfer adfywio; ac
- Ystod o brosiectau adfywio a nodwyd yn lleol

**Cynllun Bioamrywiaeth Gorfforaethol 2021-2022 - Cyngor Sir Ynys Môn**

2.45 Mae'r Cynllun hwn wedi'i ddatblygu i sicrhau bod buddion amgylcheddol yn deillio o'r ffordd mae'r Cyngor Sir yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau wrth sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion adran 6 (a6) Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, sef cynnal a gwella bioamrywiaeth ac, wrth wneud hynny, hyrwyddo gwytnwch ecosystemau, wrth ymgymryd â'i weithgareddau dydd i ddydd.

2.46 Nod y Cynllun yw helpu i gynnal a gwella nodweddion Bioamrywiaeth unigryw Ynys Môn, gan nodi amcanion clir a chryno a fydd yn cael eu cyflawni gan y Cyngor rhwng 2021 a 2022.

2.47 Mae'r Cynllun yn dilyn canllawiau a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ac yn ystyried amcanion Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru (sy'n adnabod gweithredoedd gall eu gwaredu yn y tymor byr) gan osod trywydd i waredu ymrwymiadau tymor hir tu draw i 2020. Cyhoeddwyd y Datganiad Ardal ar gyfer Gogledd Orllewin Cymru gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn ddiweddar ac ystyriwyd y Datganiad Ardal hwnnw wrth baratoi'r Cynllun hwn.

**Strategaeth Tai Interim 2021 – Cyngor Sir Ynys Môn**

2.48 Cafodd y Strategaeth Tai Interim 2020-21 ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith 25/01/21. Mae'r Strategaeth yn disodli'r Strategaeth Dai blaenorol 2014-19 ac yn ymgeisio i ymateb i newidiadau mewn amgylchiadau. Mae'r Strategaeth Dros Dro hon yn fodd i bontio'r cyfnod i ddatblygu Strategaeth Dai, a fydd yn cynnwys gofynion y Grant Cymorth Tai a'r Strategaeth Ddigartrefedd gan Lywodraeth Cymru. Yn ogystal bydd yn rhoi gwybodaeth am sut mae Gwasanaethau Tai a phartneriaid yn ymateb i bandemig y coronafeirws ac yn parhau i ymateb iddo.

2.49 Mae'r Strategaeth Interim yn amlinellu 6 thema benodol, sef:

Thema 1 - Codi'r cartrefi priodol ar gyfer dyfodol Môn
Thema 2 - Gwneud y defnydd gorau o'r stoc tai presennol a gwella tai a chymunedau
Thema 3 - Atal argyfwng tai a chynyddu opsiynau tai
Thema 4 - Cefnogaeth i hyrwyddo annibyniaeth tai
Thema 5 - Cartrefi ar gyfer byw'n hirach
Thema 6 - Gwireddu'n llwyr y cysylltiadau rhwng tai a'r economi ehangach

**Strategaeth Tai Cyngor Gwynedd (2019)**

2.50 Mabwysiadwyd Strategaeth Tai Cyngor Gwynedd yng Ngorffennaf 2019. Gweledigaeth y Strwythur Tai yw:

"Sicrhau bod gan bobl Gwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy'n fforddiadwy ac sy'n gwella eu hansawdd bywyd."

2.51 Mae'r Strategaeth yn nodi pum amcan sydd angen ceisio eu cyfarch os yw'r Cyngor am gyflawni'r weledigaeth hon:

1. Neb yn ddigartref yng Ngwynedd
2. Tai cymdeithasol ar gael i bawb sydd angen un
3. Cartref pawb yng Ngwynedd yn fforddiadwy iddynt
4. Tai Gwynedd yn amgylcheddol gyfeillgar
5. Cartrefi yn cael dylanwad cadarnhaol ar iechyd a llesiant pobl Gwynedd.

**Asesiad Marchnad Tai Lleol 2018-23 Cyngor Gwynedd (2019)**

2.52 Cafodd Asesiad Marchnad Tai Lleol Cyngor Gwynedd ei gyhoeddi yn Mai 2019. Prif neges yr asesiad yw bod angen cyflenwad ychwanegol o dai fforddiadwy i gymunedau Gwynedd nag sydd ar gael ar hyn o bryd. Mae canfyddiadau allweddol eraill yn dangos y bydd galw cynyddol am dai fforddiadwy ar draws Gwynedd yn y sectorau perchenogaeth breifat, rent preifat a rhent cymdeithasol, na all y cyflenwad presennol eu bodloni. Mae'r AMTLl hefyd yn canfod:

- Mae tai gwerth canolrif a chwartel isaf yn anfforddiadwy i aelwydydd gydag incwm canolrif;
- Mae'r sector rhentu preifat wedi tyfu'n sylweddol yng Ngwynedd dros y degawd diwethaf;
- Mae lefelau rhent preifat yn anfforddiadwy i lawer o gartrefi incwm isel;
- Mae'r galw am dai cymdeithasol yn parhau'n uchel ar draws yr ardal;
- Nid yw'r galw am dai cymdeithasol gydag 1 ystafell wely yn cael ei fodloni gan y stoc Bresennol;
- Rhagwelir y bydd nifer aelwydydd yn cynyddu, a'u maint i ostwng dros y degawd nesaf;



DRAFT

- Gall eiddo gwag hirdymor a safleoedd datblygu wedi eu rhwystro gallu darparu cyflenwad ychwanegol ar gyfer y farchnad;
- Yn seiliedig ar ragamcanion poblogaeth, bydd 303 o aelwydydd newydd yn cael eu sefydlu bob blwyddyn yng Ngwynedd dros y 5 mlynedd nesaf;
- Mae angen 707 unedau tai cymdeithasol ychwanegol bob blwyddyn am 5 mlynedd i gwrdd â'r galw presennol a'r galw a ragwelir;
- Mae angen 104 tai canolraddol ychwanegol bob blwyddyn am 5 mlynedd i gwrdd â'r galw presennol a'r galw a ragwelir.

**Cynllun Gweithredu Tai Cyngor Gwynedd 2020/21 – 2026/27**

2.53 Cymeradwywyd y Cynllun Gweithredu ym mis Rhagfyr 2020. Pwrpas y Cynllun Gweithredu yw amlinellu sut bydd y Cyngor yn mynd ati i geisio cyfarch yr amcanion Strategaeth Tai Cyngor Gwynedd (2019) nawr a hyd at 2026/27.

2.54 Amlinellir dros 30 o gynlluniau ar draws y sir fydd yn galluogi'r Cyngor i:

- hwyluso dros 500 o dai fforddiadwy newydd i'w gwerthu neu osod i drigolion Gwynedd gan gynnwys adeiladu 100 o dai newydd;
- cynnig benthyciadau ar gyfer 250 o brynwyr tro cyntaf lleol;
- sicrhau dros 600 o dai cymdeithasol newydd i Wynedd yn cynnwys prynu 72 cyn-dŷ cymdeithasol er mwyn eu rhentu i bobl leol yn unol â pholisi gosod lleol newydd y Cyngor;
- ymestyn cynllun grantiau i ddod a 250 o dai gwag yn ôl i ddefnydd ar draws y sir;
- buddsoddi mewn cartrefi ecogyfeillgar fel y cynllun arloesol sydd ar waith ar hyn o bryd yn ardal Segontium, Caernarfon;
- datblygu 150 o unedau byw i bobl ddigartref yn y sir a chreu 130 o unedau newydd ar gyfer trigolion bregus.

2.55 Er mwyn gwireddu'r cynlluniau, bydd y Cyngor yn ail-fuddsoddi £22.9 miliwn o bremiwm treth Cyngor ar ail dai o hyn hyd 2026/27, ynghyd a defnyddio ffynonellau ariannol eraill gan gynnwys grantiau tai cymdeithasol a'r arian a ddyrannir drwy Gynllun Rheoli Asedau'r Cyngor.

**Safle Treftadaeth y Byd – Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru**

2.56 Arysgrifwyd Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru yn Safle Treftadaeth y Byd (STyB) UNESCO yng Ngorffennaf 2021. Y dirwedd yw'r 33ain safle o Safleoedd Treftadaeth y Byd UNESCO yn y DU, a'r pedwerydd yng Nghymru, gan ddilyn Traphont Ddŵr Pontcysyllte, Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon a Chestyll a Muriau Trefi Edward I yng Ngwynedd. Mae CCA drafft wedi ei baratoi gan Gyngor Gwynedd ar y Cyd efo Parc Cenedlaethol Eryri. Pwrpas

DRAFFT

y CCA ydi rhoi arweiniad pellach i'r rhai sydd yn gwneud penderfyniadau a datblygwyr ar y materion pwysig sydd angen ei ystyried y gysylltiedig efo'r STyB.

2.57 Bydd Cynllun Diwygiedig angen sicrhau fod cyfeiriadau priodol yn cael ei wneud i'r STyB ynghyd a sicrhau nad yw unrhyw ddynodiadau yn cyfaddawdu ar werth a rhinweddau'r dynodiad.

**Cynlluniau sydd ar y gweill**

2.58 Wrth ddiweddaru sail tystiolaeth yn gysylltiedig â pharatoi'r Cynllun Diwygiedig rhagwelir y bydd y cynlluniau canlynol yn cael ei weithredu neu wedi'i mabwysiadau ac felly bydd angen rhoi ystyriaeth i'r cynnwys:

- Cynlluniau Rheoli Cyrchfan Ynys Môn a Gwynedd
- Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd
- Fframwaith Adfywio Gwynedd fydd yn cynnwys Cynlluniau Adfywio Ardal

## Materion eraill sydd yn dylanwadu ac angen ystyriaeth

**Newid Hinsawdd**

2.59 Mae effeithiau pell gyrhaeddol newid hinsawdd a digwyddiadau tywydd eithafol eisoes yn amlwg ar draws ardal y Cynllun. Gyda'r disgwyl fod yr effeithiau yn mynd i waethygu a bod yn fwy eithafol dros y blynyddoedd mae'r Awdurdodau wedi ymrwymo i geisio ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd.

2.60 Yn Mawrth 2019 fe ddatganwyd Cyngor Gwynedd Argyfwng Newid Hinsawdd, gyda Chyngor Sir Ynys Môn hefyd yn datgan argyfwng newid hinsawdd yn Medi 2020. Golygai'r datganiadau fod y Cynghorau yn ymrwymo i geisio ymateb mewn modd positif i'r heriau sydd yn wynebu'r Cynghorau nawr ac yn y dyfodol, ac yn ymrwymo i baratoi Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd er mwyn cyrraedd amcanion penodol. Nod y Cynghorau yw sicrhau fod yr ardal yn parhau i fod yn gartref bywiog, hyfyw a chynaliadwy i'n plant ac i blant ein plant am genedlaethau i ddod.

2.61 Bydd yn hanfodol plethu'r amcanion a amlygir yn y Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd o fewn y Cynllun Diwygiedig er mwyn sicrhau fod y Cynllun yn hwylusydd i gyflawni'r amcanion hynny.

2.62 Mae Scottish Power yn cymryd rôl flaenllaw er mwyn ceisio cyflawni ymgyrch arloesol, Cymunedau Carbon Sero. Amcan yr ymgyrch ydi cynorthwyo cymunedau lleol i gyflawni'r nod o fod yn net sero. Mae Ynys Môn yn un o'r cymunedau gwledig sydd yn rhan o'r ymgyrch. Bydd angen rhoi ystyriaeth i'r ymgyrch yma wrth baratoi'r Cynllun Diwygiedig.

**Wylfa Newydd**

2.63 Yn ystod y broses o lunio'r Cynllun gwreiddiol roedd yna fwriad i ddatblygu safle niwclear newydd (Wylfa Newydd) ger safle presennol Wylfa ar ymyl arfordirol gogledd Ynys Môn, wedi i Lywodraeth y Deyrnas Unedig ddatgan ei fod yn un o'r opsiynau fel safle addas i gynhyrchu ynni niwclear. Oherwydd natur y bwriad fe fyddai wedi bod ym Mhrosiect Isadeiledd o Bwysigrwydd Cenedlaethol, a olygai'r angen i gyflwyno Cais Gorchymyn Datblygu (CGD) er mwyn derbyn hawl cynllunio.

2.64 Yn sgil yr angen i gynllunio ar gyfer prosiect isadeiledd mawr a ragwelwyd y byddai'n cael ei wireddu yn ystod oes y Cynllun, roedd yn ofynnol darparu fframwaith bolisi lleol a fyddai'n galluogi'r Awdurdod i ymateb i'r heriau a fyddai'n deillio o'r prosiect ynghyd a manteisio ar y cyfleoedd economaidd a chymdeithasol.

2.65 Ar yr 27ain Ionawr 2021 fe dynnwyd y CGD yn ôl gan Horizon Nuclear Power. Tynnwyd y cais yn ôl yn sgil diffyg buddsoddwr i'r prosiect ynghyd a'r diffyg polisi ariannu newydd gan y Llywodraeth.

2.66 Yn sgil y diffyg buddsoddiad/sicrwydd yn gysylltiedig â Wylfa Newydd, ystyrir y bydd hynny'n newid cyd-destunol arwyddocaol wrth baratoi'r Cynllun Diwygiedig ac fe allai cael effaith sylweddol ar strategaeth ac opsiynau twf y Cynllun o'i gymharu â'r Cynllun gwreiddiol.

2.67 Nodir ym Mholisi 24 - 'Gogledd-orllewin Cymru ac Ynni', Cymru'r Dyfodol fod y Llywodraeth yn cefnogi Gogledd-orllewin Cymru fel lleoliad ar gyfer datblygiadau ynni newydd a buddsoddiad. Cefnogir datblygiadau arfaethedig sy'n gysylltiedig â Rhaglen Ynys Ynni Môn a Wylfa Newydd mewn egwyddor, fel dull o greu buddiannau economaidd sylweddol i'r ardal yn ogystal â chynhyrchu ynni adnewyddadwy neu garbon isel.

**Y Grid Cenedlaethol**

2.68 Yn gysylltiedig â datblygiad Wylfa Newydd ar gyfer atomfa niwclear newydd fe gyflwynodd y Grid Cenedlaethol gais GCD ar 7 Medi, 2018. Roedd y cais hyn yn rhan o Brosiect Cysylltu Gogledd Cymru ar gyfer gosod cysylltiad trydanol 400kV o ddatblygiad arfaethedig Wylfa Newydd.

2.69 Oherwydd penderfyniad Hitachi i oedi gyda'r bwriad i ddatblygu'r Orsaf Bŵer Niwclear Newydd, ar 20 Chwefror, 2019 fe dynnwyd y Grid Cenedlaethol ei gais am GCD yn nôl yn ffurfiol. O ganlyniad, ni ystyriwyd y cais ymhellach gan yr Awdurdod Archwilio na'r Arolygaeth Cynllunio.

**Pandemig Covid**

2.70 Ar drothwy 2020, tarwyd y byd gan pandemig Covid-19. Yn sgil lledaeniad y firws a'r angen i warchod bywydau fe arweiniodd hyn at gyfyngiadau yn cael ei osod ar fywydau trigolion Cymru. Golygai'r cyfyngiadau hyn fod yna orchymyn i bobl fod yn aros adra a dim ond teithio ble fo wirioneddol angen (hynny yw, i weithio ble nad oedd bosib gweithio o adra ac i siopa am fwyd). Ers i'r cyfyngiadau llym ddod i rym yn Mawrth 2020, mae yna lacio o'r rheolau wedi bod dros gyfnod o amser a olygai fod rhai o weithgareddau bywyd arferol (cyn Covid) wedi gallu parhau. Mae'r pandemig yn parhau i effeithio ar bob rhan o'r byd a bydd ei sgil effeithiau yn llywio trafodaethau cyhoeddus a phenderfyniadau am flynyddoedd i ddod.

2.71 Yn sgil y pandemig mae'r gallu i bobl fod yn gweithio o adra wedi dod i'r amlwg, mae yna fwy o alw wedi bod i bobl fod yn treulio ei gwyliau yng Nghymru (oherwydd cyfyngiadau teithio) ac mae yna fwy o alw cyffredinol am ofod tu allan i bobl allu fwynhau, boed hynny'n ofod ar y stryd neu yn ofod o amgylch ei gartref sydd yn caniatáu i bobl allu cymdeithasu yn yr awyr agored yn ddiogel. Mae pwysigrwydd ansawdd a hygyrchedd ein hardaloedd lleol i iechyd a llesiant pobl wedi ei hamlygu hyd yn oed fwyfwy yn ystod cyfnodau gwaethaf y pandemig.

2.72 Mae'r pandemig yn debygol o effeithio ar agweddau o fywydau pawb am flynyddoedd i ddod ac yn debygol o fod yn arwain at alw ar gyfer newid yn y ffordd yr ydym yn byw a gweithio. Bydd ystyried effaith y pandemig a chynllunio ar gyfer y dyfodol yn rhan hanfodol o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig.

2.73 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru dogfen 'Ail-greu ar ôl COVID-19: Yr Heriau a'r Blaenoriaethau' sy'n nodi'r materion y mae rhaid ymateb iddynt yn sgil y pandemig. Mae gan y dull o ymateb i'r heriau hyn oblygiadau i'r system gynllunio wrth i bobl ddefnyddio lleoedd yn wahanol, teithio llai a threulio mwy o amser yn gweithio o gartref. Rhaid i'r system gynllunio ymateb i'r newidiadau nawr ac yn y dyfodol a chyfrannu at adferiad cynaliadwy.

**Brexit (Porthladd)**

2.74 Er bod yr effeithiau tymor byr yn gysylltiedig â Brexit yn wybyddus, prin mewn gwirionedd yw'r wybodaeth/data gwaelodlin ynglŷn â'r effeithiau hirdymor.

2.75 Fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig mae'n debyg y byddai'n fuddiol cynnal gwaith ymchwil manwl er mwyn edrych ar effeithiau Brexit ar yr economi leol.

2.76 Un o effeithiau amlwg Brexit yn y tymor byw yw'r effaith ar Borthladd Gaergybi. Yn sgil y ffaith fod y Deyrnas Unedig wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd heb gytundeb mae'n ofynnol cynnal archwiliadau ychwanegol ar nwyddau a fydd yn teithio allan o'r DU cyn iddynt gael mynd i mewn i'r UE. Golygai hynny'r angen i gynnal archwiliadau ychwanegol ar nwyddau trwm sydd yn cael ei drosglwyddo o Gaergybi i Ddulyn. Mae'n debygol y bydd y weithdrefn hon yn arwain

DRAFT

at oedi, sy’n golygu bod angen cynlluniau yn eu lle i fynd i’r afael â’r cerbydau nwyddau trwm a fydd yn aros eu tro i deithio i Iwerddon.

2.77 Mae Porthladd Caergybi yn cael ei gydnabod fel Porth Strategol sydd yn hwyluso cysylltedd rhyngwladol ym mholisi 10 o Gymru’r Dyfodol ac mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i weithio *gyda gweithredwyr, y buddsoddwyr a’r awdurdodau lleol er mwyn cefnogi Pyrth Strategol a chynnal eu rolau cysylltedd rhyngwladol ei rôl yn cael ei adnabod.* Yn unol â Chymru’r Dyfodol er mwyn uchafu’r budd mwyaf yn lleol, i'r rhanbarth ac i Gymru, mi fydd rhaid i'r Cynllun Diwygiedig sicrhau ei fod yn cefnogi Porthladd Caergybi.

**Ffosffad**

2.78 Mae ardal y CDLl ar y Cyd yn cael ei nodweddu gan ei rhinweddau amgylcheddol cyfoethog ac mae'n gartref i nifer o ardaloedd a nodweddion sydd wedi'u dynodi oherwydd eu pwysigrwydd amgylcheddol, gan gynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) Afon Gwyrfai ac Afon Glaslyn.

2.79 Yn dilyn tystiolaeth newydd am effeithiau amgylcheddol ffosffad mewn cyrsiau dŵr mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi asesu'r 9 ACA afonol yng Nghymru. Roedd yr asesiad hwn a oedd yn seiliedig ar dargedau tynnach ar gyfer ansawdd dŵr cyrsiau dŵr yn dangos bod ymlediad ffosfforws yn gyffredin yn afonydd ACA Cymru gyda dros 60% o'r cyrff dŵr yn methu'r targedau heriol.

2.80 O ganlyniad i'r methiant hwn, mae CNC wedi cyhoeddi 'cyngor cynllunio i sicrhau nad yw'r capasiti amgylcheddol yn dirywio ymhellach. Mae'r 'cyngor' hwn yn ymwneud â phob ACA Afonol y mae ei dalgylch yn ymestyn iddo yn ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd gan gynnwys Afon Glaslyn ac Afon Gwyrfai.

2.81 Bydd ystyried goblygiadau'r arweiniad a dderbynnir gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn rhan hanfodol wrth lunio’r polisïau yn y Cynllun Diwygiedig ynghyd ac ystyried goblygiadau'r arweiniad ar y dynodiadau arfaethedig o fewn y Cynllun.

**Bioamrywiaeth**

2.82 Mae bioamrywiaeth yn sail i'n bywydau a'n bywoliaeth ac mae'n cefnogi’r ffordd y mae ecosystemau'n gweithio a'u cydnerthedd mewn cefnforoedd, gwlypdiroedd, llynnoedd, afonydd, mynyddoedd, coedwigoedd a thirweddau amaethyddol. Mae ein heconomi, ein hiechyd a'n llesiant yn dibynnu ar ecosystemau iach a chydnerth, sy'n rhoi ein bwyd inni, dŵr ac aer glân, y deunyddiau crai a'r ynni ar gyfer ein diwydiannau ac mae’r ecosystemau hyn yn ein diogelu rhag peryglon, megis llifogydd a newid yn yr hinsawdd.

2.83 Mae pwysau amgylcheddol yn achosi dirywiad byd-eang mewn bioamrywiaeth ar gyfraddau na welwyd yn flaenorol mewn hanes dynol ac mae cyfradd y rhywogaethau sy'n diflannu yn

cyflymu. Yn dilyn y chwyldro diwydiannol, mae'r DU wedi dod yn un o'r gwledydd sydd a'r cyfraddau uchaf o leihad natur ar draws y byd.

2.84 O fewn y Cynllun Diwygiedig, bydd angen rhoi ystyriaeth briodol i wella gwytnwch ein hecosystemau a'r budd y maent yn ei ddarparu. Mae'r Cynllun Cenedlaethol yn ceisio pwysleisio'r angen i'r system gynllunio sicrhau bod bywyd gwyllt yn gallu ffynnu mewn cynefinoedd iach ac amrywiol, mewn ardaloedd trefol a gwledig, gan gydnabod a gwerthfawrogi'r manteision lluosog i bobl a natur.

2.85 Mae gwella bioamrywiaeth, gwytnwch ecosystemau a darparu seilwaith gwyrdd yn un o nodau allweddol y Cynllun Cenedlaethol, gyda chyflwyno Coedwig Genedlaethol Cymru a chreu mwy o orchudd coetiroedd yn ffordd o sicrhau ecosystem gydnerth.

**Rhagamcanion aelwydydd a phoblogaeth**

2.86 Wrth gyfeirio tuag at Gofyniad Tai o fewn Cynllun Datblygu mae paragraff 4.2.6 o Bolisi Cynllunio Cymru yn datgan:

*"Bydd yr Amcanestyniadau Aelwydydd lefel awdurdod lleol diweddaraf i Gymru gan Lywodraeth Cymru, ochr yn ochr â'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (AFDLl) diweddaraf, a'r Cynllun Llesiant ar gyfer ardal y cynllun, yn rhan sylfaenol o'r sylfaen tystiolaeth ar gyfer y cynlluniau datblygu. Dylid ystyried y rhain ynghyd â thystiolaeth allweddol arall mewn perthynas â materion fel beth mae'r cynllun yn ceisio ei gyflawni, cysylltiadau rhwng tai a swyddi, yr angen am dai fforddiadwy, ystyriaethau'r Gymraeg, ac ymarferoldeb y cynllun er mwyn nodi strategaeth briodol ar gyfer darparu tai yn ardal y cynllun. Rhaid rhoi ystyriaeth briodol hefyd i'r ffactorau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ehangach mewn cynllun datblygu er mwyn sicrhau y caiff lleoedd cynaliadwy a chymunedau cydlynus eu creu."*

2.87 Yn bellach rhaid cofio fod amcanestyniadau aelwydydd yn amcangyfrif nifer yr aelwydydd yn y dyfodol ac maent yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth a rhagdybiaethau yn ymwneud ag aelodau a nodweddion aelwydydd. Bydd angen i awdurdodau cynllunio asesu a yw elfennau gwahanol yr amcanestyniadau yn briodol i'w hardal, ac os nad ydynt, dylent wneud gwaith modelu, ar sail tystiolaeth gadarn, i nodi dewisiadau amgen.

2.88 Ers mabwysiadu'r Cynllun mae Llywodraeth Cymru wedi rhyddhau amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd ar gyfer 2014 (a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2017) ac ar gyfer 2018 (a gyhoeddwyd ym mis Awst 2020). Mae'r newidiadau allweddol i Wynedd ac Ynys Môn fel a ganlyn:

<u>Amcanestyniadau Sail-2014</u>

- Mae amcanestyniadau poblogaeth 2014 yn dangos y bydd lefelau poblogaeth Gwynedd yn cynyddu o 124,835 i 131,416 rhwng 2021 a 2036, mae hyn yn gynnydd o

5.3%.  Ar gyfer Ynys Môn ceir gostyngiad yn y boblogaeth o 70,162 i 68,803 rhwng 2021 a 2036, mae hyn  yn lleihad o 1.9%.

- Mae amcanestyniadau aelwydydd 2014 yn dangos cynnydd yng Ngwynedd o 55,078 i 58,831 rhwng 2021 a 2036 sef cynnydd o 6.8%.  Ar gyfer Ynys Môn ceir cynnydd o 31,376 i 31,456, sef cynnydd o 0.2%.

<u>Amcanestyniadau sail-2018</u>

- Mae amcanestyniadau poblogaeth 2018 yn dangos y bydd lefelau poblogaeth Gwynedd yn cynyddu o 124,936 i 130,219 rhwng 2021 a 2036, mae hyn yn gynnydd o 4.2%.  Ar gyfer Ynys Môn ceir gostyngiad yn y boblogaeth o 69,879 i 69,468 rhwng 2021 a 2036, mae hyn  yn lleihad o 0.6%.
- Mae amcanestyniadau aelwydydd 2018 yn dangos cynnydd yng Ngwynedd o 55,006 i 58,340 rhwng 2021 a 2036 sef cynnydd o 6.1%.  Ar gyfer Ynys Môn ceir cynnydd o 31,314 i 31,856 sef cynnydd o 1.7%.

2.89 Roedd Hoff Strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (Mai 2013) yn rhoi ystyriaeth i rhagamcanion sail-2008 Llywodraeth Cymru (yn ogystal â senarios twf eraill).  Wrth symud ymlaen i'r Cynllun Adnau (2015) roedd rhagamcanion sail-2011 Llywodraeth Cymru ar gael. Roedd canfyddiadau'r amcanestyniadau sail-2011 i Wynedd ac Ynys Môn fel a ganlyn:

<u>Amcanestyniadau sail-2011</u>

- Mae amcanestyniadau poblogaeth 2011 yn dangos y bydd lefelau poblogaeth Gwynedd yn cynyddu o 121,523 i 127,557 rhwng 2011 a 2026 mae hyn yn gynnydd o 5%.  Ar gyfer Ynys Môn ceir gostyngiad yn y boblogaeth o 69,913 i 69,877 rhwng 2011 a 2026 mae hyn yn lleihad o 0.1%.
- Mae amcanestyniadau aelwydydd 2011 yn dangos cynnydd yng Ngwynedd o 52,411 i 56,711 rhwng 2011 a 2026 sef cynnydd o 8.2%.  Ar gyfer Ynys Môn ceir cynnydd o 30,655 i 31,541 sef cynnydd o 2.9%.

2.90 Dylid nodi fod newidiadau sail-2011 ar gyfer y cyfnod 2011 i 2026 tra bod ffigyrau diweddaraf sail-2014 a sail-2018, a amlygir uchod, ar gyfer y cyfnod 2021 i 2036.  Yn ogystal mae'r ffigyrau uchod ar gyfer Gwynedd gyfan, bydd rhaid ystyried effaith y rhan o boblogaeth ac aelwydydd Gwynedd sydd yn disgyn o fewn y Parc Cenedlaethol ac felly ddim yn rhan o Ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd.

2.91 Yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru fe fydd amcanestyniadau Llywodraeth Cymru yn ffynhonnell bwysig o dystiolaeth wrth ystyried lefel twf dros gyfnod y Cynllun Diwygiedig.

**Ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr**

2.92 Yn sgil y cynnydd yn y galw a'r ddarpariaeth o lety gwyliau ar draws ardal y Cynllun ac ar draul hynny'r effaith mae'n ei gael ar y farchnad dai, mae'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd wedi arwain ar ddarn o waith yn ymwneud a 'Rheoli'r defnydd o Dai fel Cartrefi Gwyliau'.  Nod



DRAFT

y papur ymchwil oedd ystyried opsiynau posib ar gyfer rheoli'r defnydd a wneir o dai fel llety gwyliau. Cyflwynwyd y gwaith hwn i sylw'r Llywodraeth gan erfyn arnynt i'w hystyried a gweithredu ar rhai o'r argymhellion oedd yn deillio o'r gwaith. Yn dilyn cyflwyno'r gwaith hynny mae yna waith pellach ar y pwnc wedi cael ei baratoi ar ran y Llywodraeth, gydag addewid fod y Llywodraeth yn mynd i roi ystyriaeth bellach i fecanwaith rheoli uchelgeisiol tair elfen y gellir ei weithredu yn y dyfodol.

2.93 Bydd y dull tair elfen yn canolbwyntio ar y canlynol:

1. Cefnogaeth – rhoi sylw i fforddiadwyedd ac argaeledd tai
2. Fframwaith a system rheoleiddio – edrych ar y gyfraith gynllunio a chyflwyno cynllun cofrestru statudol ar gyfer llety gwyliau
3. Cyfraniad tecach - defnyddio systemau treth leol a chenedlaethol i sicrhau bod perchnogion ail gartrefi yn gwneud cyfraniad teg ac effeithiol i'r cymunedau lle maen nhw'n prynu.

2.94 Bydd angen sicrhau fod unrhyw ddatblygiadau yn y maes hwn yn derbyn ystyriaeth yn ystod y broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig a bod ystyriaeth yn cael ei roddi i sut allai unrhyw fecanwaith rheoli sydd mewn grym neu a fwriedir ei weithredu yn gallu dylanwadu ar y polisïau a gynhwysir o fewn y Cynllun Diwygiedig.

## Canfyddiadau'r Adroddiadau Monitro Blynyddol

2.95 Yn y cyfnod ers mabwysiadu'r Cynllun gwreiddiol, mae yna dri Adroddiad Monitro Blynyddol wedi cael ei gyhoeddi a'i chyflwyno i'r Llywodraeth. Adroddiadau Monitro Blynyddol yw'r prif fecanwaith er mwyn asesu'r gwaith o gyflawni a gweithredu ar strategaeth y Cynllun. Mae casgliadau'r Adroddiadau Monitro Blynyddol yn nodi perfformiad y Cynllun yn unol â chyfres o ddangosyddion penodol sydd wedi cynnwys yn y fframwaith fonitro. Ymhellach fe amlygir unrhyw lwyddiannau, heriau a methiannau.

2.96 Ar y cyfan mae canlyniadau'r tri AMBau yn nodi, fod polisïau'r Cynllun yn perfformio'n effeithiol. Fodd bynnag amlygir fod yna newidiadau cyd-destunol arwyddocaol, megis cyhoeddi Cymru'r Dyfodol, y pandemig byd eang, Brexit a thynnu CGD Wylfa Newydd yn nôl, wedi digwydd ers mabwysiadu'r Cynllun a chan hynny cydnabyddir fod angen ymateb i oblygiadau'r materion hyn fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig. Er y newidiadau cyd-destunol, fe ystyrir fod polisïau'r CDLl ar y Cyd yn parhau'n berthnasol ac yn darparu fframwaith gynllunio gadarn ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio ar draws ardal y Cynllun. Mae rhai o'r prif gasgliadau sydd yn deillio o'r Adroddiadau Monitro Blynyddol fel a chanlyn:-

<u>Perfformiad cyffredinol y Cynllun</u>

- Nid oes unrhyw bolisïau wedi'u nodi fel rhai sy'n methu â chyflawni amcanion y cynllun;
- Mae rhai o'r dangosyddion adroddir arnynt yn ymwneud a phenderfyniadau a wnaed cyn mabwysiadu'r Cynllun;
- Ers mabwysiadu, mae'r Cynghorau wedi mabwysiadu 9 Canllaw Cynllunio Atodol;
- Ar y cyfan mae penderfyniadau apeliadau sydd wedi ei gwneud ers mabwysiadu'r Cynllun wedi cefnogi polisïau a strategaeth y Cynllun. Nid yw penderfyniadau apeliadau yn tanseilio polisïau CDLl ar y Cyd.

Materion Tai

- Rhoddwyd caniatâd ar gyfer 1325 o unedau preswyl newydd (gan gynnwys ceisiadau i ailystyried neu ymestyn y dyddiad y daw'r caniatadau presennol i ben) ers mabwysiadu'r Cynllun. Roedd 511 uned (38.6%) ar gyfer tai fforddiadwy;
- Mae 476 o unedau tai fforddiadwy wedi'u cwblhau ers mabwysiadu'r Cynllun;
- Roedd y banc tir ar gyfer tai (safleoedd â chaniatâd presennol) yn 2021 yng Ngwynedd ac Ynys Môn gan eithrio unedau mae'r CDLl wedi nodi sydd yn annhebygol o gael eu datblygu yn ystod oes y Cynllun yn 1,994 o unedau (1,451 heb ddechrau a 543 yn cael eu hadeiladu) ac roedd 512 ohonynt ar gyfer unedau fforddiadwy (397 o unedau heb ddechrau a 115 uned wrthi yn cael eu hadeiladu);
- Nodir bod 3924 o unedau wedi'u cwblhau yn ardal y Cynllun rhwng y dyddiad cychwyn 2011 a 2021, tra bod y taflwybr yn y Cynllun yn nodi ffigwr o 4475 o unedau hyd at y cyfnod hwn. Felly, mae hyn 12.3% (551 uned) yn is na'r ffigwr yn y taflwybr. Mae rhan o'r diffyg hwn yn deillio o'r oedi wrth weithredu prosiectau seilwaith mawr yn ardal y Cynllun. Mae taflwybr diwygiedig wedi ei baratoi ar gyfer gweddill cyfnod y Cynllun ar sail gwybodaeth hyd at ddiwedd cyfnod AMB 3 ynghyd a mewnbwn gan Grŵp Rhanddeiliaid Tai;
- Ers mabwysiadu'r Cynllun mae caniatâd wedi ei roddi ar gyfer 5 tŷ marchnad leol, sef yr unig enghraifft yng Nghymru o weithrediad Polisi Tai Marchnad Leol;
- Mae 47% o'r unedau tai[1] a ganiatawyd ers mabwysiadu'r Cynllun o fewn y Ganolfan Isranbarthol a'r Canolfannau Gwasanaeth Trefol. Mae 23% o'r unedau wedi'u caniatáu o fewn y Canolfannau Gwasanaeth Lleol gyda 30% pellach wedi'u caniatáu mewn Pentrefi, Clystyrau ac yng Nghefn Gwlad Agored;
- Yn y cyfnod ers mabwysiadu'r Cynllun, mae 34.3% o'r unedau tai a gwblhawyd yn ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd wedi'u lleoli ar safleoedd sydd wedi'u clustnodi ar gyfer tai;
- Dwysedd cyfartalog y caniatadau tai Newydd yn ardal y Cynllun (ers mabwysiadu'r Cynllun) yw 29.5 o unedau fesul hectar;
- Allan o'r unedau gafodd ganiatâd a'u cwblhau ers mabwysiadu'r Cynllun mae'r canran o dai fforddiadwy ychydig yn is na 50%.

Materion Eraill

[1] Caniatâd newydd am dai neu ganiatâd i ailasesu ac ymestyn y dyddiad pan fo caniatâd blaenorol yn dod i ben

- Mae 3 Asesiad ieithyddol wedi cael ei gyflwyno ynghyd a 81 datganiad ieithyddol. Ers mabwysiadu'r Cynllun nid oes unrhyw gais sydd yn groes i bolisi PS 1 wedi cael ei ganiatáu;
- Un o amcanion strategol y CDLl ar y Cyd yw hwyluso amrywiaeth yn yr economi wledig, mae'r amcan hynny wedi bod yn llwyddiannus, gyda caniatadau wedi cael ei roi ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddiau cyflogaeth;
- Rhoddwyd Caniatâd Cynllunio i gynlluniau adnewyddadwy sydd â'r potensial i gyfrannu cyfanswm o 52.4 GWh o fewn ardal y CDLl ar y Cyd.

DRAFFT

## 3.0 Adolygiad o'r CDLl a'r newidiadau posib

### Gweledigaeth ac amcanion strategol

3.1 Pan luniwyd y weledigaeth ar gyfer y Cynllun gwreiddiol, ystyriwyd ei fod yn cyfleu'r math o le y mae ardal y Cynllun yn ceisio'i fod. Ynghyd a'r amcanion strategol fe osodir y cyd-destun cyffredinol i'r Cynllun ac mae'n dangos sut mae modd cydbwyso ystyriaethau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol i hwyluso datblygiadau cynaliadwy. Nodir gweledigaeth y Cynllun fel a chanlyn:-

***"Erbyn 2026, bydd Ynys Môn a Gwynedd yn cael eu cydnabod am eu cymunedau ffyniannus llawn bywyd sy'n dathlu eu diwylliant, treftadaeth a'u hamgylchedd unigryw ac yn rhywle y bydd pobl yn dewis byw, gweld ac ymweld."***

3.2 Cafodd y weledigaeth a'r amcanion strategol y Cynllun eu llunio gan roddi ystyriaeth i bolisïau, cynlluniau a rhaglenni cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ynghyd a'r sail dystiolaeth a baratowyd wrth lunio'r Cynllun.

3.3 Yn ogystal â chael gweledigaeth, bu hefyd yr angen i ddatblygu nifer o amcanion sydd yn rhestru camau yr oedd angen eu cymryd er mwyn gwireddu'r weledigaeth honno. Mae'r amcanion gofodol strategol yn diffinio'r hyn a ddymunir ei gyflawni. Maent yn dangos sut y gallai datblygiadau'r dyfodol ein helpu i wireddu'r weledigaeth ofodol a mynd i'r afael â'r prif ystyriaethau. Maent yn ymateb i elfennau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y weledigaeth ac wedi llywio datblygiad polisïau strategol a manwl yn y Cynllun.

3.4 Bydd angen ail-ymweld a'r weledigaeth a'r amcanion fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig gan sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol ac yn gyfredol ac yn ymateb i'r heriau a chyfleoedd ardal y Cynllun.

### Strategaeth

3.5 Yn gyffredinol mae Strategaeth y Cynllun yn ymateb i'r angen a dystiolaethir i wneud darpariaeth ar gyfer cartrefi a swyddi newydd yn ogystal â gwarchod cymeriad cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol unigryw'r ardal. Mae'n darparu ar gyfer defnyddiau tir sydd eu hangen am gyfnod penodol o amser, gan hwyluso defnyddiau etifeddiaeth amgen sy'n cydymffurfio â pholisi yn y tymor hir. Gosodir lefel o dwf yr ystyrir sy'n cynrychioli'r dull mwyaf cadarn, cytbwys a phriodol, o ystyried yr holl ffactorau perthnasol, yn cynnwys gwaith a wnaed gan ragolygon tai ac economaidd annibynnol.

3.6 Mae gan ardal y Cynllun batrwm anheddu gwasgaredig o drefi, pentrefi a grwpiau eraill o adeiladau, a lefelau uchel o ddefnydd o geir preifat, felly mae'r angen i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a charbon yn heriol. Cyfeiria'r dystiolaeth at bum categori bras o aneddleoedd o fewn ardal y Cynllun, fel yr adlewyrchir hwy yn elfen ofodol Gweledigaeth y Cynllun. Y rhain yw;

i. Canolfan Isranbarthol
ii. Canolfannau Gwasanaeth Trefol
iii. Canolfannau Gwasanaeth Lleol
iv. Pentrefi
v. Clystyrau

3.7 Er mwyn ymateb i gyfleoedd a heriau'r ardal ac i gyflawni Gweledigaeth ac Amcanion cyffredinol y Cynllun, mabwysiadwyd y strategaeth ofodol uchod ar gyfer dosbarthu datblygiad ar draws ardal y Cynllun. Mae'n sicrhau bod datblygiad yn cael ei gyfeirio at leoliadau sy'n gynaliadwy o ran eu maint, swyddogaeth, cymeriad, cyfleusterau, cysylltiadau trafnidiaeth, cynhwysedd cymdeithasol ac amgylcheddol. Cefnoga'r defnydd o bolisïau sy'n annog y lefel datblygiad mwyaf priodol i bob anheddle.

3.8 Mae yna bwyslais a dyletswydd i sicrhau fod strategaeth ofodol y Cynllun yn cyflawni amcanion datblygu cynaliadwy. Wrth ymgymryd â'r Cynllun Diwygiedig bydd yn hanfodol sicrhau fod y strategaeth dwf yn darparu ar gyfer anghenion yr ardal, wrth gyflawni'r nod o hyrwyddo datblygiadau yn y lleoliadau mwyaf cynaliadwy o ran gwasanaethau a chysylltiadau trafnidiaeth amgen a gwarchod gwerthoedd diwylliannol cymunedau Cymreig yr ardal.

**Polisïau'r Cynllun**

**Adran 6.1 - Rheoli Twf a Datblygu – Cymunedau Diogel, Iach, Nodedig a Bywiog**

<u>Yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig</u>

3.9 Mae Polisi PS 1 (Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig) yn rhoi arweiniad ar yr angen i geisiadau cynllunio yn yr ardal fod yn rhoddi ystyriaeth tuag at hyrwyddo a chefnogi'r iaith Gymraeg.

3.10 Mae PCC (2021) yn datgan fod rhaid i awdurdodau cynllunio ystyried effeithiau tebygol ei cynlluniau datblygu ar y defnydd o'r Gymraeg fel rhan o'r Arfarniad Cynaliadwyedd. Ym mhellach mae'n amlygu ni ddylai polisïau a phenderfyniadau gyflwyno unrhyw elfen o wahaniaethu rhwng unigolion yn seiliedig ar eu gallu ieithyddol, ac ni ddylent geisio rheoli deiliadaeth tai ar sail ieithyddol. Mae paragraff 3.29 yn datgan gellir cynnal asesiadau o'r effaith ar yr iaith mewn perthynas â datblygiadau mawr na ddynodwyd mewn cynllun datblygu sy'n cael ei gynnig mewn ardaloedd o sensitifrwydd neu bwysigrwydd arbennig i'r iaith.

3.11 Mae'r Cynllun yn cydnabod fod yr iaith Gymraeg yn rhan o wead cymdeithasol a diwylliannol holl ardal y Cynllun. Lle mae bwriad i ddatblygu, rhaid ystyried gwella a diogelu'r iaith a diwylliant ac mae cynnal cymunedau presennol yn allweddol i hyn. Cafodd Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg a oedd yn hysbysu'r Arfarniad Cynaliadwyedd ei baratoi ar gyfer y Cynllun. Roedd yr asesiad ieithyddol yma yn ystyried addasrwydd y cyflenwad tai dangosol i Ganolfannau a Phentrefi unigol. Mae polisi PS 1 yn golygu y gellir gofyn am Ddatganiad pan

fydd datblygiad yn unigol neu'n gronnol yn darparu mwy na'r ddarpariaeth tai dangosol i'r anheddle. Bydd angen i'r adolygiad ail-edrych ar y Strategaeth a/neu ddosbarthiad twf tai o fewn y Cynllun, ac yn sgil hyn bydd hefyd angen adolygu addasrwydd a ffurf bresennol polisi PS 1.

3.12 Mabwysiadwyd Canllaw Cynllunio Atodol: 'Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy' sydd yn rhoi methodoleg benodol ar baratoi asesiad a datganiad ieithyddol. Mae'r AMBau yn monitro sawl Datganiad ac Asesiad ieithyddol sydd wedi cael ei gyflwyno ers mabwysiadu'r Cynllun. Yn y cyfnod yma mae yna 3 Asesiad ieithyddol wedi cael ei gyflwyno ynghyd a 81 datganiad ieithyddol. Mae'r AMBau yn adrodd ar ganiatadau cynllunio lle mae angen mesurau lliniaru iaith Gymraeg efo lefel sbardun pan ganiateir un cais yn groes i Bolisi PS 1. Hyd yma nid oes unrhyw gais sydd yn groes i bolisi PS 1 wedi cael ei ganiatáu. Bydd unrhyw newidiadau i Bolisi PS1 yn sgil ei adolygu hefyd yn golygu'r angen i adolygu'r CCA .

DRAFT

Isadeiledd a Chyfraniadau Datblygwyr

3.13 Nod Polisi Strategol PS 2 (Cyfraniadau Seilwaith a Datblygwyr) yw sicrhau bod digon o seilwaith hanfodol naill ai eisoes ar gael neu'n cael ei ddarparu mewn modd amserol. Cefnogir y polisi cyffredinol hwn gan bolisïau manylach sy'n ymwneud â darparu seilwaith.

3.14 Mae'r polisïau sy'n ymwneud â chyfraniadau seilwaith a datblygwyr yn y CDLl ar y Cyd yn gyson ar y cyfan â'r rhifyn diweddaraf o Bolisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11, 2021). Ystyrir bod y polisïau presennol yn y Cynllun yn adlewyrchu'r gofynion a amlinellir ym Mholisi Cynllunio Cymru wedi'i ddiweddaru yn ogystal â Chanllawiau Llywodraeth Cymru a nodir yn y canllawiau "Adeiladu Lleoedd Gwell". Mae Polisi Cynllunio Cymru a Chymru'r Dyfodol wedi'i ddiweddaru yn canolbwyntio ar fathau newydd o seilwaith, gan gynnwys seilwaith gwefru cerbydau trydan, seilwaith digidol a thelegyfathrebu symudol. Er bod y CDLl ar y Cyd yn cynnwys canllawiau ar seilwaith digidol a thelegyfathrebu symudol, bydd angen ystyried cynnwys canllawiau/polisïau sy'n ymwneud â seilwaith gwefru cerbydau trydan yn ystod yr adolygiad.

3.15 Er hynny, mae perfformiad y dangosyddion sy'n ymwneud â pholisïau seilwaith y Cynllun yn perfformio'n dda, sy'n golygu y credir bod y polisïau perthnasol yn parhau i gael eu gweithredu'n effeithiol. Nid oes unrhyw geisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo lle maent yn groes i'r polisïau sy'n ymwneud â seilwaith ers i'r Cynllun gael ei fabwysiadu. Felly, mae'r targed i atal datblygiadau rhag cael eu cymeradwyo lle nad oes digon o seilwaith mewn unrhyw flwyddyn yn cael ei gyrraedd. Yn ogystal, nid oes unrhyw ddatblygiadau wedi'u cymeradwyo yn groes i bolisïau'r Cynllun a arweiniodd at golli cyfleusterau cymunedol hyfyw. Mabwysiadwyd canllawiau Cynllunio Atodol ar Rwymedigaethau Cynllunio ym mis Medi 2019 a'i nod yw sicrhau bod datblygiadau'n cyfrannu at ddarparu'r seilwaith a'r mesurau angenrheidiol sydd eu hangen i liniaru eu heffaith ac i roi eglurder i ddatblygwyr, asiantau a rhanddeiliaid eraill ynghylch ar ba sail y sicrheir rhwymedigaethau cynllunio.

3.16 Bydd y sylfaen dystiolaeth a oedd yn llywio'r gwaith o lunio'r polisïau hyn yn cael ei hail-asesu fel rhan o'r broses adolygu. Fel rhan o'r adolygiad, cynhelir asesiad o'r ddarpariaeth seilwaith a'r anghenion i nodi capasiti ac argaeledd seilwaith presennol ac arfaethedig. Mae'r angen am eglurhad a chanllawiau pellach ynghylch y polisïau seilwaith (ISA1, ISA2, ac ISA3) i gynorthwyo yn y broses o wneud penderfyniadau wedi'u nodi.

**Llecynnau Agored**

3.17 Mae'r CDLl ar y Cyd wedi mabwysiadu safon Fields in Trust o 2.4 hectar o lecyn agored hamdden fesul pob 1000 o'r boblogaeth er mwyn diwallu'r amcan o gynyddu cyfleoedd i bobl gyfranogi mewn cymunedau gweithgar ac iach.

3.18 Mae Cymru'r Dyfodol , Polisi Cynllunio Cymru ac Adeiladu Lleoedd Gwell yn cydnabod pwysigrwydd creu lleoedd a gwerth lleoedd agored cyhoeddus yn ein dinasoedd, trefi a phentrefi.

3.19 Nid yw'r AMB wedi adnabod unrhyw faterion gyda gweithrediad y polisi llecynnau agored mewn perthynas â diogelu llecynnau agored cyhoeddus presennol, wrth sicrhau darpariaeth llecynnau agored newydd na chyfraniad ariannol mewn perthynas â datblygiadau preswyl newydd.

3.20 Rhagwelir y bydd angen diweddaru'r Asesiad Llecynnau Agored wrth baratoi'r Cynllun Diwygiedig er sicrhau fod y wybodaeth gywir a chyfredol wedi ei gasglu yng nghyswllt y ddarpariaeth.

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

3.21 Yn bresennol mae yna bolisi strategol (PS 3) sydd yn datgan cefnogaeth i ddatblygiadau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn amodol ar fesurau amddiffyn priodol a bod gwifrau newydd uwchben yn cael eu gosod tan ddaear os nad yw'n cael effaith ar ddiddordebau eraill. Yn unol efo'r canllaw ym Mholisi Cynllunio Cymru (PCC) ar adeg paratoi'r CDLl ar y Cyd ni chafodd y polisi rheoli datblygu cenedlaethol am systemau telathrebu ei hailadrodd o fewn y cynllun yn hytrach croes gyfeiriwyd tuag atynt.

3.22 Mae PCC (Rhifyn 11 Chwefror 2021) yn amlygu cefnogaeth y Llywodraeth i seilwaith cyfathrebu electronig yn enwedig o ystyried cynnydd mewn gweithio o adref. Dylid cynllunio yn rhagweithiol ond ystyriol i ddiogelu cymeriad ardaloedd arbennig. Dylai cynlluniau datblygu amlinellu polisïau yn cynnwys rhai yn seiliedig ar feini prawf i arwain datblygiad i leoliadau addas. Mae Polisi 14 yng Nghymru'r Dyfodol yn cefnogi mwy o ddarpariaeth ffonau symudol. Bydd y Llywodraeth yn adnabod Parthau Gweithredu Telathrebu Symudol ble ceir gwasanaeth gwael yn bresennol efo ymrwymiad i'r Llywodraeth, awdurdodau cynllunio a gweithredwyr telathrebu gydweithio er mwyn gwella'r gwasanaeth mewn fath leoliadau.

3.23 Yng ngoleuni'r newid o fewn PCC a chyhoeddi Cymru'r Dyfodol bydd angen diwygio'r rhan yma o'r Cynllun gan ystyried anghenion tua'r dyfodol o fewn ardal y Cynllun a pharatoi polisi efo meini prawf ar gyfer arwain datblygiad i leoliadau addas.

Trafnidiaeth gynaliadwy, datblygiad a hygyrchedd

3.24 Mae Polisi PS 4 (Trafnidiaeth Gynaliadwy, Datblygiad a Hygyrchedd) yn cefnogi gwelliannau trafnidiaeth sydd yn uchafu hygyrchedd yn enwedig ar gyfer teithio ar droed, beic a chludiant cyhoeddus; TRA 1 (Datblygiadau Rhwydwaith Cludiant) polisi sydd yn cynnwys meini prawf ar gyfer gwelliannau i'r rhwydwaith cludiant, amlygu'r math o ddatblygiadau caiff gefnogaeth ar gyfer trosglwyddo rhwng gwahanol ddulliau o gludiant, pryd fydd angen asesiadau cludiant efo ceisiadau ac amlygu cynlluniau cludiant i'w gwarchod; TRA 2 (Safonau parcio) polisi yn datgan dylai darpariaeth parcio fod yn unol efo Safonau Parcio'r Cynghorau; TRA 3 (Diogelu Rheilffyrdd Segur) polisi sydd yn gwrthod cynigion sydd yn atal y posibilrwydd o ail agor isadeiledd hen reilffyrdd neu reilffyrdd segur at ddibenion rheilffyrdd neu ddibenion cludiant amgen; TRA 4 (Rheoli Ardrawiadau Cludiant) polisi sydd yr hyrwyddo dulliau mwyaf cynaliadwy o deithio.

3.25 Mae PCC (2021), fel y PCC oedd mewn bodolaeth pan gafodd y Cynllun ei baratoi, yn parhau i ategu lleihau teithio efo car preifat drwy hybu mwy o deithiau ar droed, beic a thrafnidiaeth gyhoeddus. Ceir hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy sydd bellach yn cynnwys cyfeiriad tuag at gerbydau allyriadau isel iawn ac mae'n cael ei adnabod fod ganddynt rôl bwysig i'w chwarae o ran datgarboneiddio trafnidiaeth yn enwedig mewn ardaloedd gwledig sy'n brin o wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus. Anogir y system gynllunio i gefnogi datblygu pwyntiau gwefru fel rhan o ddatblygiadau newydd. Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi'r gofynion ar gyfer darparu pwyntiau gwefru cerbydau trydanol ar gyfer datblygiadau nad ydynt yn ddatblygiadau preswyl. Dylai mannau parcio efo datblygiadau adlewyrchu'r cyd-destun lleol. Rhaid cael Asesiad Trafnidiaeth efo ceisiadau cynllunio am ddatblygiadau sy'n perthyn i gategorïau a nodir yn NCT 18. Mae Cymru'r Dyfodol yn cynnwys polisïau Cysylltedd Rhyngwladol, Cenedlaethol a Rhanbarthol (Polisïau 10 i 12) mae hyn yn ategu'r arweiniad yn PCC (2021) a hefyd yn cyfeirio tuag at ddatblygu metro'r Gogledd sef system trafnidiaeth integredig newydd sy'n darparu gwasanaeth unedig amlach a chyflymach gan ddefnyddio trenau, bysiau a rheilffyrdd ysgafn. Yn 2021 mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi 'Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru' a 'Strategaeth gwefru cerbydau trydan ar gyfer Cymru'. Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi ym Mehefin 2021 eu bod yn rhewi prosiectau ffyrdd newydd tra bod adolygiad yn cymryd lle.

3.26 Dylai'r Cynllun Diwygiedig ystyried y newidiadau cyd-destunol o fewn polisi a chanllaw Cenedlaethol a amlygir uchod i sicrhau bydd polisïau trafnidiaeth yn y Cynllun yn gyd fynd a rhain.

**Adran 6.2 - Rheoli Tŵf a Datblygu - Byw'n gynaliadwy**

Datblygiad Cynaliadwy a Newid Hinsawdd

3.27 Mae Polisi Strategol PS 5 (Datblygu Cynaliadwy) yn bolisi cyffredinol sy'n ceisio sicrhau bod datblygiad yn gyson ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Nod Polisi Strategol PS 6 (Lliniaru

ac Addasu i Effeithiau Newid yn yr Hinsawdd) yw sicrhau bod yr holl ddatblygiadau'n ystyried yr effaith ar newid yn yr hinsawdd. Mae newid yn yr hinsawdd yn parhau i fod yn fater pwysig iawn ers mabwysiadu'r CDLl ar y Cyd gydag effeithiau a goblygiadau'n dod yn fwy amlwg wrth i amser fynd heibio.

3.28 Mae Cymru’r Dyfodol yn ailddatgan pwysigrwydd newid yn yr hinsawdd, gan ddweud bod y Cyngor a Pholisi Cynllunio Cymru yn anelu at sicrhau bod y system gynllunio'n canolbwyntio ar sicrhau Cymru ddatgarboneiddio a gwydn drwy "sbarduno twf cynaliadwy a mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd drwy arwain datblygiad strategol dros yr 20 mlynedd nesaf".

3.29 Dylid ystyried hefyd oblygiadau'r Polisi System Draenio Drefol Cynaliadwy (Ionawr 2019), lle bydd angen systemau draenio cynaliadwy ar gyfer dŵr wyneb ar gyfer pob datblygiad newydd o fwy nag 1 tŷ annedd neu lle mae'r ardal adeiladu yn 100 metr sgwâr neu fwy. Yn ogystal, mae Cymru Carbon Isel (Mawrth 2019) yn nodi dull Llywodraeth Cymru o leihau allyriadau a chynyddu effeithlonrwydd mewn ffordd sy'n sicrhau'r manteision ehangach mwyaf posibl i Gymru, gan sicrhau cymdeithas decach ac iachach. Mae'n nodi polisïau a chynigion sydd â'r bwriad o leihau allyriadau a chefnogi twf yr economi carbon isel. Dylid ystyried addasu polisïau perthnasol fel eu bod yn cyd-fynd â'r dogfennau uchod.

3.30 Yn gyffredinol, mae perfformiad dangosyddion y Cynllun sy'n ymwneud â Pholisi PS 6 yn perfformio'n dda sy'n golygu y credir bod y polisïau perthnasol yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Mae'r prif fater a nodwyd yn yr AMBau yn ymwneud â dangosydd D21 lle nad yw'r targedau o 50% o botensial ynni adnewyddadwy sy'n cael eu cyflawni erbyn 2021 wedi'u cyflawni. Gallai adolygiad o'r Cynllun nodi rhwystrau mewn rhai sectorau adnewyddadwy a darparu targed posibl mwy ymarferol mewn unrhyw Gynllun diwygiedig. Dengys monitro ar gyfer y polisïau perygl llifogydd mai dim ond un cais am ddatblygiadau agored iawn i niwed a ganiatawyd ym mharth llifogydd C2 ers i'r Cynllun gael ei fabwysiadu (trosi capel yn annedd). Caniatawyd y cais cynllunio hwn gan y Pwyllgor Cynllunio yn groes i argymhelliad swyddogion. Nodir hefyd bod ceisiadau cynllunio llawn yn cael eu caniatáu ar safleoedd a oedd yn gyfan gwbl/rhannol o fewn parth llifogydd C1; fel rhan o'r broses o asesu'r ceisiadau cynllunio casglwyd gwybodaeth ynghylch cydymffurfio â'r ceisiadau cynllunio â'r profion a geir yn Nodyn Cyngor Technegol 15 (Llifogydd); penderfynwyd eu bod yn cydymffurfio â gofyniad y profion a nodir yn NCT 15. Nodir y bydd angen ystyried y NCT 15 diwygiedig sy'n dod i'r amlwg fel rhan o broses y Cynllun.

3.31 Mae polisi PCYFF 1 (Ffiniau Datblygu) yn nodi'r gwahaniaeth rhwng delio efo ceisiadau y tu fewn i’r ffin datblygu a rhai y tu allan; PCYFF 2 (Meini Prawf Datblygu) polisi sy’n amlygu meini prawf blaenoriaeth nad ydynt yn cael ei chyfarch mewn rhannau eraill o’r Cynllun; PCYFF 3 (Dylunio a Siapio Safle) a PCYFF 4 (Dylunio a Thirweddu) yn amlygu ystyriaethau dylunio y dylid ei bodloni efo datblygiadau; PCYFF 5 (Rheoli Carbon) polisi sydd yn disgwyl i ddatblygiadau ddangos sut rhoddwyd sylw i gyfraniad o dechnoleg ynni adnewyddadwy neu garbon isel i



DRAFT

fodloni gofynion y cynnig am drydan a gwres; PCYFF 6 (Cadwraeth Dŵr) polisi sydd yn sicrhau fod cynigion yn cynnwys mesurau cadwraeth dŵr ble bo hynny yn ymarferol.

3.32 Mae'r rhain yn faterion cyffredinol sydd yn cael eu hystyried ar gyfer y rhan helaeth o geisiadau cynllunio. Bydd yn rhaid adolygu unrhyw newidiadau o fewn polisi a chanllawiau cenedlaethol a lleol yn y meysydd yma yn ogystal ag addasrwydd y polisïau presennol mewn Cynllun Diwygiedig.

Technoleg Adnewyddadwy

3.33 Mae'r Polisi Strategol (PS 1) a Pholisïau ADN 1 (Ynni Gwynt ar y Tir), ADN 2 (Ynni PV Solar) ac ADN 3 (Technoleg Ynni Adnewyddadwy a Carbon Isel Arall) yn ceisio sicrhau bod yr ardal yn cyflawni ei botensial fel ardal arweiniol ar gyfer mentrau wedi'u seilio ar dechnolegau adnewyddadwy neu garbon isel yn ogystal â chydbwyso effaith datblygiadau ynni adnewyddadwy ar yr amgylchedd a chymunedau.

3.34 Mae'r deipoleg tyrbin gwynt a chefnogi'r o fewn polisi ADN 1 yn seiliedig ar ganfyddiadau Astudiaeth Capasiti a Sensitifrwydd y Dirwedd yn ardal y Cynllun. Yn unol efo'r ddogfen Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel - Llawlyfr i Gynllunwyr (2015) gan Lywodraeth Cymru fe wnaeth y Cynllun adnabod safleoedd cyfle posib ar gyfer ffermydd PV solar o 5MW neu fwy.

3.35 Yn Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) ( Drafft) (2019) gan Lywodraeth Cymru roedd yna Ardaloedd Blaenoriaeth ar gyfer solar a gwynt wedi ei adnabod o fewn ardal y Cynllun. Pan gyhoeddwyd Cymru'r Dyfodol (2021) roedd y rhain wedi cael ei thynnu allan. Mae Adroddiad yr Ymgynghoriad ar y FfDC (Medi 2020) yn egluro fod rhai o'r ardaloedd blaenoriaeth gwynt wedi cael ei mireinio yn dilyn pryderon gan y Weinyddiaeth Amddiffyn oedd eisio diogelu ei hystâd a'i hardaloedd hyfforddi strategol. Ar gyfer ardaloedd blaenoriaeth solar fe ddaru'r diwydiant solar nodi'r angen am hyblygrwydd o ran y safbwynt polisi am ei fod yn fwy ystwyth wrth ymateb i gapasiti'r grid ac am nad yw ceisiadau ar gyfer ffermydd solar yn cael cymaint o effaith ar y dirwedd ehangach â thyrbinau gwynt. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru dderbyn hyn a phenderfynu dileu'r ardaloedd a nodwyd ar gyfer datblygiadau solar o'r FfDC.

3.36 Wrth fabwysiadu Cymru'r Dyfodol yn 2021 a chyhoeddi PCC diwygiedig i adlewyrchu hyn, mae NCT 8 'Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy' wedi cael ei ddisodli.

3.37 Mae PCC (2021) yn cynnwys hierarchaeth ynni a thargedau ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddol. Mae disgwyl i'r system gynllunio wneud gyfraniad gweithredol i helpu sicrhau darpariaeth y targedau hyn o ran capasiti cynhyrchu ynni adnewyddadwy newydd a hyrwyddo mesurau effeithlonrwydd ynni mewn adeiladau. Mae holl geisiadau ynni gwynt ar y tir o faint 10MW neu fwy a holl safleoedd cynhyrchu ynni eraill sy'n cynhyrchu rhwng 10 a 350MW yn ddatblygiad mawr, ac yn cael eu cyflwyno yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru o dan y broses

DRAFT

Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS), ac yn cael ei ystyried o dan bolisïau yng Nghymru'r Dyfodol.

3.38 Mae paragraff 5.9.14 o PCC (2021) yn datgan y dylai awdurdodau cynllunio asesu'r cyfleoedd ar gyfer ynni adnewyddadwy a charbon isel yn eu hardal a defnyddio'r dystiolaeth i sefydlu polisïau gofodol yn eu cynllun datblygu, sy'n nodi'r lleoliadau mwyaf priodol ar gyfer datblygiadau ynni islaw 10MW.

3.39 Mae Dangosydd D21 yn gosod targedau ar gyfer cyfarch yr adnoddau ynni adnewyddadwy posib sydd wedi cael ei adnabod yn y Cynllun. Roedd disgwyl y buasai 50% o hyn sef 1,113.35 GWh ar gyfer trydan a 23.65 GWh am wres wedi cael ei gyfarch erbyn 2021. Fodd bynnag hyd at 2021 dim ond 52.4 GWh ar gyfer trydan a dim GWh ar gyfer gwres sydd wedi cael ei baratoi.

3.40 O ran ynni gwynt ar y tir nid oes yna unrhyw safleoedd sylweddol o'r newydd wedi cael ei gynnig ers i'r Cynllun gael ei fabwysiadu. Mae yna gais presennol i ymestyn caniatâd ar fferm wynt presennol sydd ar Ynys Môn. Ar gyfer ffermydd solar fe gafodd safleoedd cyfle posib ei adnabod, fodd bynnag mae ceisiadau sydd wedi cael caniatâd megis Rhyd y Groes Rhosgoch (49.99MW) ac ymholiadau cyn cais diweddar i gyd wedi cael ei lleoli y tu allan i'r safleoedd cyfle posib yma. Mae'r dystiolaeth efo'r bwriadau yma yn amlygu pwysigrwydd mynediad i gapasiti ar y grid cenedlaethol fel ffactor allweddol ar gyfer dewis safle a bod elfen o'r safleoedd yma yn cynnwys tir amaethyddol o safon uchel. Roedd tir amaethyddol o safon uchel yn un rheswm pam nad oedd rhai ardaloedd yn cael ei adnabod fel safleoedd cyfle posib yn y Cynllun.

3.41 Bydd rhaid diwygio'r polisïau presennol sydd yn ymwneud ac ynni adnewyddadwy i adlewyrchu'r newidiadau cyd-destunol Cenedlaethol sydd wedi cymryd lle ers mabwysiadu'r Cynllun.

<u>Rheoli newid arfordirol</u>

3.42 Yn dilyn cyhoeddi fersiynau diwygiedig o Bolisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 10 yn 2018 ac yna Argraffiad 11 yn 2021), bellach mae yna arweiniad polisi cynllunio cenedlaethol wedi ei gynnwys mewn perthynas â pherthnasedd Cynlluniau Rheoli Traethlin i Gynlluniau Datblygu Lleol.

3.43 Nodir Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11, 2021) fod Cynlluniau Rheoli Traethlin yn pennu fframweithiau polisi lleol hirdymor ar gyfer rheoli risg arfordirol. Amlygir y ffaith y dylai'r blaenoriaethau a gynhwysir yn y Cynllun Rheoli Traethlin ddylanwadu ar y gwaith o baratoi cynlluniau datblygu a'u llywio. Yn yr amgylchiadau hynny pan nodir yn eglur na fydd amddiffynfeydd arfordirol yn cael eu cynnal mwyach, dylai cynlluniau datblygu gynnwys polisïau clir a phenodol i reoli datblygiad mewn ardaloedd o'r fath, yn cynnwys ble maent yn teimlo y byddai datblygiad yn anaddas neu y dylid ystyried nodweddion penodol.

3.44 Ymhellach yn Hydref 2019 fe ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar fersiwn diwygiedig o Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 15: Datblygu, llifogydd ac erydu arfordirol. Mae'r fersiwn



DRAFT

diwygiedig o’r Nodyn Cyngor Technegol yn cwmpasu arweiniad o ran erydu arfordirol a llifogydd yn yr un ddogfen. Ategir y fersiwn drafft o NCT 15 yr arweiniad a gynhwysir ym Mholisi Cynllunio Cymru gan bwysleisio ar yr angen i ddefnyddio'r dystiolaeth a gynhwysir yn y Cynllun Rheoli Traethlin wrth lunio, ystyried strategaeth ofodol a safleoedd datblygu posib yn y Cynllun Datblygu Perthnasol.

3.45 Yn Hydref 2020 cyhoeddwyd y Strategaeth Genedlaethol newydd ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Strategaeth yn nodi’r polisïau hirdymor ar gyfer rheoli llifogydd, yn ogystal â'r mesurau y bydd sefydliadau megis Cyfoeth Naturiol Cymru, awdurdodau lleol a chwmnïau dŵr yn eu rhoi ar waith dros y degawd nesaf er mwyn gwella'r ffordd maent yn cynllunio, yn paratoi ac yn addasu i newid yn yr hinsawdd dros y ganrif, gan gynnwys ystyried yr arweiniad a gynhwysir o fewn y Cynllun Rheoli Traethlin.

3.46 Nid oes yna adolygiad o’r Cynllun Rheoli Traethlin (SMP) 2 wedi cynnal yn y cyfnod ers mabwysiadu’r CDLl ar y Cyd a chan hynny mae’r arweiniad a gynhwysir yn y ddogfen hynny sydd wedi ei ymgorffori o fewn y CDLl ar y Cyd yn parhau i fod yn gyfredol. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, bellach mae yna fwy o bwyslais ar Awdurdodau Lleol i fod yn ymgorffori ac yn gweithredu ar yr arweiniad a gynhwysir yn y Cynllun Rheoli Traethlin, gan hynny fe fydd yn briodol sicrhau fod y Polisi perthnasol a gynhwysir yn y CDLl ar y Cyd (Polisi ARNA 1: Ardal Rheoli Newid Arfordirol) yn cyd-fynd gyda’r arweiniad Polisi Cynllunio Cenedlaethol.

**Adran 6.3 - Rheoli Tŵf a Datblygu – Economi ac Adfywio**

Prosiectau isadeiledd o bwysigrwydd cenedlaethol a datblygiadau perthynol

3.47 Yn ystod y broses o baratoi a mabwysiadu’r CDLl ar y Cyd roedd yna ddau Brosiect Isadeiledd o Bwysigrwydd Cenedlaethol (PIoBC) ar y gweill, sef:-

- Adeiladu gorsaf bŵer niwclear newydd ger Wylfa (Wylfa Newydd);
- Cynnig gan y Grid Cenedlaethol i wneud gwelliannau / gwaith newydd i Linellau Trawsgludo’r Crid Cenedlaethol a fyddai’n cysylltu safle Wylfa Newydd i is-orsaf pentir a thu hwnt.

3.48 Ystyriwyd yn bwysig sicrhau fod y Cynllun yn gosod fframwaith bolisi clir er mwyn cynorthwyo’r Cynghorau i roi sylw i ac ymateb i gynigion PIoBC. Oherwydd, fe gynhwyswyd ystod o bolisïau a oedd yn ymwneud a’r PIoBC ynghyd a datblygiadau perthynol o fewn y Cynllun.

3.49 Bellach mae Adran 43 o Ddeddf Cymru 2017 a gyhoeddwyd ar 1af o Ebrill 2018 yn caniatáu i ddatblygiadau perthynol gael ei gynnwys o fewn y Cais Gorchymyn Datblygu (CGD) . Yn sgil y newid deddfwriaethol ers y broses o baratoi a mabwysiadu'r CDLl ar y Cyd nid yr Awdurdod Cynllunio Lleol fyddai bellach yr awdurdod penderfynu mewn perthynas â cheisiadau

perthnasol. Yn sgil y newid deddfwriaethol hwn, mae rhai o'r polisïau a gynhwysir o fewn y Cynllun un ai yn rhannol neu yn gyfan gwbl ddiangen (Polisi Strategol 9 i Bolisi Strategol 12).

3.50 Fe gyflwynwyd Horizon gais (GCD) er mwyn datblygu atomfa niwclear (Wylfa Newydd) ar y 1af o Fehefin, 2018. Roedd y cais yn destun archwiliad gan Banel o Arolygwyr Cynllunio, a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol. Daeth yr Archwiliad Cyhoeddus i ben (cau) ar 23ain Ebrill 2019. Ar ddiwedd yr archwiliad, roedd gan y Panel 3 mis i gyflwyno adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol yn amlinellu eu casgliadau a'u hargymhelliad ynglŷn â ph'un a ddylid rhoi caniatâd i'r bwriad, gyda'r penderfyniad terfynol i'w wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar neu cyn y 23 Hydref 2019 (6 mis ar ôl dyddiad cau'r archwiliad).

3.51 Ailbennwyd y dyddiad gwneud penderfyniad i 31 Mawrth 2020 er mwyn caniatáu derbyn rhagor o wybodaeth am effeithiau amgylcheddol a materion eraill a oedd heb eu datrys.

3.52 Yn dilyn y cyfyngiadau yn gysylltiedig â phandemig firws Covid-19 penderfynwyd yr Ysgrifennydd Gwladol ailbennu'r dyddiad cau statudol ar gyfer y cais hwn i 30 Medi 2020, gan nad oedd y Senedd yn eistedd. Y bwriad oedd y byddai datganiad yn cadarnhau'r dyddiad cau newydd ar gyfer penderfyniad yn cael ei wneud i Dŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi yn unol ag adran 107(7) o Ddeddf Cynllunio 2008 cyn gynted ag y bo modd ar ôl i'r Senedd ailddechrau.

3.53 Ar yr 22ain o Fedi, 28ain o Fedi a 18fed o Ragfyr 2020 fe anfonwyd Horizon ohebiaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn am ohiriad i benderfyniad Cais Gorchymyn Datblygu (CGD) Wylfa Newydd. Nodwyd mai'r rheswm am ofyn i ohirio'r penderfyniad oedd yn sgil trafodaethau oedd yn mynd rhagddi hefo thrydydd parti oedd wedi mynegi diddordeb mewn bwrw ymlaen â datblygu gorsaf bŵer niwclear newydd ar ôl i Hitachi dynnu'n ôl. Ar yr 27ain o Ionawr 2021 fe dynnwyd y CGD yn ôl gan Horizon Nuclear Power. Tynnwyd y cais yn ôl yn sgil diffyg buddsoddwr i'r prosiect ynghyd a'r diffyg polisi ariannu newydd gan y Llywodraeth. O'r herwydd, fe arweiniodd y penderfyniad hynny at Hitachi yn penderfynu dirwyn Horizon i ben fel endid datblygu gweithredol erbyn 31 Mawrth 2021.

3.54 Yn gysylltiedig â datblygiad Wylfa Newydd ar gyfer atomfa niwclear newydd fe gyflwynodd y Grid Cenedlaethol gais Gorchymyn Caniatâd Datblygu (CGD) ar 7 Medi, 2018. Roedd y cais hyn yn rhan o Brosiect Cysylltu Gogledd Cymru ar gyfer gosod cysylltiad trydanol 400kV o ddatblygiad arfaethedig Wylfa Newydd.

3.55 Yn dilyn penderfyniad Hitachi i oedi gyda'r bwriad i ddatblygu'r Orsaf Bŵer Niwclear Newydd, ar 20 Chwefror, 2019 fe dynnwyd y Grid Cenedlaethol ei gais am GCD yn nôl yn ffurfiol a ni ystyriwyd ymhellach gan yr Awdurdod Archwilio na'r Arolygaeth Cynllunio.

3.56 Oherwydd yr amgylchiadau a nodir uchod, bellach mae yna ansicrwydd ynglŷn â dyfodol Wylfa Newydd yn sgil y diffyg datblygwr a buddsoddiad. Ystyrir yn briodol cynnal adolygiad llawn o'r polisïau o fewn y Cynllun sydd yn ymwneud a Phrosiect Isadeiledd o Bwysigrwydd Cenedlaethol. Mi fydd hefyd angenail ymweld â Strategaeth y Cynllun a oedd yn rhannol



DRAFT

ymateb i'r cyfleoedd a'r galw a fyddai'n deillio o wireddu datblygiad o bwysigrwydd cenedlaethol.

3.57 Yn unol â'r arweiniad a gynhwysir yng Nghymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi menter Arc Niwclear y Gogledd-orllewin sy'n weledigaeth a rennir (â Llywodraeth y DU, prifysgolion a'r Labordy Niwclear Cenedlaethol) i sicrhau'r effeithiau cadarnhaol y gallai'r sector niwclear eu cael o ran buddsoddi, sgiliau a hyfforddiant. Nodir fod rhaglen 'Ynys Ynni Môn' hefyd yn ceisio cydgysylltu camau gweithredu mewn perthynas â datblygiadau ynni newydd er mwyn sicrhau'r manteision mwyaf posibl i'r ardal. Bydd angen sicrhau fod y cynllun diwygiedig yn cynnwys polisïau a fydd yn hwyluso gweledigaeth Cymru'r Dyfodol ag amcanion Rhaglen Ynys Ynni.

3.58 Yn ystod y broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig, bydd angen bod yn ystyriol o unrhyw newidiadau yn gysylltiedig â Wylfa Newydd gan alluogi'r Cynllun i ymateb i'r newidiadau hynny yn ôl yr angen. Mi fydd angen i'r Cynllun Diwygiedeig adlewyrchu'r amcanion a gweledigaeth Cymru'r Dyfodol, Rhaglen Ynys Ynni a Cyngor Sir Ynys Môn yn gysllytiedig a datblygiadau ynni er mwyn dylanwadau a uchafu ar y budd i'r ardal.

<u>Darparu Cyfleon ar gyfer Economi ffyniannus</u>

3.59 Un o brif amcanion y Cynllun oedd hwyluso strategaethau'r ddau Gyngor i dyfu ac arallgyfeirio economi ardal y Cynllun. Cafodd y fframwaith polisi ei lywio gan Adolygiad Tir Cyflogaeth (2014) a gynhaliwyd i asesu safleoedd cyflogaeth gyfredol sydd wedi'u lleoli yn yr awdurdodau lleol a rhagamcanu'r gofyniad yn y dyfodol am dir cyflogaeth yn ystod cyfnod y Cynllun.

3.60 Mae dangosyddion perfformiad yn yr AMB wedi asesu effeithiolrwydd y tir cyflogaeth a ddiogelir ac sydd wedi ei gwarchod. O ran safleoedd cyflogaeth a warchodir, amlygwyd y dangosyddion, er bod y polisïau'n effeithiol wrth ddiogelu'r safleoedd rhag rhai nad ydynt yn B1 (Busnes), B2 (Diwydiant Cyffredinol) a B8 (Gwasanaethau Storio neu Ddosbarthu), roedd y gyfradd ar gyfer caniatâd cynllunio ar gyfer defnydd cyflogaeth newydd yn is na'r disgwyl. Yn yr un modd, amlygwyd y dangosydd perfformiad mewn perthynas â safleoedd a warchodwyd fod cyfanswm y tir cyflogaeth a ganiateir yn disgyn yn is na'r gofyniad cronnol a nodwyd yn y Targed Polisi. Mae'r Cynllun yn hwylusydd o ran darparu safleoedd cyflogaeth. Ymhellach mae polisïau'r Cynllun yn sicrhau fod datblygiadau cyflogaeth yn cael eu tywys i'r lleoliadau mwyaf priodol/addas. Rhaid pwysleisio fod yr hinsawdd economaidd (h.y. goblygiadau Wylfa Newydd, Brexit, pandemig Covid) yn sylweddol wahanol i pan gafodd y Cynllun ei fabwysiadu ac ystyrir bod hyn wedi cael cryn effaith ar y nifer o dir cyflogaeth sydd wedi ei gymryd i fyny.

3.61 Cafodd effeithiolrwydd polisi'r Cynllun mewn perthynas ag arallgyfeirio gwledig (CYF 6) ei fonitro hefyd yn yr AMB. Mae'r dangosydd hwn yn awgrymu bod y polisi wedi'i weithredu'n effeithiol i gymeradwyo ceisiadau busnes ar raddfa fach newydd ac, felly, gyfrannu at sicrhau ffyniant economaidd a chyfleoedd cyflogaeth mewn ardaloedd gwledig.

3.62 Fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig, bydd angen astudiaeth Adolygu Tir Cyflogaeth newydd a bydd angen i hwn ystyried effaith Brexit, Covid a'r sefyllfa cyfredol (ar yr adeg) yn gysylltiedig â Wylfa Newydd. Bydd angen hefyd i'r Adolygiad Tir Cyflogaeth ystyried amcanion Cymru'r Dyfodol ar gyfer ardal y Cynllun.

Yr Economi Ymwelwyr

3.63 Mae'r polisïau twristiaeth yn y cynllun yn ceisio cefnogi datblygu'r diwydiant twristiaeth drwy gydol y flwyddyn, wrth sicrhau cydbwysedd priodol rhwng ystyriaethau economaidd, cymunedol a sicrhau y gwarchodir yr amgylchedd naturiol, adeiledig a hanesyddol.

3.64 Mae PCC yn cydnabod bod swyddogaeth twristiaeth yn hanfodol i ffyniant economaidd a chreu swyddi mewn sawl man yng Nghymru, ac yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau ddarparu fframwaith i gynnal a datblygu cyfleusterau twristiaeth o safon uchel sydd wedi'u lleoli'n dda. Mae Cymru'r Dyfodol yn cydnabod pwysigrwydd y sector twristiaeth i economi'r Gogledd, a phwysigrwydd cyfleoedd i gefnogi cyrchfannau arfordirol, cyn-safleoedd diwydiannol megis chwareli ac atyniadau, a chyfleusterau newydd awyr agored ac actif.

3.65 Nid yw'r AMB wedi adnabod unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r modd y gweithredir polisïau twristiaeth, ac ni nodwyd unrhyw gamau gweithredu. Fodd bynnag, codwyd pryderon cyffredinol am faterion nad ydynt yn rhan o unrhyw ddangosyddion penodol sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth llety gwyliau hunanarlwyo a safleoedd carafanau dros-dro/parhaol.

3.66 Yn sgil y pandemig Covid-19 a Brexit, bu cynnydd yn nifer y bobl sy'n dewis aros am wyliau yn eu gwlad eu hunain ('staycation') yn hytrach na theithio dramor. O ganlyniad bu cynnydd yn y galw am lety gwyliau hunanarlwyo yn ardal y cynllun, sydd hefyd wedi rhoi straen ar y farchnad dai lleol, gyda nifer o dai yn yr ardaloedd twristiaeth draddodiadol wedi cael eu prynu fel ail gartrefi. Mae hyn wedi arwain at densiynau rhwng y sector twristiaeth a'r gymuned leol o ganlyniad i'r cynnydd anferth yn nifer y twristiaid sy'n ymweld â rhannau o ardal y cynllun.

3.67 Mae polisi TWR 2 (Llety Gwyliau) yn ymdrin â mater gormodedd llety gwyliau hunangynhaliol mewn rhai cymunedau ac mae'r CCA Cyfleusterau a Llety Twristiaeth a fabwysiadwyd yn pennu trothwy ar gyfer gormodedd, ac wedi cynnig rhagor o ganllawiau ar y mater.

3.68 Yn ddiweddar mae'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd wedi cynnal gwaith ymchwil "Rheolaeth o dai fel cartrefi gwyliau" i ennyn gwell dealltwriaeth o'r mater. Bydd angen defnyddio'r ymchwil ac unrhyw waith ymchwil arall fel tystiolaeth wrth ddiwygio'r polisi er mwyn cynorthwyo i ymdrin â'r newidiadau a'r effeithiau ar y sector.

3.69 Mae llety gwersylla amgen ('glampio') yn ddiwydiant sy'n esblygu yn barhaus, gyda mathau newydd o lety ar gael ar y farchnad. Ystyrir gwersylla heb deithio ymhell fel dewis rhatach na mathau eraill o lety gwyliau, a gall lawer o safleoedd sydd eisoes yn bodoli fod mewn lleoliadau amlwg ar hyd yr arfordir ac mewn cefn gwlad agored. Mae Polisïau TWR 3 (Safleoedd Carafanau Sefydlog, Sialé a Llety Gwersylla Amgen Parhaol) a TWR 5 (Safleoedd Carafanau Teithiol, Gwersylla a Llety Gwersylla Dros Dro) yn caniatáu gwelliannau i safleoedd presennol,

ac yn ceisio annog datblygiadau newydd o ansawdd uchel o ran eu graddfa, dyluniad, gosodiad ac edrychiad yn y dirwedd.

3.70 Bydd angen ail-edrych ar y polisïau gwersylla yn y cynllun fel rhan o'r adolygiad gan roi ystyriaeth i faterion cymunedol, amgylcheddol a gofynion y sector gwersylla. Efallai y bydd angen adolygu'r Astudiaeth Sensitifrwydd Tirwedd a Chapasiti (2014) i gyfrannu at y polisïau yn y cynllun newydd.

3.71 Yn ystod y broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig, ystyrir ei bod yn angenrheidiol adolygu'r polisïau yn y CDLl ar y Cyd sy'n ymwneud â thwristiaeth er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol ac yn cydymffurfio â'r cyd-destun polisi cynllunio perthnasol a'r newidiadau cyd-destunol ynghyd a rhoi ystyriaeth i gynnwys Cynlluniau Rheoli Cyrchfan (Ynys Môn a Gwynedd) ag unrhyw strategaethau eraill sydd yn gysylltiedig. gysylltiedig.

<u>Canol Trefi a Datblygiadau Manwerthu</u>

3.72 Mae Polisi strategol PS12 (Canol Trefi a Manwerthu) a pholisïau MAN 1 (Datblygiadau Arfaethedig mewn Canol Trefi), MAN 2 (Prif Ardaloedd Manwerthu) a MAN 3 (Manwerthu tu allan i Ganol Trefi Diffiniedig ond oddi mewn i Ffiniau Datblygu) yn ceisio gwarchod, gwella a chefnogi canol trefi/canolfannau manwerthu ar draws ardal y cynllun, ac mae polisïau MAN 4 (Diogelu Siopau a Thafarndai mewn Pentrefi), MAN 5 (Datblygiadau Manwerthu Newydd mewn Pentrefi) a MAN 6 (Manwerthu yng Nghefn Gwlad) yn ceisio darparu cyfleoedd manwerthu ar raddfa fach mewn ardaloedd gwledig.

3.73 Mae Cymru'r Dyfodol yn cynnwys polisïau sy'n ceisio cefnogi canolfannau trefol a sicrhau bod datblygiadau arwyddocaol yn cael eu lleoli o fewn canol trefi a dinasoedd, ac mae PCC yn hyrwyddo canolfannau manwerthu a masnachol fel y lleoliad mwyaf addas ar gyfer amrediad o weithgareddau sy'n ychwanegol i wasanaethau manwerthu. Mae'r pwyslais ar greu lleoedd yn PCC hefyd yn arwyddocaol o ran rheoli newid ac wrth ddatblygu canolfannau manwerthu a masnachol.

3.74 Mae'r sail tystiolaeth sy'n cyfrannu at ddatblygu polisïau'r cynllun yn cynnwys yr Astudiaeth Manwerthu a'r Papur Testun Manwerthu. Yn y blynyddoedd ers paratoi'r dogfennau hyn (2013/14), mae'r hinsawdd manwerthu wedi newid yn sylweddol gyda'r twf cynyddol mewn siopa ar y we a'r pandemig Covid-19 sydd wedi cyfrannu at gau nifer sylweddol o fusnesau manwerthu a masnachol cenedlaethol a lleol o bwys. Mae Adeiladu Lleoedd Gwell – Creu Lleoedd a'r Adferiad Covid-19 (Gorffennaf 2020) yn galw ar y system gynllunio i ymateb i'r sefyllfa hon drwy sicrhau y gall ein canolfannau manwerthu a masnachol weithredu mor hyblyg â phosib.

3.75 Mae'r CDLl ar y Cyd yn sefydlu hierarchaeth fanwerthu ac mae'r Astudiaeth Fanwerthu yn adnabod angen ychwanegol am:

- 7913$m^2$ o arwynebedd llawr nwyddau cymhariaeth ym Mangor
- 200$m^2$ o arwynebedd llawr nwyddau cyfleus a 176$m^2$ o arwynebedd nwyddau cymhariaeth yng Nghaernarfon

- 172m$^2$ o arwynebedd llawr nwyddau cyfleus a 772m$^2$ o arwynebedd nwyddau cymhariaeth ym Mhwllheli
- 492m$^2$ o arwynebedd llawr nwyddau cyfleus yn Llangefni.

3.76 Er nad yw'r Adroddiadau Monitro Blynyddol (AMB) wedi adnabod unrhyw faterion penodol gyda gweithrediad y polisi manwerthu, ers mabwysiadu'r CDLl ar y Cyd, bu nifer y ceisiadau cynllunio am ddefnydd manwerthu newydd (A1 - Siopau) ym Mangor, Llangefni a Phwllheli yn gymharol isel; yn wir, ceisiadau i newid o ddefnydd A1 (Siopau) i ddefnyddiau eraill, megis A2 (Gwasanaeth Ariannol a Phroffesiynol), A3 (Bwyd a diod) neu C3 (Tai) a gyflwynir. Yn sgil diffyg cynnydd a phwysau am ddatblygiadau A1 yn y canolfannau manwerthu penodol hyn, mae'n ymddangos nad yw'r galw am ddatblygiadau manwerthu yn cyd-fynd â chasgliadau'r Astudiaeth Fanwerthu. O ganlyniad i'r newidiadau cyd-destunol, wrth i'r broses o ddiwygio'r Cynllun barhau, mae'n debygol y bydd angen Astudiaeth Fanwerthu newydd er mwyn penderfynu a yw casgliadau'r astudiaeth flaenorol (2013) yn parhau i fod yn berthnasol.

3.77 Wrth ddatblygu sail tystiolaeth ddiwygiedig dylid ystyried materion eraill, megis newid ffocws cyffredinol y pwnc i ganolbwyntio ar ddatblygiadau manwerthu a masnachol a'r thema creu lle, yn unol â pholisi a chanllawiau cenedlaethol mwy diweddar.

**Adran 6.4 - Rheoli Tŵf a Datblygu – Cyflenwad ac Ansawdd Tai**

<u>Graddfa Tai</u>

3.78 Mae'r Cynllun wedi nodi lefel twf o 7,184 o unedau preswyl yn y cyfnod 2011-26. Cafodd y sail i'r ffigwr hwn ei nodi ym Mhapur Testun 4 'Disgrifio'r Twf Tai'. Mae'r ffigwr yn seiliedig ar ystyriaethau demograffeg, cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd ochr yn ochr â ffactorau mewn perthynas â gofynion polisïau cenedlaethol ac agweddau ymarferol megis capasiti aneddleoedd i dderbyn y twf.

3.79 Mae gwybodaeth o'r Adroddiadau Monitro Blynyddol yn dangos fod y ddarpariaeth tai blynyddol a chronnol yn gyson wedi disgyn o dan y ffigyrau targed a nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Erbyn diwedd cyfnod AMB 3 (2020/21) roedd 551 yn llai o unedau wedi eu cwblhau o'i gymharu â'r ffigwr a ragwelwyd yn nhaflwybr tai'r Cynllun mabwysiedig (-12.3%) neu 866 yn llai o unedau os yn cymharu â'r gyfradd datblygu flynyddol cyfartalog (-18.1%).

3.80 Nid yw'r lefel datblygu blynyddol wedi cwrdd â'r ffigwr cyfatebol yn y taflwybr tai'r un flwyddyn ers mabwysiadu'r Cynllun ac mae ond wedi cwrdd â'r ffigwr datblygu cyfartalog unwaith yn unig (yn 2018/19). Credir felly bod angen ail-edrych ar y ffigwr twf er mwyn ystyried pa mor addas ydyw gan edrych hefyd ar y dull o sefydlu'r ffigwr hwn. Dylid ystyried os yw'r rhesymeg a'r gwahanol elfennau oedd ynghlwm a sefydlu'r ffigwr twf yn parhau'n addas gan asesu hefyd os oes agweddau o'r newydd sydd angen eu hystyried yn ogystal. Byddai'n bwysig ymgymryd â'r gwaith hwn yng nghyd-destun gofynion y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3, Mawrth 2020), o safbwynt ystyried agweddau megis, er enghraifft, yr amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd diweddaraf, cyfraddau datblygu'r gorffennol,

patrymau mudo ac ystyriaethau mewn perthynas â'r iaith Gymraeg. Byddai'n bwysig hefyd ystyried dylanwad y Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru fel hybir yng Nghymru'r Dyfodol.

3.81 Mae'r broses o ddiwygio'r cynllun yn rhoi cyfle i ail edrych ar y lefelau twf mwyaf priodol gan ystyried drwy hynny'r ffactorau cysylltiedig. Mae'r lefel y twf yn elfen hollol graidd o strategaeth gyffredinol y Cynllun. Wrth adolygu'r ffigwr twf a'r strategaeth tai bydd yn hollbwysig ystyried effaith Brexit a phandemig Covid-19. Agwedd arall fydd yn rhaid ei ystyried yw'r ansicrwydd mewn perthynas dyfodol Wylfa Newydd yn dilyn tynnu'r CGD yn ôl.

Lleoliad Tai

3.82 Nid yw'r Adroddiadau Monitro Blynyddol wedi amlygu problemau o ran y modd mae'r twf yn cael ei rannu rhwng y gwahanol haenau yn y Cynllun. Fodd bynnag, bydd angen i'r Cynllun Diwygiedig ystyried y modd o ddosbarthu'r twf arfaethedig yn effeithiol ar sail y strategaeth aneddleoedd. Bydd angen ystyried y twf arfaethedig ym mhob anheddle perthnasol ar sail unrhyw ddiwygiad i ffigwr twf y Cynllun a hefyd o safbwynt strategaeth y Cynllun. Mae rhai aneddleoedd eisoes wedi cyrraedd eu lefel twf ac mae angen i'r Cynllun Diwygiedig roi ystyriaeth i'r dosraniad o dai rhwng y gwahanol aneddleoedd. Credir yn hyn o beth y dylid hefyd ail-edrych ar y modd mae gwahanol aneddleoedd wedi eu categoreiddio er mwyn sicrhau fod y twf tai yno yn cyd-fynd yn effeithiol â strategaeth y Cynllun. Mae'n debyg fod y sefyllfa fewn rhai aneddleoedd unigol wedi newid ers mabwysiadu'r Cynllun o safbwynt y cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd yn amlwg ynddynt. Bydd angen felly ail-ystyried y wybodaeth a'u hamlygir ym Mhapur Testun 5, 'Datblygu'r Strategaeth Aneddleoedd' er mwyn sicrhau fod aneddleoedd penodol yn derbyn twf tai sydd yn gynaliadwy.

3.83 Ynghyd â ystyried dosbarthiad tai fesul aneddleoedd, credir fod angen i'r Cynllun Diwygiedig hefyd ystyried y modd o ddarparu tai newydd. Bydd angen sicrhau fod y twf yn cael ei sicrhau mewn modd cynaliadwy sydd yn cyd-fynd â strategaeth y Cynllun. Byddai hyn yn golygu mwy o sicrwydd o ran darparu'r twf mewn modd fyddai'n cynnal ac yn hybu agweddau ieithyddol, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

3.84 Un agwedd bydd yn rhaid i'r Cynllun Diwygiedig ystyried yw addasrwydd dynodiadau tai i gwrdd â chyfran o'r ffigwr twf. Mae gwybodaeth i'r cyfnod hyd at ddiwedd 2020/21 yn amlygu fod 655 yn llai o unedau (-44.6%) wedi eu cwblhau ar ddynodiadau tai na'r hyn a oedd yn ddisgwyliedig yn unol â'r taflwybr tai tra bod 300 yn fwy o unedau (+21.5%) wedi eu datblygu ar safleoedd ar hap mawr (5+ o unedau) o'i gymharu â'r ffigwr yn y taflwybr. Noder yn ogystal erbyn diwedd cyfnod AMB 3 nad oedd caniatâd cynllunio yn bodoli ar gyfer 30 o'r 69 dynodiad tai yn y Cynllun. Mae gwaith mewn perthynas â'r taflwybr tai yn Adroddiad Monitro Blynyddol 3 yn rhagweld y byddai 930 o unedau ar safleoedd sydd wedi eu dynodi yn cael eu datblygu yn dilyn diwedd cyfnod y Cynllun (h.y. ar ôl 2026). Tra bod disgwyl oediad rhwng dynodi safleoedd a'u datblygu, mae'n rhaid ystyried addasrwydd y dynodiadau tai presennol. Fel nodir yn Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3, Mawrth 2020) bydd angen cyfiawnhad

gofalus i gynnwys dynodiadau sy'n cael eu parhau o gynllun blaenorol mewn cynllun diwygiedig. Nodir y bydd angen newid sylweddol mewn amgylchiadau i ddangos y gellir cyflawni safleoedd a chyfiawnhau iddynt gael eu cynnwys eto. Bydd angen tystiolaeth gadarn y gellir cyflawni safleoedd o'r fath.

3.85 Mi fydd yn bwysig ystyried y lleoliadau gorau posib ar gyfer y dynodiadau tai o safbwynt argaeledd, hyfywedd a'u bod hefyd yn cydymffurfio yn effeithiol gyda strategaeth y Cynllun ac ystyriaethau cynllunio eraill. Ni ddylid cadw dynodiadau sydd yn y Cynllun yn bresennol os nad oes tystiolaeth yn dangos eu bod yn addas o ran cwrdd ag elfen o'r ffigwr twf. Bydd diweddaru'r Asesiad Capasiti Trefol yn bwysig wrth ystyried y ddarpariaeth ar hap i gyd-fynd â'r dynodiadau tai.

Tai Marchnad Leol

3.86 Mae caniatâd wedi ei roddi am 5 uned marchnad lleol gydag 1 uned o'r fath wedi ei gwblhau yn ystod 2019/20 (gwybodaeth hyd at ddiwedd cyfnod AMB 3). Noder fod Polisi TAI 5 mewn perthynas â Thai Marchnad Lleol wedi cyflwyno egwyddor polisi hollol newydd nad oedd yn amlwg mewn cynlluniau datblygu blaenorol. Ar sail hyn credir bod oediad amser yn parhau felly rhwng mabwysiadu'r CDLl ar y Cyd, derbyn egwyddor polisi sydd yn hollol o'r newydd yn yr aneddleoedd perthnasol ac yna adeiladu tai o'r fath. Tra credir ei fod yn bwysig cynnal y polisi er mwyn cwrdd ag anghenion y cymunedau perthnasol, bydd angen ystyried os oes angen newid unrhyw fanylder yn y polisi er mwyn hybu caniatadau a datblygu pellach.

3.87 O safbwynt polisïau tai penodol bydd yn bwysig ail-edrych ar y dystiolaeth sydd wrth wraidd Polisi TAI 5 (Tai Marchnad Leol) er mwyn ystyried ehangder yr ardal mae'r polisi yn berthnasol ar ei gyfer. Mi fydd y dystiolaeth yma yn cynnwys, er enghraifft, cymhareb fforddiadwyedd, canran o bobol sydd wedi eu prisio allan o'r farchnad, canran o ail gartrefi, tueddiadau mudo, bandiau treth cyngor yr ardal. Mae'n bosib y bydd rhaid ystyried ffynonellau eraill o dystiolaeth yn ogystal. Mae angen cynnal ymchwil hefyd i ddeall y rhesymau dros y nifer isel o unedau marchnad leol sydd wedi derbyn caniatâd cynllunio a'u datblygu. Gellir ystyried drwy hyn agweddau megis diffyg cyfleoedd posib i ddarparu unedau o'r fath ac anwybodaeth o'r polisi. Tra nad oes llawer o unedau o'r fath wedi eu caniatáu a'u datblygu ers mabwysiadu'r Cynllun, mae egwyddor a phwrpas y Polisi o ran hybu marchnadoedd tai mwy cynaliadwy yn y mannau hynny ble mae problemau dwys yn amlwg, yn rhywbeth sydd yn sicr angen ei ystyried ymhellach.

Math o Dai

3.88 Mae'r rhan Math o Dai yn y Cynllun yn cynnwys Polisi TAI 8 (Cymysgedd Briodol o Dai) sef polisi i sicrhau fod pob datblygiad preswyl newydd yn cyfrannu at wella cydbwysedd tai ac yn diwallu'r anghenion a nodir ar gyfer y gymuned gyfan; TAI 9 (Isrannu Eiddo Presennol i Fflatiau Hunangynhaliol a Thai Amlfeddiannaeth) polisi sydd yn sicrhau fod adeiladau yn addas i'w isrannu heb gael effaith andwyol ar fwynderau cyfagos ac yn rhoi trothwy ar lefel o dai

amlfeddiannaeth o fewn Wardiau; TAI 10 (Llety Arddull Campws ar gyfer Gweithwyr Adeiladu) polisi sydd yn berthnasol i lety dros dro a ddarperir i weithwyr adeiladu sydd ei angen mewn cysylltiad â phrosiectau adeiladu ar raddfa fawr (ar wahân i Brosiect Wylfa Newydd); TAI 11 (Cartrefi Gofal Preswyl, Tai Gofal Ychwanegol neu Lety Gofal Arbenigol ar gyfer yr Henoed) polisi sydd yn amlygu ystyriaethau lleoliad cynaliadwy ac angen efo fath ddatblygiadau; TAI 12 (Llety Myfyrwyr Pwrpasol) polisi yn amlygu ystyriaethau i'w bodloni ar gyfer cefnogi llety pwrpasol ychwanegol i fyfyrwyr; TAI 13 (Ail-adeiladu Tai) polisi sydd yn amlygu ystyriaethau i'w bodloni ar gyfer cefnogi ail-adeiladu tai oddi fewn ac y tu allan i ffiniau datblygu; TAI 14 (Defnydd Preswyl o Garfanau, Cartrefi Symudol a mathau eraill o Lety nad ydynt yn Barhaol) polisi sydd fel eithriad yn caniatáu defnydd llety nad yw'n barhaol fel preswyl dros dro i weithwyr dros dro yn ystod adeiladu prosiect adeiladu penodol neu ar gyfer sefydlu menter gwledig newydd.

3.89 Mae Polisi TAI 8 a'r Canllaw Cynllunio Atodol 'Cymysgedd Tai' yn sicrhau fod ystyriaeth berthnasol yn cael ei roi i sicrhau fod bwriad yn darparu unedau preswyl sydd yn gwella cydbwysedd tai ac yn helpu i ddiwallu anghenion y gymuned gyfan. Cafodd cais ei wrthod ym Morfa Nefyn ar y sail nad oedd yn darparu unedau ar gyfer anghenion y gymuned leol a cafodd penderfyniad y Cyngor ei gefnogi gan Arolygydd yn ei benderfyniad o'r Apêl yn Ebrill 2021. Dylid adolygu meini prawf y polisi i sicrhau eu bod dal yn addas ar gyfer fath bolisi yn y Cynllun diwygiedig.

3.90 Mae Polisi TAI 9 yn gwahaniaethu rhwng safleoedd o fewn ffin datblygu ac eiddo yng nghefn gwlad. O fewn y ffin datblygu efo ceisiadau am tai amlfeddiannaeth ceir trothwy ble na ddylai'r nifer o unedau fod yn uwch na 25% o fewn 2 o Wardiau Bangor a 10% yn weddill o Wardiau ardal y Cynllun. Fe wnaeth Arolygydd Cynllunio mewn apêl yn 2017 gefnogi'r ffigwr trothwy yma yn y polisi gan wrthod cais ar gyfer newid annedd i dŷ amlfeddiannaeth. Nid oes gostyngiad sylweddol wedi bod yn y nifer o unedau sydd wedi cael ei trwyddedu fel tai amlfeddiannaeth ym Mangor fodd bynnag fe fydd yn rhaid adolygu'r sail dystiolaeth yma wrth ddiwygio'r Cynllun. Ar gyfer meini prawf unedau yn y cefn gwlad agored dylid ystyried addasrwydd rhain o ystyried pwyslais lleoliadau cynaliadwy yn PCC.

3.91 Nid oes unrhyw geisiadau wedi cael ei gyflwyno i'w ystyried o dan Bolisi TAI 10, gall hyn fod oherwydd oedi mewn rhai o brosiectau adeiladu graddfa fawr. Dylid adolygu'r sail tystiolaeth ar gyfer prosiectau mawr i asesu'r angen am fath bolisi yn y Cynllun diwygiedig.

3.92 Mae rhai ceisiadau wedi cael ei delio efo o dan Bolisi TAI 11 a ni ymddengys fod unrhyw broblem wedi cael ei amlygu efo'r polisi. Bydd y broses o baratoi'r Cynllun Diwygiedig yn rhoi cyfle i gael mewnbwn y sector gofal i addasrwydd y polisi presennol.

3.93 Cafodd Polisi TAI 12 ei baratoi gan fod yna bwysau efo nifer o geisiadau am lety bwrpasol i fyfyrwyr ym Mangor. Dros y blynyddoedd diwethaf mae yna leihad sylweddol wedi bod yn y nifer o geisiadau am y math yma o ddatblygiadau. Mi fydd angen casglu tystiolaeth gan y Brifysgol ar gyfer newidiadau disgwyliedig yn niferoedd myfyrwyr ar angen am fwy o lety

pwrpasol i ddiweddaru'r Cynllun. Os bydd polisi tebyg yn cael ei baratoi mewn Cynllun diwygiedig dylid newid y cyfeiriad o fewn maen prawf (1) i gael cefnogaeth i'r bwriad gan sefydliad addysg uwch gan fod y Brifysgol wedi datgan nad oeddynt yn fodlon rhoi fath sylwadau efo datblygiadau preifat.

3.94 Mae yna nifer helaeth o geisiadau wedi cael ei gyflwyno o dan Bolisi TAI 13 ar gyfer ail-adeiladu tai. Mae yna angen adolygu nifer o fanylder o fewn meini prawf y polisi i sicrhau cysondeb efo polisïau tai eraill yn y Cynllun. Dylid adolygu polisi cenedlaethol ar gyfer datblygiad cynaliadwy a sicrhau cyfiawnhad efo datblygiadau o fewn ffiniau datblygu i sicrhau nad yw unedau preswyl addas yn cael ei dymchwel er mwyn adeiladu uned mwy o ran maint.

3.95 Nid oes fawr o geisiadau wedi cael ei ystyried yn erbyn polisi TAI 14 hyd yma. Bydd paratoi Cynllun diwygiedig yn galluogi rhoi ystyriaeth i'r angen am y math yma o bolisi yn y Cynllun diwygiedig.

<u>Tai Fforddiadwy</u>

3.96 Mae Polisi PS 18 (Tai Fforddiadwy) yn gosod targed ar gyfer yr isafswm o dai fforddiadwy i'w darparu drwy'r Cynllun; TAI 15 (Trothwy Tai Fforddiadwy a'u Dosbarthiad) yn bolisi sydd yn gosod trothwy pryd mae angen paratoi unedau fforddiadwy a canran o dai fforddiadwy y disgwylir mewn gwahanol ardaloedd pris tai; TAI 16 (Safleoedd Eithrio) yn bolisi sydd yn cefnogi bwriad am 100% tai fforddiadwy ar safleoedd yn union gerllaw'r ffin datblygu.

3.97 Mae PCC (2021) yn ategu fod angen cymuned am dai fforddiadwy yn ystyriaeth gynllunio berthnasol. Dylid cynnwys targed yn y Cynllun ar gyfer nifer o unedau fforddiadwy gan sicrhau fod modd cyfarch hyn a'i fod yn hyfyw. Cafodd safonau newydd 'Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru' ei gyhoeddi yng Ngorffennaf 2021 a bydd disgwyl i holl unedau fforddiadwy a ariennir yn gyhoeddus gyfarch y safonau yma efo unedau fforddiadwy drwy amod / Cytundeb 106 i fodloni'r "gofynion gofod" yn Atodiad Ac ac Atodiad B.. Mae paragraff 4.2.32 yn datgan bod rhaid i'r awdurdodau ddarparu ar gyfer safleoedd tai a arweinir gan dai fforddiadwy h.y. safleoedd efo o leiaf 50% o dai fforddiadwy.

3.98 Mae Dangosydd D47 yn gosod targedau pob 2 flynedd ar gyfer cyfarch y targed o 1,572 o unedau fforddiadwy erbyn 2026. Yn y cyfnod 2015 i 2021 mae yna gyfanswm o 626 o unedau fforddiadwy wedi cael ei chwblhau. Er mwyn cyrraedd y targed a noder ar gyfer 2022 bydd angen adeiladu 201 o unedau fforddiadwy erbyn diwedd Mawrth 2022. Mae lefel twf tai'r Cynllun 866 uned yn is na'r ffigwr disgwyliedig erbyn 2020/21. Mae'r mwyafrif o'r llithriad yma wedi digwydd ar safleoedd sydd wedi ei dynodi ar gyfer tai yn y Cynllun. Buasai disgwyl i'r safleoedd yma baratoi canran o dai fforddiadwy ac felly mae hyn yn rhannol gyfrifol am y lefel is na'r disgwyl o unedau fforddiadwy sydd wedi cael ei chwblhau ers 2015.

3.99 Mae'r trothwyon a'r canran o dai fforddiadwy y disgwylir o fewn gwahanol ardaloedd pris tai ym Mholisi TAI 15 yn seiliedig ar sail tystiolaeth o'r Asesiad Hyfywdra Tai Fforddiadwy. Mae

DRAFT

Dangosydd D50 yn monitro newidiadau mewn gwerthoedd gweddilliol ar draws yr ardaloedd prisiau tai. Oherwydd prinder nifer a mathau o ddatblygiadau mewn rhai o'r Ardaloedd Prisiau Tai mae'r gwaith monitro wedi bod yn edrych ar y darlun cyffredinol yn ardal y Cynllun. Y twf mewn prisiau tai yn ardal y Cynllun rhwng 2016 a 2020 oedd oddeutu 10% sydd yn dwf cymedrol o 2% y flwyddyn. Ar gyfer y cyfnod 2020 i 2021 roedd yna gynnydd sylweddol o 15.5% yng Ngwynedd a Môn hefyd yn gweld cynyddu sylweddol o 15% yn yr un cyfnod. Mewn perthynas â chostau adeiladu (ar sail newid mewn prisiau tender) mae'r rhain yn dangos cynnydd o 1.1% rhwng 2019 a 2020, fodd bynnag ceir lleihad o 1% rhwng 2020 a 2021. Yn gyffredinol mae yna gynnydd o 12.6% yn y costau adeiladu wedi bod ers 2016. Mae'r cynnydd dramatig a welir eleni i'w weld fel gwyriad o'r drefn tymor hir ac ar sail hyn mae angen rhoi ystyriaeth gofalus i hyn wrth fynd ymlaen i 2022. Mae hwn wedi bod yn gyfnod o newid economaidd a gwleidyddol a allai fod yn draddodiadol wedi creu problemau a heriau hyfywedd. Y sefyllfa felly ar bapur yw y gall y Cyngor gynnal ei bolisïau presennol mewn trafodaethau safle-benodol, fodd bynnag, mae'r darlun tymor hir yn llai sicr. Mae'n bosibl bod prisiau'n mynd rhagddynt o ganlyniad i gyfres unigryw o ffactorau gan gynnwys y duedd a ysgogwyd gan Covid ar gyfer symud a chryfhau'r farchnad swyddi drwy 'furlough'. Bydd cynnal diweddariad i'r Asesiad Hyfywdra Tai Fforddiadwy yn galluogi adolygiad o bolisi TAI 15 i sicrhau fod y trothwyon a chanran o dai fforddiadwy y ceisir yn hyfyw i'w paratoi.

3.100 Mae Polisi TAI 16 yn cefnogi bwriadau am 100% tai fforddiadwy ar safleoedd sydd y tu allan ond yn union gerllaw a'r ffin datblygu os caiff y meini prawf o fewn y polisi ei bodloni. Mae Dangosydd D49 yn monitro nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir ar safleoedd eithriedig gwledig ers mabwysiadu'r Cynllun mae caniatâd wedi cael ei roi ar gyfer 79 uned fforddiadwy ar 13 safle eithrio. Cafwyd trafodaeth wrth ddelio efo ceisiadau diweddar ar gyfer maint datblygiadau o dan Bolisi TAI 16, mae'r polisi yn datgan dylai'r bwriad fod ar raddfa fach sydd gymesur â maint yr anheddle. Y cwestiwn yw os dylid diffinio yn gliriach beth yw raddfa fach ar gyfer y math yma o ddatblygiad a bydd paratoi tystiolaeth ar gyfer Cynllun diwygiedig yn gyfle i edrych ar y mater yma.

3.101 Mae Dogfen ymgynghorol 'Strategaeth Dai Ynys Môn 2022-27' yn datgan yn y 3 mlynedd nesaf bydd cynnydd yn stoc y Cyngor o oddeutu 175 o unedau a chartrefi Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) o oddeutu 150 uned. Mae 'Cynllun Gweithredu Tai' Cyngor Gwynedd yn datgan bydd 100 o dai Cyngor yn cael ei adeiladu yn y cyfnod 2020 i 2027 ac oddeutu 265 o gartrefi LCC yn y ddwy flynedd nesaf. Bydd trafodaethau efo Gwasanaethau Tai'r ddau Gyngor ynghyd a LCC yn rhoi ystyriaeth i adnabod cyfleoedd ar gyfer adnabod safleoedd tai a arweinir gan dai fforddiadwy.

<u>Llety ar gyfer sipsiwn a theithwyr</u>

3.102 Mae TAI 17 (Gwarchod Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr Presennol) yn bolisi sydd yn gwarchod safle Sipsiwn yn Llandygai ac unrhyw safle newydd fydd wedi cael caniatâd a'i weithredu; TAI 18 (Dynodiadau Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr) polisi sydd yn adnabod cynnydd yn nifer o leiniau ar safle Llandygai a datblygu safle newydd yn Penhesgyn ar gyfer cyfarch yr angen o'r Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr 2016; TAI 19 (Safleoedd ar gyfer Lleiniau Parhaol

neu Deithiol neu Dros Dro i Sipsiwn a Theithwyr) polisi sydd yn gosod allan y meini prawf i'w bodloni ar gyfer darparu safleoedd ychwanegol parhaol, teithiol neu dros dro.

3.103 Mae PCC (2021) yn ategu'r angen i gynnal Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr gan neilltuo digon o safleoedd yn y Cynllun am unrhyw angen preswyl a/neu tramwy sydd heb gael ei ddiwallwyd yn bresennol. Yn Cymru'r Dyfodol mae polisi 19 'Polisïau Strategol ar gyfer Cynllunio Rhanbarthol' yn rhestru beth y dylai Cynlluniau Datblygu Strategol ei gynnwys a mae'r rhestr yn cynnwys anghenion sipsiwn a theithwyr.

3.104 Mae Dangosyddion D56 i D59 yn monitro paratoi safle parhaol yn Penhesgyn (D56), estyniad i Llandygai (D57), safleoedd dros dro (D58) a gwersylloedd diawdurdodedig (D59). Nodi'r bod oedi yn datblygu safle Penhesgyn oherwydd newid mewn amgylchiadau ar y safle a oddefir ar Lôn Pentraeth tra bod estyniad o 5 a gwelliant i'r lleiniau presennol wedi cymryd lle ar safle Llandygai. Mae caniatâd wedi ei roi ar gyfer datblygu safle Dros Dro yng nghanol Ynys Môn fodd bynnag oherwydd cynnydd mewn costau mae oedi yn amserlen datblygu'r safle. Mae angen gwaith pellach ar adnabod safle dros dro yn ardal Caergybi tra bod Cyngor Gwynedd yn defnyddio rhan o faes parcio yng Nghaernarfon pan fydd angen safle dros dro yno. Nid yw monitro safleoedd diawdurdodedig wedi amlygu problem sylweddol o fewn unrhyw ran o ardal y Cynllun.

3.105 Mae'r ddau Gyngor wedi ymrwymo i gynnal asesiad o anghenion Sipsiwn a Theithwyr yn ystod 2021 efo adroddiad terfynol i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn 2022.

3.106 Bydd y Cynllun Diwygiedig yn cymryd i ystyriaeth canfyddiadau'r asesiad yma, fodd bynnag yng ngoleuni'r arweiniad yn Cymru'r Dyfodol dylid ystyried pa fanylder y disgwylir ei gynnwys mewn Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer materion Sipsiwn a Theithwyr o ystyried polisi 19 yn Cymru'r Dyfodol.

**Adran 6.5 - Rheoli Tŵf a Datblygu – Amgylchedd Naturiol ac Adeiledig**

<u>Gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol</u>

3.107 Roedd y polisïau a gynhwysir yn adran 'Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol' o'r Cynllun yn ymdrin â chadwraeth natur a thirwedd ac yn cydnabod rôl allweddol y system gynllunio wrth amddiffyn a gwella'r amgylchedd naturiol. Mae'r polisïau hyn yn cydnabod yr amddiffyniad statudol a roddir i dirweddau dynodedig rhyngwladol a chenedlaethol, safleoedd / cynefinoedd a rhywogaethau bioamrywiaeth.

3.108 O ran polisïau tirwedd dim ond datblygiad mawr o fewn AHNE sydd wedi cael ei fonitro o fewn yr AMB a daethpwyd i'r casgliad bod Polisi PS 19 a Pholisi AMG 1 yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

3.109 Daeth y dangosydd perfformiad perthnasol a gafodd ei fonitro gan yr AMB i'r casgliad nad oedd unrhyw ganiatâd cynllunio a roddwyd yn tarfu ar werth bioamrywiaeth neu



DRAFT

geoamrywiaeth rhyngwladol / cenedlaethol y dynodiadau hyn. O ganlyniad, ystyrir bod pob caniatâd yn cydymffurfio â pholisi PS 19, a bod y polisi'n parhau i gael ei weithredu'n effeithiol. Roedd hyn hefyd yn wir am y dangosydd perfformiad sy'n ymwneud a gwerth bioamrywiaeth neu geoamrywiaeth sy'n bwysig yn lleol.

3.110 Mae'r sylfaen dystiolaeth sy'n llywio datblygiad y polisïau sy'n seiliedig ar dirwedd yn cynnwys cronfa ddata LANDMAP, Astudiaeth Asesiad o Gymeriad Morlun Eryri a Môn, Adroddiad LUC 'Adolygiad o Ardaloedd Tirwedd Arbennig yng Ngwynedd a Môn a'r Astudiaeth Sensitifrwydd a Capasiti y Dirwedd (2014). Mae'n annhebygol bod y dystiolaeth hon wedi newid yn sylweddol ers iddynt gael eu paratoi/diweddaru.

3.111 Yn ogystal â chyfrifoldebau statudol, tywyswyd y polisïau bioamrywiaeth gan Gynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Leol a safleoedd dynodedig presennol o arwyddocâd rhanbarthol neu leol. Er ei bod yn annhebygol y bydd materion geoamrywiaeth wedi newid yn sylweddol, bydd angen diweddaru'r wybodaeth mewn perthynas â bioamrywiaeth yr ardal. Mae polisi Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth o fewn Cymru'r Dyfodol a PCC yn ymgorffori cryfhau rôl a phwysigrwydd ystyriaethau bioamrywiaeth yn y system gynllunio, yn dilyn ymlaen o Ddeddf yr Amgylchedd

Diogelu a gwella asedau treftadaeth

3.112 Mae polisïau Asedau Treftadaeth wedi eu hanelu at ddiogelu'r amgylchedd hanesyddol gan sicrhau hefyd ei fod yn addasu ac yn parhau i ymateb i anghenion y byd presennol. Paratowyd y polisïau yma yng nghyd-destun Deddfwriaeth, Cylchlythyrau, Rheoliadau a Chyfarwyddiadau perthnasol a pholisïau rheolaeth datblygu a oedd yn bodoli ar y pryd.

3.113 Roedd y dangosydd perfformiad Asedau Treftadaeth yn monitro effeithiolrwydd polisïau PS20 ac AT1, a chyhoeddi CCA ar Asedau Treftadaeth. Mae'r AMBau sydd wedi eu cyhoeddi hyd hyn yn dangos na chaniatawyd ceisiadau nad oedd yn cydymffurfio gyda PS20 a AT1, felly ystyrir fod y polisïau yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Yn ogystal, yn sgil cyhoeddi NCT 24 ynghyd a nifer o gyhoeddiadau CADW, ni ystyriwyd bod angen bellach am CCA penodol ar y mater.

3.114 Yn gyffredinol, ystyrir bod y polisïau yn gweithredu'n effeithiol. Serch hynny, fel rhan o'r broses o baratoi Cynllun Diwygiedig , bydd angen adolygu'r polisïau er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu unrhyw newidiadau deddfwriaethol (e.e. Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru (2016)), polisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol (e.e. PCC. NCT 24 (Yr Amgylchedd Hanesyddol)) a newidiadau cyd-destunol er enghraifft arysgrifiad Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru yn Safle Treftadaeth y Byd UNESCO.

Rheoli Gwastraff

3.115 Paratowyd polisïau Gwastraff y CDLl ar y Cyd yn seiliedig ar yr arweiniad polisi cynllunio cenedlaethol a rhanbarthol, gyda sylw penodol yn cael ei roddi i'r Strategaeth Wastraff Cenedlaethol Tuag at Ddyfodol Diwastraff - Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned a oedd yn

darparu'r fframwaith cyffredinol ar gyfer rheoli pob math o wastraff. Cefnogir y ddogfen hon gan Gynllun Sector Casgliadau, Isadeiledd a Marchnadoedd (y CIMSP). Yn unol â'r Cynllun hynny mae'n ofynnol fod Cynlluniau Datblygu yn adnabod y mathau o leoliadau lle byddai defnyddiau a rheoli gwastraff yn debygol o fod yn dderbyniol.

3.116 Er bod y dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr AMBau hyd yma yn dangos bod y polisïau gwastraff yn gyffredinol yn cael eu hystyried yn gadarn ac yn addas ei bwrpas, bydd angen ystyried yr angen am ymateb i amgylchiadau newidiol ar hyd y broses o greu Cynllun Diwygiedig. Bydd yr wybodaeth a'r dadansoddiad a gyflwynwyd yng Nghynllun Gwastraff Rhanbarthol yn llywio'r broses hon ac yn darparu sylfaen ar gyfer gweithredu ar y deilliannau gwastraff ym mhob ardal awdurdod lleol, a'r rhanbarth yn gyfan.

Mwynau

3.117 Fel rhan o'r broses o gynllunio ar gyfer Mwynau o fewn y CDLl ar y Cyd, y prif amcan yw sicrhau bod y cyflenwad yn cael ei reoli mewn modd cynaliadwy a sicrhau'r cydbwysedd gorau rhwng yr ystyriaethau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol. Lluniwyd y polisïau Mwynau yn seiliedig ar y Datganiad Technegol Rhanbarthol (DTRh) (Adolygiad 1af, Awst 2014). Roedd y Datganiad Technegol Rhanbarthol yn amlinellu sut caiff y galw am agregau dros gyfnod o 25 mlynedd tan 2036 ei ddiwallu ac mae'n darparu sail strategol i gynlluniau datblygu lleol. Bellach mae'r Ail Adolygiad o'r DTRh yn y broses o gael ei fabwysiadu gan y Cynghorau.

3.118 Mae'rAil Adolygiad o'r Datganiad Technegol Rhanbarthol (DTRh2) yn datgan, lle nad yw awdurdodau lleol yn gallu bodloni eu cyfran ddangosol unigol i ddarparu agregau mwynau, fod angen i'r holl awdurdodau lleol o fewn yr isranbarth hwnnw (Conwy, Parc Cenedlaethol Eryri, Ynys Môn a Wynedd) gydweithio a chydweithredu er mwyn sicrhau bod cyfran gyffredinol yr isranbarth yn parhau i gael ei bodloni, i ddarparu cyflenwad cyson o fwynau agregau ar draws yr isranbarth.

3.119 Mae'r gwaith o fonitro'r polisïau Mwynau a nodir yn y tri AMB yn dangos bod y polisïau'n gweithio'n effeithiol. Fodd bynnag, bydd angen i'r Cynllun Diwygiedig ystyried goblygiadau'r argymhellion yn yr Ail Adolygiad o'r CDRh ar gyfer y strategaeth mwynau a nodir yn y CDLl ynghyd ag unrhyw newidiadau yng nghanllawiau presennol y llywodraeth.

**Mapiau Cynigion, Mapiau Mewnosod a'r Mapiau Cyfyngiadau**

3.120 Er mwyn adlewyrchu'r newidiadau a fydd yn cael ei wneud i'r Cynllun fe fydd angen diwygio'r mapiau cynigion/mewnosod yn unol â'r diwygiadau hynny.

3.121 Er bod y Map Cyfyngiadau ddim yn rhan ffurfiol o CDLl ar y Cyd, ystyrir yn afr ddefnyddiol er mwyn nodi'r ardaloedd gofodol hynny a bennir gan gyrff/prosesau eraill e.e. dynodiadau tirwedd statudol. Mae'r Map Cyfyngiadau printiedig ar gyfer y CDLl yn cynrychioli pwynt mewn amser ac mae'n cynnwys nifer o ddynodiadau sydd wedi'u diweddaru ers mabwysiadu'r CDLl ar y Cyd ac felly mae wedi dyddio. Wrth symud ymlaen gobeithir y bydd y Map Cyfyngiadau

yn cael ei gynhyrchu ar ffurf electronig gyda mynediad cyhoeddus a fydd yn caniatáu iddo gael ei ddiweddaru yn ôl yr angen.

**Canllawiau Cynllunio Atodol**

3.122 Mae'r polisïau a gynhwysir yn y CDLl ar y Cyd wedi ei cefnogi gan ystod o Ganllawiau Cynllunio Atodol. Diben CCA yw:

- cynorthwyo'r ymgeiswyr a'u hasiantau i baratoi ceisiadau cynllunio a'u harwain mewn trafodaethau â swyddogion ynghylch sut i ddefnyddio polisïau perthnasol yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd cyn cyflwyno ceisiadau cynllunio,
- cynorthwyo swyddogion i asesu ceisiadau cynllunio, a swyddogion a chynghorwyr i wneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio, a
- chynorthwyo Arolygwyr Cynllunio i wneud penderfyniadau ar apeliadau.

3.123 Er bod y Cynllun yn cynnwys polisïau sy'n galluogi'r Awdurdod Cynllunio Lleol i wneud penderfyniadau cyson a thryloyw ar geisiadau datblygu, ni all rhoi'r holl gyngor manwl sydd ei angen ar swyddogion a darpar ymgeiswyr i lywio cynigion yn lleol. Er mwyn darparu'r cyngor manwl hwn, mae'r Cynghorau'n paratoi cyfres o Ganllawiau Cynllunio Atodol i gefnogi'r Cynllun gyda chanllawiau mwy manwl ar amrediad o bynciau a materion i gynorthwyo i ddadansoddi neu weithredu polisïau a chynigion y Cynllun.

3.124 Mae Atodiad 9 o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn cynnwys tabl o'r Canllawiau Cynllunio Atodol sydd wedi/neu a fydd yn cael eu paratoi ynghyd a'r amserlen a ragwelwyd ar gyfer y gwaith o'i baratoi. Mae'r rhai a fabwysiadwyd bellach yn cael eu defnyddio fel ystyriaeth gynllunio faterol wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio:-

| **Canllaw Cynllunio Atodol** | **Dyddiad mabwysiadu** |
|---|---|
| Cymysgedd Tai | Hydref 2018 |
| Llecynnau Agored mewn Datblygiadau Tai Newydd | Mawrth 2019 |
| Tai Marchnad Leol | Mawrth 2019 |
| Tai Fforddiadwy | Ebrill 2019 |
| Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy | Gorffennaf 2019 |
| Ymrwymiadau Cynllunio | Medi 2019 |
| Ail-adeiladu tai a throsi yng nghefn gwlad | Medi 2019 |
| Newid defnydd cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol, safleoedd cyflogaeth, ac unedau manwerthu | Ionawr 2021 |
| Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid | Mawrth 2021 |

3.125 Bydd adolygiad o'r CCA presennol gan gynnwys rhai a ddiwygiwyd ac a fabwysiadwyd yn ddiweddar yn cael ei gynnal fel rhan o'r broses o ddiwygio'r Cynllun. Ymhellach, efallai y bydd y broses adolygu'r Cynllun yn adnabod yr angen i baratoi CCA newydd.

DRAFT

# 4.0 Gofynion adolygu'r sail dystiolaeth

## Casglu tystiolaeth

4.1 Er mwyn llywio'r Cynllun Diwygiedig bydd angen diweddaru rhai agweddau o'r sail dystiolaeth a baratowyd i gefnogi'r CDLl presennol. Yn anochel fe fydd rhai agweddau o'r sail dystiolaeth hynny wedi dyddio gyda'r angen i'w ddiweddaru/disodli er mwyn adlewyrchu'r amgylchiadau /fframwaith polisi cyfredol yn hanfodol. Mae'r tabl isod yn darparu rhestr o astudiaethau/sail tystiolaeth a ragwelir y bydd angen ei baratoi o'r newydd neu ei adolygu fel rhan o'r broses o gynnal Cynllun Diwygiedig (nodir nad yw'r tabl isod yn rhestr gynhwysfawr).

4.2 Ystyrir y bydd diwygio neu ddisodli'r sail dystiolaeth yn rhoi cyfle i gael gwell dealltwriaeth o'r gofynion defnydd tir y ddwy sir yn ystod oes y Cynllun Diwygiedig yn ogystal ag ystyried oblygiadau'r pandemig Covid ac unrhyw newidiadau cyd-destunol neu bolisi sydd wedi digwydd ers mabwysiadu'r cynllun presennol.

4.3 Rhestr o enghreifftiau o'r sail dystiolaeth angenrheidiol er mwyn paratoi Cynllun Diwygiedig:-

| **Testun** | **Eglurhad** |
|---|---|
| Asesiad Safleoedd Posib | Sicrhau fod yna asesiad cyflawn a chynhwysfawr yn cael ei gynnal o'r safleoedd posib (dynodiadau) o fewn y CDLl ar y Cyd, gan sicrhau nad oes yna gyfyngiadau a fyddai'r rhwystro eu datblygiad yn ystod oes y Cynllun Diwygiedig. |
| Strategaethau a Chynlluniau Perthnasol | Sicrhau fod yr adolygiad o'r strategaethau perthnasol yn adlewyrchu'r arweiniad cyfredol. |
| Poblogaeth a Thai | Ystyried y math o ddeiliadaeth a'r galw am dai er mwyn cyfarch anghenion yr aelwydydd ar gyfer y dyfodol. |
| Disgrifio'r Twf Tai a Gofodol | Diwygio yn unol â'r wybodaeth ddiweddaraf er mwyn adnabod anghenion poblogaeth ac aelwydydd yn ystod oes y Cynllun Diwygiedig. |
| Datblygu'r strategaeth aneddleoedd | Sicrhau fod y Strategaeth yn parhau i adlewyrchu'r sefyllfa gyfredol a rôl yr aneddleoedd hynny yn y cyd-destun daearyddol ehangach. |

| Testun | Eglurhad |
|---|---|
| Astudiaeth Capasiti Trefol | Cynnal asesiad o faint o dir llwyd a allai gyfrannu at yr angen am dai yn ardal y Cynllun. |
| Manwerthu | Cynnal Arolwg manwerthu er mwyn adnabod rôl y canolfannau manwerthu yn ystod oes y Cynllun. |
| Twristiaeth | Paratoi papur sydd yn adnabod yr heriau yn gysylltiedig â’r cynnydd yn y galw ar gyfer llety twristiaeth a’r ymateb polisi lleol posib i hynny. |
| Iaith Gymraeg a Diwylliant | Diweddaru’r sail dystiolaeth bresennol. |
| Tai Marchnad Lleol | Cynnal adolygiad o’r Polisi presennol ac adnabod unrhyw ddiwygiadau posib er mwyn ehangu’r Polisi yn ehangach. |
| Adnabod Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr | Ceisio adnabod yr angen am leiniau parhaol a theithiol yn ystod oes y Cynllun. |
| Astudiaeth Hyfywdra Tai Fforddiadwy | Rhoi cyngor ar dargedau a throthwyon cyraeddadwy a hyfyw ar gyfer tai fforddiadwy. |
| Astudiaeth Tir Cyflogaeth | Asesu’r angen am dir cyflogaeth sy'n addas ar gyfer pob sector cyflogaeth a dyheadau cyflogaeth ranbarthol yn y dyfodol. |
| Astudiaeth Cyfleoedd Ynni Adnewyddol | Er mwyn ystyried yr adnodd ynni adnewyddadwy sydd ar gael o fewn ardal y Cynllun i helpu i lunio targed ynni adnewyddadwy. |

4.4 Pwysleisir nad yw’r rhestr uchod yn un diffiniol ac fe allai’r angen/galw i ddiwygio’r sail dystiolaeth gan gynnwys sail tystiolaeth o’r newydd pan yn briodol ddod i’r amlwg wrth i’r broses o baratoi’r Cynllun Diwygiedig fynd rhagddo. Bydd deialog barhaus ag Awdurdodau Lleol eraill yn helpu i sicrhau'r arbedion effeithlonrwydd a'r cysondeb mwyaf posibl o ran casglu/rhannu tystiolaeth a chytuno ar fethodoleg lle y bo'n bosibl.

## Asesiadau Effaith

4.5 Fel rhan o'r broses ddiwygio'r Cynllun fe fydd yn ofynnol cydymffurfio a'r gofynion Arfarniad Cynaliadwyedd. Golygai hynny y bydd angen ail-ymweld â'r fframwaith Arfarniad Cynaliadwyedd ynghyd a'r Asesiad Amgylcheddol Strategol sydd wedi ei gynnwys yn y Cynllun mabwysiedig a'i ddiwygio yn ôl yr angen. Oherwydd pwysigrwydd yr iaith Gymraeg fel rhan o wead cymdeithasol a diwylliannol holl ardal y Cynllun mae'n fwriad cynnal Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg yn ystod y broses o baratoi Cynllun Diwygiedig. Bydd hyn yn hysbysu'r Arfarniad Cynaliadwyedd. Mae proses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/AAS yn rhan annatod o ddatblygiad y CDLl ac yn fodd o sicrhau bod y polisïau yn y CDLl yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy drwy integreiddio'r amcanion economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol allweddol wrth ddatblygu polisïau a chynigion y CDLl ar y Cyd ac ystyried unrhyw effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd.

4.6 Bydd rhaid ymgymryd ag Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o'r CDLl ar y Cyd er mwyn pennu os yw'r polisïau a'r dynodiadau a gynhwysir yn y Cynllun yn debygol o effeithio ar safleoedd dynodedig Ewropeaidd.

4.7 Yn ogystal â gofynion yr Arfarniad Cynaliadwyedd/AAS, bydd yn ofynnol dangos sut mae'r CDLl ar y Cyd yn cyfrannu tuag at amcanion y Ddeddf Llesiant a'r 5 ffordd o weithio sydd wedi cael eu hadnabod yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn nodi fod gofynion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhan hanfodol o ddatblygiad/adolygiad y fframwaith Arfarniad Cynaliadwyedd.

4.8 Daeth Gorchymyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i rym ar 1 Ebrill 2016. Gan fod y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd wedi ei chyflwyno i'r Llywodraeth i'w archwilio cyn y dyddiad yma nid oedd yn ofynnol i'r Cynllun gwrdd â'r amcanion llesiant fel y nodwyd o fewn y ddeddf. Serch hynny, ystyriwyd fod y CDLl ar y Cyd yn gydnaws a'r amcanion llesiant.

DRAFT

## 5.0 Cyd-weithio a pharatoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd

5.1 Yn unol ag Adran 72 o'r Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004) a Rheoliad CDLl 36 fe all Awdurdodau Cynllun Lleol benderfynu ymgymryd â'r gwaith o baratoi a mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Ystyrir y Llywodraeth fod yna amgylchiadau ble fo gweithio a chynllunio cynllun ar y cyd yn cynnig manteision sylweddol o ran ansawdd y cynlluniau, a mynd i'r afael â materion trawsffiniol. Pwysleisir y gallai paratoi dull polisi mwy cyfannol a chyson, yn dilyn un broses weinyddol, wneud defnydd mwy effeithiol ac effeithlon o adnoddau a darparu gwell canlyniadau cynllunio ar draws yr ardal ehangach. Amlygir y gallai CDLl ar y Cyd gynnwys dau neu fwy o Awdurdodau Cynllunio Lleol.

5.2 Yn 2010, cytunodd Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn i sefydlu trefniadau cyd-weithio ar gyfer darparu swyddogaeth polisi cynllunio. Arweiniodd y cytundeb cyd-weithio at sefydlu'r canlynol:-

- Creu Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (bellach yn Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd) i gyflawni'r swyddogaethau polisi cynllunio ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd ac Ynys Môn.
- Paratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar gyfer Ardal Awdurdod Cynllunio Lleol y ddau awdurdod.
- Sefydlu Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (PPCC) fel corff gwneud penderfyniadau trawsffiniol

5.3 Yn dilyn cynnal adolygiad o'r trefniadau cyd-weithio yn 2017 mae'r trefniadau cyd-weithio yn parhau mewn grym. Bwriedir cynnal adolygiad arall o'r trefniadau cyd-weithio yn fuan (diwedd 2021/cychwyn 2022) er mwyn sicrhau fod yna cytundeb cydweithio yn bodoli yn ystod y broses o baratoi Cynllun Diwygiedig a thu hwnt.

5.4 CDLl ar y Cyd Gwynedd a Môn yw'r unig gynllun datblygu ar y cyd sydd wedi cael ei baratoi yng Nghymru. Roedd y broses o baratoi'r Cynllun gwreiddiol gan hynny'n torri tir newydd o ran yr egwyddor o gyd-weithio yn ogystal â'r swyddogaeth ddemocrataidd o baratoi a chymeradwyo'r Cynllun. Ystyrir fod y broses o baratoi'r Cynllun wedi bod yn un llwyddiannus a bod achos busnes i barhau gyda'r un trefniadau ar gyfer y dyfodol.

5.5 Nodir fod yna fwriad i gyd-weithio hefo Awdurdodau Cynllunio Lleol cyfagos eraill (e.e. Parc Cenedlaethol Eryri, Cyngor Bwrdeistrefol Sir Conwy, Cyngor Sir Powys) wrth baratoi'r Cynllun Diwygiedig, gan dderbyn eu mewnbwn hwy mewn perthynas â datblygiad y Cynllun a sicrhau fod y Cynllun yn gydnaws a Chynlluniau'r awdurdodau hynny. Ymhellach, fel yn briodol, fe all fod yna cyfleoedd i gynnal astudiaethau/datblygu sail tystiolaeth ar y cyd.

5.6 Cyhoeddwyd Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) (Rheoliadau 2021) ar 18 Mawrth 2021 a byddem yn dod i rym ar 28 Chwefror 2022. Mae'r Rheoliadau yn nodi'r weithdrefn ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol (CDS). Yn unol â'r Rheoliadau hynny fe fydd yna ddyletswydd i baratoi Cynllun Datblygu Rhanbarthol dan oruchwyliaeth y Cydbwyllgor Corfforaethol.



DRAFT

5.7 Gan hynny, yn anorfod, fe fydd cyd-weithio rhanbarthol yn mynd rhagddi ar y cyd a'r gwaith o ddiwygio'r Cynllun. Gobeithir y bydd y broses o baratoi CDS yn sicrhau fod yna cydlyniad rhwng y Cynllun Datblygu Lleol a'r Cynllun Datblygu Strategol o ran strategaeth a gweledigaeth ar gyfer yr ardal leol ac yn rhanbarthol.

DRAFFT

## 6.0 Casgliadau a chamau nesaf

6.1 Yn unol â chasgliadau'r Adroddiadau Monitro Blynyddol sydd wedi ei gynnal nodir fod y Cynllun ar y cyfan yn cael ei weithredu'n effeithiol a bod y polisïau a'r targedau a osodwyd ar eu cyfer yn cael ei gyflawni. Serch y ffaith fod yna ddim materion o sylwedd yn cael ei amlygu yn yr Adroddiadau Monitro Blynyddol, oherwydd newidiadau cyd-destunol ynghyd a materion sydd tu hwnt i reolaeth y CDLl ar y Cyd, megis, goblygiadau pandemig Covid, Brexit, rhagolygon poblogaeth ac aelwydydd ac yr ansicrwydd yn gysylltiedig â Wylfa Newydd ystyrir yn briodol fod yna **Adolygiad Llawn o'r Cynllun yn cael ei gynnal.**

6.2 Ar draul y materion cyd-destunol sydd yn cael effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol ar strategaeth y Cynllun mae'n anorfod fod y newidiadau a fydd angen eu gwneud i'r Cynllun yn mynd i fod yn rhai sylweddol.

6.3 Ymhellach, mae angen sicrhau fod y Cynllun yn seiliedig ar arweiniad polisi cynllunio cenedlaethol mwyaf diweddar, gan gynnwys y fframwaith cynllunio cenedlaethol, Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040.

6.4 Pwysleisir y bydd y gwaith o baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol (CDS) hefyd yn cael effaith ar ddatblygiad a chynnwys y Cynllun Diwygiedig. Rhagwelir bydd y cynlluniau yma yn cael ei baratoi'n gyfochrog a'i gilydd, ac y bydd gofyn i'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd rhoi mewnbwn i'r broses o lunio'r CDS.

DRAFT

This page is intentionally left blank

F7 [16/10/17]



| CYNGOR SIR YNYS MÔN<br>Templed Adroddiad Sgriwtini | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **9 Tachwedd, 2021** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Cynorthwyo'r Pwyllgor Sgriwtini i ystyried, cytuno ar ac adolygu ei flaen raglen ar gyfer 2021/22** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Gwilym Owen Jones** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Amherthnasol** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball, Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini**<br>**01248 752578**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini** |

## 1 – Argymhelliad/Argymhellion

Gofynnir i'r Pwyllgor:

**A1** gytuno'r fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2021/22

**A2** nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith.

## 2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill

Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen sgriwtini effeithiol mewn llywodraeth leol. Mae ein blaen raglenni gwaith treigl ar gyfer Sgriwtini wedi'u halinio â'r blaenoriaethau corfforaethol sydd wedi eu cynnwys yng Nghynllun y Cyngor 2017/2022 a'r rhaglenni trawsnewid corfforaethol – ac yn sicrhau bod rôl sgriwtini Aelodau yn gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwella'r Cyngor.

## 3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

**1. Cefndir**

1.1 Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen swyddogaeth sgriwtini effeithiol llywodraeth leol[1]. O'i wneud yn dda, gall rhaglennu gwaith fod o gymorth i osod y sylfeini ar gyfer gwaith amserol sydd wedi ei dargedu ar faterion o bwysigrwydd lleol sy'n dangos ble gall sgriwtini Aelodau ychwanegu gwerth. Mae arfer dda'n hyrwyddo dau fater allweddol a ddylai fod wrth galon y flaen raglen waith sgriwtini:

i. Her mewn perthynas â blaenoriaethu ffrydiau gwaith

ii. Yr angen am ymagwedd a arweinir gan aelodau a rhyngwyneb gyda swyddogion.

**1.2 Egwyddorion sylfaenol rhaglennu gwaith yn dda[2]**

- Ni ddylai rhaglennu gwaith fod yn broses "cychwyn-stopio"
- Rhaglenni gwaith sy'n cyd-fynd â'i gilydd ar gyfer pwyllgorau sgriwtini gwahanol
- Cydbwysedd rhwng gwahanol ddulliau o weithio
- Proses effeithiol ar gyfer rhoi gwybod am / uwch gyfeirio materion i'r Pwyllgor Gwaith
- Mewnbwn a sylwadau cydranddeiliaid mewnol
- Gweithio'n agos â'r Pwyllgor Gwaith
- Cysylltiadau gyda'r Adroddiad Sgriwtini Blynyddol (teclyn ar gyfer gwerthuso a gwella)

**2. Cyd-destun Lleol**

2.1 Mae'r arfer o raglennu gwaith ymlaen llaw wedi cael ei hen sefydlu ac mae'r rhaglenni gwaith yn raglenni treigl sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith craffu ac sydd â llai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerth. Maent yn declyn pwysig i gynorthwyo Aelodau i flaenoriaethu eu gwaith ac fe'u trafodir gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Bydd y ddau bwyllgor yn adolygu cynnwys eu rhaglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau lleol ar gyfer cynllunio ymlaen bellach yn rhoi mwy o ffocws ar:

- Agweddau strategol

[1] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)
[2] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)

- Ymgynghori gyda dinasyddion / cydranddeiliaid eraill a chanlyniad hynny
- Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2017/2022 a phrosiectau trawsnewid
- Risgiau a gwaith arolygu a rheoleiddio
- Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.

**Canlyniad**: rhaglenni gwaith treigl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini sydd wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol.

2.2 Cadeiryddion pwyllgor sy'n arwain ar ddatblygu blaen raglenni gwaith a'r rhaglenni hynny'n cael eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeirydd ac Is-gadeiryddion Sgriwtini yn fisol ac ar gyfer eu cymeradwyo ym mhob cyfarfod arferol o'r pwyllgorau sgriwtini. Ystyrir y Fforwm fel cyfrwng pwysig ar gyfer goruchwylio'r rhaglenni hynny a thrafod blaenoriaethau ar y cyd.

2.3 **Ymagwedd "Cyngor cyfan" tuag at Sgriwtini**: mae ein rhaglenni gwaith yn darparu sylfaen gref ar gyfer ein rhaglenni gwella gan sicrhau bod y rôl y mae Sgriwtini yn ei chwarae yn nhrefniadau llywodraethiant yr Awdurdod yn:

i. Cefnogi proses gwneud penderfyniadau sy'n gadarn ac yn effeithiol
ii. Gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwelliant y Cyngor
iii. Parhau i esblygu.

2.4 **Effaith yr Argyfwng presennol ar Raglen Waith y Pwyllgor**

Mae'r cyfnod presennol (**rheoli ymateb argyfwng i'r Pandemig, yr Adfer ac yn raddol dychwelyd i'r Normal Newydd**) yn eithriadol o heriol i'r Cyngor a bob sefydliad cyhoeddus arall drwy Gymru wrth i ni barhau i wynebu heriau'r argyfwng Covid-19, ac mae'n anorfod bod hyn yn cael effaith ar raglen waith y Pwyllgor. O ganlyniad, mae'r Cyngor wedi newid ei ffordd o weithio o ganlyniad i'r argyfwng iechyd byd-eang. Yn ystod cyfnod o argyfwng fel hyn, mae llywodraethu ac atebolrwydd yn allweddol bwysig.

Mae'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus yn cynnig model sgriwtini penodol yn sgil y pandemig, sydd ar y cyd â Strategaeth Bwyllgorau'r Cyngor yn gymorth i lywio rhaglen waith y Pwyllgor, gweler amlinelliad ohono isod:

i. Ffocws ar nifer llai o faterion allweddol sy'n canolbwyntio ar agweddau sylfaenol bywyd pobl leol ("*life and limb*")
ii. Cynnal briff gwylio dros wasanaethau'r Cyngor, perfformiad a materion ariannol
iii. **Elfennau penodol y Model Craffu:**
    - Trosolwg o ymateb y Cyngor i Covid-19
    - Trosolwg penodol ar faterion sylfaenol bywyd (deddfwriaeth gofal; diogelu plant ac oedolion; iechyd cyhoeddus)
    - Cynnal trosolwg ar faterion cyllidol y Cyngor
    - Gweithredu fel cyfrwng ar gyfer profiadau cymunedol.

**3. Materion ar gyfer eu hystyried**

3.1 Mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar weithrediad ei flaen raglen waith. Mae copi o'r rhaglen waith gyfredol ar gyfer 2021/22

ynghlwm fel **ATODIAD 1** i'r adroddiad hwn fel y gellir cyfeirio ati ac mae'n cynnwys newidiadau a wnaed i'r rhaglen waith ers i'r Pwyllgor ystyried y ddogfen ddiwethaf[3]

3.2 Lle mae hynny'n briodol, gellir ychwanegu eitemau at flaen raglen waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddinesig. Gellir cyflwyno ceisiadau am i eitemau ychwanegol gael eu cynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer eu ystyried drwy lenwi Ffurflen Gais Aelodau yn gofyn am i eitem gael ei hystyried ar gyfer Sgriwtini. Yn y lle cyntaf, caiff y ceisiadau eu hystyried gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, gan ddefnyddio'r meini prawf isod:

- Amcanion strategol a blaenoriaethau'r Cyngor (fel y cânt eu hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor 2017/2022)
- Gallu'r Pwyllgor i ddylanwadu ar ac/neu i ychwanegu gwerth ynghylch pwnc penodol (bydd angen cwblhau Ffurflen Prawf Arwyddocâd Sgriwtini).

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| |
| Dim yn berthnasol yn achos y mater trosfwaol hwn ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol yn ystod y broses o baratoi ar gyfer cynigion penodol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried. |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Amherthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 2021/22 |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

[3] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar 20 Medi, 2021

## RHAGLENNU EITEMAU AR GYFER SGRIWTINI MAI, 2021→ Ebrill, 2022
## [Fersiwn ddyddiedig 02/11/21]



### Nodyn i Randdeiliaid a'r Cyhoedd

Mae yna **Brotocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgor Sgriwtini** wedi'i gyhoeddi gan y Cyngor.
Os ydych yn dymuno siarad ar unrhyw eitem benodol mewn Pwyllgor Sgriwtini yna dylech gofrestru eich diddordeb drwy gyflwyno cais ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael cyn gynted â phosibl ac o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn cyfarfod y Pwyllgor penodol. Cewch wybodaeth am y cyfarfod, a pha eitemau fydd yn cael eu trafod wrth ddarllen y Blaen Raglen Waith yma. Cysylltwch â'r Rheolwr Sgriwtini os oes gennych unrhyw ymholiadau [Anwen Davies: AnwenDavies@ynysmon.gov.uk]

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | |
| **Mehefin, 2021 (07/06/21)** | **Mehefin, 2021 (15/06/21)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch4: 2020/21 | Diweddariad gan Brif Weithredwr BIPBC |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg 2020/21 |
| Data Digartrefedd y Gwasanaeth Tai (Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, 08/03/2021) | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | |
| | |
| **Gorffennaf, 2021 (08/07/21)** | **Mehefin, 2021 (28/06/2021)** |
| Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020/21 | Adroddiad Blynyddol 2020-21 Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus 2020/21 |
| | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru (Rhan 9)-2020/21 |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| | |
| **Medi, 2021 (13/09/21)** | **Medi, 2021 (20/09/21)** |
| Monitro Perfformiad Ch1: 2021/22 | Adroddiad Cynnydd Chwarter 1 2021-22 Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Adroddiad Cynnydd Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion |
| Monitro Cynnydd: Cynllun Datblygu Gwasanaethau Cymdeithasol / Adroddiad Cynnydd Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| | |
| **Hydref, 2021 (18/10/21)** | **Hydref, 2021 (19/10/21) - gohirio** |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2020/21 | |
| Enwebu Aelod o'r Pwyllgor Sgriwtini ar y Grŵp Llywio Gwastraff gyda WRAP Cymru | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | |
| | |
| **Tachwedd, 2021 (01/11/21)- Cyllideb 2022/23 - gohirio** | **Tachwedd, 2021 (09/11/21)** |
| | Y Gymraeg:<br>• Strategaeth Iaith: 2021/26 – adolygiad<br>• Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg |
| | Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd: Adroddiad Adolygu |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| | Diweddariad – Er Gwybodaeth:<br>• Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus- Trefniadau Llywodraethu<br>• Adroddiad Cynnydd Ch2: 2021/22 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
| **Tachwedd, 2021 (16/11/21)- Ch.2** | |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch2: 2021/22 | |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | |
| Her Tai Ymateb CSYM i'r sefyllfa Tai Lleol | |
| Cynllun Trosiannol | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | |
| | |
| **Ionawr, 2022 (20/01/22)** | **Ionawr, 2022 (18/01/22)** |
| Strategaeth Dai Lleol 2022/27 | Adroddiad Blynyddol – Partneriaeth Diogelwch Cymunedol |
| Cynigion Drafft Cychwynnol Cyllideb 2022/23 | Craffu ar Bartneriaethau |
| Cynllun Ymgynghori Cyhoeddus ar gyfer Cyllideb 2022/23 | Diogelu Corfforaethol |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| | |
| **Chwefror, 2022 (09/02/22)** | **Chwefror, 2022 (08/02/22)** |
| Cynigion Drafft Terfynol Cyllideb 2022/23 | Asesiad Anghenion y Boblogaeth: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| | |
| **Mawrth, 2022 (07/03/22)** | **Mawrth, 2022 (08/03/22)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch3: 2021/22 | |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | |
| Monitro Cynnydd: Cynllun Datblygu Gwasanaethau Cymdeithasol / Adroddiad Cynnydd Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol | |
| Strategaeth Digartrefedd a Chymorth Grant Tai (07/03/2022) | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| | |
| **Ebrill, 2022 (11/04/22)** | **Ebrill, 2022 (13/04/22)** |
| | |
| | |
| | |

**Eitemau i'w rhaglennu**

| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
|---|---|
| Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai: 2022/23 | Trawsnewid Cyfleon Dydd Anableddau Dysgu |
| Cynlluniau Adfer (Covid-19) | Cynlluniau Adfer (Covid-19) |
| Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol | Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr |
| Cynllun Rheoli Asedau Mân-ddaliadau 2021/31 | Cynllun Cyrchfan |
| | |

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**<u>Templed Adroddiad Sgriwtini</u>** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **9 Tachwedd, 2021** |
| **Pwnc:** | **Strwythur Llywodraethiant a Threfniadau Cyflawni Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn, ac adroddiad cynnydd ar yr Asesiadau Llesiant.** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Adolygu trefniadau Llywodraethu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn a diweddariad ar waith yr is-grwpiau. Yn ogystal adroddiad ar gynnydd yr asesiadau llesiant.** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Gwilym Owen Jones** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Cyng. Llinos Medi** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Annwen Morgan, Prif Weithredwr** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Dewi Wyn Jones**<br><br>**01766 771000**<br>**Dewiwynjones@gwynedd.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | **Dim yn berthnasol i unrhyw ward benodol.** |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini nodi a chynnig sylwadau ar strwythur llywodraethu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn a nodi'r cynnydd a wnaethpwyd ganddynt.<br><br>Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini hefyd nodi'r argymhelliad ym mharagraff 5.5.4 i graffu gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ddwywaith y flwyddyn yn hytrach na thair gwaith fel sydd wedi digwydd yn y gorffennol. Rhestrir y rhesymau dros yr argymhelliad isod. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi ymrwymo i'r egwyddorion o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Cyngor yn darparu amrywiaeth o wasanaethau fydd yn cyflawni eu hamcanion llesiant unigol, yn ogystal â chyfrannu at a chefnogi amcanion llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. |

| **3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini** |
|---|
| **Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**<br><br>**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**<br><br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**<br><br>**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]** |

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

1. Pa sylwadau penodol sydd gan y Pwyllgor ar drefniadau llywodraethu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus?
2. Pa risgiau penodol sydd wrth geisio cyflawni ar ffrydiau gwaith yr is-grwpiau?
3. Oes unrhyw heriau o ran y broses o adolygu'r Asesiad Llesiant?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

**5.1 Cyflwyniad a chyd-destun**

**5.1.1** Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn ym 2016, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) yw gwella llesiant economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn amlygu saith nod llesiant a pum ffordd o weithio er mwyn rhoi pwrpas cyffredin i gyrff cyhoeddus. Y penderfyniad a wnaethpwyd gan Bwyllgor Gwaith Ynys Môn oedd sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) i Ynys Môn fyddai'n *cydweithio* efo Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd.

**5.1.2** Er mwyn gosod blaenoriaethau ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus cynhaliwyd asesiadau Llesiant ar draws ardaloedd Llesiant Gwynedd ac Ynys Môn ac yn sgil hynny cafwyd cyfres o sesiynau ymgysylltu ac ymgynghori. Cyfrannodd yr holl waith hynny at gyhoeddi'r Cynllun Llesiant yn 2018.

**5.1.3** Ceir cadarnhad yn y Cynllun Llesiant o'r ddau amcan a chwe maes blaenoriaeth ble gytunwyd gall y Bwrdd gydweithio i sicrhau'r canlyniadau gorau i drigolion Gwynedd ac Ynys Môn. Cytunwyd felly ar feysydd blaenoriaeth sy'n gyffredin yn y ddwy Sir a chyfrifoldeb y Bwrdd yw ymateb i'r materion yma ar y cyd ar draws y ddwy Sir.

**5.1.4** Pob 5 mlynedd, ac fel un o ofynion statudol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), mae'n rhaid i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus baratoi a chyhoeddi asesiad o gyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal. Yn ddiweddar, mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn wedi cychwyn ar y broses o adolygu'r Asesiad Llesiant .

**5.1.5** Unwaith eto, bydd yr asesiadau yn tynnu ynghyd ystod o wybodaeth am gymunedau Ynys Môn a Gwynedd. Golyga hyn y byddwn yn edrych ar waith ymchwil, casglu data ac ymgysylltu hefo'n trigolion er mwyn canfod beth sy'n dda am ein cymunedau, a beth sydd ddim cystal. Bydd yn gyfle hefyd i ystyried heriau a chyfleoedd ein cymunedau, gan roi ystyriaeth i effaith argyfwng Covid-19 a Brexit arnynt. Ceir adroddiad cynnydd ar y gwaith isod.

**5.2 Trefniadau Llywodraethu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus**

**5.2.1** Fel yr amlygir yng Nghylch Gorchwyl y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus mae gan y Bwrdd bedwar aelod statudol, ynghyd â chyfranogwyr gwadd sy'n cyfrannu at ddyletswyddau'r Bwrdd.

**5.2.2** Mae'r Bwrdd wedi sefydlu is-grwpiau er mwyn ei gefnogi i weithredu ei swyddogaethau. Ceir isod ddiweddariad ar waith yr is-grwpiau. Adroddwyd y tro diwethaf i'r pwyllgor sgriwtini fod gan y Bwrdd bedwar is-grŵp sef yr Iaith Gymraeg, Newid Hinsawdd, Iechyd a Gofal a Chartrefi ar gyfer pobl leol.

**5.2.3** Yn ystod cyfarfod y Bwrdd ym mis Mehefin cytunwyd i ddod â gwaith yr is-grŵp cartrefi i ben gan nad oedd gwaith yr is Grŵp yn ychwanegu gwerth pellach at gynlluniau presennol y cyrff unigol. Cadarnhawyd y bydd y gwaith o ddatblygu tai arloesol yn parhau ymysg y cymdeithasau tai a'r Awdurdodau Lleol. Mae'r awydd a brwdfrydedd wedi ei nodi i barhau â'r berthynas o gydweithio sydd wedi ei greu gan yr is-grŵp, i alluogi trafod a rhannu syniadau / gwybodaeth ac ymarfer da o fewn y maes datblygu tai i'r dyfodol.

**5.2.4** Ceir isod ddiweddariad ar waith yr is-grwpiau.

**5.2.5 Amcan 1 - Cymunedau sy'n ffynnu ac yn llewyrchus i'r hirdymor**

| Blaenoriaeth | Diweddariad ar waith yr is-grŵp | Beth mae'r is-grŵp yn ei gyflawni sy'n ychwanegu gwerth i gynlluniau presennol y cyrff cyhoeddus | Amserlen arfaethedig |
|---|---|---|---|
| **Yr Iaith Gymraeg** | Yn ystod cyfarfod y Bwrdd ym mis Medi cymeradwywyd mewn egwyddor prosiect i hybu'r defnydd o'r Gymraeg wrth i'r cyhoedd ddefnyddio ein gwasanaethau cyswllt cyntaf. | Bydd cydweithio ar y prosiect yn gallu arwain at gynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg (a'r awydd i'w defnyddio o ddewis) wrth ymwneud â ni fel sefydliadau cyhoeddus tra gall sefydliadau hefyd gynorthwyo ei gilydd. | Rhan 1 o'r gwaith i'w gwblhau yn haf 2022. |
| **Newid Hinsawdd** | Yn ystod cyfarfod y Bwrdd ym mis Medi | Y deilliannau a ragwelir trwy | Porthmadog yn flaenoriaeth i'r |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cytunwyd i gefnogi gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru o ymgysylltu efo trigolion Porthmadog ar faterion newid yn yr hinsawdd. Bydd yr is-grŵp yn blaenoriaethu Porthmadog fel un o'r ardaloedd cyntaf i weithio gyda hwy, gyda'r bwriad o symud ymlaen i weithio gyda chymunedau eraill yng Ngwynedd ac Ynys Môn sydd â risg o wynebu llifogydd i'r dyfodol. | gydweithio yw : Datblygu cymunedau sy'n gallu addasu, rheoli a lleihau effaith newid yn yr hinsawdd. Newid y Ffocws i Newid yn yr Hinsawdd yn ehangach, nid llifogydd yn unig. Grwpiau amrywiol o bobl / asiantaethau / sefydliadau / partneriaid yn cydweithio. Sefydlu trefniadau cyfathrebu ddwy ffordd rhwng aelodau o'r gymuned a'r cyrff cyhoeddus | is-grŵp am y chwe mis nesaf, ac yna parhau i weithio gyda'r ardaloedd eraill yn ystod 2022/23 |

### 5.2.6 Amcan 2 – Trigolion sy'n Iach ac yn annibynnol gyda safon bywyd da

Mae dau faes blaenoriaeth 'Iechyd a Gofal oedolion' a 'Lles a llwyddiant plant a phobl ifanc' yn cyfarch amcan 2. Cytunwyd i sefydlu un is-grŵp i gyfarch y ddwy flaenoriaeth sef Grŵp integredig Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Gorllewin.

| Blaenoriaeth | Diweddariad ar waith yr is-grŵp | Beth mae'r is-grŵp yn ei gyflawni sy'n ychwanegu gwerth i gynlluniau presennol y cyrff cyhoeddus | Amserlen arfaethedig |
|---|---|---|---|
| **Iechyd a Gofal** | Pwrpas yr is-grŵp yw tynnu ynghyd partneriaid allweddol yn y maes iechyd a gofal i gydweithio ar ymateb i rwystrau sy'n eu hatal rhag gweithio'n integredig. Rydym eisoes wedi adrodd fod gan yr is-grŵp ffrydiau gwaith penodol sef oedolion, plant ac iechyd | Yn parhau i ddatblygu trefniadau o gydweithio | Oherwydd y pwysau sydd wedi bod ar sefydliadau yn y maes oherwydd y pandemig mae'n debyg na fydd y ffrydiau gwaith yma'n ail sefydlu eu hunain/ cael |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | meddwl. Mae'r gwaith o ddiweddaru cylch gorchwyl y ffrydiau gwaith ar droed. Mae'r gwaith trawsnewid o fewn y ffrydiau gwaith wedi cael eu hariannu gan gronfa Gofal Integredig (ICF) a'r Gronfa Trawsnewid (TF). Mae'r cronfeydd yn dod i derfyn yn 2022. Mae uwch arweinyddion wedi derbyn gwybodaeth gan y Llywodraeth y bydd rhaglen ariannu 5 mlynedd arall yn dod i gymryd eu lle, ond nid yw hyn wedi'i gadarnhau hyd yma. Mae cydnabyddiaeth bod y rhaglen drawsffurfio gymunedol sydd wedi cychwyn yn un hirdymor ac uchelgeisiol, a bydd angen adnodd a chapasiti sylweddol am flynyddoedd lawer i sicrhau bod y gwaith yn cael ei gwblhau. Bydd gwaith cynllunio yn digwydd ar y cyd rhwng y partneriaid allweddol mewn paratoad ar gyfer y gwaith o lunio ceisiadau ar gyfer y rhaglen gyllido newydd. | | trefn ar eu cynlluniau tan y flwyddyn newydd. |

**5.2.7** Mae'r pandemig wedi cael effaith ar gynnydd gwaith yr is-grwpiau i gyd. Rhagwelir y bydd yr is-grwpiau yn ail afael yn y gwaith trwy ganolbwyntio ar un neu ychydig o brosiectau yn unig i gychwyn.

**5.2.8** Cafwyd trafodaeth am adnoddau yn ystod cyfarfod diwethaf y Bwrdd a chytunwyd cyd-ariannu prosiect derbynfeydd yr is-grŵp iaith, gan fod y partneriaid yn ystyried bod y prosiect yn ychwanegu gwerth at gynlluniau presennol y

sefydliadau. Yn ystod y 6-12 mis nesaf rhagwelir mai rhaglen waith y Bwrdd fydd yr Asesiadau Llesiant a'u cyhoeddi, ynghyd ag ail afael yng ngwaith yr is-grwpiau.

**5.3 Asesiadau Llesiant**

**5.3.1** Fel y nodwyd uchod mae gwaith ar droed i ddiweddaru'r asesiadau llesiant. Mae'r gwaith o ddadansoddi gwaith a chanfyddiadau ymgysylltu ein partneriaid yn digwydd ar hyn o bryd gyda holiadur llesiant Ynys Môn wedi ei gylchredeg ymysg ein partneriaid ac roedd yn fyw hyd y 11eg Hydref. Yn ogystal, mae'r gwaith o ddiweddaru'r data ar gyfer yr asesiadau llesiant yn cael ei gwblhau gan Dîm Ymchwil a Gwybodaeth Cyngor Gwynedd.

**5.3.2** Defnyddiwyd grant rhanbarthol y BGCau i gomisiynu Prifysgol Glyndŵr i gydweithio ar yr asesiadau llesiant yn y gogledd. Yn ogystal mae gweithdy wedi ei drefnu'n rhanbarthol ar gyfer clywed gan y grwpiau na chlywir ganddynt yn aml, am faterion sy'n effeithio ar eu llesiant.

**5.3.3** Mae'r amserlen ar gyfer cwblhau'r Asesiadau Llesiant fel a ganlyn: Bydd yr asesiadau yn cael eu cyhoeddi erbyn Mai 2022 a'r Cynllun Llesiant erbyn Mai 2023. Bydd fersiynau drafft o'r asesiadau yn cael eu cyhoeddi yn ystod Hydref/Tachwedd 2021. Bydd cyfnod ymgynghori 12 wythnos ar yr asesiadau llesiant yn cychwyn ym mis Rhagfyr 2021.

**5.4 Monitro**

**5.4.1** Mae'r pedwar is-grŵp a nodwyd uchod yn atebol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus mewn perthynas â chyflawni unrhyw waith a gomisiynir. Mae'r is-grwpiau yn diweddaru'r Bwrdd ar gynnydd yn chwarterol, ac yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd ceir her a thrafodaeth ar yr adroddiadau o gynnydd maent yn eu cyflwyno

**5.4.2** Mae gan dîm cefnogi'r Bwrdd hefyd rôl i'w chwarae rhwng cyfarfodydd y Bwrdd i gefnogi a chynnal gwaith yr is-grwpiau. Yn ogystal mae adroddiad blynyddol yn cael ei gyhoeddi gan y Bwrdd sy'n crynhoi cynnydd wrth i'r Bwrdd weithio tuag at gyflawni ei amcanion strategol.

**5.5 Trefniadau Craffu**

**5.5.1** Mae gwaith y Bwrdd yn cael ei wirio'n gyson gan Bwyllgorau Craffu / sgriwtini Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn.

**5.5.2** Mae'r Ddeddf Llesiant a'r canllawiau cenedlaethol cysylltiedig[1] yn nodi 3 rôl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini Awdurdodau Lleol wrth ddarparu atebolrwydd democrataidd i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus:

- Adolygu trefniadau llywodraethu'r BGC
- Ymgynghorai statudol ar yr Asesiad Llesiant a'r Cynllun Llesiant
- Monitro cynnydd ymdrechion y BGC wrth weithredu'r Cynllun Llesiant

**5.5.3** Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn destun craffu gan Bwyllgor craffu / sgriwtini dynodedig awdurdodau lleol Gwynedd ac Ynys Môn yn bresennol. Cytunwyd ar sefydliad y Bwrdd y byddai panel craffu ar y cyd rhwng y

[1] Canllawiau ar gyfer Pwyllgorau Craffu Awdurdodau Lleol ar graffu ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

| |
|---|
| 2 sir yn cael ei sefydlu i wneud y gwaith yma. Fe roddwyd ystyriaeth i sefydlu panel craffu ar y cyd. Daethpwyd i'r casgliad i beidio argymell sefydlu panel ar hyn o bryd ond yn hytrach i ganolbwyntio ar alinio amserlenni a chysondeb trefniadau craffu ar draws y 2 Sir. Bydd modd adolygu'r trefniadau hyn rhwng y ddau gyngor eto maes o law os cyfyd yr angen.<br><br>**5.5.4** Argymhellir fod y pwyllgorau sgriwtini / craffu yn craffu gwaith y Bwrdd ddwywaith y flwyddyn i'r dyfodol yn hytrach na 3 gwaith fel ag y gwnaed yn y gorffennol. Rhagwelir fod 6 mis rhwng adrodd yn amserlen sy'n caniatáu i'r Bwrdd wneud cynnydd sylweddol a chyflwyno adroddiadau manylach i'w craffu. |

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| |
| Mae tîm cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus eisoes wedi rhoi ystyriaeth, ac yn cydnabod yr angen am asesiadau effaith (e.e. Iaith a Chydraddoldeb), a bydd asesiadau yn cael eu datblygu a'u defnyddio pan fydd y Bwrdd yn ymgysylltu â'n cymunedau ar bwyntiau penodol ac ar gyfer diweddaru'r Asesiadau Llesiant. Cyflwynwyd fersiwn cyntaf o'r asesiad effaith ar gyfer yr asesiadau llesiant i'r Bwrdd yn ystod ei gyfarfod ym mis Medi. |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| - |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| 1. Cynllun Llesiant Gwynedd ac Ynys Môn<br>2. Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus 2018<br>3. Cofnodion Pwyllgor Sgriwtini Partneriaethau ac Adfywio Ynys Môn ar 13eg Dachwedd 2018 (Trefniadau Llywodraethu'r BGC). |

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **9 Tachwedd, 2021** |
| **Pwnc:** | **Adroddiad Cynnydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru – Chwarter 2: 2021/22** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Cyflwyno adroddiad cynnydd Chwarter 2: 2021/22 y Cynllun Twf yn unol â Chytundeb Terfynol y Cynllun Twf** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Gwilym Owen Jones** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Cyng Llinos Medi Huws, Arweinydd y Cyngor**<br><br>**Cyng Carwyn Jones, Aelod Portffolio ar gyfer Prosiectau Mawr a Datblygu'r Economi** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Annwen Morgan, Prif Weithredwr** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Annwen Morgan, Prif Weithredwr**<br>**01248 752102**<br>**AnnwenMorgan2@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini** |

## 1 – Argymhelliad/Argymhellion

Gofynnir i'r Pwyllgor:
**A1** graffu ar y cynnydd hyd yma gyda'r Cynllun Twf
**A2** nodi'r cynnydd a wnaed yn ystod Chwarter 2 (2021/22).

## 2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill

Mae Cynllun Twf Gogledd Cymru yn gysylltiedig ag Amcan 1 yng Nghynllun y Cyngor 2017/22:

- Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir – Swyddi a chyfleoedd gwaith
- Chydweithio â chynghorau eraill yng Ngogledd Cymru er mwyn denu buddsoddiad a sicrhau bod prosiectau allweddol sy'n cynnig cyflogaeth leol yn mynd yn eu blaenau.

## 3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

1. I ba raddau mae'r Pwyllgor Sgriwtini wedi'i sicrhau gyda'r cynnydd a wnaed ac a adroddir arno yn Chwarter 2: 2021/22?
2. Beth yw'r materion neu'r risgiau lleol y dylid eu hamlygu i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd rhanbarthol?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

1. **Cefndir**

1.1 Ym mis Rhagfyr, 2020 fe wnaeth Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Llywodraethau Cymru a'r DU gytuno ar y Cytundeb Terfynol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru

1.2 Mae adrodd yn rheolaidd ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf. Atodir Adroddiad Perfformiad Cynllun Twf Gogledd Cymru Chwarter 2: 2021/22 (**Atodiad 1**).

2. **Cynnydd Chwarter 2**

2.1 Mae adroddiad perfformiad Chwarter 2 yn darparu trosolwg o gynnydd ar raglenni a phrosiectau'r Cynllun Twf. Yn y chwarter hwn, cwblhawyd ail adolygiad sicrwydd blynyddol y Cynllun Twf a chyflawnwyd radd o Ambr-Gwyrdd. Ym mis Awst, cymeradwyodd y Bwrdd ddau Achos Busnes Amlinellol: Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon dan arweiniad Grŵp Llandrillo Menai a'r Ganolfan Prosesu Signal Digidol dan arweiniad Prifysgol Bangor. Bydd y ddau brosiect nawr yn symud ymlaen i'r wedd nesaf, sef cyflwyno Achos Busnes Llawn i'w ystyried unwaith y bydd y gweithgareddau caniatâd a chaffael perthnasol wedi'u cwblhau.

2.2 Yn ystod y chwarter hwn, cwblhawyd y diweddariad blynyddol cyntaf i Achos Busnes y Portffolio, sy'n ofyniad dan y Cytundeb Twf Terfynol.

2.3 Mae mwyafrif y rhaglenni a'r prosiectau yn adrodd yn **Ambr** ar hyn o bryd, sy'n sefyllfa debyg i Ch1.

2.4 Mae'r prosiectau canlynol yn adrodd yn **Goch** ar hyn o bryd, naill ai yn sgil risgiau i sgôp y prosiectau neu oedi sylweddol i amserlenni'r prosiectau, fel y manylir yn yr adroddiad:

- Ffibr Llawn mewn Safleoedd Allweddol a Champysau Cysylltiedig
- Morlais
- Prosiect Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel
- Safle Strategol Allweddol, Bodelwyddan
- Porth Caergybi
- Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter
- Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol

2.5 Mae nifer o weithgareddau caffael wedi'u cwblhau i gefnogi gwaith y tîm. Mae FarrPoint wedi'u penodi i gefnogi'r gwaith o ddatblygu achosion busnes ar gyfer y prosiectau o fewn y Rhaglen Ddigidol.

2.6 Gan nad oes yr un Achos Busnes Llawn ar gyfer unrhyw brosiect wedi'i gymeradwyo ar hyn o bryd, mae'r unig wariant hyd yma yn sgil tynnu arian i lawr yn erbyn y dyraniad 1.5% ar gyfer costau'r Swyddfa Rheoli Portffolio.

**3. Cofrestr Risg y Portffolio – Hydref 2021**

3.1 Caiff Cofrestr Risg y Portffolio ei diweddaru'n rheolaidd gan y Swyddfa Rheoli Portffolio a'i hadolygu'n chwarterol gan y Bwrdd Portffolio (y Grŵp Swyddogion Gweithredol) a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

3.2 Mae'r gofrestr risg wedi'i diweddaru'n llawn gyda nifer o newidiadau wedi'u cofnodi yn y dogfennau yn cynnwys disgrifiadau risg wedi'u diwygio, sgorio diwygiedig a chamau lliniaru ac mae'r sylwadau wedi'u diweddaru ar gyfer yr holl risgiau.

3.3 Mae tair gradd risg gweddilliol wedi cynyddu y chwarter hwn – 1) capasiti partneriaid i ddarparu cynrychiolwyr i fyrddau prosiect ac anhawster recriwtio i swyddi gwag o fewn y PMO, 2) buddsoddiad sector cyhoeddus a 3) amcanion gwario. Mae 2) a 3) wedi codi yn sgil y ffaith bod nifer o geisiadau i newid prosiectau yn cael eu hystyried. Mae dwy risg newydd wedi'u hychwanegu yn dilyn adroddiad sicrwydd y portffolio – cyllid refeniw a bwlch sgiliau.

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| Dim yn berthnasol. |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Ni chyfyd unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol o'r adroddiad cynnydd hwn. Mae'r adroddiad perfformiad chwarterol yn darparu trosolwg o broffîl gwariant cyfalaf disgwyliedig cyllid y Cynllun Twf. Yn y dyfodol, bydd fersiynau o'r adroddiad hwn yn cynnwys adrodd ar wariant ariannol yn dilyn cymeradwyo achos busnes y prosiect. |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Adroddiad Perfformiad Cynllun Twf Gogledd Cymru Chwarter 2: 2021/22 |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| |

# Cynllun Twf Gogledd Cymru

## Adroddiad Perfformiad

## Chwarter 2 2021-22

## (Gorffennaf i Medi 2021)



Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
North Wales Economic Ambition Board

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

UK Government
Llywodraeth y DU
Office of the Secretary of State for Wales
Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru

1. Crynodeb y Cyfarwyddwr Portffolio........ 3

2. Perfformiad Cyffredinol y Portffolio........ 4

3. Perfformiad y Rhaglen Ddigidol........ 5

4. Perfformiad y Rhaglen Ynni Carbon Isel........ 7

5. Perfformiad y Rhaglen Tir ac Eiddo........ 10

6. Perfformiad y Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth........ 13

7. Perfformiad y Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel........ 15

8. Piblinell Cyflawni Prosiectau'r Cynllun Twf - Medi 2021........ 17

9. Tabl Olrhain Amcanion Gwario Prosiectau'r Cynllun Twf - Trosolwg o gyflawni yn erbyn targedau........ 18

10. Prosiectau'r Cynllun Twf: Proffil Dyraniad Cyllid Cyfalaf........ 19

11. Prosiectau'r Cynllun Twf: Proffil Dyraniad Cyllid Cyfalaf *........ 20

ATODIAD A........ 21

Yn y chwarter hwn, cwblhawyd ail adolygiad sicrwydd blynyddol y Cynllun Twf a chyflawnwyd radd o Ambr-Gwyrdd. Dyma'r ail radd hyder cyflawni uchaf sydd ar gael ac yn welliant ar y radd 'Ambr' a dderbyniwyd yn 2020.

***"Mae'r Portffolio wedi gwneud cynnydd sylweddol a thrawiadol ers yr Adolygiad Sicrwydd Portffolio (PAR) diwethaf, a hynny mewn amgylchiadau heriol."***

Mae'r adolygiad a wnaed gan dîm adolygu annibynnol yn gwirio'r cynnydd a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf, yn benodol ers llofnodi'r Cynllun Twf Terfynol gyda'r ddwy Lywodraeth ym mis Rhagfyr 2020.

Tudalen 198

Ym mis Awst, cymeradwyodd y Bwrdd ddau Achos Busnes Amlinellol (OBC): **Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon**, dan arweiniad Grŵp Llandrillo Menai, a'r **Canolfan Prosesu Signal Digidol** dan arweiniad Prifysgol Bangor. Mae proses sicrwydd y ddau brosiect hefyd wedi'i chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a byddant yn symud ymlaen i'r wedd nesaf ac yn cyflwyno Achos Busnes Llawn i'w ystyried unwaith y bydd y gweithgareddau caniatâd a chaffael perthnasol wedi'u cwblhau.

Hefyd y chwarter hwn, cwblhawyd y diweddariad blynyddol cyntaf i Achos Busnes y Portffolio, sy'n ofyniad dan y Cytundeb Twf Terfynol gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Cyflwynwyd yr achos busnes wedi'i ddiweddaru i'r Bwrdd ym mis Medi a'i gymeradwyo i'w gyflwyno i'r Llywodraeth.



**Mae nifer i weithgareddau caffael wedi'u cwblhau i gefnogi gwaith y tîm y chwarter hwn.**

- Mae FarrPoint wedi'u penodi i gefnogi'r gwaith o ddatblygu achosion busnes ar gyfer y prosiectau Ychydig % Olaf a Choridorau Cysylltiedig o fewn y Rhaglen Ddigidol.
- Mae Arup wedi'u penodi i gefnogi'r gwaith o ddatblygu methodoleg i helpu prosiectau i gyflawni ar ymrwymiadau'r Bwrdd i newid hinsawdd a bioamrywiaeth.

**Parhawyd â gweithgareddau recriwtio** y chwarter hwn gyda'r penodiadau a ganlyn wedi'u gwneud. Stuart Whitfield, Rheolwr Rhaglen Ddigidol, Sian Lloyd-Roberts, Rheolwr Sgiliau Rhanbarthol, Laura James-Mowbray, Arweinydd Trafnidiaeth Strategol, Catherine Morris-Roberts, Uwch Swyddog Cyflawni Sgiliau ac Angharad Evans, Rheolwr Prosiect Graddedig y Cynllun Twf. Bydd y tair swydd wag sy'n weddill yn cael eu llenwi yn y chwarter nesaf.

Mae tri phrosiect dan arweiniad busnesau sydd wedi'u hadnabod drwy Her Arloesi ar gyfer Datgarboneiddio drwy Ymchwil Busnesau i'r System Gyfan (WBRID) Llywodraeth Cymru wedi cael cymeradwyaeth i fwrw ymlaen i Wedd 2 - prosiect drôn ar fferm gyda M-SParc, arddangosiad treulio anaerobig y gellir ei ehangu gyda The Biofactory a llwyfan ôl-troed carbon dwyieithog ar gyfer ffermydd da byw gyda Promar International. Mae her WBRID yn cael ei chyflawni yn y Gogledd gan y Bwrdd Uchelgais yn gweithio gyda Choleg Cambria yn Llysfasi.

Yn olaf, fel rhan o'n partneriaeth gyda Business News Wales, rydym wedi lansio ein [sianel a chylchlythyr busnes penodol i'r Gogledd](). Byddant yn rhannu newyddion ynghylch y datblygiadau diweddaraf o fewn y Cynllun Twf a byddant yn darparu colofnau i brocio'r meddwl ac eitemau gan ffigyrau allweddol yn y rhanbarth.

*Alwen Williams*

**Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio**

| Themâu | Statws RAG | Sylwadau |
|---|---|---|
| Achos Busnes y Portffolio | | Cymeradwywyd Achos Busnes y Portffolio fel rhan o'r Cytundeb Twf Terfynol ym mis Rhagfyr 2020. Ystyriodd a chymeradwyodd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "y Bwrdd Uchelgais" neu "y Bwrdd") ddiweddariad 2021 Achos Busnes y Portffolio ym mis Medi a chaiff ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU am gymeradwyaeth fel rhan o'r broses dyfarnu cyllid flynyddol. |
| Piblinell Cyflawni | | Mae'r amserlen ar gyfer datblygu achosion busnes prosiectau wedi llithro gyda nifer o brosiectau bellach yn rhagweld oedi o 3-6 mis. Mae hyn yn bennaf yn sgil y broses datblygu achosion busnes a'r broses sicrwydd a chymeradwyo yn cymryd yn hirach nag a ragwelwyd yn wreiddiol, ac ni ystyrir ei fod yn risg sylweddol i gyflawni'r Cynllun Twf. Mae amserlen ddiwygiedig wedi'i chyflwyno i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU am gymeradwyaeth fel rhan o ddiweddariad 2021 i Achos Busnes y Portffolio. |
| Llywodraethu | | Mae'r Fframwaith Rheoli Portffolio, Rhaglenni a Phrosiectau bellach wedi'i sefydlu gyda'r Bwrdd Portffolio a'r pum Bwrdd Rhaglen yn weithredol. Cymeradwywyd Cytundeb Llywodraethu 2 gan yr holl bartneriaid ym mis Rhagfyr 2020. Mae'r broses Gwrthdaro Buddiannau wedi'i chyflwyno i'r Bwrdd Cyflawni Busnes, y Bwrdd Portffolio a'r Byrddau Rhaglen ac mae'n cael ei chyflwyno i'r Byrddau Prosiect ar hyn o bryd. |
| Sicrwydd | | Cynhaliwyd yr adolygiad sicrwydd blynyddol o'r Cynllun Twf (Adolygiad Sicrwydd Rhaglen) ym mis Awst 2021 gan gyflawni gradd hyder o Ambr-Gwyrdd, sy'n welliant ar y radd Ambr a dderbyniwyd yn 2020. Cydnabu'r adroddiad y cynnydd sydd wedi'i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf gan nodi pumm argymhelliad. |
| Adnoddau a Chapasiti | | Mae tair swydd wag o fewn y Swyddfa Rheoli Portffolio a byddwn yn recriwtio i'r rhain yn chwarter 3. Mae recriwtio i rolau rheoli prosiect yn heriol yn yr hinsawdd sydd ohoni gyda dwy o'r rolau hyn wedi'u hail-hysbysebu. |
| Cyllid | | Yn sgil yr oedi sydd wedi'i amlinellu uchod i amserlen cyflawni'r prosiectau, nid oes unrhyw achosion busnes llawn wedi'u cymeradwyo hyd yma a bydd y gwariant cyfalaf ar gyfer 2021-22 yn sylweddol is na'r gyllideb a ddisgwyliwyd ar gyfer y flwyddyn. Mae'r unig wariant hyd yma yn sgil tynnu arian i lawr yn erbyn y dyraniad 1.5% ar gyfer costau'r Swyddfa Rheoli Portffolio. Mae sicrhau'r buddsoddiad sector cyhoeddus a phreifat sydd ei angen i gyflawni'r Cynllun Twf yn parhau i fod y risg fwyaf ar draws y portffolio ac mae strategaeth buddsoddi yn cael ei datblygu i gefnogi'r tîm i fodloni'r targedau buddsoddi. |
| Risg | | Mae tair gradd risg gweddilliol wedi cynyddu y chwarter hwn -1) capasiti partneriaid i ddarparu cynrychiolwyr i fyrddau prosiect ac anhawster recriwtio i swyddi gwag o fewn y PMO, 2) buddsoddiad sector cyhoeddus a 3) amcanion gwario. Mae 2) a 3) wedi codi yn sgil y ffaith bod nifer o geisiadau i newid prosiectau yn cael eu hystyried. Mae dwy risg newydd wedi'u hychwanegu yn dilyn adroddiad sicrwydd y portffolio - cyllid refeniw a bwlch sgiliau. |
| Monitro a Gwerthuso | | Mae Cynllun Monitro a Gwerthuso diwygiedig wedi'i gyflwyno i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru fel rhan o ddiweddariad blynyddol Achos Busnes Portffolio 2021. |
| Cyfathrebu ac Ymgysylltu | | Mae brand newydd wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd a chaiff ei lansio yn ystod chwarter 3 ynghyd â'r wefan newydd. Fel rhan o'n partneriaeth gyda Business News Wales, rydym wedi lansio ein sianel a chylchlythyr busnes penodol i'r Gogledd. Byddant yn rhannu newyddion ynghylch y datblygiadau diweddaraf o fewn y Cynllun Twf a byddant yn darparu colofnau i brocio'r meddwl ac eitemau gan ffigyrau allweddol yn y rhanbarth. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

## 3. Perfformiad y Rhaglen Ddigidol

| Nod y Rhaglen | Targed Creu Swyddi | Targed Buddsoddi GVA | Cyfanswm Targed Buddsoddi |
|---|---|---|---|
| Cyflawni newid amlwg yn y cysylltedd digidol sydd ei angen i sicrhau y gall Gogledd Cymru gyflawni galw'r defnyddwyr, cynnal cyflymdra â gweddill y DU, datgloi potensial sectorau a safleoedd â blaenoriaeth am dwf a thanategu ecosystem arloesi ffyniannus. | 380 | £158m | £41.7m |

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| | • Mae'r prosiect Digidol bellach yn datblygu'r Achos Busnes Llawn gyda chaffael yn dechrau y chwarter hwn. Mae'r prosiect ar y trywydd cywir i gael cymeradwyaeth y Bwrdd Uchelgais i'r Achos Busnes Llawn erbyn diwedd y flwyddyn.<br>• Mae Byrddau Prosiect bellach yn eu lle ar gyfer tri phrosiect a bydd gweithgorau'r ddau brosiect olaf arall yn cael eu ffurfiol i fyrddau prosiect ar ddechrau chwarter 3.<br>• Mae cyflawni'r Achosion Busnes Amlinellol ar gyfer yr Ychydig % Olaf ar y trywydd cywir gyda chefnogaeth allanol wedi'i dwyn i mewn.<br>• Bu oedi gyda datblygu Achos Busnes Amlinellol y prosiect Coridorau Cysylltiedig yn sgil y gofyn i ddisodli'r gefnogaeth ymgynghoriaeth flaenorol<br>• Bydd Achos Busnes Amlinellol ar gyfer prosiect yr Ychydig % Olaf bellach yn cael ei gwblhau pan fydd deilliant 'Adolygiad Marchnad Agored' o osodiad band llydan, Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd yn ddiweddar, ar gael yn Chwarter 3. |



**Mark Pritchard**
**Aelod Arweiniol**



**Sioned Williams**
**Uwch Berchennog Cyfrifol**



**Stuart Whitfield**
**Rheolwr Rhaglen**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canolfan Prosesu Signal Digidol**<br>Prifysgol Bangor | Achos Busnes Llawn | • Cwblhau'r broses gymeradwyo: BWRDD UCHELGAIS<br>• ystyried yr Achos Busnes Amlinellol ym mis Awst.<br>• Cychwyn cam cyntaf y gwaith caffael<br>• Wedi dechrau datblygu'r Achos Busnes Llawn | • Caffael wedi'i gwblhau<br>• Achos Busnes Llawn wedi'i gyflwyno i'w adolygu a'i gymeradwyo | | • Achos Busnes Llawn bellach ar y trywydd cywir i'w gyflwyno i'r Bwrdd Uchelgais yn y chwarter nesaf. |
| **Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf**<br>Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Achos Busnes Amlinellol yn cael ei ddrafftio<br>• Dirprwy Uwch Berchennog Cyfrifol wedi'i benodi<br>• Cefnogaeth achos busnes arbenigol wedi'i dwyn i mewn. | • Cwblhau Achos Busnes Amlinellol<br>• Adolygiad Porth 2<br>• Adolygiadau Bwrdd Rhaglen a Bwrdd Cyflawni Busnes<br>• Deilliant Adolygiad Marchnad Agored Llywodraeth Cymru | | • Oedi ar ddatblygu'r achos busnes oherwydd yr angen i asesu deilliant adolygiad Marchnad Agored Llywodraeth Cymru yn Chwarter 2. |
| **Coridor Cysylltiedig**<br>Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Astudiaeth sgopio wedi'i gwblhau, mewnbwn Achos Amlinellol Strategol wedi'i ddatblygu<br>• Cefnogaeth allanol ar gyfer yr Achos Busnes Amlinellol wedi'i chaffael | • Achos Amlinellol Strategol terfynol wedi'i ddatblygu<br>• Achos Busnes Amlinellol drafft wedi'i ddatblygu<br>• Ymarfer gwaelodlin darpariaeth | | • Oedi ar ddatblygu'r achos busnes oherwydd yr angen i ddisodli'r ymgynghoriaeth blaenorol i fwrw ymlaen â'r Achos Busnes Amlinellol |
| **Ffibr Llawn mewn Safleoedd Allweddol**<br>Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Sefydlu'r bwrdd prosiect dros dro a phenodi Uwch Berchennog Cyfrifol | • Datblygu Achos Amlinellol Strategol ac ymgymryd â gwaith sgopio / dichonolrwydd | | • Datblygu'r achos busnes wedi'i ohirio er mwyn galluogi i gapasiti'r rhaglen ganolbwyntio ar ddau brosiect cychwynnol<br>• Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu Drafft Llywodraeth er cymeradwyaeth |
| **Campysau Cysylltiedig**<br>Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Wedi sefydlu'r bwrdd prosiect dros dro | • Datblygu Achos Amlinellol Strategol ac ymgymryd â gwaith sgopio / dichonolrwydd<br>• Penodi Uwch Berchennog Cyfrifol | | • Datblygu'r achos busnes wedi'i ohirio er mwyn galluogi i gapasiti'r rhaglen ganolbwyntio ar ddau brosiect cychwynnol<br>• Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu Drafft Llywodraeth er cymeradwyaeth |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

# 4. Perfformiad y Rhaglen Ynni Carbon Isel



| Nod y Rhaglen | Targed Creu Swyddi | Targed Buddsoddi GVA | Cyfanswm Targed Buddsoddi |
|---|---|---|---|
| Datgloi buddion economaidd prosiectau ynni carbon isel trawsffurfiol a sefydlu Gogledd Cymru fel un o leoliadau arweiniol y DU ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel, arloesedd a buddsoddi yn y gadwyn gyflenwi. | 980 | £530m | £668.5m |

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| (Ambr) | • Byrddau Prosiect ac Uwch Swyddogion Cyfrifol yn eu lle ar gyfer yr holl Brosiectau<br>• Cydweithio â phartneriaid i roi sylwi i risgiau a phroblemau sy'n gysylltiedig â Chymorth Gwladwriaethol a chyfyngiadau ariannu, rhoi caniatâd a mecanweithiau cefnogi refeniw'r Llywodraeth ar gyfer Prosiect Morlais.<br>• Cais i newid rhagamcanion cyfalaf a refeniw wedi'i gyflwyno ar gyfer Prosiect Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel<br>• Cyflawni Achos Busnes ar gyfer prosiectau Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel  a Datgarboneiddio Trafnidiaeth yn rhedeg yn hwyr o 3-6 mis. Amserlenni diwygiedig wedi'u cyflwyno i'r Llywodraeth er cymeradwyaeth<br>• Prosiect Ynni Lleol Blaengar a Thrawsfynydd ar y trywydd iawn ar hyn o bryd heb unrhyw risgiau na phroblemau sylweddol |





**Y Cynghorydd Llinos Medi**
**Aelod Arweiniol**



**Dylan Williams**
**Uwch Berchennog Cyfrifol**



**Henry Aron**
**Rheolwr Rhaglen**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| (Gwyrdd) | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | (Ambr) | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | (Coch) | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Morlais** | Datblygu'r Achos Busnes Llawn | • Gwaith paratoadol ar gyfer yr Achos Busnes Llawn a'r llythyr cynnig grant cysylltiedig<br>• Cydweithio â Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a Menter Môn i adnabod a lliniaru problemau a risgiau allweddol<br>• Caffael prif gontractwyr yn parhau<br>• Gweithgorau cadwyn gyflenwi a sgiliau wedi'u sefydlu ac yn weithredol<br>• Saith datblygwr tyrbinau wedi cael angorfeydd yn y parth arddangos | • Rhoi sylw i gyfyngiadau ariannu a Chymorth Gwladwriaethol allweddol a chytuno ar ffordd ymlaen gyda Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a Menter Môn<br>• Adolygu'r amserlen ar gyfer y broses i adolygu a chymeradwyo'r Achos Busnes Llawn<br>• Disgwyl penderfyniadau caniatâd prosiect ym mis Hydref 2021<br>• Menter Môn i gwblhau'r broses gaffael o ran contractwyr sifil a drilio | | • Risgiau a phroblemau allweddol sy'n gysylltiedig â Chymorth Gwladwriaethol a chyfyngiadau ariannu, rhoi caniatâd a mecanweithiau cefnogi refeniw'r Llywodraeth. |
| **Datgarboneiddio Trafnidiaeth**<br>Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Uwch Berchennog Cyfrifol a Bwrdd Prosiect yn eu lle<br>• Achos Amlinellol Strategol wedi'i gwblhau a'i gadarnhau gan y Bwrdd Prosiect<br>• Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol yn mynd rhagddo<br>• Ymgysylltu'n parhau gyda Menter Môn a'r Llywodraeth o ran cydlyniad posib rhwng prosiectau Caergybi a Glannau Dyfrdwy | • Parhau i ddatblygu'r Achos Busnes Amlinellol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid a gweithdai cysylltiedig<br>• Ymgysylltu â Chynghrair Merswy a Glannau Dyfrdwy ynghylch cynigion prosiect yng Nglannau Dyfrdwy<br>• Ymateb i ymgynghoriadau Llywodraeth y DU a gyhoeddwyd law yn llaw â Strategaeth Hydrogen y DU | | • Cyflawni'r Achos Busnes 3-6 mis ar ei hôl hi<br>• Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu Drafft Llywodraeth er cymeradwyaeth |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canolfan Ragoriaeth Carbon Isel**<br>Prifysgol Bangor | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Newidiadau personél ym Mhrifysgol Bangor yn golygu gorfod recriwtio rheolwr prosiect newydd<br>• Cais i newid wedi'i gyflwyno i'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn cynnig lleihad mewn rhagamcanion cyfalaf a refeniw<br>• Gweithdy Achos dros Newid wedi'i gynnal ym mis Mai i gefnogi'r gwaith o ddatblygu Achos Strategol | • Recriwtio rheolwr prosiect newydd<br>• Prosesu cais i newid ar gyfer rhagamcanion cyfalaf a refeniw ac enw'r prosiect<br>• Parhau â'r broses o ddatblygu Achos Busnes Amlinellol a gweithdai cysylltiedig<br>• Trefnu Adolygiad Porth 2 ar gyfer dyddiad targed o fis Rhagfyr 2021 | | • Cais i newid ar gyfer rhagamcanion cyfalaf a refeniw<br>• Newidiadau personél yn golygu gorfod recriwtio rheolwr prosiect newydd.<br>• Cyflawni'r Achos Busnes 3-6 mis ar ei hôl hi<br>• Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu Drafft Llywodraeth er cymeradwyaeth |
| **Ynni Lleol Blaengar**<br>Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Astudiaeth aml-ffynhonnell Pen Llŷn wedi'i chwblhau a'i rhannu gyda rhanddeiliaid<br>• Achos Strategol wedi'i gadarnhau gan y Bwrdd Prosiect<br>• Wavehill wedi'u caffael i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Achos Economaidd. Gweithdy cyntaf wedi'i gynnal | • Parhau i ddatblygu'r Achos Busnes Strategol, yn cynnwys gweithdai, a'i gyflwyno i'r Bwrdd Prosiect a'r Bwrdd Rhaglen am gymeradwyaeth<br>• Dechrau cyflawni astudiaethau dichonolrwydd ar gyfer Systemau Ynni Lleol Blaengar aml-ffynhonnell os yw ceisiadau prosiectau Cronfa Adfywio Cymunedol yn llwyddiannus. | | • Prosiect ar y trywydd iawn heb unrhyw risgiau / problemau sylweddol |
| **Gorsaf Bŵer Trawsfynydd**<br>Cwmni Egino | Disgwylir i'r broses achos busnes ddechrau yn 2022 | • Ymgorfforwyd a chofrestrwyd Cwmni Egino yn Nhŷ'r Cwmnïau ym mis Mehefin 2021 a phenodwyd Cadeirydd dros dro<br>• Penodwyd Prif Weithredwr dros dro Cwmni Egino gyda'r recriwtio i'r rôl barhaol yn parhau. Cyfarfodydd cychwynnol wedi'u cynnal gyda'r Swyddfa Rheoli Portffolio<br>• Cynhaliwyd y gweithdy gwireddu buddion cyntaf ym mis Gorffennaf | • Datblygu achos busnes ar gyfer datblygu Cwmni Egino a sicrhau partner technoleg<br>• Ymgysylltu â phartneriaid allweddol (yn cynnwys y Bwrdd Uchelgais) ynghylch datblygu'r prosiect<br>• Ail weithdy gwireddu buddion | | • Prosiect ar y trywydd iawn heb unrhyw risgiau / problemau sylweddol |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

# 5. Perfformiad y Rhaglen Tir ac Eiddo

| Nod y Rhaglen | Targed Creu Swyddi | Targed Buddsoddi GVA | Cyfanswm Targed Buddsoddi |
|---|---|---|---|
| Mynd i'r afael â'r diffyg tir ac eiddo addas ar gyfer twf busnes a dod â safleoedd ymlaen ar gyfer datblygiadau tai. Cyflawni gwelliannau sy'n symbylu buddsoddiad mewn safleoedd ac eiddo ym mhorthladd Caergybi a'r ardal ehangach. Hwyluso rhaglenni eraill drwy sicrhau bod y seilwaith tir ac eiddo cywir ar gael. | 2280 | £1.29bn | £355.4m |

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| | • Mae datganiad sefyllfa'r Bwrdd Uchelgais Economaidd ar leihad o ran carbon gweithredol ac ymgorfforedig a gwelliannau bioamrywiaeth yn cael ei asesu o ran yr effaith ar brosiectau.<br>• Mae Bwrdd Prosiect wedi'i sefydlu ar gyfer Porth y Gorllewin, Wrecsam, gyda Chyngor Bwrdeistref Wrecsam yn cymryd y rôl Partner Arweiniol a Phriffyrdd Llywodraeth Cymru yn bresennol yn sgil cysylltiadau cryf â uwchraddio Cyffordd yr A483 a'r prosiect.<br>• Warren Hall, Brychdyn - cyflwynwyd ail Ddatganiad Tir Cyffredin i Archwiliad Cyhoeddus y Cynllun Datblygu Lleol a gynhaliwyd ddechrau mis Medi.<br>• Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych - Mae cymysgedd o ganiatâd cynllunio llawn ac amlinellol wedi'i roi ar y prosiect i alluogi datblygu a Chaniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer newid defnydd a dymchwel y rhannau y cytunwyd arnynt yn yr amrediad o adeiladau. |





**Y Cynghorydd Hugh Evans**
**Aelod Arweiniol**



**Andrew Farrow**
**Uwch Berchennog Cyfrifol**



**David Mathews**
**Rheolwr Rhaglen**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Porth y Gorllewin, Wrecsam**<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Mae'r Tîm Prosiect yn esblygu yn Fwrdd Prosiect ffurfiol dan arweiniad Cyngor Wrecsam gydag Uwch Berchennog Cyfrifol wedi'i benodi o'r Cyngor.<br>• Trafodaethau gyda'r Cyngor i adnabod cyllid ar gyfer arolygon safe, dyluniadau, costau, caniatadau statudol a datblygu'r achos busnes.<br>• Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Adolygiad Mawr o Waith Cyfalaf Priffyrdd, nid yw'n sicr yw prosiect yr A483 wedi'i gynnwys yn yr Adolygiad hwn. | • Penawdau'r Telerau drafft posib ar gyfer Cyd-fenter rhwng Llywodraeth Cymru a'r Cyngor ar gyfer cyflawni'r pecyn priffyrdd a gwaith cysylltiedig.<br>• Ceisio eglurder ar sefyllfa prosiect Cyffordd yr A483 ac a yw wedi'i gynnwys o fewn yr Adolygiad Rhaglen Gyfalaf Priffyrdd. | | • Mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol sydd wedi'i amserlennu ar gyfer diwedd 2021 a rhaglen diweddaru cyffordd yr A483 fydd yn pennu'r amserlenni ar gyfer cyflwyno'r prosiect. |
| **Warren Hall, Brychdyn**<br>Llywodraeth Cymru / Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Mae Archwiliad Cyhoeddus y Cynllun Datblygu Lleol wedi digwydd ac wedi ystyried datganiad o dir cyffredin y cytunwyd arno gan ystyried Achos Diogelwch Maes Awyr Penarlâg Airbus. | • Disgwylir i adroddiad yr Arolygwyr Cynllunio gael ei gyhoeddi ar Gynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint cyn Nadolig 2021 neu'n gynnar yn 2022.<br>• Cytuno ar broses cymeradwyo achos busnes a llywodraethu i ganiatáu darpariaethau'r Cynllun Twf Terfynol a Chynllun Busnes llawn Cynllun Cyflawni Eiddo Llywodraeth Cymru ei hun. | | • Amserlen Mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol wedi'i drefnu ar gyfer diwedd 2021/dechrau 2022. |
| **Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan**<br>Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Mae Swyddogion Bwrdd Rhaglen Tir ac Eiddo yn cynorthwyo gydag asesiad mewnol Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer y prosiect a'r adolygiad sydd ar y gweill o'r Cynllun Datblygu Lleol. | • Eglurder gan y Cyngor ynghylch prosiect adolygu posib yn eistedd o fewn y Cynllun Datblygu Lleol adneuo.<br>• Chwilio am ddiddordeb partneriaid cyflawni sector cyhoeddus a phreifat i gyflawni'r prosiect. | | • Bydd polisi'r Cynllun Datblygu Lleol cyfredol yn cael ei adolygu erbyn 2023 a pholisi newydd yn cael ei fabwysiadu.<br>• Gallai sgôp y prosiect newid yn dibynnu ar bolisi diwygiedig y Cynllun Datblygu Lleol. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych** Jones Bros (Ruthin) Limited / Cyngor Sir Ddinbych | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Achos Busnes Prosiect Amlinellol wedi'i ddrafftio. • Rhoddwyd cymysgedd o ganiatâ llawn/amlinellol ac adeilad rhestredig i'r prosiect ym mis Medi. • Adolygiad Porth 2 wedi'i gwblhau ar gyfer y prosiect rhwng 27 a 29 Medi. | • Cytuno ar fesurau i liniaru risg datblygu. • Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol i'r cam o dderbyn cymeradwyaeth y Bwrdd Uchelgais. • Cytuno ar yr holl gysylltiadau cytundebol a materion caffael gyda Jones Bros Ltd a Chyngor Sir Ddinbych. | | • Trefniadau wrth gefn a risg sydd ynghlwm ag adeiladu a chostau datblygu anarferol. |
| **Parc Bryn Cegin, Bangor** Llywodraeth Cymru / Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Mae cyfarfodydd wedi'u cynnal gyda Chanolfan Arloesi Construction Wales ac Eiddo Llywodraeth Cymru i asesu'r cysylltiadau â'r polisi o ddatgarboneiddio eu portffolio eiddo. s | • Cytuno â Llywodraeth Cymru a phartneriaid posib eraill ar sgôp prosiect ar gyfer cyflwyno eiddo cyflogaeth carbon isel newydd i fodloni datganiad safbwynt y Bwrdd ar garbon isel. | | • Bydd cyflwyniad sgôp y prosiect yn amodol ar argaeledd digon o gyllid, galw deiliadaeth effeithiol ac ar gytuno ar fanyleb ar gyfer uned gyflogaeth carbon isel. |
| **Porth Caergybi** Stena Line Ports Limited | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Mae Datganiad Diddordeb Cais Cronfa Codi'r Gwastad wedi'i gyflwyno i'r Cyngor. • Mae Stena, Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir Ynys Môn a'r Bwrdd Uchelgais yn cynnal trafodaethau parhaus i gyflawni'r prosiect. | • Mae'r broses rhoi caniatâd ar gyfer adnewyddu'r morglawdd wedi dechrau. • Bydd trafodaethau'n parhau i ddeall yn well sut caiff y gwaith i wella'r porthladd ac adnewyddu'r morglawdd yn cael ei gyflawni. | | • Mae'r bwlch ariannu cyfredol i gyflawni sgôp Morglawdd Caergybi a'r prosiect gwella capasiti'r porthladd yn sylweddol. Mae gwaith i adolygu sgôp y prosiect ac adnabod ffynonellau ariannu ychwanegol wedi dechrau. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

| Nod y Rhaglen | Targed Creu Swyddi | Targed Buddsoddi GVA | Cyfanswm Targed Buddsoddi |
|---|---|---|---|
| Adeiladu economi sylfaen mwy cynaliadwy, bywiog a gwydn o fewn y rhanbarth, gan wneud y gorau o gyfleoedd am gyflogaeth a ffyniant drwy ein hamgylchedd a'n tirwedd. | 380 | £281m | £41.3m |

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| | • Rheolwyr prosiect yn eu lle ar gyfer pob un o'r tri phrosiect; byrddau prosiect yn cyfarfod ar gyfer Llysfasi a Glynllifon, ac yn cael ei sefydlu ar gyfer y Rhwydwaith Talent Twristiaeth<br>• Gweithdai wedi'u cwblhau ar gyfer Glynllifon; ar waith ar gyfer Llysfasi ac yn cael eu trefnu ar gyfer y Rhwydwaith Talent Twristiaeth<br>• Achos Busnes Amlinellol wedi'i gymeradwyo ar gyfer Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon, ar waith ar gyfer Fferm Sero Net Llysfasi (Adolygiad Porth 2 ym mis Tachwedd)<br>• Tri phrosiect peilot ar waith gyda Llysfasi drwy gystadleuaeth busnes Cynllun Arloesi ar gyfer Datgarboneiddio drwy Ymchwil Busnesau i'r System Gyfan (WBRID) i brofi arddangosiad treulio anaerobig y gellir ei ehangu, cefnogaeth drôn ar gyfer tasgau fferm a datblygu llwyfan ôl-troed carbon ar gyfer ffermwy da byw.<br>• Cynnydd ar fidiau arian cyfatebol i gefnogi'r Rhwydwaith Talent Twristiaeth drwy raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, Llywodraeth Cymru, a Chronfa Adfer Cymunedol y DU. |



**Cyng Charlie McCoubrey**
**Aelod Arweiniol**



**Jane Richardson**
**Uwch Berchennog Cyfrifol**



**Robyn Lovelock**
**Rheolwr Rhaglen**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon**<br>Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | Achos Busnes Amlinellol Disgwylir Achos Busnes Llawn ym mis Mehefin 2022 yn dilyn y broses cynllunio | • Proses cymeradwyaeth wedi'i chwblhau ym mis Gorffennaf<br>• Lleoliad a'r mynediad a ffafrir wedi'i adnabod o'r gwerthusiad opsiynau<br>• Mewn egwyddor, barn ar y lleoliad a ffafrir a'r opsiwn mynediad wedi'i chytuno o'r cynllunio.<br>• Deilliannau canolraddol adroddiadau amgylcheddol parhaus | • Cyflwyno cais cyn-gynllunio a rhoi sylw i adborth<br>• Ymgysylltu â Grŵp Defnyddwyr Prosiect i ddatblygu cynllun gwireddu buddion ymhellach | | • Caniatâd cynllunio i'w sicrhau. |
| **Fferm Sero Net Llysfasi**<br>Coleg Cambria | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Tri gweithdy achos busnes wedi'u cwblhau<br>• Cynllunio wedi dechrau ar gyfer llwybr Fferm Llysfasi i sero net<br>• Adolygiad Porth 2 wedi'i drefnu | • Cwblhau Gweithdai Achos Busnes<br>• Achos Busnes Amlinellol Drafft<br>• Cwblhau Adolygiad Porth 2<br>• Paratoi ar gyfer y Broses Cymeradwyo Prosiectau | | • Mae datblygu'r achos busnes yn rhedeg ar ôl yr amserlen wreiddiol |
| **Rhwydwaith Talent Twristiaeth**<br>Grŵp Llandrillo Menai | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Adolygiad yn ymwneud â COVID o'r elfen 'adain' gyda'r bwriad o ehangu partneriaid wedi'i gwblhau<br>• Bid Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain ar waith ar gyfer yr elfen Canolbwynt (yn dibynnu ar y canlyniad) | • Sefydlu bwrdd prosiect (i esblygu fel adeiniau wedi'i gadarnhau)<br>• Cynnal gweithdai achos busnes 1-3, ynghyd â chyn-gyfarfodydd gyda rhanddeiliaid | | • Rôl sector preifat angen datblygu o ystyried pwysau staffio'r sector a logisteg<br>• Nifer o fidiau perthnasol yn cael eu rheoli ar gyfer llwyddiant |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

| Nod y Rhaglen | Targed Creu Swyddi | Targed Buddsoddi GVA | Cyfanswm Targed Buddsoddi |
|---|---|---|---|
| Cyfnerthu lleoliad Gogledd Cymru fel clwstwr gweithgynhyrchu gwerth uchel pwerus ac arloesol, sy'n adeiladu ar arbenigedd presennol ac arbenigedd byd-eang i greu sail economaidd gwerth uwch, mwy amrywiol sy'n cefnogi trosglwyddo i economi carbon isel. | 180 | £114m | £39.5m |

| Statws RAG | Sylwebaeth Rheolwr y Rhaglen |
|---|---|
| | • Y ddau brosiect yn cael eu hadolygu gan y Bwrdd Portffolio yn sgil newidiadau i ragamcanion cyfalaf a refeniw.<br>• Gradd Ambr-Gwyrdd gan yr Adolygiad Porth 2 ar gyfer Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter Glyndŵr; bydd yr achos busnes amlinellol yn cael ei adolygu yn dibynnu ar ystyriaeth y Bwrdd Uchelgais ym mis Ionawr 2022.<br>• Achos Amlinellol Strategol wedi'i ddrafftio ar gyfer Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol Bangor gydag Adolygiad Porth 1 wedi'i gynllunio ar gyfer mis Rhagfyr.<br>• Mae prosiect Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol Bangor yn gweithio ar fireinio sgôp y prosiect yn unol â blaenoriaethau biotechnoleg rhanbarthol a chenedlaethol sydd ar ddyfod. |





**Cyng. Dyfrig Siencyn**
**Aelod Arweiniol**



**Paul Bevan**
**Uwch Berchennog**
**Cyfrifol**



**Robyn Lovelock**
**Rheolwr Rhaglen**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |

| Prosiect (Ariannwr y Prosiect) | Cam y Prosiect | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter hwn) | Cerrig Milltir Allweddol (y chwarter nesaf) | Statws RAG | Rhesymeg RAG |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter**<br>Prifysgol Glyndŵr | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol | • Adolygiad Porth 2 wedi'i gwblhau gyda gradd Ambr-Gwyrdd<br>• Achos Busnes Amlinellol wedi'i gyflwyno i'w adolygu gan y Swyddfa Rheoli Portffolio<br>• Cofrestr Risg wedi'i drafftio ac yn cael ei hadolygu'n rheolaidd<br>• Newid i ragamcanion cyfalaf a refeniw wedi'i adnabod yn ystod diweddariad blynyddol achos busnes y rhaglen | • Datrys y cais i newid ar gyfer rhagamcanion cyfalaf a refeniw<br>• Sicrhau bod y gofrestr risg yn cael ei rheoli'n gadarn<br>• Achos Busnes Amlinellol Terfynol wedi'i adolygu gan y Swyddfa Rheoli Portffolio<br>• Cwblhau'r broses gymeradwyo - Ystyriaeth y Bwrdd Uchelgais Economaidd o'r Achos Busnes Amlinellol ym mis Ionawr 2022. | | • Datblygiad yr achos busnes yn rhedeg ar ôl yr atodlen wreiddiol.<br>• Cais i newid ar gyfer rhagamcanion cyfalaf a refeniw |
| **Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol**<br>Prifysgol Bangor | Datblygu'r Achos Busnes Amlinellol Strategol | • Gweithdai 1 a 2 wedi'u cwblhau'n effeithiol<br>• Achos Amlinellol Strategol bron wedi'i gwblhau<br>• Trafodaethau mewnol parhaus i leihau sgôp y prosiect yn unol â blaenoriaethau biotechnoleg rhanbarthol/cenedlaethol sydd ar ddyfod. | • Datrys y cais i newid ar gyfer rhagamcanion cyfalaf a refeniw<br>• Parhau i ymgysylltu â rhan-ddeiliaid<br>• Cwblhau'r Achos Amlinellol Strategol<br>• Trefnu a pharatoi ar gyfer adolygiad Porth 1<br>• Cyflwyno gweithdai achos busnes | | • Newid Rheolwr Prosiect (dros dro, yn disgwyl recriwtio)<br>• Angen gwaith pellach er mwyn diffinio sgôp y prosiect, gan arwain at oediad parhaus<br>• Cais i newid ar gyfer rhagamcanion cyfalaf a refeniw |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyflawni yn ôl y Cynllun a dim materion i roi sylw iddynt (dim angen gweithredu) | | Cyflawni ychydig ar ei hôl hi a/neu mân faterion/materion cymedrol i roi sylw iddynt (camau rheoli yn eu lle) | | Cyflawni ar ei hôl hi'n sylweddol a/neu materion sylweddol i roi sylw iddynt (angen gweithredu ar frys) |




| | | OBC | Cychwyn ar safle | Prosiect wedi cwblhau |
|---|---|---|---|---|
| Digidol | Canolfan Prosesu Signal Digidol | 08/21 | 01/22 | 12/23 |
| | Cysylltedd Cystadleuol( Ffibr Llawn) | 07/22 | 12/22 | 02/24 |
| | Coridor Cysylltiedig | 04/22 | 11/22 | 05/24 |
| | Campws Cysylltiedig | 07/22 | 12/22 | 02/25 |
| | Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf | 02/22 | 09/22 | 05/24 |
| Ynni Carbon Isel | Morlais | 05/21 | 02/22 | 06/23 |
| | Gorsaf Bŵer Trawsfynydd | 06/23 | 06/24 | 04/27 |
| | Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel | 04/22 | 06/23 | 06/25 |
| | Ynni Lleol Blaengar | 09/22 | 06/23 | 2028 |
| | Datgarboneiddio Trafnidiaeth | 04/22 | 10/23 | 10/24 |
| Tir ac Eiddo | Porth Caergybi | 06/22 | 03/23 | 06/26 |
| | Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych | 02/22 | 06/22 | 03/26 |
| | Safle Strategol Allweddol, Bodelwyddan | 09/24 | 09/25 | 03/27 |
| | Porth Y Gorllewin, Wrecsam | 12/22 | 10/23 | 03/25 |
| | Warren Hall, Brychdyn | 09/22 | 10/23 | 09/24 |
| | Parc Bryn Cegin, Bangor | 01/23 | 10/23 | 06/24 |
| Bwyd-amaeth a thwristiaeth | Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | 08/21 | 01/23 | 03/24 |
| | Fferm Sero Net Llysfasi | 02/22 | 08/22 | 09/23 |
| | Rhwydwaith Talent Twristiaeth | 06/22 | 10/23 | 10/24 |
| Arloesi mewn gweithgynhyrchu gwerth uchel | Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | 04/22 | 06/23 | 06/25 |
| | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | 02/22 | 08/22 | 04/24 |

Cyfnod Datblygu a Chymeradwyo Achos Busnes * | Cyfnod Caffael a Chyflawni Prosiect** | Cyfnod gweithredu a gwireddu buddion | ◆ Dyddiad cychwyn arfaethedig

* Cymeradwyo OBC cyn caffael

**Cynnwys cymeradwyo FBC yn dilyn caffael

## 9. Tabl Olrhain Amcanion Gwario Prosiectau'r Cynllun Twf - Trosolwg o gyflawni yn erbyn targedau

| | | Targedau Achos Busnes y Portffolio | | | Targedau Achosion Busnes y Prosiectau sydd | | | | Gwahaniaeth | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | GVA (£M) | Swyddi a grëwyd | (£M) Cyfanswm Buddsoddiad* | OBC/FBC** | GVA (£M) | Swyddi a grëwyd | (£M) Cyfanswm Buddsoddiad* | GVA (£M) | Nifer y Swyddi a | (£M) Cyfanswm Buddsoddiad* |
| Digidol | Canolfan Prosesu Signal Digidol (DSP) | 50 | 80 | 7.3 | OBC | 12 | 40 | 3.0 | -38 | - 40 | - 4.3 |
| | Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf | 35 | 150 | 4 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Coridor Cysylltiedig | 25 | 0 | 2.2 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Ffibr llawn mewn Safleoedd Allweddol | 20 | 120 | 7.2 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Campysau Cysylltiedig | 35 | 0 | 21 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| Ynni Carbon Isel | Morlais | 50 | 100 | 36 | OBC | 79 | 210 | 34 | +29 | +110 | - 2 |
| | Datgarboneiddio Trafnidiaeth | 60 | 90 | 28.6 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel | 20 | 20 | 97.7 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Ynni Lleol Blaengar | 120 | 180 | 106.2 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Gorsaf Bŵer Trawsfynydd | 230 | 510 | 400 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| Tir ac Eiddo | Porth y Gorllewin, Wrecsam | 220 | 360 | 43.4 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Warren Hall, Brychdyn | 235 | 440 | 70 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Safle Strategol Allweddol, Bodelwyddan | 125 | 250 | 82 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych | 20 | 50 | 74 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Parc Bryn Cegin, Bangor | 30 | 50 | 6 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Porth Caergybi | 545 | 930 | 80 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth | Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | 25 | 40 | 13 | OBC | 45 | 96 | 13 | +20 | +56 | 0 |
| | Fferm Sero Net Llysfasi | 215 | 310 | 15.4 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Rhwydwaith Talent Twristiaeth | 20 | 0 | 12.9 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | 45 | 70 | 29.9 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| | Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | 60 | 90 | 9.6 | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a | n/a |
| **Cyfanswm Portffolio'r Cynllun Twf** | | **2,185** | **3,830** | **1,146** | **3 OBC** | **136** | **349** | **50** | **+49** | **+126** | **- 6.3** |

* Cyfanswm buddsoddiad yn cynnwys 1.5% o gostau'r Swyddfa Rheoli Portffolio

** OBC – Achos Busnes Amlinellol, FBC – Achos Busnes Llawn

| Rhaglen | Prosiect | Ariannwr y Prosiect | 2021/22 £m | 2022/23 £m | 2023/34 £m | 2024/25 £m | 2025/26 £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Digidol | Canolfan Prosesu Signal Digidol | Prifysgol Bangor | 1.72 | 0.99 | 0.25 | 0.00 | 0.00 | 2.96 |
| | Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.99 | 2.95 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.94 |
| | Coridor Cysylltiedig | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.99 | 1.18 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.17 |
| | Ffibr Llawn mewn Safleoedd Allweddol | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.00 | 3.45 | 3.25 | 0.00 | 0.00 | 6.70 |
| | Campysau Cysylltiedig | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.00 | 3.94 | 5.90 | 5.91 | 4.93 | 20.68 |
| Ynni Carbon Isel | Morlais | Menter Môn | 2.46 | 4.93 | 1.48 | 0.00 | 0.00 | 8.87 |
| | Datgarboneiddio Trafnidiaeth | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 1.97 | 3.94 | 7.88 | 7.88 | 4.93 | 11.23 |
| | Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel | Prifysgol Bangor | 0.00 | 4.74 | 6.71 | 5.23 | 4.00 | 20.68 |
| | Ynni Lleol Blaengar | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.00 | 3.94 | 7.88 | 7.88 | 4.93 | 24.63 |
| | Gorsaf Bŵer Trawsfynydd | Cwmni Egino | 0.00 | 4.92 | 9.85 | 4.93 | 0.00 | 19.70 |
| Tir ac Eiddo | Porth y Gorllewin, Wrecsam | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.00 | 4.03 | 4.93 | 0.00 | 0.00 | 8.96 |
| | Warren Hall, Brychdyn | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.00 | 0.49 | 0.99 | 5.91 | 7.38 | 14.77 |
| | Safle Strategol Allweddol, Bodelwyddan | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.49 | 0.99 | 5.41 | 2.96 | 0.00 | 9.85 |
| | Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.99 | 0.99 | 0.98 | 0.98 | 0.00 | 3.94 |
| | Parc Bryn Cegin, Bangor | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.25 | 2.70 | 2.96 | 0.00 | 0.00 | 5.91 |
| | Porth Caergybi | Stenaline | 0.00 | 11.33 | 13.78 | 9.36 | 0.00 | 34.47 |
| Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth | Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | Grŵp Llandrillo-Menai | 0.49 | 4.68 | 4.68 | 0.00 | 0.00 | 9.85 |
| | Fferm Sero Net Llysfasi | Coleg Cambria | 0.00 | 4.92 | 4.68 | 0.00 | 0.00 | 9.85 |
| | Rhwydwaith Talent Twristiaeth | Grŵp Llandrillo-Menai | 0.00 | 1.48 | 1.48 | 1.47 | 0.00 | 4.43 |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | Prifysgol Glyndŵr | 8.28 | 1.57 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 9.85 |
| | Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | Prifysgol Bangor | 0.00 | 1.48 | 1.48 | 0.00 | 0.00 | 2.96 |
| **Costau'r Swyddfa Rheoli Portffolio (1.5%)** | | | | | | | | **3.60** |
| **Cyfanswm** | | | | | | | | **240.00** |

* Mae proffil dyraniad cyllid cyfalaf 2021-22 yn seiliedig ar Ahos Busnes Portffolio 2020. Mae proffil newydd wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fel rhan o ddiweddariad 2021 i Achos Busnes y Portffolio.

| Rhaglen | Prosiect | Ariannwr y Prosiect | Proffil 21/22 (£m) | YTD Gwirioneddol | Amrywiad (£m)* | Sail Resymegol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Digidol | Canolfan Prosesu Signal Digidol | Prifysgol Bangor | 1.72 | 0.00 | -1.72 | Nid oes unrhyw Achosion Busnes Llawn wedi'u cymeradwyo: mae angen diweddaru'r gwariant yn unol â'r amserlenni diwygiedig. |
| | Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.99 | 0.00 | -0.99 | |
| | Coridor Cysylltiedig | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.99 | 0.00 | -0.99 | |
| | Ffibr Llawn mewn Safleoedd Allweddol | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Campysau Cysylltiedig | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| Ynni Carbon Isel | Morlais | Menter Môn | 2.46 | 0.00 | -2.46 | Nid oes unrhyw Achosion Busnes Llawn wedi'u cymeradwyo: mae angen diweddaru'r gwariant yn unol â'r amserlenni diwygiedig. |
| | Datgarboneiddio Trafnidiaeth | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 1.97 | 0.00 | -1.97 | |
| | Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel | Prifysgol Bangor | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Ynni Lleol Blaengar | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Gorsaf Bŵer Trawsfynydd | Cwmni Egino | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| Tir ac Eiddo | Porth y Gorllewin, Wrecsam | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | Nid oes unrhyw Achosion Busnes Llawn wedi'u cymeradwyo: mae angen diweddaru'r gwariant yn unol â'r amserlenni diwygiedig. |
| | Warren Hall, Brychdyn | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Key Strategic Site, Bodelwyddan | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.49 | 0.00 | -0.49 | |
| | Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.99 | 0.00 | -0.99 | |
| | Parc Bryn Cegin, Bangor | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 0.25 | 0.00 | -0.25 | |
| | Porth Caergybi | Stenaline | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth | Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | Grŵp Llandrillo-Menai | 0.49 | 0.00 | -0.49 | Nid oes unrhyw Achosion Busnes Llawn wedi'u cymeradwyo: mae angen diweddaru'r gwariant yn unol â'r amserlenni diwygiedig. |
| | Fferm Sero Net Llysfasi | Coleg Cambria | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | Rhwydwaith Talent Twristiaeth | Grŵp Llandrillo Menai | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | Prifysgol Glyndŵr | 8.28 | 0.00 | -8.28 | Nid oes unrhyw Achosion Busnes Llawn wedi'u cymeradwyo: mae angen diweddaru'r gwariant yn unol â'r amserlenni diwygiedig. |
| | Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | Prifysgol Bangor | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| | | **Costau'r Swyddfa Rheoli Portffolio (1.5%)** | **0.384** | **0.125** | **-0.259** | **Gwariant yn unol â'r gyllideb** |
| | | **Cyfanswm** | **19.014** | **0.125** | **-18.889** | **Gweler uchod** |

* Amrywiaeth yw'r gwahaniaeth rhwng y proffil a gynlluniwyd a gwariant Gwirioneddol y Flwyddyn Hyd Yma (YTD). Ffigyrau YTD hyd at ddiwedd Medi 2021.

| Rhaglen | Prosiect | Ariannwr | Crynodeb |
| --- | --- | --- | --- |
| Digidol | Canolfan Prosesu Signal Digidol (DSP) | Prifysgol Bangor | Bydd y prosiect yn galluogi i'r Ganolfan Prosesu Signal Digidol ymestyn ei bresenoldeb a'i gylch gwaith, gan integreiddio'n llawn â'r Prosiect Strategaeth Cenedlaethol a galluogi datblygu asedau allweddol ar raddfa, gan gynnwys prawf-wely 5G, capasiti ymchwil ac offer o'r radd flaenaf. |
| | Cysylltu'r Ychydig Ganrannau Olaf | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Mae'r prosiect hwn yn ceisio cyflymu datblygiad isadeiledd ar gyfer 19 o safleoedd economaidd rhanbarthol allweddol. |
| | Coridor Cysylltiedig | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Mae'r prosiect hwn yn targedu gwasanaeth cyflym iawn hollgynhwysol ar draws y Gogledd, nad ydynt yn cael eu gwasanaethu hyd yma gan ddulliau eraill ac na allant gyflawni cyflymder o 30Mbps (lawrlwytho) o leiaf ar hyn o bryd. |
| | Ffibr llawn mewn safleoedd allweddol | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Bydd y prosiect hwn yn cyflawni cysylltedd ffeibr llawn (addas ar gyfer gigabit) i 28 o safleoedd busnes allweddol ar draws y Gogledd. |
| | Campysau Cysylltiedig | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Cyflwyno darpariaeth symudol lled band uchel ar rwydweithiau trafnidiaeth (ffyrdd a rheilffyrdd) gyda defnydd yn cyd-fynd â targed Llywodraeth y DU o ddarpariaeth 5G erbyn 2027, neu cyn hynny. Darpariaeth ar draws yr A55, yr A483 a'r A5. |
| Ynni Carbon Isel | Morlais | Menter Môn | Adeiladu'r seilwaith sy'n cysylltu Parth Morlais â'r system grid trydan, gan baratoi'r safle ar gyfer datblygwyr sector preifat i lesu rhannau o'r parth ar gyfer defnyddio technolegau ynni llanwol. |
| | Datgarboneiddio Trafnidiaeth | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Cefnogi cyflawni prosiect arddangos sy'n ymwneud â chynhyrchu hydrogen gwyrdd o ffynonellau ynni carbon isel a'i ddefnydd o fewn rhwydweithiau trafnidiaeth rhanbarthol. |
| | Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel | Prifysgol Bangor | Buddsoddi mewn datblygu'r isadeiledd ym Mhrifysgol Bangor a Pharc Gwyddoniaeth Menai, gwella gallu y Gogledd a'r DU ar gyfer arloesedd mewn ynni carbon isel a meysydd cysylltiedig, gan helpu i greu'r amodau ar gyfer mewnfuddsoddiad newydd a thwf busnes yn y gadwyn gyflenwi ynni carbon isel yn y Gogledd |
| | Ynni Lleol Blaengar | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Er mwyn helpu i gyflawni targedau ynni adnewyddadwy, datgarboneiddio a pherchnogaeth leol, bydd y prosiect yn cefnogi prosiectau hwyluso arloesol ac arddangoswyr sy'n goresgyn methiannau'r farchnad a datgloi buddsoddiad sector preifat a chymunedol mewn datrysiadau ynni lleol blaengar. |
| | Gorsaf Bŵer Trawsfynydd | Cwmni Egino | Mae'r safle wedi'i leoli'n unigryw ar gyfer gwneud defnydd 'Cyntaf o'i Fath' o Adweithydd Modwlar Bychan (SMR) neu Adweithydd Modwlar Uwch (AMR). Ar y cyd â'r sector cyhoeddus a phreifat, bydd y Cynllun Twf yn cyfrannu cyllid tuag at isadeiledd galluogi ar gyfer y datblygiad hwn. |

| Rhaglen | Prosiect | Ariannwr | Crynodeb |
|---|---|---|---|
| Tir ac Eiddo | Porth y Gorllewin, Wrecsam | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Cyflwyno'r prif wasanaethau fel bod modd dod â'r safle i'r farchnad i'w werthu a'i ddatblygu. |
| | Warren Hall, Brychdyn | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Cyflwyno prif wasanaethau fel bod modd i'r safle defnydd cymysg 65 hectar gael ei roi ar y farchnad ar werth ac yna gael ei ddatblygu gan y sector preifat. |
| | Safle Strategol Allweddol, Bodelwyddan | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Cyflwyno'r prif wasanaethau fel bod modd dod â'r safle datblygu preswyl a masnachol defnydd cymysg i'r farchnad i'w werthu a'i ddatblygu. |
| | Parc Bryn Cegin, Bangor | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Darparu arwynebedd llawr diwydiannol i fodloni'r galw hysbys am unedau. |
| | Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych | Bwrdd Uchelgais Economaidd | Bydd arian y Cynllun Twf yn cynorthwyo yng nghyflwyniad safle wedi'i glirio a'i adfer gyda phrif wasanaethau er mwyn dwyn ymlaen datblygiad preswyl a masnachol defnydd cymysg |
| | Porth Caergybi | Stena Line | Sicrhau dyfodol porthladd Caergybi drwy ddarparu cyfleusterau mordeithio a llwytho trwm dŵr dwfn, gwella mynediad cerbydol, gwarantu dyfodol y morglawdd a darparu ar gyfer galwadau prosiectau ynni rhanbarthol. |
| Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth | Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | Grŵp Llandrillo Menai | Y weledigaeth yw creu Canolbwynt Economi Gwledig arbennig o'r radd flaenaf yng Nglynllifon, sy'n cynnig ystod o gyfleusterau a gwasanaethau i gryfhau a gwella'r economi rhanbarthol, yn benodol drwy dyfu'r sector bwyd a diod. |
| | Fferm Sero Net Llysfasi | Coleg Cambria | Nod Canolfan Carbon Niwtral Llysfasi yw arwain y Gogledd at ddyfodol gwydn lle mae rheolaeth tir carbon niwtral yn ganolog i sector ynni adnewyddadwy datblygol sy'n cefnogi cymuned gynaliadwy, ffyniannus ac iach sy'n cwmpasu cymysgfa wledig/trefol y rhanbarth. |
| | Rhwydwaith Talent Twristiaeth | Grŵp Llandrillo Menai | Sicrhau dyfodol yr ystod o ddarpariaeth sgiliau a chynyddu buddion masnachol o un o'r sectorau mwyaf sefydledig yn y rhanbarth. Bydd y rhwydwaith talent yn ysgogi cydweithrediad cyhoeddus-preifat i gydlynu gweithrediad ar sgiliau a datblygu cynnyrch i drawsnewid a sbarduno twf y sector twristiaeth a lletygarwch yn y rhanbarth. |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol (CEB) | Prifysgol Bangor | Bydd y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol yn ganolfan gyda'r gorau yn y byd o ran canfod a nodweddu ensymau newydd o bwys diwydiannol. Bydd y Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol yn darparu sylfaen gref ar gyfer denu ymchwilwyr blaenllaw ar lefel fyd-eang, cyllid ymchwil cyhoeddus a masnachol arwyddocaol a mewnfuddsoddiad i Gymru. |
| | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | Prifysgol Glyndŵr | Bydd y Ganolfan Opteg a Pheirianneg Menter yn darparu cyfleusterau sydd wedi'u targedu i roi hwb i ddatblygu sgiliau lefel uchel i'r rhanbarth a galluogi i fusnesau bach a chanolig eu maint a busnesau mawr weithio mewn partneriaeth gyda Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam ar ymchwil a datblygu opteg, cyfansoddion a thanwydd cell hydrogen sy'n cael ei yrru'n fasnachol. |

This page is intentionally left blank